# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 01/07/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

[Datganiad Personol](#)
[Personal Statement](#)

[Pwynt o Drefn](#)
[Point of Order](#)

[Cwestiwn Brys: Prosiect Cylchffordd Cymru](#)
[Urgent Question: Circuit of Wales Project](#)

[Cwestiwn Brys: Gwariant Byrddau Iechyd Lleol](#)
[Urgent Question: Local Health Board Expenditure](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i Ail Adroddiad Comisiwn Silk](#)
[Statement: The Welsh Government's Response to the Silk Commission's Second Report](#)

[Datganiad: Cyflwyno'r Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)](#)
[Statement: Introduction of the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill](#)

[Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch Bil Cymru](#)
[Legislative Consent Motion on the Wales Bill](#)

[Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Diwygio) 2014](#)
[The Local Government (Wales) Measure 2009 (Amendment) Order 2014](#)

[Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Newidiadau Amherthnasol a Chywiro Gwallau) (Cymru) 2014 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Newidiadau Ansylweddol) (Cymru) 2014](#)
[The Town and Country Planning (Non-Material Changes and Corrections of Errors)(Wales) Order 2014 and the Town and Country Planning (Fees for Non-Material Changes) (Wales) Regulations 2014](#)

[Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Tai (Cymru)](#)
[Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Housing (Wales) Bill](#)

[Datganiad ynglŷn â Chydsyniad Ei Mawrhydi](#)
[Statement regarding Her Majesty's Consent](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon.

Prynhawn da.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Strategaeth Cysylltiadau Rhyngwladol

### International Relations Strategy

13:30 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am strategaeth cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1763(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's international relations strategy? OAQ(4)1763(FM)*

13:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cysylltiadau rhyngwladol er mwyn gwneud y gorau posibl o'r budd economaidd i Gymru a hybu ein proffil tramor.

The Welsh Government engages internationally in order to maximise the economic benefit to Wales and enhance our profile overseas.

13:30 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr. Mae'r Llywodraeth a'r Cynulliad wedi gwneud cysylltiadau yn amlwg gyda Patagonia oherwydd y cysylltiadau hanesyddol, gyda Lesotho yn Affrica, ac rydych wedi bod i Uganda yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae ardal arall sydd â chysylltiadau clòs â Chymru, sef Meghalaya yng ngogledd yr India. 'Bryniau Khasia' oedd yr enw yr oeddwn i'n gyfarwydd â hi. Byddwn yn eich annog, oherwydd y cysylltiadau agos sydd wedi bod ers 1840 yn addysgol a chyda meddygaeth, i ystyried gwneud cysylltiadau gyda'r ardal gymharol dlawd honno yng ngogledd yr India. Mae Dr David Tariang, sydd yn swyddog meddygol yn ysbyty Shillong, yn dod i Gymru yfory, fel mae'n digwydd, ac rwy'n gofyn a fyddech yn fodlon ystyried cyfarfod dirprwyaeth o gyfeillion Meghalaya o Gymru a Dr David Tariang—chi neu un o'ch Gweinidogion.

Thank you. The Government and the Assembly have created links obviously with Patagonia because of the historic connections, with Lesotho in Africa, and you have recently been to Uganda. However, there is another area that has close links with Wales, namely Meghalaya in northern India. The 'hills of Khasia' or 'Bryniau Khasia' was the name that I was familiar with. I would encourage you, because of the close relationships that have existed since 1840 in terms of education and medicine, to consider making links with this relatively poor area of northern India. Dr David Tariang, who is a medical officer in Shillong hospital, will be visiting Wales tomorrow, as it happens, and I would ask whether you would be willing to consider meeting a delegation of friends of Meghalaya from Wales and Dr David Tariang-you or one of your Ministers.

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Bydd fory yn anodd dros ben, ond rwy'n ddigon hapus, wrth gwrs, i adeiladu cysylltiadau gyda'r ardal. Rwy'n gwybod am y cysylltiadau sydd rhwng Cymru â rhannau o India, ac felly rwy'n ddigon hapus i sicrhau bod rhywun yn cwrdd â nhw yfory, unwaith rydym yn gwybod eu bod nhw'n dod, er mwyn creu'r cysylltiadau hynny.

Tomorrow will be exceptionally difficult, but I am very happy, of course, to build links with the area. I know of the links between Wales and parts of India, and so I am very happy to ensure that somebody meets with them tomorrow, once we know that they are coming over, to create those links.

13:32 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Secretary of State for Wales has urged Welsh businesses to take part in the International Festival for Business, which runs until 22 July. What discussions has the First Minister had with businesses in Wales to maintain a strong Welsh presence there?

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi annog busnesau Cymru i gymryd rhan yn yr ?yl Fusnes Ryngwladol, sy'n para tan 22 Gorffennaf. Pa drafodaethau mae'r Prif Weinidog wedi eu cael gyda busnesau yng Nghymru i gynnal presenoldeb Cymreig cryf yno?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Together with the Minister for Economy, Science and Transport, we have regular and daily discussions with Welsh businesses in order to ensure that they can make the most of all opportunities that come their way.

Ynghyd â Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, rydym ni'n cael trafodaethau rheolaidd a dyddiol gyda busnesau Cymru er mwyn sicrhau y gallant fanteisio i'r eithaf ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael iddynt.

## Cysylltiadau â Gweddill y Deyrnas Unedig

## Relationships with the Rest of the United Kingdom

13:32 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Sut y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu gweithredu ei gyfrifoldebau dros gysylltiadau â gweddill y Deyrnas Unedig yn 2014? OAQ(4)1761(FM)*

*2. How does the First Minister intend to implement his responsibilities for relationships with the rest of the United Kingdom in 2014? OAQ(4)1761(FM)*

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Byddaf yn parhau i gymryd rhan yng nghyd-bwyllgor y Gweinidogion ac yn cyfrannu at y drafodaeth am drefniadau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig yn y dyfodol yn dilyn refferendwm yr Alban.

I shall continue to participate in the joint ministerial committee and contribute to the debate on future constitutional arrangements for the United Kingdom following the Scottish referendum.

13:33 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr i'r Prif Weinidog am ei ateb. I arbed ceisio gofyn cwestiwn ar y datganiad sy'n dilyn, a gaf ei longyfarch ar y papur y mae wedi ei gyhoeddi heddiw, gan dynnu sylw yn arbennig at ei uchelgais i sefydlu pwyllgor rhynglywodraethol Cymru yn y flwyddyn hon, 2014-15? Os gallwn wneud hynny, bydd hynny wedi sicrhau datblygiad cyfansoddiadol o bwys mawr yn y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gan osgoi'r holl drafferthion diangen rydym wedi eu cael yn y 15 mlynedd diwethaf rhwng dwy Lywodraeth.

I thank the First Minister for that response. To save me seeking to ask a question on the following statement, may I congratulate him on the paper that he has published today, drawing particular attention to his ambition to establish an intergovernmental committee for Wales this year, 2014-15? If he will be able to do that, then that will have ensured a very important constitutional development in terms of the relations between the Welsh Government and the UK Government, avoiding all of the unnecessary difficulties that we have had over the past 15 years between the two Governments.

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'n hynod o bwysig bod sawl peth yn digwydd: yn gyntaf, bod rhyw fath o ffordd—rwyf wedi ei alw yn 'confensiwn cyfansoddiadol'—i sicrhau bod pethau yn dod yn fwy clir. Mae'n bwysig hefyd ein bod yn symud i system lle mae gyda ni bwerau cadw, nid y system sydd gyda ni ar hyn o bryd. Hefyd, wrth gwrs, bydd yn rhaid cryfhau'r fframwaith neu beirianwaith cyd-bwyllgor y Gweinidogion er mwyn sicrhau bod gwir berthynas gyfartal rhwng Gweinidogion o bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Nid felly y mae hi ar hyn o bryd.

It is exceptionally important that a number of things happen: first that we have some means-I have called it a 'constitutional convention'-of ensuring that things become clearer. It is also important that we move to a system where we have reserved powers, rather than the system that we have at present. Also, of course, we will need to strengthen the framework or machinery of the joint ministerial committee in order to ensure that there is a genuinely equal relationship between the Ministers of every part of the United Kingdom. That is not the case at present.

13:34 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, an honest, open and honourable relationship with our partners across the UK, including the UK Government, is imperative to progress here in Wales, as I am sure you will agree. Given those key requirements, if we are going to work together to deliver for the people of Wales, what useful purpose does reneging on a written agreement between Ministers for transport in London and Cardiff bay serve in relation to progressing major infrastructure projects here in Wales? I refer, of course, to the London to Swansea electrification project.

Brif Weinidog, mae perthynas onest, agored ac anrhydeddus gyda'n partneriaid ar draws y DU, gan gynnwys Llywodraeth y DU, yn hanfodol ar gyfer cynnydd yma yng Nghymru, fel yr wyf yn si?r y byddwch yn cytuno. O ystyried y gofynion allweddol hynny, os ydym ni'n mynd i gydweithio i gyflawni dros bobl Cymru, pa ddiben defnyddiol sydd o beidio â chadw at gytundeb ysgrifenedig rhwng Gweinidogion trafnidiaeth yn Llundain a bae Caerdydd o ran bwrw ymlaen â phrosiectau seilwaith mawr yma yng Nghymru? Rwy'n cyfeirio, wrth gwrs, at y prosiect trydaneiddio rhwng Llundain ac Abertawe.

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I heard what the Prime Minister said, namely that the UK Government will be paying for the south Wales main line electrification and the Valley lines. If what the Member asserts is correct, then the Prime Minister must have misled the people of Wales, and you should think carefully about making that point. I want to go beyond that; I have made that point several times about what the Prime Minister said, and there are discussions taking place between the Department for Transport and the Welsh Government with a view to settling this matter so that we can all move forward with the electrification.

Clywais yr hyn a ddywedodd Prif Weinidog y DU, sef y bydd Llywodraeth y DU yn talu am drydaneiddio prif reilffordd de Cymru a rheilffyrdd y Cymoedd. Os yw'r hyn y mae'r Aelod yn ei honni yn gywir, yna mae'n rhaid bod y Prif Weinidog wedi camarwain pobl Cymru, a dylech feddwl yn ofalus am wneud y pwynt hwnnw. Rwyf eisiau mynd y tu hwnt i hynny; rwyf wedi gwneud y pwynt yna sawl gwaith yngl?n â'r hyn a ddywedodd y Prif Weinidog, ac mae trafodaethau yn cael eu cynnal rhwng yr Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru gyda'r nod o ddatrys y mater hwn fel y gallwn i gyd fwrw ymlaen â'r trydaneiddio.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First this afternoon is the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:35 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, can you remind us, if you can, who said these words in the Chamber in 2012?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, a allwch chi ein hatgoffa, os gallwch, o bwy ddywedodd y geiriau hyn yn y Siambr yn 2012?

‘the investment secures the future of Port Talbot…and will protect and enhance steel-making jobs there.’

'mae'r buddsoddiad yn sicrhau dyfodol Port Talbot...a bydd yn diogelu a gwella swyddi ym maes cynhyrchu dur yno.'

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

That is correct. Me.

Mae hynny'n gywir. Fi.

13:35 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am glad that you were able to remember that, First Minister. It was back in April 2012, in the middle of the local government election campaign, and you had just returned from your journey out to India, where you had been speaking to Tata. You also went on to say that the £800 million that you had secured,

Rwy'n falch eich bod yn gallu cofio hynny, Brif Weinidog. Roedd hynny yn ôl ym mis Ebrill 2012, yng nghanol yr ymgyrch etholiadau llywodraeth leol, ac roeddech chi newydd ddychwelyd o'ch taith allan i India, lle roeddech chi wedi bod yn siarad â Tata. Aethoch yn eich blaen hefyd i ddweud mai bwriad yr £800 miliwn yr oeddech chi wedi ei sicrhau oedd,

‘was designed to secure the future of Port Talbot, in particular, over the next five years.... It shows that, when you go to countries and talk to people, you come back with substantial investment…the investment secures the future of Port Talbot…and will protect and enhance steel-making jobs there.’

'sicrhau dyfodol Port Talbot, yn benodol, dros y pum mlynedd nesaf.... Mae'n dangos, pan fyddwch yn mynd i wledydd a siarad â phobl, rydych yn dychwelyd â buddsoddiad sylweddol... mae'r buddsoddiad yn sicrhau dyfodol Port Talbot... a bydd yn diogelu a gwella swyddi ym maes cynhyrchu dur yno.'

Six months later, Tata announced 600 job losses here in Wales, and, regrettably, today, we have had the news that there could be, potentially, another 400 job losses at the Port Talbot site. Can you explain why, given all this rhetoric when you came back from your visit in India, these jobs have been lost at Port Talbot six months after you made the announcement, and there is the potential loss of a further 400 after the consultation process?

Chwe mis yn ddiweddarach, cyhoeddodd Tata bod 600 o swyddi'n cael eu colli yma yng Nghymru, ac, yn anffodus, heddiw, rydym ni wedi cael y newyddion y gallai, o bosibl, 400 o swyddi eraill gael eu colli ar safle Port Talbot. A allwch chi esbonio pam, o ystyried yr holl rethreg hon pan ddaethoch chi yn ôl o'ch ymweliad ag India, bod y swyddi hyn wedi eu colli ym Mhort Talbot chwe mis ar ôl i chi wneud y cyhoeddiad, ac mae'n bosibl y bydd 400 o swyddi eraill yn cael eu colli ar ôl y broses ymgynghori?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I have to say to the leader of the opposition that £400 million of that investment has been made. Without that investment, many, many more jobs would have gone. Tata has indicated that it expects that the jobs that will be lost will be lost through voluntary redundancy and people taking early retirement, not through compulsory means. It has also indicated that it faces an uphill battle because of the UK Government’s policy—not the Welsh Government’s policy. It has said, among other things, that it is because of the lack of action by his party when it comes to energy prices that Tata is under pressure. It has said that in its press release.

Wel, mae'n rhaid i mi ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid bod £400 miliwn o'r buddsoddiad hwnnw wedi cael ei wneud. Heb y buddsoddiad hwnnw, byddai llawer, llawer mwy o swyddi wedi mynd. Mae Tata wedi nodi ei fod yn disgwyl y bydd y swyddi a fydd yn cael eu colli yn cael eu colli trwy ddiswyddo gwirfoddol a phobl yn ymddeol yn gynnar, nid trwy ddulliau gorfodol. Mae hefyd wedi nodi ei fod yn wynebu amser caled oherwydd polisi Llywodraeth y DU-nid polisi Llywodraeth Cymru. Mae wedi dweud, ymhlith pethau eraill, mai oherwydd y diffyg gweithredu gan ei blaid ef pan ddaw i brisiau ynni y mae Tata dan bwysau. Mae wedi dweud hynny yn ei ddatganiad i'r wasg.

13:37 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You have clearly misrepresented the views of the company, when it has also referred to the high business rates that it is paying, and many of the environmental taxes that are in place were put in by none other than Ed Miliband, when he was in Government in the last Labour Government. So, for you to cite the current Westminster Government, which has made massive strides in alleviating the taxes that your colleagues put on companies such as Tata Steel when they were in Government in the last clapped-out Labour Government—. Is it not a fact, First Minister, that, during election time—[Interruption.]

Mae'n eglur eich bod wedi cam-gynrychioli safbwyntiau'r cwmni, pan ei fod hefyd wedi cyfeirio at yr ardrethi busnes uchel y mae'n eu talu, a chyflwynwyd llawer o'r trethi amgylcheddol sydd ar waith gan neb llai nag Ed Miliband, pan roedd yn y Llywodraeth yn y Llywodraeth Lafur ddiwethaf. Felly, i chi feirniadu Llywodraeth bresennol San Steffan, sydd wedi cymryd camau enfawr o ran gostwng y trethi a orfodwyd gan eich cydweithwyr ar gwmnïau fel Tata Steel pan yr oedden nhw mewn Llywodraeth yn y Llywodraeth Lafur ddiwethaf a oedd wedi mynd â'i phen iddi-. Onid yw'n wir, Brif Weinidog, yn ystod cyfnod yr etholiad-[Torri ar draws.]

13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I cannot hear what you are saying. Would you like to carry on, please, now that it is quiet?

Trefn. Ni allaf glywed yr hyn yr ydych chi'n ei ddweud. A hoffech chi barhau, os gwelwch yn dda, nawr ei bod yn dawel?

13:37 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Is it not a fact, First Minister, that all you chose to do were a few soundbites during the local government campaign, and, regrettably, what we are seeing today are the families and the workers of Tata Steel having their jobs put under threat? What hope do they have of having any confidence in the pledges that you make, when so many of those pledges prove to be so hollow?

Diolch i chi, Lywydd. Onid yw'n wir, Brif Weinidog, mai'r cyfan y dewisoch chi ei wneud oedd gwneud ychydig o sylwadau bachog yn ystod yr ymgyrch llywodraeth leol, ac, yn anffodus, yr hyn rydym ni'n ei weld heddiw yw swyddi teuluoedd a gweithwyr Tata Steel dan fygythiad? Pa obaith sydd ganddynt o fod ag unrhyw hyder yn yr addewidion yr ydych chi'n eu gwneud, pan fo cynifer o'r addewidion hynny yn profi i fod yn rhai mor wag?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

He always blusters when he is caught, does he not? He always blusters when he is caught. It is a fact that Tata has been critical—[Interruption.] There is no point shouting; he has had his viewpoint now. It is a fact that Tata has said, in its press release, that high energy prices are a problem.

Mae bob amser yn paldaruo pan fydd yn cael ei ddal, onid yw e? Mae bob amser yn paldaruo pan fydd yn cael ei ddal. Mae'n ffaith bod Tata wedi bod yn feirniadol-[Torri ar draws.] Nid oes unrhyw bwynt gweiddi; mae wedi cael mynegi ei safbwynt nawr. Mae'n ffaith bod Tata wedi dweud, yn ei ddatganiad i'r wasg, bod prisiau ynni uchel yn broblem.

13:38 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And business rates.

Ac ardrethi busnes.

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Business rates are not devolved yet, I remind him—non-domestic rates—and so two non-devolved issues are the major problems for Tata. It is simply not good enough for him to say that these are taxes that have been put in place by the last Labour Government. His party has been in Government for the last four years in London and it has failed miserably. The Chancellor of the Exchequer went to Tata, made a great play of how they would help Tata and other energy-intensive industries with their energy costs, and they have done precisely nothing. Those jobs have been lost as a direct result of the UK Government's policy, and it is about time that the UK Government did as much for the steel industry as the Welsh Government has already done.

Nid yw ardrethi busnes wedi eu datganoli eto, rwy'n ei atgoffa-ardrethi annomestig-ac felly dau fater nad ydynt wedi eu datganoli yw'r problemau mawr i Tata. Nid yw'n ddigon da iddo ddweud mai trethi a gyflwynwyd gan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf yw'r rhain. Mae ei blaid ef wedi bod mewn Llywodraeth ers pedair blynedd yn Llundain ac mae wedi methu'n druenus. Aeth Canghellor y Trysorlys at Tata, gan wneud addewidion am sut y byddent yn helpu Tata a diwydiannau ynni-ddwys eraill gyda'u costau ynni, ac nid ydynt wedi gwneud unrhyw beth o gwbl. Mae'r swyddi hynny wedi cael eu colli o ganlyniad uniongyrchol i bolisi Llywodraeth y DU, ac mae'n hen bryd i Lywodraeth y DU wneud cymaint dros y diwydiant dur ag y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud eisoes.

13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:39 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv
Fideo Video

This is a very sad day for the Welsh economy, and for all of those who have been affected by this announcement. When job losses are a possibility, especially hundreds of job losses, working with the trade unions and community leaders is very important. Many families will be very worried today. I wondered whether you can tell us, First Minister, what discussions you have had with the trade unions, and community leaders, in relation to Tata's announcement today.

Mae hwn yn ddiwrnod trist iawn i economi Cymru, ac i bob un o'r rhai hynny sydd wedi cael eu heffeithio gan y cyhoeddiad hwn. Pan fo colli swyddi yn bosibilrwydd, yn enwedig colli cannoedd o swyddi, mae gweithio gyda'r undebau llafur ac arweinwyr cymunedol yn bwysig iawn. Bydd llawer o deuluoedd yn bryderus iawn heddiw. Roeddwn i'n meddwl tybed a allech chi ddweud wrthym, Brif Weinidog, pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael gyda'r undebau llafur, ac arweinwyr cymunedol, ar gyhoeddiad Tata heddiw.

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Those discussions will be ongoing now the announcement has been made. However, I would just emphasise the fact that, of course, these are jobs lost to the Welsh economy—nobody can hide from that—but there is also the fact that it is Tata's belief that it will not have to institute compulsory redundancies, which is some relief, clearly, in the circumstances. Steel making remains difficult in Europe, and Tata has made the investment of up to £400 million now to make sure that Port Talbot has a future. However, there is no point in hiding from the fact that it has been difficult for Tata over the past year or two, and the fact that these jobs are being lost is a sign of that. There is no doubt, however, that there needs to be movement with regard to energy prices in order to help it in the future.

Bydd y trafodaethau hynny'n parhau nawr bod y cyhoeddiad wedi ei wneud. Fodd bynnag, pwysleisiaf y ffaith bod y rhain yn swyddi, wrth gwrs, a gollwyd i economi Cymru-ni all unrhyw un guddio rhag hynny-ond mae'n wir hefyd mai barn Tata yw na fydd yn rhaid iddo ddileu swyddi'n orfodol, sy'n rhywfaint o ryddhad, yn amlwg, dan yr amgylchiadau. Mae cynhyrchu dur yn parhau i fod yn anodd yn Ewrop, ac mae Tata wedi gwneud buddsoddiad o hyd at £400 miliwn bellach i wneud yn si?r bod gan Bort Talbot ddyfodol. Fodd bynnag, nid oes pwynt cuddio oddi wrth y ffaith ei bod wedi bod yn anodd i Tata dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, ac mae'r ffaith bod y swyddi hyn yn cael eu colli yn arwydd o hynny. Nid oes amheuaeth, fodd bynnag, bod angen cymryd camau o ran prisiau ynni er mwyn ei helpu yn y dyfodol.

13:40 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Tata, as you have said, has cited escalating energy costs in particular as one of the factors here. You have mentioned energy costs. Do you believe that, if your Government had sufficient powers in respect of energy, you could enable Tata to reconsider these jobs?

Mae Tata, fel yr ydych chi wedi dweud, wedi nodi costau ynni cynyddol yn arbennig fel un o'r ffactorau yma. Rydych chi wedi sôn am gostau ynni. A ydych chi'n credu, pe byddai gan eich Llywodraeth bwerau digonol o ran ynni, y gallech chi alluogi Tata i ailystyried y swyddi hyn?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

No, because the powers that we have talked about for energy have been with regard to energy generation. If we are talking about a separate market—in other words, creating a wholly Welsh energy market—that is a significant step that would mean examining where power goes within the Great Britain grid. These are not things that have been looked at in terms of devolution. What we do need, of course, is action by the UK Government to make sure that energy prices in Great Britain are not so high that they dissuade investors from energy-intensive industries, and we have many of those industries in Wales. We need to make sure that what the Chancellor said he would do he actually delivers on.

Nac ydw, gan fod y pwerau yr ydym ni wedi sôn amdanynt ar gyfer ynni wedi bod yngl?n â chynhyrchu ynni. Os ydym ni'n sôn am farchnad ar wahân-creu marchnad ynni gwbl Gymreig, mewn geiriau eraill-mae hwnnw'n gam sylweddol a fyddai'n golygu archwilio lle mae p?er yn mynd o fewn grid Prydain Fawr. Nid yw'r rhain yn bethau a ystyriwyd o ran datganoli. Yr hyn sydd ei angen arnom ni, wrth gwrs, yw camau gan Lywodraeth y DU i wneud yn si?r nad yw prisiau ynni ym Mhrydain Fawr mor uchel eu bod yn darbwyllo buddsoddwyr rhag buddsoddi mewn diwydiannau ynni-ddwys, ac mae gennym lawer o'r diwydiannau hynny yng Nghymru. Mae angen i ni wneud yn si?r bod yr hyn a ddywedodd y Canghellor y byddai'n ei wneud yn cael ei wneud ganddo mewn gwirionedd.

13:41 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Tata has said that it does not foresee energy costs reducing in the foreseeable future, which is a problem. With this in mind, will you be seeking assurances from Tata on the future of its workforce elsewhere in Wales?

Mae Tata wedi dweud nad yw'n rhagweld y bydd costau ynni yn gostwng yn y dyfodol agos, sy'n broblem. Gyda hyn mewn golwg, a fyddwch chi'n gofyn am sicrwydd gan Tata ar ddyfodol ei weithlu mewn mannau eraill yng Nghymru?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Tata has been very open with us over the years. It made me aware of this announcement some days ago, in confidence. It does not hide anything from us; it works very closely with us, and I am grateful to it for that. Nevertheless, it is correct to say that things have been difficult in terms of European steel making. There was a time when Port Talbot was making a substantial loss; there is no question about that. The investment that has been put in has helped to turn that around, and that is why that investment has been so important. Nevertheless, of course, we regret the recent job losses and we hope that the company is able to deliver on what it has said in terms of those being voluntary rather than compulsory, and, of course, we hope that this is part of a process that, in the longer term, enables the steelworks to become profitable and to then start to take people on again.

Mae Tata wedi bod yn agored iawn gyda ni dros y blynyddoedd. Hysbysodd fi am y cyhoeddiad hwn rai diwrnodau yn ôl, yn gyfrinachol. Nid yw'n cuddio unrhyw beth oddi wrthym; mae'n gweithio'n agos iawn gyda ni, ac rwy'n ddiolchgar iddo am hynny. Serch hynny, mae'n gywir i ddweud bod pethau wedi bod yn anodd o ran cynhyrchu dur yn Ewrop. Roedd adeg pan roedd Port Talbot yn gwneud colled sylweddol; nid oes amheuaeth am hynny. Mae'r buddsoddiad a wnaed wedi helpu i newid y sefyllfa honno, a dyna pam mae'r buddsoddiad hwnnw wedi bod mor bwysig. Serch hynny, wrth gwrs, rydym ni'n gresynu at y swyddi a gollwyd yn ddiweddar a gobeithiwn y bydd y cwmni'n gallu cyflawni yr hyn y mae wedi ei ddweud o ran sicrhau bod y rheini'n wirfoddol yn hytrach na gorfodol, ac, wrth gwrs, rydym ni'n gobeithio bod hyn yn rhan o broses a fydd, yn y tymor hwy, yn galluogi'r gwaith dur i wneud elw ac yna dechrau cyflogi pobl eto.

Senedd.tv
Fideo Video

13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Finally, I call the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Yn olaf, galwaf ar arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv
Fideo Video

13:42 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, please could you outline which aspects of the ministerial code have been breached by the Minister for Natural Resources and Food?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, a allech chi amlinellu os gwellwch yn dda pa agweddau ar y cod gweinidogol sydd wedi cael eu torri gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd?

Senedd.tv
Fideo Video

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I can say to Members that the report that was prepared for me by the Permanent Secretary will be published once the Minister has made his personal statement. That will contain all the information that Members need.

Gallaf ddweud wrth yr Aelodau y bydd yr adroddiad a baratowyd i mi gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn cael ei gyhoeddi ar ôl i'r Gweinidog wneud ei ddatganiad personol. Bydd hwnnw'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar yr Aelodau.

Senedd.tv
Fideo Video

13:43 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

First Minister, your spokespeople have been briefing the media that Natural Resources Wales did not feel in anyway pressurised into completely changing its view on the Circuit of Wales. Would you agree with me that this is not about the integrity of Natural Resources Wales? The point is that the Minister tried, albeit unsuccessfully, to lean on Natural Resources Wales. You have agreed that he has breached the code. Could you tell the Chamber what are the consequences, under your leadership, for breaching the ministerial code?

Brif Weinidog, mae eich llefarwyr wedi bod yn briffio'r cyfryngau nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn teimlo dan unrhyw bwysau o gwbl i newid ei farn ar Gylchffordd Cymru yn gyfan gwbl. A fyddech chi'n cytuno â mi nad yw hyn yn ymwneud â gonestrwydd Cyfoeth Naturiol Cymru? Y pwynt yw bod y Gweinidog wedi ceisio, er yn aflwyddiannus, i roi pwysau ar Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydych chi wedi cytuno ei fod wedi torri'r cod. A allech chi ddweud wrth y Siambr beth yw goblygiadau, dan eich arweinyddiaeth chi, torri'r cod gweinidogol?

Senedd.tv
Fideo Video

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It depends on what that breach is. I would urge Members, of course, to read the report, when it is placed in the Library, and then, of course, Members can form their own views. I have taken the view that, even though the code was breached, it did not lead inevitably to a situation in which the Minister should lose his job.

Mae'n dibynnu beth yw'r toriad hwnnw i gydymffurfio. Rwyf yn annog yr Aelodau, wrth gwrs, i ddarllen yr adroddiad, pan y'i rhoddir yn y Llyfrgell, ac yna, wrth gwrs, gall yr Aelodau ffurfio eu barn eu hunain. Rwyf i wedi cymryd y farn, er y torrwyd y cod, na arweiniodd yn anochel at sefyllfa sy'n golygu y dylai'r Gweinidog golli ei swydd.

Senedd.tv
Fideo Video

13:43 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A year ago, you said that the ministerial code aims to define the boundaries between the role of a Government Minister and the demands of a constituency Member and that, in the case of the former Minister for education, you believed that those roles were confused. Then, you showed strong leadership and the Minister for education felt it necessary to leave his post. Why is it, then, that a year later, when you say that there has been a clear breach of the ministerial code, you have let the Minister for natural resources keep his job?

Flwyddyn yn ôl, dywedasoch mai nod y cod gweinidogol yw ceisio diffinio'r ffiniau rhwng swyddogaeth un o Weinidogion y Llywodraeth a gofynion Aelod etholaethol ac, yn achos y cyn-Weinidog addysg, roeddech chi o'r farn bod y swyddogaethau hynny yn ddryslyd. Bryd hynny, dangoswyd arweinyddiaeth gref gennych ac roedd y Gweinidog addysg yn teimlo ei bod yn angenrheidiol iddo adael ei swydd. Pam, felly, flwyddyn yn ddiweddarach, pan eich bod yn dweud y bu toriad eglur o'r cod gweinidogol, yr ydych chi wedi gadael i'r Gweinidog cyfoeth naturiol gadw ei swydd?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The circumstances are different. I asked the Permanent Secretary to examine all the circumstances. I have already made a written statement, with the Llywydd's permission. The Minister will be making a personal statement and the report that was prepared for me I have arranged to be placed in the Library as a courtesy to Members.

Mae'r amgylchiadau'n wahanol. Gofynnais i'r Ysgrifennydd Parhaol ystyried yr holl amgylchiadau. Rwyf eisoes wedi gwneud datganiad ysgrifenedig, gyda chaniatâd y Llywydd. Bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad personol ac rwyf wedi trefnu i'r adroddiad a baratowyd i mi gael ei roi yn y Llyfrgell er cwrteisi i'r Aelodau.

13:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper, and question 3 is from Janet Finch-Saunders.

Symudwn yn ôl nawr at y cwestiynau ar y papur, a daw cwestiwn 3 gan Janet Finch-Saunders.

**Recriwtio yn GIG Cymru**

**Recruitment in the Welsh NHS**

13:44 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am recriwtio yn GIG Cymru? OAQ(4)1766(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on recruitment in the Welsh NHS? OAQ(4)1766(FM)*

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. The Welsh Government continues to support recruitment into the NHS and the picture is a positive one, which shows that, between 2012 and 2013, the total number of staff has increased by almost 400, and we continue to have more staff per head than, for example, England.

Gwnaf. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi recriwtio i mewn i'r GIG ac mae'r darlun yn un cadarnhaol, sy'n dangos bod cyfanswm nifer yr aelodau staff wedi cynyddu o bron i 400 rhwng 2012 a 2013, ac mae gennym well cymhareb staff / cleifion o hyd nag yn Lloegr, er enghraifft,.

13:45 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The British Medical Association Wales, however, has highlighted how the Welsh Government's rejection of the 1% pay rise proposed by the review board of doctors and dentists would result in Welsh doctors earning 5% less than their UK counterparts. This is, obviously, going to affect the chances of attracting and recruiting more staff. When will your Government get a grip on this situation and start addressing the very real concerns of our general practitioners, doctors and all within the medical profession across Wales?

Mae Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru, fodd bynnag, wedi amlygu sut y byddai'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod y codiad cyflog o 1% a gynigiwyd gan y bwrdd adolygu meddygon a deintyddion yn golygu y byddai meddygon yng Nghymru yn ennill 5% yn llai na rhai cyfatebol yn y DU. Mae hyn, yn amlwg, yn mynd i effeithio ar y siawns o ddenu a recriwtio mwy o aelodau staff. Pryd y gwnaiff eich Llywodraeth gymryd rheolaeth dros y sefyllfa hon a dechrau mynd i'r afael â phryderon gwirioneddol iawn ein hymarferwyr cyffredinol, ein meddygon a phawb yn y proffesiwn meddygol ledled Cymru?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Do you know what I find when I speak to doctors? They say to me that they are glad that they work in Wales, given the fact that they see what is happening in England. We have received the pay review body's recommendation. We are working with representatives from professional bodies and trade unions on how an equivalent sum to that being made available in England can be distributed to national health service staff in Wales.

Ydych chi'n gwybod yr hyn rwy'n ei ganfod pan fyddaf yn siarad â meddygon? Maen nhw'n dweud wrthyf eu bod yn falch eu bod yn gweithio yng Nghymru, o ystyried y ffaith eu bod yn gweld beth sy'n digwydd yn Lloegr. Rydym ni wedi derbyn argymhelliad y corff adolygu cyflogau. Rydym ni'n gweithio gyda chynrychiolwyr o gyrff proffesiynol ac undebau llafur ar sut y gall swm cyfatebol i'r hyn sy'n cael ei roi ar gael yn Lloegr gael ei ddosbarthu i aelodau staff y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru.

I refer Members to the fact that the front page of 'The Times' last week contained criticism of the UK Government's attempts to escape from its failure to fund the NHS properly in England. Only on Sunday, we saw a former Conservative Minister attacking the UK Government for its failure to fund the NHS properly in England. It shows that, when you put the Conservatives in charge, you see the NHS starved of funds.

Cyfeiriaf yr Aelodau at y ffaith bod tudalen flaen 'The Times' yr wythnos diwethaf yn cynnwys beirniadaeth o ymdrechion Llywodraeth y DU i ddianc rhag ei fethiant i ariannu'r GIG yn briodol yn Lloegr. Dim ond dydd Sul diwethaf, gwelsom gyn-Weinidog Ceidwadol yn ymosod ar Lywodraeth y DU am ei methiant i ariannu'r GIG yn briodol yn Lloegr. Mae'n dangos, pan eich bod chi'n rhoi'r Ceidwadwyr mewn grym, y byddwch yn gweld Y GIG yn cael ei amddifadu o arian.

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I hope that Janet Finch-Saunders heard the reply, because I think that the noise from her front bench was restricting me somewhat. I call on Christine Chapman.

Rwy'n gobeithio bod Janet Finch-Saunders wedi clywed yr ateb, oherwydd rwy'n meddwl bod y s?n o'i mainc flaen yn fy nghyfyngu i braidd. Galwaf ar Christine Chapman.

13:46 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, different parts of Wales may have different health challenges, so recruitment of different types of NHS professionals will be required. We need to make sure that we meet this varying demand. For example, I am aware of possible challenges regarding diabetes and retinopathy in the Cynon Valley. What discussion is the Welsh Government having with local health boards to map local needs and make sure that they can recruit the specialist staff that their areas need?

Brif Weinidog, efallai fod gwahanol rannau o Gymru yn wynebu heriau iechyd gwahanol, felly bydd angen recriwtio gwahanol fathau o weithwyr GIG proffesiynol. Mae angen i ni wneud yn si?r ein bod yn bodloni'r galw amrywiol hwn. Er enghraifft, rwy'n ymwybodol o heriau posibl o ran diabetes a retinopathi yng Nghwm Cynon. Pa drafodaethau mae Llywodraeth Cymru yn eu cael gyda byrddau iechyd lleol i fapio anghenion lleol a gwneud yn si?r y gallant recriwtio'r aelodau staff arbenigol y mae eu hardaloedd eu hangen?

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Health boards in Wales are in the process of developing and implementing their agreed three-year and one-year plans. As part of that process, they have to demonstrate evidence that they are population health organisations, placing strong primary and community care at the centre of a transforming health system. We would expect them, as part of the preparation of their plans, to take into account the health profile and needs of the local population for them to be able to deliver services most effectively.

Mae byrddau iechyd yng Nghymru wrthi'n datblygu a gweithredu eu cynlluniau tair blynedd a blwyddyn y cytunwyd arnynt. Yn rhan o'r broses honno, mae'n rhaid iddynt gynnig tystiolaeth eu bod yn sefydliadau iechyd poblogaeth, gan sicrhau bod gofal sylfaenol a gofal yn y gymuned cryf wrth wraidd system iechyd sy'n gweddnewid. Byddem yn disgwyl iddynt, yn rhan o'r broses o baratoi eu cynlluniau, gymryd proffil iechyd ac anghenion y boblogaeth leol i ystyriaeth er mwyn iddynt allu darparu gwasanaethau yn y modd mwyaf effeithiol.

13:47 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, mae nifer y doctoriaid y pen yng Nghymru yn is nag yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr, a gyda'r isaf yn Ewrop o ran hynny. Mae gan Blaid Cymru gynllun i hyfforddi a recriwtio 1,000 yn fwy o ddoctoriaid i'r NHS dros y ddegawd nesaf. Faint yn fwy o ddoctoriaid yn y ddegawd nesaf y mae eich Llywodraeth chi yn credu sydd angen eu hyfforddi a recriwtio i'r NHS?

First Minister, the number of doctors per capita in Wales is lower than it is in Northern Ireland, Scotland and England, and it is among the lowest in Europe, if truth be told. Plaid Cymru has a plan to train and recruit a 1,000 additional NHS doctors over the next decade. How many more doctors over the next decade does your Government believe need to be trained and recruited to meet the needs of the NHS?

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Fel y dywedais, mae nifer y staff y pen yng Nghymru—

As I said, the number of staff per capita in Wales-

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Doctoriaid.

Doctors.

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, mae angen ichi edrych ar hyn yn y ffordd ehangaf. Mae nifer y staff y pen yng Nghymru yn uwch nag yn Lloegr. Wrth gwrs, rydym mo'yn sicrhau ein bod yn recriwtio digon o ddoctoriaid yn y dyfodol. Y broblem fawr—nid arian yw'r broblem—yw sicrhau ein bod yn gallu rhoi cyfle iddynt weithio mewn ysbytai sy'n mynd i'w denu i Gymru.

Well, you must look at this in its broadest sense. The number of staff per capita in Wales is higher than in England. Of course, we must ensure that we recruit a sufficient number of doctors in the future. The big problem-money is not the problem-is ensuring that we can give them an opportunity to work in hospitals that will attract them to Wales.

Mae'n rhaid imi ddweud, unwaith eto, nid yw'n synhwyrol, yn fy marn i, i ddweud eich bod yn mynd i dalu am 1,000 o ddoctoriaid wrth sicrhau bod pobl yn yfed mwy o bop. Os bydd pobl yn yfed llai o bob, bydd yn rhaid ichi haneru nifer y doctoriaid. Nid wyf yn credu bod hynny'n sylfaen gadarn i adeiladu polisi arni, sef bod yn rhaid ichi sicrhau bod pobl yn yfed mwy o bop er mwyn cael mwy o ddoctoriaid; os ydynt yn yfed llai o bop, bydd llai o ddoctoriaid. Ym mha ffordd y mae hynny'n synhwyrol? Nid wyf yn gweld sut all hynny weithio yn y tymor hir.

I must say, once again, that it is not sensible, in my view, to say that you are going to pay for 1,000 doctors by ensuring that people drink more pop. If people drink less pop, then you would need to halve the number of doctors. I do not believe that that is a very firm foundation on which to build a policy, namely that you must ensure that people drink more pop in order to have more doctors; if they drink less pop, there will be fewer doctors. In what way is that sensible? I do not see how that can work in the long term.

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

First Minister, given the current situation at Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, how do you intend to change the recruitment and training practices for medical staff so as to take account of the lessons from that particular issue?

Brif Weinidog, o ystyried y sefyllfa bresennol ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, sut ydych chi'n bwriadu newid yr arferion recriwtio a hyfforddi ar gyfer aelodau staff meddygol er mwyn cymryd y gwersi o'r mater penodol hwnnw i ystyriaeth?

Senedd.tv Fideo Video

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Of course, I expect ABMU to take into account the June Andrews report to ensure that, where it looks to recruit in future, it is able to provide the public with the service that it would expect. I think that what we have seen in the Andrews report is a serious breakdown in standards in some parts of the Princess of Wales Hospital—certainly not in all of it. I expect the hospital and the ABMU board more widely to learn the lessons very strongly from that report.

Wrth gwrs, rwy'n disgwyl i PABM gymryd adroddiad Andrews mis Mehefin i ystyriaeth er mwyn sicrhau, pan fydd yn bwriadu recriwtio yn y dyfodol, ei fod yn gallu darparu'r gwasanaeth y byddai'r cyhoedd yn ei ddisgwyl. Rwy'n credu mai'r hyn yr ydym ni wedi ei weld yn adroddiad Andrews yw methiant difrifol o ran safonau mewn rhai rhannau o Ysbyty Tywysoges Cymru-nid yr ysbyty cyfan, yn sicr. Rwy'n disgwyl i'r ysbyty a bwrdd PABM yn ehangach i ddysgu'r gwersi o'r adroddiad hwnnw mewn modd cryf iawn

Senedd.tv Fideo Video

13:49 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I was pleased to hear you say that we have more clinicians now working in the NHS in Wales, and I think that that is highlighted by the fact that many doctors want to be part of the Welsh NHS as opposed to the English NHS. I have previously raised with the Minister for health that a salaried GP should be the way forward for those areas that are hardest to reach in terms of recruitment. Salaried GPs will give women, particularly those who have some caring responsibilities, an opportunity to enter into the medical profession. Is it time that we start to look seriously at salaried GPs and to work closely with those practices that are reporting some real recruitment issues?

Brif Weinidog, roeddwn i'n falch o'ch clywed yn dweud bod gennym fwy o glinigwyr yn gweithio yn y GIG yng Nghymru bellach, ac rwy'n credu yr amlygir hynny gan y ffaith fod llawer o feddygon eisiau bod yn rhan o'r GIG yng Nghymru yn hytrach na'r GIG yn Lloegr. Rwyf wedi codi'r mater o'r blaen gyda'r Gweinidog iechyd mai meddyg teulu cyflogedig ddylai fod y ffordd ymlaen ar gyfer yr ardaloedd hynny sydd fwyaf anodd eu cyrraedd o ran recriwtio. Bydd meddygon teulu cyflogedig yn rhoi cyfle i fenywod, yn enwedig y rhai sydd â rhywfaint o gyfrifoldebau gofalu, ymuno â'r proffesiwn meddygol. A yw'n bryd i ni ddechrau edrych o ddifrif ar feddygon teulu cyflogedig a gweithio'n agos gyda'r meddygfeydd hynny sy'n nodi rhai problemau recriwtio gwirioneddol?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, very much so, and we would encourage health boards to actively consider recruiting salaried GPs to address any problems that they have. It seems to me that becoming salaried GPs is a more popular way of working; there is more reluctance now on the part of GPs to buy into a practice and fork out money at the beginning. So, it seems that the nature of general practice is changing and that we will see more salaried GPs in any event, because they will like the flexibility that being a salaried GP brings, rather than for them to be tied in with a capital payment into a practice.

Ydy, yn sicr, a byddem yn annog byrddau iechyd i fynd ati i ystyried recriwtio meddygon teulu cyflogedig i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau sydd ganddynt. Mae'n ymddangos i mi bod dod yn feddygon teulu cyflogedig yn ffordd fwy poblogaidd o weithio; ceir mwy o amharodrwydd ymhlith meddygon teulu bellach i brynu cyfran o feddygfa a thalu arian allan ar y cychwyn. Felly, mae'n ymddangos bod natur bod yn feddyg teulu yn newid ac y byddwn yn gweld mwy o feddygon teulu cyflogedig beth bynnag, gan y byddant yn hoffi'r hyblygrwydd y mae bod yn feddyg teulu cyflogedig yn ei gynnig, yn hytrach na'u bod wedi eu hymrwymo i daliad cyfalaf i mewn i feddygfa.

### Twf Economaidd

### Economic Growth

13:51 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn galluogi twf economaidd yn Sir Drefaldwyn? OAQ(4)1773(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on how the Welsh Government is enabling economic growth in Montgomeryshire? OAQ(4)1773(FM)*

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Creating growth is at the heart of our programme for government. Our absolute focus remains on supporting and boosting the economy across Wales. For example, recently, Plant i Ltd, a small company in Machynlleth, has received an innovation grant to part-fund the development of a new vehicle; help has been offered to RM Group UK Ltd in Newtown; and we have seen expansion by Cimostrat Ltd in Welshpool.

Mae creu twf yn ganolog i'n rhaglen lywodraethu. Mae ein pwyslais llwyr yn dal i fod ar gefnogi a rhoi hwb i'r economi ledled Cymru. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae Plant i Cyf, cwmni bach ym Machynlleth, wedi derbyn grant arloesi i ran-ariannu datblygiad cerbyd newydd; cynigiwyd cymorth i RM Group UK Cyf yn y Drenewydd; ac rydym ni wedi gweld ehangu gan Cimostrat Cyf yn y Trallwng.

13:51 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister, for your answer. I was pleased to hear your colleague the Minister for the economy state last week that she is examining the potential of the Welsh Government developing business units in Montgomeryshire to try to fulfil the needs of a number of local businesses that want to expand. One of the issues that has been raised with me locally, which is hampering the uptake of new business units, is the BREEAM standards; they are potentially too prescriptive and are consequently restricting new companies from developing units in the region. Will you agree to examine this issue, because what we need in mid Wales is the broadest range of business premises available to help economic growth?

Diolch i chi, Brif Weinidog, am eich ateb. Roeddwn i'n falch o glywed eich cydweithiwr, Gweinidog yr economi yn nodi'r wythnos diwethaf ei bod yn archwilio'r posibilrwydd y gallai Llywodraeth Cymru ddatblygu unedau busnes yn Sir Drefaldwyn i geisio diwallu anghenion nifer o fusnesau lleol sy'n dymuno ehangu. Un o'r materion a godwyd gyda mi yn lleol, sy'n cyfyngu ar y niferoedd sy'n manteisio ar unedau busnes newydd, yw safonau BREEAM; mae'n bosibl eu bod yn rhy ragnodol ac o ganlyniad yn atal cwmnïau newydd rhag datblygu unedau yn y rhanbarth. A wnewch chi gytuno i edrych ar y mater hwn, oherwydd yr hyn sydd ei angen arnom yn y canolbarth yw'r amrywiaeth ehangaf o adeiladau busnes ar gael i helpu twf economaidd?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I have not heard that. One of the advantages of having a BREEAM excellent building is that it is far cheaper to run, and, so, those costs do not bear as heavily on businesses as they would in buildings that are older. We have the Powys local growth zone, which the Member will be aware of, and he will be aware of the Wales retail relief scheme. There is an issue in northern Powys that does not help, and that is the fact that the electricity grid is fragile in the area. The problem with that is—I see him smiling enigmatically—that that needs more pylons. Nevertheless, there is an issue with the grid in the area. The grid can support smaller businesses, but the grid will not support anything large. That is one of the difficulties in balancing these decisions.

Nid wyf wedi clywed hynny. Un o fanteision cael adeilad rhagorol BREEAM yw ei fod yn llawer rhatach i'w redeg, ac, felly, nid yw'r costau yn rhoi cymaint o bwysau ar fusnesau ag y byddent mewn adeiladau sy'n h?n. Mae ardal twf lleol Powys gennym, y bydd yr Aelod yn ymwybodol ohoni, a bydd yn ymwybodol o gynllun rhyddhad manwerthu Cymru. Ceir problem yng ngogledd Powys nad yw'n helpu, sef y ffaith fod y grid trydan yn fregus yn yr ardal. Y broblem gyda hynny yw-rwy'n ei weld yn gwenu'n enigmatig-bod hynny'n golygu bod angen mwy o beilonau. Serch hynny, mae problem gyda'r grid yn yr ardal. Gall y grid gefnogi busnesau llai, ond ni fydd y grid yn gallu cefnogi unrhyw beth mawr. Dyna un o'r anawsterau wrth gydbwyso'r penderfyniadau hyn.

13:53 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The success of Jobs Growth Wales in providing work opportunities for young people has been quite stunning, but how is the Welsh Government working with employers specifically in Montgomeryshire to engage with the scheme so that it can go from strength to strength in that part of my region?

Mae llwyddiant Twf Swyddi Cymru o ran darparu cyfleoedd gwaith i bobl ifanc wedi bod yn eithaf syfrdanol, ond sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyflogwyr yn Sir Drefaldwyn yn benodol i ymgysylltu â'r cynllun fel y gall fynd o nerth i nerth yn y rhan honno o'm rhanbarth i?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We do not have a breakdown per constituency, but, on a county level, the latest data show that 408 job opportunities have been created in Powys, and 342 of those opportunities have been filled. So, we have a significant number of young people who now have a job as a result of Jobs Growth Wales in Powys.

Nid oes gennym ddadansoddiad fesul etholaeth, ond, ar lefel sirol, mae'r data diweddaraf yn dangos bod 408 o gyfleoedd am swydd wedi eu creu ym Mhowys, a bod 342 o'r cyfleoedd hynny wedi eu llenwi. Felly, mae gennym nifer sylweddol o bobl ifanc sydd â swydd erbyn hyn o ganlyniad i Twf Swyddi Cymru ym Mhowys.

13:53 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Lle bynnag rydych yn gwella'r rheilffordd, mae tyfiant economaidd yn dilyn. Mae'r rheilffordd o Aberystwyth i Amwythig yn un o'r prif gysylltiadau drwy Maldwyn sy'n cysylltu pentrefi a busnesau â'i gilydd. Pa gamau y byddwch chi'n eu cymryd fel Llywodraeth i sicrhau bod y cytundeb newydd, ar ôl 2015, ar gyfer y rheilffordd newydd yn cynnwys gwelliannau o ran cysondeb y gwasanaethau ar y rheilffordd a hefyd yn cynnwys ailagor gorsafoedd megis Carno ym Maldwyn?

Wherever you improve the railway, economic growth follows. The line from Aberystwyth to Shrewsbury is one of the main links through Montgomeryshire that links villages and businesses together. What steps will you as a Government take to ensure that the new franchise, post 2015, for the new railway will include improvements to the regularity of the services on the railway and also include the reopening of stations such as Carno in Montgomeryshire?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Bydd ystyriaeth o hynny pan fydd y cytundeb yn cael ei gadarnhau. Mae eisiau inni edrych ar gael mwy o drenau ar reilffordd canolbarth Cymru. Hefyd, rwy'n gwybod bod rhai wedi sôn bod eisiau mwy o orsafoedd ar hyd y rheilffordd. Bydd ystyriaeth o hynny fel rhan o'r trafodaethau cyn y bydd y cynlluniau newydd yn cael eu cytuno.

This will be considered when the agreement is confirmed. We need to look at having more frequent services on the mid Wales line. Also, I know that some people have talked about the fact that we need more stations along that line. This will all be considered as part of the discussions that will take place before the new contract is agreed.

13:54 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, in your earlier answer, you referred to the Powys local growth zones, and in that context, in Montgomeryshire, we have the flagship Sirolli EFFECT Severn Valley project. There was a well-attended public meeting in Welshpool a fortnight ago to take that to the next level. Key to the success of the Sirolli project will be recruiting sufficient numbers of volunteer business mentors from the community. What measures are being taken by your Government to ensure that the zones are well publicised and that sufficient resource is put into recruiting the right quality of mentors to take this forward?

Brif Weinidog, yn eich ateb cynharach, cyfeiriasoch at ardaloedd twf lleol Powys, ac yn y cyd-destun hwnnw, yn sir Drefaldwyn, mae gennym brosiect EFFECT Dyffryn Hafren blaenllaw Sirolli. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus â phresenoldeb da yn y Trallwng bythefnos yn ôl i symud hwnnw i'r lefel nesaf. Bydd recriwtio niferoedd digonol o fentoriaid busnes gwirfoddol o'r gymuned yn allweddol i lwyddiant prosiect Sirolli. Pa fesurau sy'n cael eu cymryd gan eich Llywodraeth i sicrhau bod yr ardaloedd yn cael eu hysbysebu'n dda a bod adnoddau digonol yn cael eu neilltuo ar gyfer recriwtio mentoriaid o'r ansawdd cywir i fwrw ymlaen â hyn?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

You are quite right, of course, to ask that. From our point of view, we will ensure that there is a robust communications plan in place and, of course, there will be funding available to make sure that the project is sustainable and effective, and that will, of course, involve recruiting sufficient voluntary business mentors in order for the project to be successful.

Rydych chi yn llygad eich lle i ofyn hynny, wrth gwrs. O'n safbwynt ni, byddwn yn sicrhau bod cynllun cyfathrebu cadarn ar waith ac, wrth gwrs, bydd cyllid ar gael i wneud yn si?r bod y prosiect yn gynaliadwy ac yn effeithiol, a bydd hynny, wrth gwrs, yn golygu recriwtio digon o fentoriaid busnes gwirfoddol er mwyn i'r prosiect fod yn llwyddiannus

## Trefnidiaeth Llywodraeth Leol

## Organisation of Local Government

13:55 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am drefniadaeth llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)1758(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on the organisation of local government in Wales? OAQ(4)1758(FM)*

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I will be making a full statement on that next week.

Byddaf yn gwneud datganiad llawn ar hynny yr wythnos nesaf.

13:56 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is a welcome response. I know that you will be making a statement on the Williams commission, which only partially covered local government as there were many other public services involved as well. However, given that the Welsh Government accepted the Communities, Equality and Local Government Committee's recommendation that it should undertake a further analysis of costs and benefits of collaboration between local authorities and publish its findings, and that the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy's analysis of the pronounced implications of restructuring local government commissioned by the Welsh Local Government Association has not yet been made publicly available, or possibly has not even been published, is it not irresponsible for the Welsh Government to be moving ahead with proposed plans for the numbers and geography of merged councils?

Mae hwnnw'n ymateb i'w groesawu. Rwy'n gwybod y byddwch yn gwneud datganiad ar gomisiwn Williams, a oedd ond yn ystyried llywodraeth leol yn rhannol gan fod llawer o wasanaethau cyhoeddus eraill dan sylw hefyd. Fodd bynnag, o gofio bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y dylai gynnal dadansoddiad pellach o gostau a manteision cydweithio rhwng awdurdodau lleol a chyhoeddi ei ganfyddiadau, ac nad yw dadansoddiad y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth o oblygiadau amlwg ailstrwythuro llywodraeth leol a gomisiynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ei roi ar gael yn gyhoeddus eto, neu efallai heb ei gyhoeddi hyd yn oed, onid yw'n anghyfrifol i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â chynlluniau arfaethedig ar gyfer niferoedd a daearyddiaeth o ran uno cynghorau?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No. We are in the process of conducting our own analysis of what the costs might be. I have seen the Williams commission's analysis, and I have seen the WLGA's analysis. It is important that we, as a Government, are able to have that analysis as well. However, there is absolutely no doubt in my mind that we are seeing unnecessary duplication of effort and cost as a result of the present local government structure that we have, and it must change.

Nac ydy. Rydym ni wrthi'n cynnal ein dadansoddiad ein hunain o beth allai'r costau fod. Rwyf wedi gweld dadansoddiad comisiwn Williams, ac rwyf wedi gweld dadansoddiad CLlLC. Mae'n bwysig ein bod ni, fel Llywodraeth, yn gallu cael y dadansoddiad hwnnw hefyd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw amheuaeth o gwbl yn fy meddwl ein bod yn gweld dyblygu diangen o ran ymdrech a chost o ganlyniad i'r strwythur llywodraeth leol presennol sydd gennym, ac mae'n rhaid iddo newid.

13:57 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, beth wnewch chi o sylw Owen Smith taw mater i lywodraeth leol yw ad-drefnu'r ffiniau yng Nghymru, a sylw Bob Wellington, arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru nad ydyw wedi bod yn rhan o unrhyw drafodaeth? A yw'r sylwadau hyn, mewn gwirionedd, yn tanseilio unrhyw beth y byddwch yn dweud wrthym yr wythnos nesaf?

First Minister, what do you make of the comment made by Owen Smith that it is a matter for local authorities to reconfigure the boundaries in Wales, and the comment made by Bob Wellington, the leader of the Welsh Local Government Association, that it has not been part of any negotiations? Do these comments not undermine anything that you will tell us next week?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Na, dim o gwbl. Rydym wedi gofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i roi inni ei chynllun ynglŷn â llywodraeth leol, ond nid ydyw wedi ateb. Felly, mae digon o ymgynghori wedi bod, ond rydym yn dal i aros am adroddiad gan y gymdeithas llywodraeth leol gan nad ydyw wedi ein cyrraedd ni eto.

No, not at all. We have asked the Welsh Local Government Association to give us its proposals regarding local government, but it has not responded. Therefore, there has been ample consultation, but we are still waiting for a report by the local government association, which has not reached us yet.

## Sêr Cymru

## Sêr Cymru

13:58 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen Sêr Cymru? OAQ(4)1770(FM)*

*6. Will the First Minister provide an update on the Sêr Cymru programme? OAQ(4)1770(FM)*

13:58

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae tri pherson o safon eithriadol o uchel wedi cael eu penodi i gadeiriau ymchwil Sêr Cymru, ac mae'r rhwydweithiau ymchwil cenedlaethol ategol yn datblygu'n dda. Mae manylion pellach i'w gweld yn 'Cyflawni Gwyddoniaeth i Gymru 2013-14', ein hadroddiad blynyddol ar ein hagenda strategol ar gyfer gwyddoniaeth yng Nghymru, sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Three extremely high calibre Sêr Cymru research chairs have been appointed, and the complementary national research networks are developing well. More details can be found in 'Delivering Science for Wales 2013-14', our annual report on our strategic agenda for science in Wales, which is available on the Welsh Government website.

13:58

**Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Roeddwn yn falch i ddarllen yn ddiweddar bod Dr John Gallacher o Brifysgol Caerdydd a'i gyd-ddarlithwyr wedi cael eu dewis i arwain prosiect ymchwil ar ddementia, lle bydd mwy na 2 filiwn o bobl ar draws y byd yn cymryd rhan. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â mi bod gwyddonwyr Cymru, dan arweinyddiaeth y prif swyddog gwyddonol yng Nghymru, sef Julie Williams, gyda'r gorau yn y byd, a bydd prosiect Sêr Cymru yn adeiladu ar y llwyddiant mawr hwn?

I was pleased to read recently that Dr John Gallacher from Cardiff University and his fellow lecturers have been chosen to lead a research project on dementia, in which more than 2 million people worldwide will participate. Does the First Minister agree with me that Welsh scientists, under the leadership of the chief scientific officer in Wales, Julie Williams, are among the best in the world, and the Sêr Cymru project will build on that great success?

13:59

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n cytuno'n hollol, wrth gwrs. Mae enghreifftiau da lle mae Cymru yn arwain yn y byd, er enghraifft, gyda'r gwaith sy'n cael ei wneud o ran dementia a sicrhau bod pobl yn gallu ystyried dementia a rhoi triniaeth i ddementia yn y dyfodol. Maent hefyd yn adeiladu ar y record dda sydd gennym ynglŷn â gwyddoniaeth geneteg a chanser, sef y ganolfan sydd yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Mae'n bwysig dros ben ein bod yn cryfhau'r gwaith ymchwil sy'n cael ei wneud yng Nghymru er mwyn i Gymru gael ei hystyried fel rhywle sydd gyda'r gorau yn y byd yn y maes hwn.

I agree completely, of course. There are good examples where Wales leads the world, for example with the work that is being done on dementia to ensure that people can consider dementia and treat it in future. They are also building on the strong record we have with regard to cancer and genetic science, with regard to the centre that we have in Cardiff at present. It is exceptionally important that we strengthen the research work being carried out in Wales so that Wales is considered to be among the best places in the world for this field.

13:59

**Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I was very pleased to note the appointment of the chairs for the different aspects of research that will be supported by Sêr Cymru. However, do you agree that there are huge opportunities here for the NHS in terms of its research capabilities in order to provide an opportunity for Wales to be the place for clinicians to want to come to assist with some of the recruitment challenges that we have as a result of the opportunities for research in Wales?

Brif Weinidog, rwy'n falch iawn o nodi penodiad y cadeiryddion ar gyfer y gwahanol agweddau ar ymchwil a fydd yn cael ei gefnogi gan Sêr Cymru. Fodd bynnag, a ydych chi'n cytuno bod cyfleoedd enfawr yma i'r GIG o ran ei alluedd ymchwil er mwyn rhoi cyfle i sefydlu Cymru fel y lle i glinigwyr ddod i gynorthwyo gyda rhai o'r heriau recriwtio sydd gennym o ganlyniad i'r cyfleoedd ar gyfer ymchwil yng Nghymru?

14:00

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I wholly agree with him, because one of the issues often raised with me is the need for doctors to feel that they are coming somewhere where their talents can be fully utilised. We know that that has been the case in the bigger hospitals, for example, but, nevertheless, where we are seen as leaders, whether it is in a British, European or world field, that will make it easier to attract the best doctors and the best medical staff more generally to Wales. That is very much part of our thinking when it comes to Sêr Cymru.

Rwy'n cytuno'n llwyr ag ef, oherwydd un o'r materion a godir yn aml gyda mi yw'r angen i feddygon deimlo eu bod yn dod i rywle lle gall eu doniau gael eu defnyddio'n llawn. Rydym yn gwybod mai dyna fu'r achos yn yr ysbytai mwy, er enghraifft, ond, serch hynny, lle'r ydym ni'n cael ein hystyried yn arweinwyr, pa un a yw hynny mewn maes Prydeinig, Ewropeaidd neu fyd-eang, bydd hynny'n ei gwneud yn haws i ddenu'r meddygon gorau a'r staff meddygol gorau yn fwy cyffredinol i Gymru. Mae hynny'n sicr yn rhan o'n meddylfryd o ran Sêr Cymru.

14:00 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I understand that Professor Javier Bonet, who is in charge of the advanced engineering and materials network based at Swansea University, is, among other things, looking into photovoltaic energy production. This is something that Tata Steel has discussed with me in the past. Do you know if these two are working together, and what has your Government been doing to push this and other programmes towards Tata? What discussions have you had with the company concerning how this and other measures could potentially prevent the job losses there at the moment?

Brif Weinidog, rwy'n deall bod yr Athro Javier Bonet, sy'n gyfrifol am y rhwydwaith peirianneg a deunyddiau datblygedig ym Mhrifysgol Abertawe, ymhlith pethau eraill, yn ymchwilio i gynhyrchu ynni ffotofoltäig. Mae hyn yn rhywbeth y mae Tata Steel wedi ei drafod gyda mi yn y gorffennol. A ydych chi'n gwybod os yw'r ddau hyn yn gweithio gyda'i gilydd, a beth mae eich Llywodraeth wedi bod yn ei wneud i wthio hyn a rhaglenni eraill tuag at Tata? Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael gyda'r cwmni ar sut y gallai hyn a mesurau eraill o bosibl atal y colli swyddi yno ar hyn o bryd?

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I have not had any personal discussions, but I know, for example, that Swansea University looks to work very closely with Tata. One of the reasons for building the new engineering campus on Fabian Way is because of the fact that Tata is in the area, and that is very much to be welcomed. It goes without saying that working with industry is an important part of the development of engineering expertise, particularly advanced engineering and materials expertise in Wales in the future, and I am sure that that work will continue.

Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau personol, ond rwy'n gwybod, er enghraifft, bod Prifysgol Abertawe yn edrych i weithio'n agos iawn gyda Tata. Un o'r rhesymau am adeiladu'r campws peirianneg newydd ar Ffordd Fabian yw'r ffaith bod Tata yn yr ardal, ac mae hynny'n sicr i'w groesawu. Yn amlwg, mae gweithio gyda diwydiant yn rhan bwysig o'r gwaith o ddatblygu arbenigedd peirianneg, yn enwedig arbenigedd peirianneg a deunyddiau arbennig uwch yng Nghymru yn y dyfodol, ac rwy'n si?r y bydd y gwaith hwnnw'n parhau.

14:01 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Sêr Cymru programme is very successful, as the First Minister said in his response, but would he agree that it is equally important to encourage budding scientists in our schools? Would he congratulate Sam Pinches from Whitchurch High School, who has been chosen to represent Wales in Washington DC as the Welsh winner of the Brain Bee, a worldwide neuroscience competition for students? This is a competition that motivates young people to learn about the brain.

Mae'r rhaglen Sêr Cymru yn llwyddiannus iawn, fel y dywedodd y Prif Weinidog yn ei ymateb, ond a fyddai'n cytuno ei bod yr un mor bwysig annog gwyddonwyr addawol yn ein hysgolion? A wnaiff longyfarch Sam Pinches o Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, sydd wedi cael ei ddewis i gynrychioli Cymru yn Washington DC fel enillydd y Brain Bee yng Nghymru, sef cystadleuaeth niwrowyddorau byd-eang i fyfyrwyr? Mae hon yn gystadleuaeth sy'n cymell pobl ifanc i ddysgu am yr ymennydd.

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I very much congratulate Sam; it is wonderful to see someone from Wales in the Brain Bee neuroscience competition, and I am grateful to the Member for raising the issue with me. I understand that Sam will be facing some stiff competition from around 30 countries in this global competition, and I agree that it is essential that we encourage interest in science in all our schools. That is why I was pleased to announce on 16 June a £2.3 million package of support for that very purpose.

Rwy’n llongyfarch Sam yn fawr iawn; mae'n wych gweld rhywun o Gymru yng nghystadleuaeth niwrowyddoniaeth y Brain Bee, ac rwy’n ddiolchgar i'r Aelod am godi'r mater gyda mi. Rwy'n deall y bydd Sam yn wynebu cystadleuaeth gref o tua 30 o wledydd yn y gystadleuaeth fyd-eang hon, ac rwy’n cytuno ei bod yn hanfodol ein bod yn annog diddordeb mewn gwyddoniaeth ym mhob un o’n hysgolion. Dyna pam roeddwn i’n falch o gyhoeddi ar 16 Mehefin pecyn cymorth o £2.3 miliwn ar gyfer yr union ddiben hwnnw.

**Pwerau Amrywio Trethi**

**Tax-varying Powers**

14:02 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatganoli pwerau amrywio trethi i Gymru? OAQ(4)1765(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on the devolution of tax-varying powers to Wales? OAQ(4)1765(FM)*

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

My view on this is fairly well known. I am pleased to see the progress that has been made in the Wales Bill, although I would not necessarily agree with the model proposed for income tax. I am disappointed, for example, to see a failure to devolve air passenger duty.

Mae fy marn i ar hyn yn weddol adnabyddus. Rwy'n falch o weld y cynnydd sydd wedi cael ei wneud ym Mil Cymru, er na fyddwn yn cytuno o reidrwydd â'r model arfaethedig ar gyfer treth incwm. Rwy'n siomedig, er enghraifft, gweld methiant i ddatganoli toll teithwyr awyr.

14:03 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. The shadow Secretary of State for Wales failed to raise the issue of fair funding, which we would all like to see being addressed, but he continued to raise concerns over the devolution of tax-varying powers last week, stating that he feared that they could 'be misused'. Whether he believes you are likely to lose the next Assembly election or that you would misuse such powers, it is not much of a vote of confidence in you. Why does UK Labour persist in believing that Scotland can be trusted with income tax when Wales cannot?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Methodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr Wrthblaid godi'r mater o ariannu teg, y byddai pob un ohonom yn hoffi ei weld yn cael sylw, ond aeth yn ei flaen i godi pryderon ynghylch datganoli pwerau amrywio trethi yr wythnos diwethaf, gan ddweud ei fod yn ofni y gallent 'gael eu camddefnyddio'. Pa un a yw'n credu eich bod yn debygol o golli etholiad nesaf y Cynulliad neu y byddech yn camddefnyddio pwerau o'r fath, nid yw'n dangos llawer o hyder ynoch chi. Pam mae plaid Lafur y DU yn parhau i gredu y gellir ymddiried yn yr Alban wrth ystyried treth incwm ond nid yng Nghymru?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I fully believe that Wales can be trusted with income tax varying powers, but I also believe that the Barnett formula must be reformed before accepting them. I know full well that, without that reform, the underfunding that we have will simply be locked in the system, because whenever the issue of funding reform is raised, the answer from the UK Government will be, 'You can raise money; raise it yourself'. The base has to be firm before you can build income tax varying powers upon that base, and that is why the issue of fair funding must be addressed in the interests of Wales, before looking at income tax varying powers. To do anything else would simply mean that our people would end up nearly £300 million worse off and would have to fill that gap themselves.

Rwy'n credu'n gryf y gellir ymddiried yng Nghymru i allu ymdrin â phwerau amrywio treth incwm, ond rwyf hefyd yn credu bod yn rhaid diwygio fformiwla Barnett cyn eu derbyn. Rwy'n gwybod yn iawn, heb y diwygiadau hynny, y bydd y tanariannu sydd gennym yn cael ei gloi yn y system, oherwydd pryd bynnag y bydd y mater o ddiwygio cyllid yn cael ei godi, yr ateb gan Lywodraeth y DU fydd, 'Gallwch chi godi arian; codwch ef eich hun'. Mae'n rhaid i'r sylfaen fod yn gadarn cyn y gallwch adeiladu pwerau i amrywio treth incwm ar y sylfaen honno, a dyna pam mae'n rhaid mynd i'r afael â'r mater o ariannu teg er budd Cymru, cyn ystyried pwerau amrywio treth incwm. Byddai gwneud unrhyw beth arall yn golygu y byddai ein pobl yn waeth eu byd o bron i £300 miliwn yn y pen draw, a byddai'n rhaid iddynt lenwi'r bwlch hwnnw eu hunain.

14:04 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, one of the taxes that will be transferred if the Wales Bill has a successful passage through the House of Commons is stamp duty. The Minister for Finance has touched on innovative thinking that the Welsh Government has in this particular field, but other than talking about innovative thinking about what you would do with that power, are you in a position to outline the Government's thinking around future stamp duty and the way it would be developed in Wales?

Brif Weinidog, un o'r trethi a fydd yn cael ei throsglwyddo os bydd Bil Cymru'n symud yn llwyddiannus drwy Dŷ'r Cyffredin yw treth stamp. Mae'r Gweinidog Cyllid wedi crybwyll syniadau arloesol Llywodraeth Cymru yn y maes penodol hwn, ond ar wahân i siarad am syniadau arloesol ar yr hyn y byddech chi'n ei wneud gyda'r pŵer hwnnw, a ydych chi mewn sefyllfa i amlinellu meddylfryd y Llywodraeth ar dreth stamp yn y dyfodol a'r ffordd y byddai'n cael ei datblygu yng Nghymru?

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Given that stamp duty would not be devolved until after the next Assembly election, I am grateful to the leader of the opposition for his confidence that this Government will be re-elected at that time in asking for the ideas that we have. At the moment, we are examining the powers that will be devolved. We need to examine the establishment of a revenue authority for Wales to make sure that the money is collected. There are issues surrounding the Land Registry that will need to be resolved, given the plans at the moment, it appears, to privatise the Land Registry. In terms of how those powers are used, we are examining how best to use stamp duty—whether to continue with the current system, whether to make sure that the bands are different and what the rates actually are.

O ystyried na fyddai treth stamp yn cael ei datganoli tan ar ôl etholiad nesaf y Cynulliad, rwy'n ddiolchgar i arweinydd yr wrthblaid am ei hyder y bydd y Llywodraeth hon yn cael ei hail-ethol ar yr adeg honno wrth ofyn am y syniadau sydd gennym. Ar hyn o bryd, rydym ni'n archwilio'r pwerau a fydd yn cael eu datganoli. Mae angen i ni edrych ar sefydlu awdurdod refeniw ar gyfer Cymru er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael ei gasglu. Ceir materion yn ymwneud â'r Gofrestrfa Tir y bydd angen eu datrys, o ystyried y cynlluniau ar hyn o bryd, mae'n ymddangos, i breifateiddio'r Gofrestrfa Tir. O ran y ffordd y defnyddir y pwerau hynny, rydym ni'n ystyried y ffordd orau o ddefnyddio treth stamp—pa un a ddylid parhau â'r system bresennol, pa un a ddylid gwneud yn siŵr bod y bandiau'n wahanol a beth yw'r graddfeydd mewn gwirionedd.

14:05 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yng nghyd-destun treth y stamp ar dir, mae goblygiadau i'r grant bloc. Mae'r dreth benodol hon yn un gyfnewidiol a 'volatile' iawn, felly mae angen dod i ryw ddealltwriaeth ynglŷn â faint sy'n cael ei ddiddymu o'r grant bloc. Mae angen, efallai, i'r modd y mae hynny'n cael ei weithio allan gael ei fesur dros gyfnod, yn hytrach nag o flwyddyn i flwyddyn. A yw'r gwaith rydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd yn edrych ar yr ystyriaethau hynny? Os ydyw, pryd ydych chi'n meddwl y byddwch chi mewn sefyllfa i ddod â chynigion gerbron?

In the context of stamp duty land tax, there are implications for the block grant. This tax is variable and volatile and, therefore, we need to come to some sort of understanding as to how much is deducted from the block grant. The way in which this is worked out needs to be measured over a specific period of time rather than on a year-to-year basis. Is the work that you are doing at present taking those considerations into account and, if so, when will you be in a position to bring some proposals forward?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Ein barn ni fel Llywodraeth yw bod yn rhaid canolbwyntio ar gyllido teg i ddechrau. Os bydd hynny'n cael ei ddatrys, rwy'n credu y byddai'n bosibl cael dadl synhwyrol ynglŷn â threth incwm a faint o arian fydd yn cael ei dynnu o'r bloc. Ar hyn o bryd, byddem mewn sefyllfa lle byddai mwy o arian yn cael ei dynnu o'r bloc, wrth gofio'r ffaith nad yw'r bloc yn ddigonol i Gymru yn barod. Felly, yn fy marn i, yn synhwyrol, mae'n rhaid datrys y broblem honno yn gyntaf, wrth gofio hefyd y byddai 75% o'r cyllid sy'n dod i Gymru yn dod o'r bloc pe bai'r pwerau treth incwm sydd ar y ford ar hyn o bryd gennym ni.

Our view as a Government is that we must focus on fair funding to begin with. If that is resolved, then, of course, it might be possible to have a sensible debate about income tax and how much money will be deducted from the block. At present, we would be in a position where more money would be deducted from the block, bearing in mind that the block is already inadequate for Wales. So, in my view, to be sensible, we have to resolve that problem first of all, bearing in mind that 75% of the funding coming to Wales would come from the block if we had the income tax powers that are currently on the table.

### Seilwaith Trafnidiaeth

### Transport Infrastructure

14:06 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gwella'r seilwaith trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1768(FM)*

*8. Will the First Minister outline his priorities to improve transport infrastructure in North Wales? OAQ(4)1768(FM)*

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes. I can give the Member some examples. Funding has been committed and a study is under way to investigate short-term options to improve capacity on the Britannia bridge; £40 million of investment in major improvements on the A55 are being carried out between 2012 and 2016; in October last year we completed the Maes yr Helmau to Cross Foxes improvement on the A470; the Gelligemlyn improvement on the A470 was completed in April; the Porthmadog bypass was completed in October 2011; the Penloyn to Tan Lan scheme was completed in May 2011; the scheme to provide the bypass between Caernarfon and Bontnewydd is moving forward; and we have a project to improve the resilience of the A55. It is not just that, as we give £300,000 a year to Anglesey Airport as part of the funding of the Wales air service; the north-south journey times reduction project worth £44 million is under construction; and we have put £2.1 million into Rhyl station and £900,000 towards an accessible footbridge at Chirk. These are just some examples.

Gwnaf. Gallaf roi rhai enghreifftiau i'r Aelod. Mae cyllid wedi ei ymrwymo ac mae astudiaeth wedi cychwyn i ymchwilio i ddewisiadau tymor byr i wella capasiti ar bont Britannia; mae gwerth £40 miliwn o fuddsoddiad mewn gwelliannau mawr ar yr A55 sydd i'w cynnal rhwng 2012 a 2016; ym mis Hydref y llynedd, cwblhawyd gwelliant Maes yr Helmau i Cross Foxes gennym ar yr A470; cwblhawyd gwelliant Gelligemlyn ar yr A470 ym mis Ebrill; cwblhawyd ffordd osgoi Porthmadog ym mis Hydref 2011; cwblhawyd cynllun Penloyn i Dan Lan ym mis Mai 2011; mae'r cynllun i ddarparu'r ffordd osgoi rhwng Caernarfon a Bontnewydd yn symud ymlaen; ac mae gennym brosiect i wella cadernid yr A55. Nid yn unig hynny, gan ein bod yn rhoi £300,000 y flwyddyn i Faes Awyr Ynys Môn yn rhan o ariannu gwasanaeth awyr Cymru; mae prosiect lleihau amseroedd teithio rhwng y gogledd a'r de sydd werth £44 miliwn yn cael ei adeiladu; ac rydym ni wedi buddsoddi £2.1 miliwn yng ngorsaf y Rhyl a £900,000 mewn pont droed hygyrch yn y Waun. Rhai enghreifftiau yn unig yw'r rhain.

14:07 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I think my constituents in north Wales would have trouble distinguishing from that what your priorities are, but they do know that the A55 trunk road in north Wales has been affected by roadworks for 869 days in the last three years. The Federation of Small Businesses in the area confirms that delays on the A55 are resulting in higher costs to businesses. Hard-working families are also affected because of the cost to them in fuel while sitting in traffic delays. It also has the potential to harm tourism. Given that there have been 20 months of roadworks and of sitting in road delays in the last three years, when are you going to prioritise improvements to the A55 and look at turning it into a three-lane motorway?

Brif Weinidog, rwy'n meddwl y byddai fy etholwyr yn y gogledd yn cael trafferth yn dehongli o hynny beth yw eich blaenoriaethau, ond maen nhw'n gwybod bod cefnffordd yr A55 yn y gogledd wedi ei heffeithio gan waith ffordd am 869 o ddiwrnodau yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn yr ardal yn cadarnhau bod oedi ar yr A55 yn arwain at gostau uwch i fusnesau. Mae teuluoedd sy'n gweithio'n galed hefyd yn cael eu heffeithio oherwydd y gost iddynt o ran tanwydd tra eu bod yn eistedd mewn oediadau traffig. Mae'n bosibl y gallai niweidio twristiaeth hefyd. O gofio y bu 20 mis o waith ffordd ac o eistedd mewn oediadau ar y ffyrdd yn y tair blynedd diwethaf, pryd ydych chi'n mynd i flaenoriaethu gwelliannau i'r A55 ac ystyried ei throi'n draffordd tair lôn?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

The Member seems not to have listened to what I said. A £40 million investment in major improvements is being carried out on the A55 to improve the resilience and safety of the tunnels at Conwy, Penmaenbach and Pen-y-clip. The works are being carried out from 2012 to 2016. It is true to say that there have been delays and roadworks on the A55, but that is in order to improve the road in the first place. It is just not possible to improve the road without having some roadworks to facilitate that work to be carried out. The shortlist that I have given is an example of our commitment to improving transport infrastructure in the north.

Mae'n ymddangos na wrandawodd yr Aelod ar yr hyn a ddywedais. Mae buddsoddiad o £40 miliwn yn cael ei wneud mewn gwelliannau mawr sy'n cael eu cyflawni ar yr A55 i wella cadernid a diogelwch y twneli yng Nghonwy, Penmaenbach a Phen-y-clip. Mae'r gwaith yn cael ei wneud rhwng 2012 a 2016. Mae'n wir i ddweud y bu oediadau a gwaith ffordd ar yr A55, ond mae hynny er mwyn gwella'r ffordd yn y lle cyntaf. Nid yw'n bosibl gwella'r ffordd heb gael rhywfaint o waith ffordd i hwyluso'r gwaith hwnnw sydd i'w wneud. Mae'r rhestr fer a roddais yn enghraifft o'n hymrwymiad i wella seilwaith trafnidiaeth yn y gogledd.

14:09 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, in the Committee for the Scrutiny of the First Minister, which I joined last July—I am sure that you were delighted to know that I am on that committee, but there we go, you cannot always have what you want—I talked about the dualling of the Wrexham-to-Saltney railway line. Unlike my colleague from north Wales, Antoinette Sandbach, I think that we should be doing all we can to get more people off the roads and back onto public transport on the railways. Therefore, may I say that I was pleased to see that, following my scrutiny—it would have to be my scrutiny of that project—it has now gone ahead and that we have some £44 million being invested in the doubling of the railway infrastructure. First Minister, seriously, what impact will the Welsh Government be able to show that that will have on rail journey times from north to south, and what will this mean for the wider economy of north Wales?

Brif Weinidog, yn y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, yr ymunais ag ef fis Gorffennaf diwethaf—rwy'n siŵr eich bod wrth eich bodd o wybod fy mod i ar y pwyllgor hwnnw, ond dyna ni, allwch chi ddim cael yr hyn rydych chi ei eisiau bob amser—siaradais am ddeuoli rheilffordd Wrecsam i Saltney. Yn wahanol i'm cydweithiwr o'r gogledd, Antoinette Sandbach, rwy'n meddwl y dylem ni fod yn gwneud popeth y gallwn i gael mwy o bobl oddi ar y ffyrdd ac yn ôl ar gludiant cyhoeddus ar y rheilffyrdd. Felly, a gaf fi ddweud fy mod i'n falch o weld, yn dilyn fy nghraffu i—mae'n rhaid mai fy ngwaith craffu i ar y prosiect oedd hwn—ei fod wedi symud ymlaen erbyn hyn a bod gennym tua £44 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn neuoli'r seilwaith rheilffyrdd. Brif Weinidog, o ddifrif, pa effaith fydd Llywodraeth Cymru yn gallu ei dangos y bydd hynny'n ei chael ar amseroedd teithiau ar y rheilffordd o'r gogledd i'r de, a beth fydd hyn yn ei olygu i economi ehangach y gogledd?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, it will reduce journey times between Holyhead and Cardiff by approximately 16 minutes. It will also mean that an extra train every two hours will be able to be run between Holyhead and Cardiff via Wrexham in both directions. Of course, there have been problems in running trains from Wrexham to Chester, and some trains have had to go through Crewe because of the problems on the line. Five and a half miles of track is being redoubled between Rossett and Saltney junction. That will mean not only that there will be more trains, but that journey times will be significantly improved.

Mi fydd yn lleihau amseroedd teithio rhwng Caergybi a Chaerdydd o tua 16 munud. Bydd hefyd yn golygu bod trên ychwanegol bob dwy awr yn gallu rhedeg rhwng Caergybi a Chaerdydd drwy Wrecsam yn y ddau gyfeiriad. Wrth gwrs, bu problemau o ran rhedeg trenau o Wrecsam i Gaer, ac mae rhai trenau wedi gorfod mynd trwy Crewe oherwydd y problemau ar y rheilffordd. Mae pum milltir a hanner o drac yn cael ei ddeuoli rhwng yr Orsedd a chyffordd Saltney. Bydd hynny'n golygu y bydd mwy o drenau ac y bydd amseroedd teithio yn cael eu gwella'n sylweddol.

14:11 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n falch o fod wedi derbyn y llythyr gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, yn dilyn cais gennyf y dylai system dair lôn gael ei hystyried o ddifrif fel cam byrdymor. Nid wyf yn gwybod a yw'r Prif Weinidog yn ymwybodol o'r trafferthion trafnidiaeth dybryd yng nghyffiniau'r bont ar ochr Môn ar hyn o bryd oherwydd gwaith ailwynebu'r ffordd. Os caf i ddweud, mae'n rhaid ffeindio ffyrdd o wneud y gwaith hyn mewn modd sy'n creu llai o drafferthion i deithwyr ac yn cael llai o impact economaidd. A ydyw'r Prif Weinidog yn cytuno bod y trafferthion yr ydym yn eu gweld ar hyn o bryd yn cryfhau'r ddadl dros gymryd camau brys, o ystyried mai blaenoriaethau yr ydym yn sôn amdanynt, er mwyn gwella llif traffig dros Afon Menai yn y byrdymor?

I am pleased to have received this letter from the Minister for the Economy, Science and Transport following my request that a three-lane system on the Britannia bridge be considered seriously as a short-term measure. I do not know whether the First Minister is aware of the serious transport difficulties on the Anglesey side of the bridge at present because of resurfacing work on the road. If I may say so, we have to find a way of doing this work that causes less disruption to travellers and has less of an impact on the economy. Does the First Minister agree that the difficulties that we are seeing at present strengthen the case for taking urgent steps, bearing in mind that we are talking about priorities here, in order to improve traffic flow over the Menai river in the short term?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n ymwybodol ar lefel bersonol o'r problemau ar y bont. Mae'n anodd credu, fel bydd yr Aelod yn cofio, taw dim ond Pont Menai oedd gennym tan ryw 25 mlynedd yn ôl, gan mai pont reilffordd oedd Pont Britannia, a chafwyd problemau yn sgîl tân ar y bont yn y 1970au. Wrth ddweud hynny, rydym ni'n deall pa mor bwysig yw'r bont nid yn unig i Ynys Môn, ond i'r rheini sy'n teithio i Gaergybi er mwyn mynd i Iwerddon. Dyna pam mae astudiaeth yn mynd rhagddi ar hyn o bryd er mwyn gweld ym mha ffyrdd, yn y tymor byr, y gallwn ni sicrhau bod pethau'n gwella ar y bont.

I know personally of the problems on the bridge. It is difficult to believe that, as the Member will recall, as recently as 25 years ago, we had only the Menai suspension bridge, as the Britannia bridge was a rail bridge, which had experienced problems due to a fire on the bridge in the 1970s.Having said that, we do understand how important the bridge is not only to Anglesey but for those travelling to Holyhead in order to travel to Ireland. That is why a study is being undertaken at present to see in what ways, in the short term, we can ensure that things improve on the bridge.

14:12 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rwy'n croesawu'r buddsoddiad yn y rheilffordd rhwng Wrecsam a Chaer, ond, wrth gwrs, mae'r cynllun sy'n cael ei weithredu ar hyn o bryd yn wahanol i'r un y bu i Ann Jones graffu arno y llynedd. Y bwriad gwreiddiol oedd i leihau'r amser teithio rhwng Caergybi a Chaerdydd, a bod capasiti ychwanegol yn cael ei greu ar gyfer cysylltiadau i Lerpwl a Manceinion. Ni fydd hynny'n digwydd o dan y cynllun diwygiedig. Felly, a wnewch chi, fel Llywodraeth, addo i drigolion y gogledd-ddwyrain y byddwch chi'n edrych ar ehangu'r cynllun presennol fel bod y bwriad gwreiddiol yn cael ei roi unwaith eto mewn cynllun at y dyfodol?

First Minister, I welcome the investment in the rail line between Wrexham and Chester, but, of course, the plan being implemented at present is different to the plan that Ann Jones scrutinised last year. The original intention was that there should be a reduction in travel time between Holyhead and Cardiff, but also that there should be additional capacity created for links to Liverpool and Manchester. That will not happen under the revised plan. So, will you as a Government pledge to the people of north-east Wales that you will be looking at expanding the current programme so that the original proposals are brought back into future plans?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Gallaf ddweud wrth yr Aelod ein bod ni wedi comisiynu, gyda Merseytravel, astudiaethau er mwyn edrych ar wasanaethau uniongyrchol i Lerpwl, ac mae trafodaethau'n digwydd ar hyn o bryd gyda 'Northern and TransPennine trains', a gyda'r Adran Drafnidiaeth yn Llundain, er mwyn sicrhau bod pwysigrwydd cysylltiadau i Fanceinion yn enwedig, ac i Lerpwl, yn cael ei ystyried yn y blynyddoedd i ddod.

I can tell the Member that we have commissioned, together with Merseytravel, studies to look at direct services to Liverpool, and discussions are taking place at present with Northern and TransPennine trains with the Department for Transport in London in order to ensure that the importance of connections into Manchester in particular, and into Liverpool, is considered in future.

## Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

## The National Literacy and Numeracy Framework

14:13 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol? OAQ(4)1760(FM)*

*9. Will the First Minister make a statement on the National Literacy and Numeracy Framework? OAQ(4)1760(FM)*

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, the framework has been a statutory curriculum requirement from September of last year. It is central to achieving our aims of improving the teaching and learning of literacy and numeracy, and, of course, schools are being helped to implement it by a national programme of support.

Gwnaf. Mae'r fframwaith wedi bod yn ofyniad cwricwlwm statudol ers mis Medi y llynedd. Mae'n ganolog i gyflawni ein nodau o wella addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd, ac, wrth gwrs, mae ysgolion yn cael eu helpu i'w roi ar waith drwy raglen genedlaethol o gymorth.

14:14 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does the First Minister agree with me that the framework is essential to driving up standards in our schools and to providing information both for teachers and for parents? Would he also agree that one person who might benefit from reading the national literacy and numeracy framework would be the Secretary of State for Education in London, who would learn what a radical programme of school improvement we have under way here in Wales without need of free schools or academies?

A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â mi bod y fframwaith yn hanfodol i godi safonau yn ein hysgolion ac i ddarparu gwybodaeth i athrawon a rhieni? A fyddai hefyd yn cytuno mai un person a allai elwa o ddarllen y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol fyddai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn Llundain, a fyddai'n dysgu am y rhaglen ar gyfer gwella ysgolion yn sylfaenol sydd gennym ar y gweill yma yng Nghymru heb fod angen ysgolion rhydd neu academïau?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely. I much enjoyed the Gove-Lewis fight in the 'Western Mail' on Saturday; I am sure that we could have sold that on pay-per-view on satellite channels. I have no doubt who would win of course—Huw. The Member is absolutely right that the framework is absolutely crucial for teachers to be able to benchmark what they are doing, and —I can speak personally in this regard—it is absolutely crucial for parents to understand how their children are doing when compared with other children in the school and when compared with children across Wales. It is absolutely invaluable.

Yn hollol. Mwynheais yn fawr y frwydr Gove-Lewis yn y 'Western Mail' ddydd Sadwrn; rwy'n siŵr y gallem fod wedi ei gwerthu ar wasanaeth talu i wylio ar sianeli lloeren. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth pwy fyddai'n ennill, wrth gwrs—Huw. Mae'r Aelod yn llygad ei le bod y fframwaith yn gwbl hanfodol i athrawon allu meincnodi'r hyn maen nhw'n ei wneud, a—gallaf siarad yn bersonol yn hyn o beth —mae'n gwbl hanfodol i rieni ddeall sut mae eu plant yn gwneud o'u cymharu â phlant eraill yn yr ysgol ac o'u cymharu â phlant ledled Cymru. Mae'n gwbl amhrisiadwy.

14:15 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, Estyn has indicated that it will be some years before we see results from Government policy, but is there any early evidence of how action taken under the literacy element of the framework might affect pupils who are either taught through their second language, or who speak different languages at home?

Brif Weinidog, mae Estyn wedi nodi y bydd rhai blynyddoedd yn mynd heibio cyn y gwelwn ganlyniadau polisi'r Llywodraeth, ond a oes unrhyw dystiolaeth gynnar o sut y gallai camau a gymerwyd dan elfen llythrennedd y fframwaith effeithio ar ddisgyblion sydd naill ai'n cael eu haddysgu trwy eu hail iaith, neu sy'n siarad gwahanol ieithoedd gartref?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

No, there is no evidence of that. You will be aware, of course, of what is happening in schools where Welsh is the medium of instruction and where most of the children come from homes where Welsh is not spoken. There is certainly no indication that one or other of the languages that they speak is affected by the framework. Indeed, it is absolutely crucial that we are able to understand the progress of our children when compared with each other, so as to ensure that teachers are able to understand how to benchmark their own efforts and, if needs be, improve them.

Nac oes, nid oes unrhyw dystiolaeth o hynny. Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, o'r hyn sy'n digwydd mewn ysgolion lle mai'r Gymraeg yw'r cyfrwng dysgu a lle mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dod o gartrefi lle na siaredir y Gymraeg. Yn sicr, nid oes arwydd bod y naill na'r llall o'r ieithoedd y maen nhw'n ei siarad yn cael ei heffeithio gan y fframwaith. Yn wir, mae'n gwbl hanfodol ein bod yn gallu deall cynnydd ein plant o'u cymharu â'i gilydd, er mwyn sicrhau bod athrawon yn gallu deall sut i feincnodi eu hymdrechion eu hunain ac, os oes angen, eu gwella.

## Economi Gorllewin Cymru

## The West Wales Economy

14:15 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r economi yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1756(FM)*

*10. Will the First Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to support the economy in west Wales? OAQ(4)1756(FM)*

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Twf economaidd a swyddi cynaliadwy yw hanfod ein rhaglen lywodraethu. Rydym yn cymryd amrywiaeth eang o gamau i gefnogi busnes, gwella sgiliau a chryfhau ein seilwaith.

Economic growth and sustainable jobs are at the heart of our programme for government. Our actions are wide-ranging to support business, improve skills and strengthen our infrastructure.

14:16 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod y cytundeb mewn egwyddor hwn rhwng 'Murphy Oil Corporation' a'r prynwr yn gam anferth ymlaen i ddiogelu'r burfa olew yn Aberdaugleddau. Rwy'n falch bod eich Llywodraeth chi a Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi bod yn gweithio'n agos ar hyn, i gefnogi'r cwmni a'r gweithlu; rwy'n gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn, wrth gwrs. Nid yw'r gwerthiant wedi ei gwblhau eto ac mae rhai heriau o'n blaenau, ond pa gamau penodol pellach mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod y gwerthiant yn mynd yn ei flaen?

First Minister, I am sure that you will agree that the agreement in principle between Murphy Oil Corporation and the purchaser is a huge step forward for safeguarding the oil refinery at Milford Haven. I am pleased that your Government and the UK Government have been working closely on this, to support the company and the workforce; I appreciate this very much, of course. The sale has not yet been completed and there are some challenges ahead, but what further specific steps is Welsh Government taking to ensure that the sale does progress?

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hynny'n anodd i'w wneud. Mae llawer o'r trafodaethau yn gyfrinachol yn fasnachol. Mae'n wir dweud bod cysylltiad cryf wedi bod rhyngom ni a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n rhaid cael 'input' o'r Trysorlys er mwyn sicrhau bod unrhyw becyn yn effeithiol. Rydym wedi symud i'r cam nesaf ac wedi cymryd cam yn y cyfeiriad iawn, ond mae'n wir dweud bod llawer o waith i'w wneud eto. Mae'n bwysig pwysleisio hynny. Byddwn, wrth gwrs, yn gweithio gydag unrhyw un, a chyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu symud ymlaen i sefyllfa lle mae swyddi wir yn cael eu diogelu.

That is difficult to do. Much of the negotiation is commercially confidential. It is true to say that there has been a strong relationship between us and the UK Government. We need Treasury input to ensure that any package is effective. We have moved to the next phase and taken a step in the right direction, but it is true to say that there is a lot of work to be done. It is important to stress that. We will, of course, work with anyone, and with the UK Government, to ensure that we are able to move to a situation where jobs are truly safeguarded.

14:17 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I want to reiterate people's delight at the news of the breakthrough sale, although it has not been completed, of the Murco oil refinery and what that really means to the economy of the area. I recognise that there is an awful lot of work to do, but I also want to recognise the part that everyone has played in getting to where we are. The special taskforce that was set up by the Welsh Government has helped, in no small measure, to secure a deal. However, I would like you, First Minister, to give me some assurances that those people who are currently around the table, particularly the trade union membership, will still be around the table as we go through the negotiation process and that their voices will be heard.

Brif Weinidog, hoffwn ail-bwysleisio llawenydd pobl am y newyddion am werthiant arloesol, er nad yw wedi ei gwblhau, purfa olew Murco a'r hyn y mae wir yn ei olygu i economi'r ardal. Rwy'n cydnabod bod llawer iawn o waith i'w wneud, ond rwyf hefyd eisiau cydnabod y rhan y mae pawb wedi ei chwarae i gyrraedd lle'r ydym ni. Mae'r tasglu arbennig a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru wedi helpu, i raddau helaeth, i sicrhau cytundeb. Fodd bynnag, hoffwn i chi, Brif Weinidog, roi rhywfaint o sicrwydd i mi y bydd y bobl hynny sydd o amgylch y bwrdd ar hyn o bryd, yn enwedig aelodau'r undebau llafur, yn dal i fod o amgylch y bwrdd wrth i ni fynd drwy'r broses trafod ac y bydd eu lleisiau yn cael eu clywed.

14:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is important, of course, that the voice of the workforce is heard. Again, I have to say to the Member that things have moved forward one step in the right direction, but there is much work to be done yet, particularly with regard to the due diligence checks that one would expect. Of course, as I said earlier to the Member for Preseli Pembrokeshire, there is also a need to ensure that the Treasury input up until now is maintained.

Mae'n bwysig, wrth gwrs, bod llais y gweithlu yn cael ei glywed. Unwaith eto, mae'n rhaid i mi ddweud wrth yr Aelod bod pethau wedi symud ymlaen un cam i'r cyfeiriad cywir, ond mae llawer o waith i'w wneud eto, yn enwedig o ran y gwiriadau diwydrwydd dyladwy y byddai rhywun yn ei ddisgwyl. Wrth gwrs, fel y dywedais wrth yr Aelod dros Breseli Sir Benfro yn gynharach, mae angen sicrhau hefyd bod mewnbwn y Trysorlys hyd yn hyn yn cael ei gynnal.

14:19 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Tra fy mod i hefyd yn croesawu'r newyddion am Murco, rwyf eisiau tynnu'ch sylw at ddiwydiant arall sydd o bwys yn sir Benfro, a fy rhanbarth i, sef pysgota, a'r cynnig gan y Comisiwn Ewropeaidd ynglŷn â rhwydi drifft. Mae hwn yn gynnig sydd wedi dod fel tipyn o ergyd a sioc i'r rhai sy'n ymarfer hyn. A ydych wedi cael cyfle i edrych ar y cynnig hwn ynglŷn â'r ddeddfwriaeth ar rwydi drifft? Yn benodol, a yw'n gymesur â'r hyn sy'n digwydd yng nghyd-destun Cymru, lle mae llawer o bysgota yn agos i'r lan, wrth gwrs? Pa gamau ydych yn eu cymryd, trwy Lywodraeth San Steffan, i ddwyn perswâd ar y Comisiwn Ewropeaidd i ddysgu'r gwersi o bysgota cynaliadwy sy'n digwydd yng Nghymru?

While I, too, welcome the news about Murco, I want to draw your attention to another industry that is important in Pembrokeshire, and in my region, namely fishing, and the proposal by the European Commission on drift nets. This is a proposal that has come as a bit of a blow and shock to those who work in this way. Have you had an opportunity to look at this proposal regarding the legislation on drift nets? Specifically, is it proportionate in terms of what happens in the Welsh context, where much of the fishing is inshore, of course? What steps are you taking, through the Westminster Government, to persuade the European Commission to learn the lessons of sustainable fishing in Wales?

14:19 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n gwybod bod y Gweinidog yn ymwybodol o hyn a'i fod wedi trafod y mater yn uniongyrchol gyda'r Comisiwn er mwyn sicrhau ei fod yn deall beth sy'n berthnasol i Gymru. Wrth gwrs, gobeithio y bydd hynny'n cael ei ystyried gan y Comisiwn wrth iddo wneud penderfyniad terfynol.

I know that the Minister is aware of this and has discussed the matter directly with the Commission in order to ensure that they understand what is relevant to Wales. Of course, I hope that that will be considered by the Commission in making its final decision.

14:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:20

## Datganiad Personol

## Personal Statement

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

In accordance with Standing Order 12.52, I have received a request from the Minister for Natural Resources and Food to make a personal statement. I call the Minister, Alun Davies.

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.52, rwyf wedi derbyn cais gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd i wneud datganiad personol. Galwaf ar y Gweinidog, Alun Davies.

14:20 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer; I am grateful to you for allowing this personal statement.

Diolch i chi, Lywydd; rwy'n ddiolchgar i chi am ganiatáu'r datganiad personol hwn.

As Members will know, in seeking to further the interests of my constituents, questions were raised about possible conflict with my role as a Minister. The First Minister commissioned an inquiry to establish all the relevant facts, and he concluded that I did, in fact, breach some specific elements of the ministerial code. I have already apologised to the First Minister and would like to do so again now for the public record.

Fel y gŵyr yr Aelodau, wrth geisio hybu buddiannau fy etholwyr, codwyd cwestiynau ynghylch gwrthdaro posibl gyda fy swyddogaeth fel Gweinidog. Comisiynodd y Prif Weinidog ymchwiliad i ddarganfod yr holl ffeithiau perthnasol, a daeth i'r casgliad fy mod i, mewn gwirionedd, wedi torri rhai elfennau penodol o'r cod gweinidogol. Rwyf eisoes wedi ymddiheuro i'r Prif Weinidog a hoffwn wneud hynny eto nawr ar gyfer y cofnod cyhoeddus.

My intention was to promote the interests of my constituents as faithfully as possible. However, I recognise that Ministers need to take special care in managing constituency interests, and I regret that, on this occasion, I did not exercise sufficient care to maintain a clear perception of full separation of my ministerial role and my role as a constituency Assembly Member. I note, however, that my comments had no influence on the final view of Natural Resources Wales regarding the Circuit of Wales planning application.

Fy mwriad oedd hybu buddiannau fy etholwyr mewn modd mor union gywir â phosibl. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod angen i Weinidogion gymryd gofal arbennig wrth reoli buddiannau etholaeth, ac mae'n ddrwg gennyf nad oeddwn, ar yr achlysur hwn, yn ddigon gofalus i gynnal canfyddiad eglur o wahaniad llawn fy swyddogaeth weinidogol a fy swyddogaeth fel Aelod Cynulliad etholaethol. Rwy'n sylwi, fodd bynnag, na chafodd fy sylwadau unrhyw ddylanwad ar farn derfynol Cyfoeth Naturiol Cymru o ran cais cynllunio Cylchffordd Cymru.

I am proud to serve my constituency of Blaenau Gwent and I am proud to serve this Government as a Minister. I will continue to fulfil both roles with all my energy.

Rwy'n falch o wasanaethu fy etholaeth ym Mlaenau Gwent ac rwy'n falch o wasanaethu'r Llywodraeth hon fel Gweinidog. Byddaf yn parhau i gyflawni'r ddwy swyddogaeth gyda'm holl egni.

14:21

## Pwynt o Drefn

## Point of Order

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I raise a point of order under Standing Orders 12.4 and 12.17. It is clear that the Welsh Government is in possession of a document that is relevant to items on this afternoon's agenda, but that it has not yet published it. I also note that the First Minister issued a written statement at 12.01 p.m. referring to a document that is yet to be published. I seek your guidance in whether this is in line with Standing Orders.

Codaf bwynt o drefn dan Reolau Sefydlog 12.4 a 12.17. Mae'n amlwg bod Llywodraeth Cymru yn meddu ar ddogfen sy'n berthnasol i eitemau ar agenda y prynhawn yma, ond nad yw wedi ei chyhoeddi eto. Nodaf hefyd bod y Prif Weinidog wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig am 12:01 p.m. yn cyfeirio at ddogfen nad yw wedi ei chyhoeddi eto. Gofynnaf am eich arweiniad o ran a yw hyn yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

14:22

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I am always concerned to ensure that Members have all the information that they need to support them in holding Ministers to account. However, the timing of the release of this report was a matter for the First Minister.

Rwyf bob amser yn awyddus i sicrhau bod yr Aelodau'n cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i'w cefnogi wrth ddwyn Gweinidogion i gyfrif. Fodd bynnag, mater i'r Prif Weinidog oedd amseriad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

14:22

## Cwestiwn Brys: Prosiect Cylchffordd Cymru

## Urgent Question: Circuit of Wales Project

Y

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Andrew R.T. Davies to ask the urgent question.

Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Andrew R.T. Davies i ofyn cwestiwn brys.

14:22

### Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ymchwiliad yr Ysgrifennydd Parhaol i'r camau a gymerodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd mewn perthynas â phrosiect Cylchffordd Cymru? EAQ(4)1775(FM)*

*Will the First Minister make a statement on the Permanent Secretary's investigation into the actions of the Minister for Natural Resources and Food in connection with the Circuit of Wales project? EAQ(4)1775(FM)*

14:22

### Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That statement was made at midday.

Gwnaed y datganiad hwnnw am hanner dydd.

14:22

### Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

A cynic might say that, 45 minutes after the announcement of job losses at Tata, today was a good day to bury bad news. [Interruption.]

Byddai sinig yn dweud bod heddiw, 45 munud ar ôl y cyhoeddiad am golli swyddi yn Tata, yn ddiwrnod da i gladdu newyddion drwg. [Torri ar draws.]

14:23

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Order.

Trefn.

14:23 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The opposition parties took the First Minister at his word and allowed 14 days for this report to be put together. We have waited another seven days, but we have not had an opportunity to see the report before considering the statement. I notice that the Minister's statement today referred to the fact that 'some' aspects had been breached, yet the statement released by the First Minister said that the code had been broken—categorically, with no grey areas. If the First Minister is not prepared to remove the Minister, the Minister should do the honourable thing and return to the back benches, because the ministerial code has been broken. First Minister, in light of the Permanent Secretary's findings, what does a Minister have to do in your Government to have his or her ministerial portfolio removed if they breach the ministerial code?

Cymerodd y gwrthbleidiau y Prif Weinidog ar ei air gan ganiatáu 14 diwrnod i'r adroddiad hwn gael ei lunio. Rydym ni wedi aros saith diwrnod arall, ond nid ydym wedi cael cyfle i weld yr adroddiad cyn ystyried y datganiad. Sylwaf fod datganiad y Gweinidog heddiw yn cyfeirio at y ffaith bod 'rhai' agweddau wedi eu torri, ac eto mae'r datganiad a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog yn dweud bod y cod wedi'i dorri—yn bendant, heb unrhyw amwyseddau. Os nad yw'r Prif Weinidog yn barod i gael gwared ar y Gweinidog, dylai'r Gweinidog wneud y peth anrhydeddus a dychwelyd i'r meinciau cefn, gan fod y cod gweinidogol wedi'i dorri. Brif Weinidog, yng ngoleuni canfyddiadau'r Ysgrifennydd Parhaol, beth mae'n rhaid i Weinidog ei wneud yn eich Llywodraeth chi i golli ei bortffolio gweinidogol os yw'n torri'r cod gweinidogol?

14:23 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is within my judgment. I am surprised that he thinks that, in some way, Tata had anything to do with this. I can tell him that the Commission was informed at 10 a.m. that this statement would be forthcoming—if I remember rightly, that was before the Tata announcement. So, it is simply not the case to suggest that, somehow, this statement was released on the back of the Tata announcement.

Mae hynny yn fy nyfarniad. Rwy'n synnu ei fod yn credu, rywsut, bod gan Tata unrhyw beth i'w wneud â hyn. Gallaf ddweud wrtho yr hysbyswyd y Comisiwn am 10 a.m. y byddai'r datganiad hwn yn cael ei gyhoeddi—os cofiaf yn iawn, roedd hynny cyn cyhoeddiad Tata. Felly, nid yw'n wir i awgrymu, rywsut, y cyhoeddwyd y datganiad hwn yn sgil cyhoeddiad Tata.

I can say to the leader of the opposition that I received this report on Wednesday of last week, when I was in Brussels. It was then prudent, of course, to examine the contents of that report and to come back here on Tuesday, which is why I was here to answer the First Minister's questions. I am sure that if the report had been released on a Saturday or a Monday, the leader of the opposition would have been more than critical—rightly so—but he cannot have it both ways. I made it quite clear that the report would be with me within 14 days. I did not say that I would take a decision within 14 days, because I had to consider the report first. That is something that I have done, and today was the appropriate day, in my judgment, to release a written statement and to deal with the matter, in order to allow Members, as they have done, to ask questions in First Minister's questions.

Gallaf ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid i mi dderbyn yr adroddiad hwn ddydd Mercher yr wythnos diwethaf, pan roeddwn i ym Mrwsel. Roedd yn ddoeth bryd hynny, wrth gwrs, i archwilio cynnwys yr adroddiad hwnnw ac i ddod yn ôl yma ddydd Mawrth, a dyna pam roeddwn i yma i ateb y cwestiynau i'r Prif Weinidog. Rwy'n siŵr, pe byddai'r adroddiad wedi ei gyhoeddi ar ddydd Sadwrn neu ddydd Llun, y byddai arweinydd yr wrthblaid wedi bod yn fwy na beirniadol—a hynny'n haeddiannol—ond ni all ei chael hi bob ffordd. Fe'i gwnes hi'n gwbl eglur y byddai'r adroddiad gyda mi o fewn 14 diwrnod. Ni ddywedais y byddwn yn gwneud penderfyniad o fewn 14 diwrnod, gan fod yn rhaid i mi ystyried yr adroddiad yn gyntaf. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf wedi ei wneud, a heddiw oedd y diwrnod priodol, yn fy marn i, i gyhoeddi datganiad ysgrifenedig ac ymdrin â'r mater, er mwyn caniatáu i'r Aelodau, fel y maen nhw wedi ei wneud, ofyn cwestiynau yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog.

14:25 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n mynd i ddyfynnu o'r cod, Brif Weinidog, felly rwy'n mynd i siarad yn Saesneg, gan mai yn Saesneg yn unig mae'r cod ar gael.

I am going to quote from the code, First Minister, so I will speak in English, as the code is only available in English.

We still await the publication of the report to you on the breach of the ministerial code, which has now been acknowledged by the Minister himself. Can you, therefore, confirm to the Chamber my interpretation that there were four clear breaches of the code? First, on 4.4 and the obligation to consult with the First Minister when there is a conflict of interest between constituency and ministerial points of view, you have already confirmed that that did not happen. Can you confirm also that there was no consultation with the private office and advisers to the Minister on that?

Rydym ni'n dal i aros am gyhoeddiad yr adroddiad i chi ar y toriad o'r cod gweinidogol, sydd bellach wedi ei gydnabod gan y Gweinidog ei hun. A allwch chi, felly, gadarnhau i'r Siambr fy nehongliad i bod pedwar toriad eglur o'r cod? Yn gyntaf, ar 4.4 a'r ymrwymiad i ymgynghori â'r Prif Weinidog pan fydd gwrthdaro buddiannau rhwng safbwyntiau etholaeth a gweinidogol, rydych chi eisoes wedi cadarnhau na ddigwyddodd hynny. A allwch chi gadarnhau hefyd na fu unrhyw ymgynghori â'r swyddfa breifat a chynghorwyr i'r Gweinidog ar hynny?

On further breaches, under 4.7, first, it says that any Minister must

Ar doriadau pellach o dorri'r cod, dan 4.7, yn gyntaf, mae'n dweud bod yn rhaid i unrhyw Weinidog

‘represent the views of their electorate rather than express a view themselves’.

gynrychioli barn ei etholwyr yn hytrach na mynegi ei farn ei hun.

The Minister clearly expressed his own view in the letter that he wrote to Natural Resources Wales.

Mynegodd y Gweinidog ei farn ei hun yn eglur yn y llythyr a ysgrifennodd at Cyfoeth Naturiol Cymru.

On a further breach, 4.7 states that Ministers must

Ar doriad arall, mae 4.7 yn datgan bod yn rhaid i Weinidogion

‘ensure that their comments are made available to the other parties’.

sicrhau bod eu sylwadau yn cael eu rhoi ar gael i'r partïon eraill.

I am not aware of any evidence that the comments that the Minister made were available to other parties.

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth fod y sylwadau a wnaeth y Gweinidog ar gael i bartïon eraill.

Finally, on the most egregious breach of the code, under 4.10(d), it states that when

Yn olaf, ar y toriad mwyaf dybryd o’r cod, dan 4.10 (d), mae'n nodi

‘the determination of a planning application’—

bydd penderfynu ar gais cynllunio—

this is a planning application—

mae hwn yn gais cynllunio—

‘will lead to, or will implicitly involve, other decisions or judgements in which the Minister making representations is involved…then that Minister should not make any comment of his or her own’.

yn arwain at, neu’n cynnwys yn ddealledig, penderfyniadau neu ddyfarniadau eraill y mae'r Gweinidog sy’n gwneud sylwadau yn ymwneud â nhw...yna ni ddylai’r Gweinidog hwnnw wneud unrhyw sylw ei hun.

The fact that the Minister is not the deciding Minister on a planning issue does not obviate him from the obligations under this code not to make his own comments to bodies that are giving advice on a planning application or on the determination of a planning application involving

Nid yw'r ffaith mai nad y Gweinidog yw’r Gweinidog sy’n gwneud y penderfyniad ar fater cynllunio yn golygu nad oedd yn rhaid iddo gydymffurfio â’r ymrwymiadau dan y cod hwn i beidio â gwneud ei sylwadau ei hun i gyrff sy'n rhoi cyngor ar gais cynllunio neu ar benderfynu cais cynllunio sy'n cynnwys

‘other decisions or judgements in which the Minister making representations is involved’.

penderfyniadau neu ddyfarniadau eraill y mae'r Gweinidog sy’n gwneud sylwadau yn ymwneud â nhw.

That is the clear position that that Minister is in. There are four breaches of the code. Can you confirm that, First Minister?

Dyna'r sefyllfa eglur y mae’r Gweinidog hwnnw ynddi, Ceir pedwar achos o dorri’r cod. A allwch chi gadarnhau hynny, Brif Weinidog?

If you do confirm that, can you confirm on what basis, therefore, the Minister did not resign, after trampling over the ministerial code, or that you did not sack him? If that is the case today, are you going to simply rip up this ministerial code, because it is not worth the paper that it is printed on?

Os ydych chi’n cadarnhau hynny, a allwch chi gadarnhau ar ba sail, felly, na wnaeth y Gweinidog ymddiswyddo, ar ôl sathru ar y cod gweinidogol, neu pam na wnaethoch chi ei ddiswyddo? Os mai dyna’r achos heddiw, a ydych chi’n mynd i rwygo’r cod gweinidogol hwn, gan nad yw werth y papur y mae wedi ei argraffu arno?

14:27 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Oh, the drama, the drama. He gets several things wrong there. First of all, the Minister was not involved as the decision taker in a planning application. [Interruption.] Nevertheless, it is correct to say that, in the ministerial code, it says that care must be taken to distinguish the role of an AM from a Minister in that regard. In the report, which is now available in the Library, Members will see how the Permanent Secretary resolved that issue or dealt with that issue.

O, y ddrama, y ddrama. Mae'n cael nifer o bethau'n anghywir yna. Yn gyntaf oll, nid oedd y Gweinidog yn cymryd rhan fel y sawl sy'n gwneud penderfyniad ar gais cynllunio. [Torri ar draws.] Serch hynny, mae'n gywir i ddweud, yn y cod gweinidogol, ei fod yn dweud bod yn rhaid bod yn ofalus i wahaniaethu rhwng swyddogaeth AC oddi wrth swyddogaeth Gweinidog yn hynny o beth. Yn yr adroddiad, sydd ar gael yn y Llyfrgell erbyn hyn, bydd yr Aelodau yn gweld sut y gwnaeth yr Ysgrifennydd Parhaol benderfynu neu ymdrin â'r mater hwnnw.

To my mind, there were some breaches of the ministerial code; in my judgment, they were not so serious as to justify the Minister being removed from his post. It is right to say that Ministers should take care to ensure that it is absolutely explicit that they are acting as Assembly Members. The communications sent by the Minister for Natural Resources and Food were sent from his AM box, although it was not made explicitly clear that they were in his capacity as an AM. I think that, acting in an excess of caution, that is always good practice. There is no suggestion that there was any influence on Natural Resources Wales's final view when it came to the planning application at the Circuit of Wales, and that, of course, is important. If there had been a suggestion that there had been influence, then matters might have been somewhat different.

Yn fy marn i, roedd rhai toriadau o'r cod gweinidogol; yn fy marn i, nid oeddent yn ddigon difrifol i gyfiawnhau diswyddo'r Gweinidog. Mae'n iawn i ddweud y dylai Gweinidogion gymryd gofal i sicrhau ei bod yn gwbl eglur eu bod yn gweithredu fel Aelodau'r Cynulliad. Anfonwyd y cyfathrebiadau a anfonwyd gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd o'i flwch AC, er na chafodd ei wneud yn gwbl eglur eu bod yn rhinwedd ei swydd fel AC. Credaf, gan ymddwyn â gormodedd o ofal, bod hynny'n arfer da bob amser. Nid oes unrhyw awgrym bod unrhyw ddylanwad ar farn derfynol Cyfoeth Naturiol Cymru pan ddaeth i'r cais cynllunio yng Nghylchffordd Cymru, ac mae hynny, wrth gwrs, yn bwysig. Pe byddai awgrym y bu dylanwad, yna efallai y byddai pethau wedi bod ychydig yn wahanol.

There is no ban on Ministers making representations on planning issues; I know that Plaid Cymru Ministers did so in the course of the last Government. Nevertheless, they have to make it clear that they are acting as Assembly Members; it is perfectly proper that Ministers are able to do that. If Ministers are Ministers for planning, clearly, they cannot make representations with regard to planning matters, but there is no ban on Ministers making representations in their capacity as Assembly Members on constituency issues. It is simply wrong to say that. It is not in the code; I would advise the Member to read the code carefully. [Interruption.] It does not say that. What it says is that Ministers have to take particular care to ensure that they formally separate their roles as AMs from their roles as Ministers.

Nid oes gwaharddiad ar Weinidogion yn gwneud sylwadau ar faterion cynllunio; rwy'n gwybod bod Gweinidogion Plaid Cymru wedi gwneud hynny yn ystod y Llywodraeth ddiwethaf. Serch hynny, mae'n rhaid iddynt ei gwneud yn eglur eu bod yn gweithredu fel Aelodau'r Cynulliad; mae'n gwbl briodol bod Gweinidogion yn gallu gwneud hynny. Os yw Gweinidogion yn Weinidogion cynllunio, yn amlwg, ni chânt wneud sylwadau ar faterion cynllunio, ond nid oes gwaharddiad ar Weinidogion yn gwneud sylwadau yn rhinwedd eu swydd fel Aelodau Cynulliad ar faterion etholaethol. Mae dweud hynny'n gwbl anghywir. Nid yw yn y cod; byddwn yn cynghori'r Aelod i ddarllen y cod yn ofalus. [Torri ar draws.] Nid yw'n dweud hynny. Yr hyn y mae'n ei ddweud yw bod yn rhaid i Weinidogion gymryd gofal arbennig i sicrhau eu bod yn gwahanu eu swyddogaethau fel ACau oddi wrth eu swyddogaethau fel Gweinidogion yn ffurfiol.

14:29 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, would you not accept the point, regardless of whether Natural Resources Wales felt that it was as a result of the communication with the Assembly Member for Blaenau Gwent, that it completely changed its position on the Circuit of Wales—an earlier position that it had spent many months in consideration of? The fact that that communication happened at all is the point in question here. Secondly, I am very pleased that you took the step of asking the Permanent Secretary to provide a report for you. This is very welcome and it is moving towards a system that I have long advocated, as has my party. What we need is someone completely independent of Government to police the ministerial code. Would you now agree to look again at the prospect of appointing someone independent of your Government, and independent of the civil service, to police the ministerial code? After all, if the next complaint was about your behaviour, how would that decision be taken?

Brif Weinidog, oni fyddech chi'n derbyn y pwynt, waeth beth oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei deimlo oedd canlyniad y cyfathrebiad gydag Aelod y Cynulliad dros Flaenau Gwent, ei fod wedi newid ei safbwynt ar Gylchffordd Cymru yn llwyr—safbwynt cynharach yr oedd wedi treulio misoedd lawer yn ei ystyried? Y ffaith bod y cyfathrebiad hwnnw wedi digwydd o gwbl yw'r pwynt dan sylw yma. Yn ail, rwy'n falch iawn eich bod wedi cymryd y cam o ofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol ddarparu adroddiad i chi. Mae hyn i'w groesawu'n fawr ac yn symud tuag at system rwyf wedi ei hyrwyddo ers amser maith, fel y mae fy mhlaid. Yr hyn sydd ei angen arnom yw rhywun cwbl annibynnol ar y Llywodraeth i blismona'r cod gweinidogol. A wnewch chi gytuno nawr i edrych eto ar y posibilrwydd o benodi rhywun sy'n annibynnol ar eich Llywodraeth, ac yn annibynnol ar y gwasanaeth sifil, i blismona'r cod gweinidogol? Wedi'r cyfan, pe byddai'r gŵyn nesaf am eich ymddygiad chi, sut fyddai'r penderfyniad hwnnw'n cael ei wneud?

14:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That decision is taken by the electorate and those who elect the Government. It is my job to police the ministerial code, as it is in Westminster. It is David Cameron, the Prime Minister, who has the responsibility to look to police the ministerial code and to take decisions as to whether Ministers remain in place or not. That is what the Conservatives agree. There is no point claiming that they do not agree with it; that is what their own party does in Government in London. On this occasion—I do not believe that this has happened before—I took the view that it was important that the facts were investigated by the Permanent Secretary and that he was able to present those facts in an objective way to me in order for me to take the final decision. As I have said, that report now rests in the Library. I was not obliged to publish that report, but I took the view that it was a courtesy to Members that I should, and that report has indeed been published. I am sure that if the Conservatives and Lib Dems had been in this position in London, they would never have published the report. I took the view that I should do so, and Members are able to form their own judgments based on that report.

Caiff y penderfyniad ei wneud gan yr etholwyr a'r rhai sy'n ethol y Llywodraeth. Fy nghyfrifoldeb i yw plismona'r cod gweinidogol, fel y mae yn San Steffan. David Cameron, Prif Weinidog y DU, sy'n gyfrifol am blismona'r cod gweinidogol a gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylai Gweinidogion aros yn eu swyddi ai peidio. Dyna mae'r Ceidwadwyr yn ei gytuno. Nid oes diben honni nad ydynt yn cytuno ag ef; dyna beth mae eu plaid eu hunain yn ei wneud mewn Llywodraeth yn Llundain. Ar yr achlysur hwn —nid wyf yn credu bod hyn wedi digwydd o'r blaen— roeddwn i o'r farn ei bod yn bwysig bod y ffeithiau'n cael eu hymchwilio gan yr Ysgrifennydd Parhaol a'i fod yn gallu cyflwyno'r ffeithiau hynny mewn ffordd wrthrychol i mi er mwyn i mi i wneud y penderfyniad terfynol. Fel yr wyf wedi dweud, mae'r adroddiad hwnnw yn nwylo'r Llyfrgell bellach. Nid oedd yn rhaid i mi gyhoeddi'r adroddiad hwnnw, ond roeddwn i o'r farn ei fod yn gwrteisi i Aelodau i mi wneud hynny, ac mae'r adroddiad hwnnw wedi cael ei gyhoeddi yn wir. Rwy'n siŵr pe byddai'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi bod yn y sefyllfa hon yn Llundain, na fyddent fyth wedi cyhoeddi'r adroddiad. Cymerais y farn y dylwn i wneud hynny, a gall yr Aelodau ffurfio eu barn eu hunain yn seiliedig ar yr adroddiad hwnnw.

14:31 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, when I wrote to you about this issue, I requested the release of information and communications. That, effectively, operates as a request under the Freedom of Information Act 2000, but it has not been complied with. I think that it is relevant that the Minister is the Minister for the environment and that this project will result in 750,000 cubic tonnes of peat being excavated. At the point that the Minister wrote to Natural Resources Wales, it was opposed to this project. He wrote on 13 June, 'Thank you Graham.' Graham is an employee of Natural Resources Wales.

Brif Weinidog, pan ysgrifennais atoch chi am y mater hwn, gofynnais i wybodaeth a chyfathrebiadau gael eu cyhoeddi. Mae hynny, yn effeithiol, yn gweithredu fel cais dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ond ni chydymffurfiwyd â hi. Rwy'n meddwl ei bod yn berthnasol mai Gweinidog yr amgylchedd yw'r Gweinidog ac y bydd y prosiect hwn yn arwain at gloddio 750,000 tunnell giwbig o fawn. Ar yr adeg yr ysgrifennodd y Gweinidog at Cyfoeth Naturiol Cymru, roedd yn gwrthwynebu'r prosiect hwn. Ysgrifennodd ar 13 Mehefin, 'Diolch Graham.' Mae Graham yn aelod o staff Cyfoeth Naturiol Cymru.

'This second letter does begin to move us in the right direction. I do appreciate that and I am grateful to you for taking the time to review these matters.

Mae'r ail lythyr yn dechrau ein symud ni i'r cyfeiriad cywir. Rwy'n gwerthfawrogi hynny ac rwy'n ddiolchgar i chi am gymryd yr amser i adolygu'r materion hyn.

However I remain very concerned with the processes at work within NRW in this matter. In addition I do not believe that the current NRW position does reflect the totality of the statutory duties and the demands of the remit letter provided to NRW by the Welsh Government.'

Fodd bynnag, rwy'n dal yn bryderus iawn am y prosesau sydd ar waith yn CNC o ran y mater hwn. Hefyd, nid wyf yn credu bod safbwynt cyfredol y CNC yn adlewyrchu cyfanrwydd y dyletswyddau statudol a gofynion y llythyr cylch gwaith a ddarparwyd i CNC gan Lywodraeth Cymru.

In fact, the remit letter is provided by your Minister for the environment. He is the one who decides on the budget that is allocated to Natural Resources Wales. If it looks like a threat, it sounds like a threat. Some people— and I will leave this to the public to decide—may decide that it is a threat. First Minister, you are a lame duck Government, with a lame duck Minister, and your Minister should resign.

Mewn gwirionedd, darperir y llythyr cylch gwaith gan eich Gweinidog yr amgylchedd. Ef yw'r un sy'n penderfynu ar y gyllideb a ddyrennir i Cyfoeth Naturiol Cymru. Os yw'n edrych fel bygythiad, mae'n swnio fel bygythiad. Efallai y bydd rhai pobl—a byddaf yn gadael hyn i'r cyhoedd benderfynu—yn penderfynu ei fod yn fygythiad. Brif Weinidog, rydych chi'n Llywodraeth gloff â Gweinidog cloff, a dylai eich Gweinidog ymddiswyddo.

14:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I am sure that the Member's comments would have carried more weight had she not tweeted immediately that this was the working of a south Wales Taffia. It shows part of her obsession that there is a conspiracy against the north of Wales on behalf of the south, which is something that she should really put to one side. I believe in one nation of Wales, not trying to divide it, as she does through her own tweets.

Rwy'n siŵr y byddai mwy o bwys i sylwadau'r Aelod pe na byddai wedi trydar yn syth mai gwaith Taffia de Cymru oedd hyn. Mae'n dangos rhan o'i hobsesiwn bod cynllwyn gan y de yn erbyn y gogledd, sy'n rhywbeth y dylai wir ei roi o'r neilltu. Rwy'n credu mewn Cymru un genedl, nid ceisio ei rhannu, fel y mae hi'n ei wneud trwy ei thrydaru ei hun.

As far as the issue that she has raised is concerned, I note the fact that the communication was sent by the Minister in the middle of June, and that NRW made its final position known in the middle of August. So, it is not as if the decision was changed in a matter of days or weeks afterwards; that is simply not the case. As far as the issue is concerned, the matters to which she referred at the very beginning of her questions have been dealt with in the report and she is more than welcome to access that report where she will find the information that she is looking for.

Cyn belled ag y mae'r mater a godwyd ganddi yn y cwestiwn, sylwaf ar y ffaith yr anfonwyd y cyfathrebiad gan y Gweinidog yng nghanol mis Mehefin, ac y gwnaeth CNC ei safbwynt terfynol yn hysbys yng nghanol mis Awst. Felly nid yw fel pe byddai'r penderfyniad wedi cael ei newid mewn mater o ddiwrnodau neu wythnosau wedyn; nid yw hynny'n wir. Cyn belled ag y mae'r mater yn y cwestiwn, mae'r materion y cyfeiriodd atynt ar ddechrau ei chwestiynau wedi cael eu trafod yn yr adroddiad ac mae pob croeso iddi ddarllen yr adroddiad hwnnw lle bydd yn dod o hyd i'r wybodaeth y mae'n chwilio amdani.

14:34 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Despite your statement this afternoon, there are naturally going to be question marks around the independent status of NRW, particularly in the minds of the public. There were concerns when looking at the establishment of NRW about how proposed Chinese walls would work in practice and how sufficient those internals walls would be. We of course did not anticipate such blanket interference as that which we have seen by the Minister in this regard. My question is: how is the Welsh public supposed to have confidence in NRW exercising its functions impartially, when the Welsh Government applies this sort of pressure?

Er gwaethaf eich datganiad y prynhawn yma, mae'n naturiol y bydd marciau cwestiwn am statws annibynnol CNC, yn enwedig ym meddyliau'r cyhoedd. Roedd pryderon wrth ystyried sefydlu CNC o ran sut y byddai waliau Tsieineaidd arfaethedig yn gweithio'n ymarferol a pha mor ddigonol fyddai'r waliau mewnol hynny. Nid oeddem ni, wrth gwrs, yn rhagweld ymyriad mor llwyr fel yr un yr ydym ni wedi ei weld gan y Gweinidog yn y cyswllt hwn. Fy nghwestiwn i yw: sut mae'r cyhoedd yng Nghymru i fod â hyder y bydd CNC yn arfer ei swyddogaethau yn ddiduedd, pan fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r math yma o bwysau arno?

14:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government has applied no pressure to NRW. May I make that absolutely clear? Ministers have not done so in their capacity as Ministers, and neither would we seek to do so. In fact, of course, with regard to arm's-length bodies, the situation in Wales is exactly the same as in England, where you have the Environment Agency, for example, in a similar role of being an arm's-length body as is Natural Resources Wales. NRW has made it clear, as part of the Permanent Secretary's investigations, that it was not influenced in any way by any of the comments that were made by Alun Davies, acting in his role as Assembly Member for Blaenau Gwent.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw bwysau o gwbl ar CNC. A gaf i wneud hynny'n gwbl eglur? Nid yw Gweinidogion wedi gwneud hynny yn rhinwedd eu swyddi fel Gweinidogion, ac ni fyddem yn ceisio gwneud hynny chwaith. A dweud y gwir, wrth gwrs, o ran cyrff hyd-braich, mae'r sefyllfa yng Nghymru yn union yr un fath ag yn Lloegr, lle mae gennych chi Asiantaeth yr Amgylchedd, er enghraifft, mewn swyddogaeth debyg o fod yn gorff hyd braich, fel y mae Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae CNC wedi ei gwneud yn eglur, yn rhan o ymchwiliadau'r Ysgrifennydd Parhaol, na chafodd ei ddylanwadu mewn unrhyw ffordd gan unrhyw un o'r sylwadau a wnaed gan Alun Davies, yn gweithredu yn ei swyddogaeth fel Aelod Cynulliad dros Flaenau Gwent.

When it comes to the budget, it is not quite right to say that the Minister has full control over the budget for Natural Resources Wales, because the Minister for Finance also has a role in ensuring that budgets are approved, as part of the budget approval process. [Interruption.] I know that the leader of the opposition does not understand that because he has not been in Government and never will be.

Pan ddaw at y gyllideb, nid yw'n hollol iawn i ddweud bod gan y Gweinidog reolaeth lawn dros gyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru, oherwydd mae gan y Gweinidog Cyllid swyddogaeth hefyd o ran sicrhau bod cyllidebau'n cael eu cymeradwyo, yn rhan o'r broses cymeradwyo'r gyllideb. [Torri ar draws.] Rwy'n gwybod nad yw arweinydd yr wrthblaid yn deall hynny oherwydd nad yw erioed wedi bod mewn Llywodraeth ac ni fydd byth.

14:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are no other speakers.

Nid oes unrhyw siaradwyr eraill.

14:36

## Cwestiwn Brys: Gwariant Byrddau Iechyd Lleol

## Urgent Question: Local Health Board Expenditure

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the second urgent question. I call on Darren Millar to ask that question.

Symudwn nawr at yr ail gwestiwn brys. Galwaf ar Darren Millar i ofyn y cwestiwn hwnnw.

14:36 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Yn sgîl penderfyniad Archwilydd Cyffredinol Cymru i roi amod ar ei farn ar gyfrifon tri bwrdd iechyd am dorri eu terfynau gwario cymeradwy, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar orwario gan fyrddau iechyd yn y flwyddyn ariannol 2013-14? EAQ(4)0461(HSS)*

*In light of the Auditor General for Wales's decision to qualify his opinions on the accounts of three health boards for breaching their approved spending limits, will the Minister make a statement on health board overspending in the financial year 2013-14? EAQ(4)0461(HSS)*

14:36 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Senedd.tv Fideo Video

I issued a written statement on Thursday last about NHS financial performance in 2013-14. It demonstrated that, despite significant pressures on NHS Wales, expenditure was successfully managed within the overall resources that have been approved by the National Assembly. At the same time, I also issued a statement about the health boards' medium-term plans. These explain the context and the rationale behind the Auditor General for Wales's qualified opinions.

Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ddydd Iau diwethaf am berfformiad ariannol y GIG yn 2013-14. Dangosodd, er gwaethaf pwysau sylweddol ar y GIG yng Nghymru, y rheolwyd gwariant yn llwyddiannus yn unol â'r adnoddau cyffredinol a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Ar yr un pryd, cyhoeddais ddatganiad hefyd ar gynlluniau tymor canol y byrddau iechyd. Mae'r rhain yn egluro'r cyd-destun a'r rhesymeg y tu ôl i safbwyntiau amodol yr Archwilydd Cyffredinol.

14:37 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. You say that health board finances are being successfully managed, but it is rather telling that three out of seven health boards have overspent in the last financial year, two have received multimillion pound bail-outs, and that is in addition to over £150 million extra during the financial year that the health boards were not expecting at the start of the financial year. The Nuffield Trust has indicated that there is a £2.5 billion black hole within the next decade—£220-odd million of which will manifest itself by the end of this Assembly.

Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. Rydych chi'n dweud bod cyllid byrddau iechyd yn cael ei reoli'n llwyddiannus, ond mae'n dweud llawer bod tri allan o saith bwrdd iechyd wedi gorwario yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, bod dau wedi derbyn miliynau o bunnoedd o gymorth, ac mae hynny yn ychwanegol at dros £150 miliwn o gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol nad oedd y byrddau iechyd yn ei ddisgwyl ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Mae Ymddiriedolaeth Nuffield wedi nodi bod twll du o £2.5 biliwn yn ystod y degawd nesaf—a bydd tua £220 miliwn ohono wedi dod i'r amlwg erbyn diwedd y Cynulliad hwn.

Do you accept now that patients in Wales are suffering as a result of your record-breaking cuts to the national health service? Will you work urgently with the Minister for Finance and the First Minister—who seems to find it funny that people are waiting and suffering as a result of his party's cuts—to reprioritise the budget of the Welsh Government, to ensure that patients do not have to fear being able to access the services that they need as a result of health boards not having the money that they need to operate effectively?

A ydych chi'n derbyn erbyn hyn bod cleifion yng Nghymru yn dioddef o ganlyniad i'ch toriadau mwyaf erioed i'r gwasanaeth iechyd gwladol? A wnewch chi weithio ar frys gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Prif Weinidog—y mae'n ymddangos ei fod yn meddwl ei bod hi'n ddoniol bod pobl yn aros ac yn dioddef o ganlyniad i doriadau ei blaid—i ail-flaenoriaethu cyllideb Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau nad yw cleifion yn ofni na fyddant yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt oherwydd nad yw'r arian sydd ei angen arnynt gan y byrddau iechyd i weithredu'n effeithiol?

14:38 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member's straining after headlines, as usual, leads him far away from the facts. He is well aware that I announced to this National Assembly, in the last week, that I will be working with the Minister for Finance over the summer on the results of the Nuffield report. There is nothing in what he has said today that adds in any way to what is already known.

Yn ôl yr arfer, mae ymdrech yr Aelod i wneud y penawdau yn ei arwain ymhell oddi wrth y ffeithiau. Mae'n gwbl ymwybodol fy mod wedi cyhoeddi i'r Cynulliad Cenedlaethol hwn, yn ystod yr wythnos ddiwethaf, y byddaf yn gweithio gyda'r Gweinidog Cyllid ar ganlyniadau adroddiad Nuffield yn ystod yr haf. Nid oes unrhyw beth yn yr hyn y mae wedi ei ddweud heddiw sy'n ychwanegu mewn unrhyw ffordd at yr hyn sy'n hysbys eisoes.

14:38 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, yn ogystal â'r ffaith bod tri bwrdd iechyd wedi llwyddo i gadw o fewn eu terfyn ariannol, mae pedwar bwrdd iechyd wedi methu â dod i gytundeb â chi am eu cynlluniau tair blynedd, yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd. Wrth gwrs, y ddeddfwriaeth honno oedd i fod i'n galluogi ni i gyrraedd gwell system o reolaeth ariannol o fewn y byrddau iechyd.

Minister, as well as three health boards having succeeded in staying within their financial limitations, four health boards have failed to reach an agreement with you on their three-year plans, in line with the new legislation. Of course, that legislation was supposed to enable us to have a better system of financial management within the health boards.

Yn gyntaf, Weinidog, a ydych yn credu bod capasiti annibynnol—cyngor annibynnol—digonol gan aelodau byrddau iechyd i reoli eu cyllidebau nhw, ac i wneud yn unol â'u cyfrifoldebau nhw? Yn ail, mae byrddau iechyd yn atebol i'w poblogaeth, mae'n nhw'n atebol i chi, ond, o safbwynt rheolaeth ariannol, mae'n nhw'n profi'n aflwyddiannus yn yr atebolrwydd ariannol hwnnw. A ydych yn cytuno â Phlaid Cymru yn awr bod atebolrwydd arall y dylid ei gyflwyno ar fyrddau iechyd, a'u gwneud nhw'n atebol yn uniongyrchol hefyd, yn flynyddol, i ni yn y Cynulliad fan hyn, neu i un o'n pwyllgorau ni, o ran cael atebolrwydd a 'scrutiny' ariannol llawn i bob bwrdd iechyd, bob blwyddyn, yn y Cynulliad hwn?

First of all, Minister, do you believe that there is adequate independent capacity—independent advice—for members of health boards to manage their budgets properly, and to act in accordance with their responsibilities? Secondly, health boards are accountable to their populations and to you as Minister, but, in terms of financial management, they are proving to be unsuccessful in terms of that financial accountability. Do you agree with Plaid Cymru now that there is another level of accountability that should be imposed on health boards, and that they should be directly accountable annually to us in the Assembly, or to one of our committees, to ensure full financial accountability and scrutiny for every health board, every year, in this Assembly?

14:40

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

During the passage of the National Health Service Finance (Wales) Act 2014, I came under sustained and very sensible questioning from Simon Thomas, for example, and from Paul Davies who wanted assurances from the Welsh Government that, in setting up a three-year financial regime, there would be a robust assessment of the plans that came forward, and only those local health boards that were able to demonstrate that they had credible three-year plans would be given the financial flexibilities that that Act now affords. That is exactly what has happened in this first year. It is only those four health boards that have successfully been able to reach the bar that we have set for affording that flexibility have been offered it. I think that that demonstrates that we were exactly as robust in carrying out our duties of scrutiny as we assured Members that we would be when Members gave us the go-ahead to put that regime in place.

In relation to the Member's second question, I do not agree with her. It seems to me that it is Plaid Cymru's wish to recreate the corporate body by the back door, in trying to create responsibilities between health boards and the National Assembly that the Government of Wales Act 2006 very deliberately amended.

Yn ystod hynt Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014, cefais fy holi'n ddyfal ac yn synhwyrol iawn gan Simon Thomas, er enghraifft, a gan Paul Davies a oedd eisiau sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y byddai, wrth sefydlu trefn ariannu tair blynedd, asesiad cadarn o'r cynlluniau a gyflwynwyd, ac mai dim ond y byrddau iechyd lleol hynny a oedd yn gallu dangos bod ganddynt gynlluniau tair blynedd credadwy fyddai'n cael yr hyblygrwydd ariannol y mae'r Ddeddf honno'n ei gynnig erbyn hyn. Dyna'n union sydd wedi digwydd yn y flwyddyn gyntaf hon. Dim ond y pedwar bwrdd iechyd hynny sydd wedi llwyddo i gyrraedd y nod a bennwyd gennym ar gyfer cynnig yr hyblygrwydd hwnnw sydd wedi cael ei gynnig. Rwy'n credu bod hynny'n dangos ein bod yn union mor gadarn wrth gyflawni ein dyletswyddau o graffu ac y sicrhawyd yr Aelodau gennym y byddem pan roddodd yr Aelodau'r caniatâd i ni roi'r drefn honno ar waith.

O ran ail gwestiwn yr Aelod, nid wyf yn cytuno â hi. Mae'n ymddangos i mi mai dymuniad Plaid Cymru yw ail-greu'r corff corfforaethol drwy'r drws cefn, gan geisio creu cyfrifoldebau rhwng byrddau iechyd a'r Cynulliad Cenedlaethol a ddiwygiwyd yn fwriadol iawn gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

14:41

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, two out of the three health boards that were unable to balance their books this year happened to be the two health boards identified in the Nuffield report as facing some of the largest challenges in funding services for their populations, namely Cardiff and Vale University Local Health Board and Powys Teaching Local Health Board. Given that these two health boards are not new to finding it difficult to balance their books, do you have any intentions to review the way in which money circulates around the Welsh NHS to ensure that resources are truly following the patient and patient-need service?

Weinidog, mae'n digwydd bod mai dau allan o'r tri bwrdd iechyd nad oeddent yn gallu mantoli eu cyfrifon eleni oedd y ddau fwrdd iechyd a nodwyd yn adroddiad Nuffield eu bod yn wynebu rhai o'r heriau mwyaf wrth ariannu gwasanaethau ar gyfer eu poblogaethau, sef Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys. O ystyried mai nad dyma'r tro cyntaf i'r ddau fwrdd iechyd hyn gael trafferth yn mantoli eu cyfrifon, a oes gennych chi unrhyw fwriad i adolygu'r ffordd y mae arian yn cylchredeg o gwmpas y GIG yng Nghymru er mwyn sicrhau bod adnoddau wir yn dilyn y gwasanaeth i gleifion ac angen y claf?

14:42

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think that Kirsty Williams is aware that steps are being taken to review the funding formula that we use within the Welsh NHS. That will attempt to make sure that funding follows patient needs. However, on the immediate future for the two boards that she mentioned, as far as Cardiff and Vale is concerned, the board had already embarked upon a three-year plan, in a way, in advance of the legislation that this Assembly has since put on the statute book. It has produced a three-year plan that we have been able to approve and I am confident that the plan that Cardiff and Vale now has—a difficult and challenging plan—is nevertheless one that, over the next three years, will allow that health board to live within its means. As far as Powys is concerned, as the Member will very well know, the Williams commission's analysis of the position in Powys means that we are taking a detailed look at a different approach to the provision of services in that area. That approach is bound to look at the way in which services there are funded.

Rwy'n credu bod Kirsty Williams yn ymwybodol bod camau'n cael eu cymryd i adolygu'r fformiwla ariannu yr ydym ni'n ei defnyddio o fewn y GIG yng Nghymru. Bydd hynny'n ceisio sicrhau bod cyllid yn dilyn anghenion cleifion. Fodd bynnag, o ran dyfodol uniongyrchol y ddau fwrdd y soniodd amdanynt, cyn belled ag y mae Caerdydd a'r Fro yn y cwestiwn, roedd y bwrdd eisoes wedi dechrau cynllun tair blynedd, mewn ffordd, cyn y ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad hwn wedi ei roi ar y llyfr statud ers hynny. Mae wedi cynhyrchu cynllun tair blynedd yr ydym ni wedi gallu ei gymeradwyo ac rwy'n hyderus bod y cynllun sydd gan Gaerdydd a'r Fro erbyn hyn—cynllun anodd a llawn her—serch hynny, yn un a fydd, dros y tair blynedd nesaf, yn caniatáu i'r bwrdd iechyd hwnnw weithredu'n unol â'i gyllid. Cyn belled ag y mae Powys yn y cwestiwn, fel y bydd yr Aelod yn gwybod yn iawn, mae dadansoddiad comisiwn Williams o'r sefyllfa ym Mhowys yn golygu ein bod yn edrych yn fanwl ar ddull gwahanol o ddarparu gwasanaethau yn yr ardal honno. Mae'r dull hwnnw'n siŵr o edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau yno'n cael eu hariannu.

14:43 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The breach by Powys, of course, is a serious concern but not a surprise. The health board stated last year that it was looking at a deficit of around £17 million and we now know that that deficit is coming in at £19.3 million. However, I am puzzled that, despite any information coming forward from the Government on the wider Williams recommendations, you have stated that the Williams recommendations will shape the future direction for Powys, and presumably that a merger will release the necessary savings in the future. Are you stating that the merger is definitely going ahead and, if so, what financial analysis have you done to identify the levels of savings that will be achieved from such a move?

Mae'r diffyg cydymffurfiad gan Bowys, wrth gwrs, yn peri pryder difrifol, ond nid yw'n syndod. Dywedodd y bwrdd iechyd y llynedd ei fod yn edrych ar ddiffyg o tua £17 miliwn ac rydym ni'n gwybod bellach mai £19.3 miliwn yw'r diffyg hwnnw. Fodd bynnag, mae'n fy nrysu, er gwaethaf unrhyw wybodaeth sy'n dod oddi wrth y Llywodraeth ar argymhellion ehangach Williams, eich bod wedi datgan y bydd argymhellion Williams yn ffurfio cyfeiriad Powys yn y dyfodol, ac mae'n debyg y bydd yr uno yn rhyddhau'r arbedion angenrheidiol yn y dyfodol. A ydych chi'n dweud bod yr uno yn bendant yn digwydd ac, os felly, pa ddadansoddiad ariannol ydych chi wedi ei wneud i nodi lefelau'r arbedion a fydd yn cael eu gwneud yn sgil cam o'r fath?

14:44 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

All that I have said this afternoon is already known to Members: that the Williams review makes particular recommendations in relation to Powys, and that those recommendations have been seriously studied.

Mae'r Aelodau yn gwybod am y cyfan rwyf i wedi ei ddweud y prynhawn yma: bod adolygiad Williams yn gwneud argymhellion penodol o ran Powys, a bod yr argymhellion hynny wedi eu hastudio'n ofalus.

14:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

14:44

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the business statement and I call the business manager and, first, I call William Graham.

Symudwn nawr at y datganiad busnes a galwaf ar y rheolwr busnes ac, yn gyntaf, galwaf ar William Graham.

14:44 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Minister, I wonder, would you like to give your statement?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, tybed a hoffech chi wneud eich datganiad?

14:44 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

Shall I make my statement?

Ddylwn i wneud fy natganiad?

14:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very sorry; it was not the business manager, but the business Minister. I do beg your pardon. I call the Minister for Local Government and Government Business.

Mae'n ddrwg iawn gennyf; nid y rheolwr busnes oedd e, ond y Gweinidog busnes. Mae'n ddrwg iawn gennyf. Galwaf ar Weinidog Lywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth.

14:45 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I have one change to report to this week's business. The title of the Bill that is the subject my legislative statement this afternoon has been re-ordered. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement and can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.

Diolch i chi, Lywydd. Mae gennyf un newid i'w adrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae teitl y Bil sy'n destun fy natganiad deddfwriaethol y prynhawn yma wedi cael ei ail-drefnu. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, a gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:45 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, might I ask you—I see that the First Minister is sitting next to you, which is appropriate for my question—whether the First Minister would consider giving a briefing to Assembly Members whose constituents will be involved in one way or another with the NATO summit and the particular disruptions that this is likely to cause? I note that our colleagues in Westminster have had such a briefing. Briefings have been offered by Gwent Police to various organisations in the Gwent area. Might I suggest that such a briefing would be timely? I note that the First Minister himself had a briefing recently, but could I also ask for one, not only for those Assembly Members from the Gwent area, but also for those from the Cardiff area, as they will be, if not equally then very much, involved in the disruption caused by the movements?

Weinidog, a gaf i ofyn i chi—gwelaf fod y Prif Weinidog yn eistedd nesaf atoch chi, sy'n briodol i fy nghwestiwn—a fyddai'r Prif Weinidog yn ystyried cyflwyno sesiwn friffio i Aelodau'r Cynulliad y bydd eu hetholwyr yn ymwneud mewn un ffordd neu'r llall ag uwchgynhadledd NATO a'r amhariadau penodol y mae hyn yn debygol o'u hachosi? Nodaf fod ein cydweithwyr yn San Steffan wedi cael sesiwn friffio o'r fath. Mae sesiynau briffio wedi cael eu cynnig gan Heddlu Gwent i wahanol fudiadau yn ardal Gwent. A gaf i awgrymu y byddai sesiwn friffio o'r fath yn amserol? Rwy'n nodi y cafodd y Prif Weinidog ei hun sesiwn friffio yn ddiweddar, ond a gaf innau ofyn am un hefyd, nid yn unig ar gyfer yr Aelodau Cynulliad hynny o ardal Gwent, ond hefyd i'r rhai o ardal Caerdydd, gan y byddant yn rhan o'r amharu a achosir gan y symudiadau, os nad yr un faint, i raddau helaeth?

14:46 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As you mentioned, the First Minister did go to an event in Brussels last week regarding the NATO summit, and, as you are probably aware, the First Minister and I, as Minister responsible for resilience, have been having briefings. We are due another briefing—I think it is next week—and I am sure that, at the appropriate time, the First Minister will bring forward a statement to Members.

Fel y soniasoch, aeth y Prif Weinidog i ddigwyddiad ym Mrwsel yr wythnos diwethaf ynghylch uwchgynhadledd NATO, ac, fel y gwyddoch mae'n siŵr, mae'r Prif Weinidog a minnau, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am gydnerthedd, wedi cael sesiynau briffio. Byddwn yn derbyn sesiwn friffio—yr wythnos nesaf rwy'n credu—ac rwy'n siŵr, ar yr adeg briodol, y bydd y Prif Weinidog yn cyflwyno datganiad i'r Aelodau.

14:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It is probably unusual, but I can let the Members know that the chief constables of Gwent and south Wales will be briefing the Members within about a fortnight. I did not tell you that. So, that has been arranged.

Mae'n debyg ei fod yn anarferol, ond a gaf i roi gwybod i'r Aelodau y bydd prif gwnstabliaid Gwent a de Cymru yn briffio'r Aelodau mewn tua pythefnos. Ni ddywedais hynny wrthych. Felly, mae hynny wedi ei drefnu.

14:46 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you.

Thank you.Diolch yn fawr.

14:46 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

News of job losses at Tata this morning came as a heavy blow to workers at the Port Talbot plant and their families. There are many questions that need answering. We need to know how the Government intends to deal with the immediate threat, how it intends to work with Tata to minimise job losses, how it intends to work with Tata as it looks to be given a more competitive edge while, of course, recognising the difficult global steel context, and, also, we need to know what the Government's views are on the circumstances cited by Tata as having contributed to its difficulties, namely high business rates and energy costs and how they can be addressed now and in the future. In that context, can we please have an urgent statement from the Minister?

Roedd y newyddion am golli swyddi yn Tata y bore yma yn ergyd drom i weithwyr yn y gwaith ym Mhort Talbot a'u teuluoedd. Ceir llawer o gwestiynau y mae angen eu hateb. Mae angen i ni wybod sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymdrin â'r bygythiad uniongyrchol, sut mae'n bwriadu gweithio gyda Tata i sicrhau y collir cyn lleied o swyddi â phosibl, sut mae'n bwriadu gweithio gyda Tata wrth iddo geisio cael mantais fwy cystadleuol, wrth gwrs, gan gydnabod y cyd-destun dur byd-eang anodd, ac, hefyd, mae angen i ni wybod beth yw barn y Llywodraeth ar yr amgylchiadau y nodwyd gan Tata eu bod wedi cyfrannu at ei anawsterau, sef ardrethi busnes a chostau ynni uchel, a sut y gellir mynd i'r afael â hynny nawr ac yn y dyfodol. Yn y cyd-destun hwnnw, a allwn ni gael datganiad brys gan y Gweinidog os gwelwch yn dda?

14:47 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, this news is of concern to many members of the skilled Welsh workforce at the Port Talbot plant, and I know that the Minister for Economy, Science and Transport's officials have been working very closely with the company to explore all potential options. Those discussions will be ongoing. You will have heard the First Minister's response to Members during questions to the First Minister, but I do want to assure Members that the Minister’s officials are in discussions with the company.

Yn amlwg, mae'r newyddion hyn yn peri pryder i lawer o aelodau'r gweithlu medrus yng Nghymru yn y gwaith ym Mhort Talbot, a gwn fod swyddogion y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r cwmni i archwilio pob dewis posibl. Bydd y trafodaethau hynny'n parhau. Byddwch wedi clywed ymateb y Prif Weinidog i’r Aelodau yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog, ond hoffwn sicrhau’r Aelodau bod swyddogion y Gweinidog mewn trafodaethau gyda'r cwmni.

14:47 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, last week, the Government's consultation on the independent review of the individual patient funding request process came to a conclusion. I continue to be contacted by constituents who are unable to access innovative drugs or innovative radiotherapy techniques and surgical techniques to treat some of their conditions. Would you commit to timetabling an oral statement from the Minister for health to report on the consultation and steps forward, so that we can have some clarity as to how the individual patient funding requests process will work in the future?

Weinidog, yr wythnos diwethaf, daeth ymgynghoriad y Llywodraeth ar yr adolygiad annibynnol o'r broses ceisiadau cyllido cleifion unigol i ben. Mae etholwyr nad ydynt yn gallu cael mynediad at gyffuriau arloesol neu dechnegau radiotherapi arloesol a thechnegau llawfeddygol i drin rhai o'u cyflyrau yn dal i gysylltu â mi. A wnewch chi ymrwymo i amserlennu datganiad llafar gan y Gweinidog iechyd i adrodd ar yr ymgynghoriad a chamau ymlaen, fel y gallwn gael rhywfaint o eglurder ynghylch sut y bydd y broses ceisiadau cyllido cleifion unigol yn gweithio yn y dyfodol?

14:48 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that question. As you say, the review has concluded, and I know that the Minister for Health and Social Services is currently considering the findings. I am sure that, at the appropriate time, he will be happy to update Members.

Diolch i chi am y cwestiwn yna. Fel y dywedwch, mae'r adolygiad wedi dod i ben, a gwn fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried y canfyddiadau ar hyn o bryd. Rwy’n siŵr, ar yr adeg briodol, y bydd yn hapus i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Aelodau.

14:48 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for two statements, if I may. The first is on whistleblowing in the NHS in the context of the announcement last week that Sir Robert Francis QC is to review NHS whistleblowing in England to ensure that those too scared to speak out can safely do so, because of claims that a culture of fear persists, despite the recommendations of his review and others since. I understand that this will involve the former Stafford nurse, Helene Donnelly, who suffered bullying for trying to raise concerns there. I ask for a statement in that context, and in the context of how the Welsh Government will, or will not, perhaps work with this inquiry, given the number of ongoing concerns raised by nurses in Wales of similar experiences, one of which I recently raised in the Chamber.

Galwaf am ddau ddatganiad, os caf. Mae'r cyntaf ar chwythu'r chwiban yn y GIG yng nghyd-destun y cyhoeddiad yr wythnos diwethaf y bydd Syr Robert Francis QC yn adolygu chwythu'r chwiban yn y GIG yn Lloegr i sicrhau y gall y rheini sy’n rhy ofnus i siarad wneud hynny'n ddiogel, oherwydd honiadau bod diwylliant o ofn yn parhau, er gwaethaf argymhellion ei adolygiad ef ac eraill ers hynny. Rwy'n deall y bydd hyn yn cynnwys y gyn-nyrs o Stafford, Helene Donnelly, a ddioddefodd fwlio am geisio codi pryderon yno. Gofynnaf am ddatganiad yn y cyd-destun hwnnw, ac yng nghyd-destun sut y bydd Llywodraeth Cymru efallai’n gweithio, neu ddim yn gweithio gyda'r ymchwiliad hwn, o ystyried nifer y pryderon parhaus a godwyd gan nyrsys yng Nghymru o brofiadau tebyg, un ohonynt a godwyd gennyf i’n ddiweddar yn y Siambr.

Secondly, and finally, I ask for a statement on veterans in the UK criminal justice system. You may be aware that there was a conference yesterday—a UK conference—on this theme, looking at collaborative efforts to form an alliance to provide specialist support and rehabilitation for veterans in the criminal justice system, admittedly in the context of the UK Government inquiry into this matter being undertaken by the right honourable Rory Stewart MP, which is looking at issues, international perspectives and proposals for UK veteran treatment courts. Many of these issues could be rolled out in Wales. I know that you have been approached by academics at the University of Chester regarding this. I ask for a statement advising how, if at all, the Welsh Government has been engaged with this at a UK level, and how it proposes, or not, to move forward on this agenda at a devolved level.

Yn ail, ac yn olaf, gofynnaf am ddatganiad ar gyn-filwyr yn system cyfiawnder troseddol y DU. Efallai eich bod yn ymwybodol y bu cynhadledd ddoe—cynhadledd y DU—ar y thema hon, yn ystyried ymdrechion cydweithredol i ffurfio cynghrair i ddarparu cymorth ac adsefydlu arbenigol i gyn-filwyr yn y system cyfiawnder troseddol, yng nghyd-destun, mae'n rhaid cyfaddef, ymchwiliad Llywodraeth y DU i'r mater hwn sy'n cael ei gynnal gan y gwir anrhydeddus Rory Stewart AS, sy'n ystyried problemau, safbwyntiau rhyngwladol a chynigion ar gyfer llysoedd triniaeth cyn-filwr y DU. Gallai llawer o'r materion hyn gael eu cyflwyno yng Nghymru. Gwn fod academyddion ym Mhrifysgol Caer wedi cysylltu â chi ynglŷn â hyn. Gofynnaf am ddatganiad yn hysbysu sut, os o gwbl, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o hyn ar lefel y DU, a sut y mae'n bwriadu, neu ddim yn bwriadu, symud ymlaen ar yr agenda hon ar lefel ddatganoledig.

14:50

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. In relation to the inquiry into whistleblowing in the health service in England, my understanding is that this is specifically about England, and, as health is wholly devolved, I am not aware of any contribution from the Welsh Government to that inquiry.

Thank you.Diolch yn fawr. O ran yr ymchwiliad i chwythu'r chwiban yn y gwasanaeth iechyd yn Lloegr, fy nealltwriaeth i yw bod hyn yn ymwneud yn benodol â Lloegr, a, chan fod iechyd wedi ei ddatganoli'n llwyr, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gyfraniad gan Lywodraeth Cymru at yr ymchwiliad hwnnw.

In relation to veterans in the UK criminal justice system, I was aware of the event yesterday and I am happy to bring forward a written statement on that after I have had a chance to see the findings of the conference yesterday.

O ran cyn-filwyr yn system cyfiawnder troseddol y DU, roeddwn i'n ymwybodol o'r digwyddiad ddoe ac rwy'n hapus i gyflwyno datganiad ysgrifenedig ar hynny ar ôl i mi gael cyfle i weld canfyddiadau'r gynhadledd ddoe.

14:51

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I appreciate that many people have asked in questions to the First Minister about the announcement with regard to Tata Steel. However, many Assembly Members for the area also had to find out via the press this morning, while others did not. I think that we should be given the respect here, at the National Assembly, of having a debate or statement on the situation, given its severity and how important it is to the local community. I have even seen on the Steelworkers R Us Facebook page that many of the staff did not know until they heard the press announcement.

Weinidog, rwy'n sylweddoli bod llawer o bobl wedi gofyn am y cyhoeddiad ar Tata Steel mewn cwestiynau i'r Prif Weinidog. Fodd bynnag, bu'n rhaid i lawer o Aelodau'r Cynulliad dros yr ardal gael gwybod am hyn drwy'r wasg y bore yma hefyd, ond nid eraill. Rwy'n meddwl y dylem ni gael y parch yma, yn y Cynulliad Cenedlaethol, o gael dadl neu ddatganiad ar y sefyllfa, o ystyried ei difrifoldeb a pha mor bwysig ydyw i'r gymuned leol. Rwyf hyd yn oed wedi gweld ar y dudalen Facebook Steelworkers R Us nad oedd llawer o aelodau'r staff yn gwybod tan iddynt glywed y cyhoeddiad yn y wasg.

Many have told me that large amounts of money per tonne of iron are being lost due to higher wages in this country and higher carbon taxes. I think that we need a statement, because there is a fear among staff that blast furnace 4 could be downgraded and so, potentially, could blast furnace 5, because it was built in compartments so that it can exist anywhere in the world. We do not want a situation where the new blast furnace, built in Port Talbot, is taken away from Wales along with the investment that the Welsh Government has already put into that area, so I urge you to come forward with a firmer statement.

Mae llawer wedi dweud wrthyf bod symiau mawr o arian am bob tunnell o haearn yn cael eu colli oherwydd cyflogau uwch yn y wlad hon a threthi carbon uwch. Rwy'n credu bod angen datganiad arnom, oherwydd bod ofn ymhlith aelodau staff y gallai ffwrnais chwyth 4 gael ei hisraddio ac felly hefyd, o bosibl, ffwrnais chwyth 5, oherwydd iddi gael ei hadeiladu mewn rhannau fel y gall fodoli mewn unrhyw le yn y byd. Nid ydym eisiau sefyllfa lle mae'r ffwrnais chwyth newydd, a adeiladwyd ym Mhort Talbot, yn cael ei chymryd oddi wrth Gymru ynghyd â'r buddsoddiad y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ei wneud yn yr ardal honno, felly rwy'n eich annog i gyflwyno datganiad mwy cadarn.

The second statement that I request today relates to the fact that we also had to find out from the press today—sadly, via the 'Western Mail'—that the Welsh Music Foundation is disbanding, with three jobs being lost. It is a foundation that took us to WOMEX and SXSW. I want to understand, as my party's spokesperson on this area, why we were not informed. We have had plenty of debates on culture in the last few weeks alone. May we have a statement from the Minister for Culture and Sport on this?

Mae'r ail ddatganiad rwy'n gofyn amdano heddiw yn ymwneud â'r ffaith y bu'n rhaid i ni hefyd ddarganfod yn y wasg heddiw—drwy'r 'Western Mail' yn anffodus—bod y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig yn chwalu, gan golli tair swydd. Mae'n sefydliad a aeth â ni i WOMEX ac SXSW. Hoffwn ddeall, fel llefarydd fy mhlaid yn y maes hwn, pam na chawsom ein hysbysu. Rydym ni wedi cael digon o drafodaethau ar ddiwylliant dim ond yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf. A gawn ni ddatganiad gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ar hyn?

14:52

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In relation to Tata Steel, it is not for the Welsh Government to tell the employees about the job losses; I think that that is a matter for Tata Steel. I mentioned in my answer to Rhun ap Iorwerth that the Minister for Economy, Science and Transport's officials are continuing to work very closely with the company to explore all potential options to secure the long-term future of the site; those discussions are ongoing.

O ran Tata Steel, nid lle Llywodraeth Cymru yw dweud wrth y gweithwyr am golli swyddi; Rwy'n meddwl mai mater i Tata Steel yw hynny. Soniais yn fy ateb i Rhun ap Iorwerth bod swyddogion Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn parhau i weithio'n agos iawn gyda'r cwmni i archwilio pob dewis posibl i sicrhau dyfodol hirdymor y safle; mae'r trafodaethau hynny'n parhau.

In relation to the Welsh Music Foundation, the Minister for Culture and Sport is in the Chamber and has heard you; I will speak to him about it and ask him to write to you.

O ran y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig, mae'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon yn y Siambr ac mae wedi eich clywed chi; byddaf yn siarad ag ef am y peth ac yn gofyn iddo ysgrifennu atoch.

14:53

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I support the request for a statement on Tata Steel? Obviously, we all understand that both the UK Government and the Welsh Government are working with Tata Steel to try to minimise the impact of the statement, to reduce the number of job losses and to ensure that any redundancies are voluntary. However, I think that it would be useful, Minister, if, before the end of this term, the Government could bring forward either a written or oral statement giving us an update on what the situation is, so that we can reassure our constituents as to how that work is going.

A gaf i gefnogi'r cais am ddatganiad ar Tata Steel? Yn amlwg, rydym ni i gyd yn deall bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Tata Steel i geisio sicrhau bod effaith y datganiad hwnnw cyn lleied â phosibl, i leihau nifer y swyddi sy'n cael eu colli ac i sicrhau bod unrhyw ddiswyddiadau yn wirfoddol. Fodd bynnag, rwy'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol, Weinidog, pe gallai'r Llywodraeth, cyn diwedd y tymor hwn, gyflwyno datganiad ysgrifenedig neu ar lafar yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y sefyllfa, fel y gallwn roi sicrwydd i'n hetholwyr ar sut mae'r gwaith yn mynd ymlaen.

14:54

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not think that I can add any more to what I have said about the Welsh Government's position. Clearly, I am not sure what action the UK Government is taking, but, from what I have heard, this is about its energy policies and business rate policies, which are so difficult for Tata. So, I cannot respond to what you are saying about the UK Government.

Nid wyf yn meddwl y gallaf ychwanegu dim mwy at yr hyn yr wyf wedi ei ddweud am safbwynt Llywodraeth Cymru. Yn amlwg, nid wyf yn siŵr pa gamau mae Llywodraeth y DU yn eu cymryd, ond, o'r hyn rwyf wedi ei glywed, mae hyn yn ymwneud â'i pholisïau ynni a'i pholisïau ardrethi busnes, sydd mor anodd i Tata. Felly, ni allaf ymateb i'r hyn yr ydych chi'n ei ddweud am Lywodraeth y DU.

14:54 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could we have a statement from the Minister for Economy, Science and Transport in relation to the two enterprise zones in the South Wales Central area and their ability to generate new jobs, especially the Cardiff enterprise zone? I have had representations put to me with particular concerns over the direction of the enterprise zone. We all want it to be a success, especially in financial services, which are a huge growth area. However, there seems, certainly from the representations that I have seen, to be an element of drift in the way that the enterprise zone is being undertaken and, in particular, with the emphasis on grade A office space, which now seems to be reaching saturation point, I am told, within the city. There are concerns that, ultimately, we could end up with office blocks with no employees in them. So, could we have a statement updating Members as to the direction of travel for St Athan enterprise zone, but, more importantly, the Cardiff enterprise zone, and the ability to create new jobs in both areas?

A allem ni gael datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y ddwy ardal fenter yn ardal Canol De Cymru a'u gallu i greu swyddi newydd, yn enwedig ardal fenter Caerdydd? Rwyf wedi derbyn sylwadau â phryderon penodol am gyfeiriad yr ardal fenter. Rydym i gyd eisiau iddi fod yn llwyddiant, yn enwedig mewn gwasanaethau ariannol, sy'n faes twf enfawr. Fodd bynnag, ymddengys, yn sicr o'r sylwadau yr wyf i wedi eu gweld, bod elfen o lithriad yn y ffordd y mae'r ardal fenter yn cael ei chynnal ac, yn benodol, o ran y pwyslais ar swyddfeydd gradd A, y mae'n ymddangos eu bod yn cyrraedd pwynt lle maent yn gorlenwi'r farchnad, caf ar ddeall, yn y ddinas. Ceir pryderon, yn y pen draw, y byddai gennym flociau o swyddfeydd heb weithwyr ynddynt yn y pen draw. Felly, a allem ni gael datganiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch cyfeiriad y datblygiad ar gyfer ardal fenter Sain Tathan, ond, yn bwysicach, ardal fenter Caerdydd, a'r gallu i greu swyddi newydd yn y ddwy ardal?

14:55 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not think that it was that long ago that the Minister brought forward a statement to Assembly Members, and I know that she is doing a great deal of work to ensure that what you mentioned does not happen. However, I do not think that this is the appropriate time for a statement.

Nid wyf yn credu ei bod mor bell â hynny yn ôl pan gyflwynodd y Gweinidog ddatganiad i Aelodau'r Cynulliad, ac rwy'n gwybod ei bod yn gwneud llawer iawn o waith i sicrhau nad yw'r hyn y gwnaethoch chi sôn amdano yn digwydd. Fodd bynnag, nid wyf yn credu mai dyma'r amser priodol ar gyfer datganiad.

14:55 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you will have heard the Presiding Officer respond earlier to a point of order from Kirsty Williams regarding the availability of documents for debates. The Presiding Officer, quite rightly, said that that is a matter for the Government, and I think that it is a matter for you, as you are the Minister responsible for Assembly business and for when documents that inform our deliberations here are tabled.

Weinidog, byddwch wedi clywed y Llywydd yn ymateb yn gynharach i bwynt o drefn gan Kirsty Williams ynglŷn â gwneud dogfennau ar gael ar gyfer dadleuon. Dywedodd y Llywydd, yn ddigon teg, bod hwnnw'n fater i'r Llywodraeth, ac rwy'n credu ei fod yn fater i chi, gan mai chi yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Cynulliad ac am bryd y bydd dogfennau sy'n llywio ein trafodaethau yma yn cael eu cyflwyno.

I have, for example, now got a hard copy of the report that the First Minister seemed to think should be made available to Assembly Members as a kind of favour, and yet I think that it should have been made available to Assembly Members as a matter of course in terms of our holding Government to account and being able to fully scrutinise Ministers.

Mae gen i, er enghraifft, gopi caled o'r adroddiad yr oedd yn ymddangos bod y Prif Weinidog yn meddwl y dylai fod ar gael i Aelodau'r Cynulliad fel rhyw fath o ffafr, ac eto rwy'n meddwl y dylai fod wedi bod ar gael i Aelodau'r Cynulliad fel mater o drefn o ran ein gallu i ddwyn ein Llywodraeth i gyfrif a chraffu'n llawn ar Weinidogion.

For example, when I asked a question of the First Minister earlier as to whether the Minister for natural resources had had advice from his office on his decision making, the First Minister did not answer me. If I had this document in front of me, I could have said specifically that the Minister had been told by his office in March 2013 that he should not comment on these matters, even as an AM. Specific advice was given that he chose to ignore and then he breached the ministerial code due to that. It is right, therefore, for scrutiny, for good decision making, for holding Government to account, and for the enrichment of democracy as a whole, that we have documents in a timely fashion so that we can genuinely hold Ministers to account and not see them run away and hope to hide so that we forget about it next week.

Er enghraifft, pan ofynnais gwestiwn i'r Prif Weinidog yn gynharach ynghylch a oedd y Gweinidog cyfoeth naturiol wedi cael cyngor gan ei swyddfa ar ei benderfyniadau ei hun, ni atebodd y Prif Weinidog fi. Pe byddai'r ddogfen hon gen i o'm blaen, gallwn i fod wedi dweud yn benodol bod y Gweinidog wedi cael ei hysbysu gan ei swyddfa ym mis Mawrth 2013 na ddylai wneud sylwadau ar y materion hyn, hyd yn oed fel AC. Rhoddwyd cyngor penodol iddo y dewisodd ei anwybyddu ac yna torrodd y cod gweinidogol oherwydd hynny. Mae'n iawn, felly, er mwyn craffu, er mwyn gwneud penderfyniadau da, er mwyn dwyn y Llywodraeth i gyfrif, ac er mwyn cyfoethogi democratiaeth yn gyffredinol, ein bod yn derbyn dogfennau yn brydlon fel y gallwn wir ddwyn Gweinidogion i gyfrif ac nid eu gweld yn rhedeg i ffwrdd ac yn gobeithio cuddio fel ein bod yn anghofio am y peth yr wythnos nesaf.

This will be an issue that will slow burn, because in this document are a lot of failures by the Minister for natural justice—I mean the Minister for natural resources; there should be natural justice, but there is not, but there we are—to really deal with this conflict of interest, which they did not do adequately. So, please bring forward a statement about the guidelines that the Welsh Government follows in tabling documents and perhaps a debate at some stage in Welsh Government time on the application of the ministerial code.

Bydd hwn yn fater a fydd yn llosgi'n araf, gan fod llawer o fethiannau yn y ddogfen hon gan y Gweinidog cyfiawnder naturiol—y Gweinidog cyfoeth naturiol rwy'n ei olygu; dylai fod cyfiawnder naturiol, ond nid oes, ond dyna ni—i wir fynd i'r afael â'r achos hwn o wrthdaro buddiannau, na wnaethpwyd ganddynt yn briodol. Felly, a wnewch chi, os gwelwch yn dda, gyflwyno datganiad ar y canllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu dilyn wrth gyflwyno dogfennau ac efallai dadl ar ryw adeg yn amser Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio'r cod gweinidogol.

14:57

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, the ministerial code is a matter for the First Minister. The report was to the First Minister. He has now released the report, which you have a copy of, and we have had an urgent question, which has been answered by the First Minister, and there was an opportunity for Members to question the First Minister during his question session.

Mater i'r Prif Weinidog yw'r cod gweinidogol, yn amlwg. Roedd yr adroddiad i'r Prif Weinidog. Mae bellach wedi cyhoeddi'r adroddiad, y mae gennych chi gopi ohono, ac ydym ni wedi cael cwestiwn brys, sydd wedi cael ei ateb gan y Prif Weinidog, ac roedd cyfle i'r Aelodau holi'r Prif Weinidog yn ystod ei sesiwn cwestiynau.

14:57

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Minister.

Diolch yn fawr iawn, Weinidog.

*Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 14:58.*

*Sandy Mewies took the Chair at 14:58.*

14:58

# Datganiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i Ail Adroddiad Comisiwn Silk

# Statement: The Welsh Government's Response to the Silk Commission's Second Report

Senedd.tv Fideo Video

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

I call on the First Minister, Carwyn Jones.

Galwaf ar y Prif Weinidog, Carwyn Jones.

14:58

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Bymtheng mlynedd i heddiw, rhoddwyd grym i'r Gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau a oedd yn rhoi'r set gyntaf o swyddogaethau gweithredol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dros y 15 mlynedd hynny mae ein trefniadau llywodraethu wedi eu gweddnewid. Cymharol brin oedd pwerau'r Cynulliad ym 1999: corff etholedig i oruchwylio pwerau gweithredol cyfyngedig ydoedd yn bennaf. Erbyn 2014, ac yntau'n gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru i lunio a gweithredu polisïau a chynnig deddfwriaeth, y Cynulliad yw'r ddeddfwrfa aeddfed y mae ar ein gwlad ei hangen. Digwyddodd y newid sylfaenol hwn yn sgil y sêl bendith gref a roddwyd gan etholwyr Cymru yn 2011.

Today is the fifteenth anniversary of the coming into force of the transfer of functions Order that gave the National Assembly for Wales its first set of executive functions. Over those 15 years our governance arrangements have been transformed. The Assembly in 1999 was relatively powerless: an elected body primarily tasked with supervising limited executive powers. By 2014, working alongside a Welsh Government making and implementing policy and proposing legislation, the Assembly has become the fully-fledged legislature our country needs. This fundamental change came about in response to a decisive vote of confidence by the Welsh electorate in 2011.

Wales has had primary legislative powers for barely three years. In that period we have developed an ambitious legislative programme, ranging from major reform of social services to groundbreaking measures, such as the Human Transplantation (Wales) Act 2013. In seeking broader powers for the Assembly, we will build on our expertise and capacity, which have grown substantially since 2011. This progress means that we can look forward with confidence to assuming new responsibilities.

Cwta dair blynedd sydd ers i Gymru gael pwerau deddfu sylfaenol. Yn y cyfnod hwnnw rydym wedi datblygu rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol, yn amrywio o ddiwygio gwasanaethau cymdeithasol yn sylweddol i fesurau arloesol megis Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013. Wrth geisio pwerau ehangach i'r Cynulliad, byddwn yn adeiladu ar ein harbenigedd a'n gallu ein hunain, sydd wedi tyfu'n sylweddol ers 2011. Mae'r cynnydd hwn yn golygu y gallwn edrych ymlaen yn hyderus at ysgwyddo cyfrifoldebau newydd.

Yet, despite this rapid evolution, we are still constrained by a set of outdated governance arrangements that hark back to the days of executive devolution. In its second report, the Silk commission addresses that issue directly. It recommends a new model of devolution to enable us to deliver fully for the people of Wales. Moving to a reserved-powers model, which the commission recommends, would not be just a technical change but would create a more coherent constitution for Wales within the UK, putting all of the devolved administrations on the same footing. It would also reduce the uncertainty and complexity in the current system, which is a real barrier to delivery.

Ac eto, er gwaethaf yr esblygiad cyflym hwn, rydym yn dal i fod wedi'n cyfyngu gan set o drefniadau llywodraethu hen ffasiwn sy'n mynd yn ôl i ddyddiau datganoli gweithredol. Yn ei ail adroddiad, mae comisiwn Silk yn rhoi sylw uniongyrchol i'r mater hwnnw. Mae'n argymell model newydd o ddatganoli er mwyn ein galluogi i gyflawni'n llawn dros bobl Cymru. Nid dim ond newid technegol fyddai symud at fodel pwerau a gedwir fel y mae'r comisiwn yn ei argymell—byddai'n creu cyfansoddiad mwy cydlynol i Gymru o fewn y DU, gan roi'r un statws i bob un o'r gweinyddiaethau datganoledig. Byddai hefyd yn lleihau'r ansicrwydd a'r cymhlethdod yn y system bresennol, sy'n rhwystr gwirioneddol i gyflawni.

As well as recommending the adoption of the reserved-powers model, the Silk commission proposes that the powers of the devolved institutions be enhanced. As far as the Assembly is concerned, new legislative competence is proposed in respect of such matters as policing, road safety, the administration and conduct of local government elections, ports and sewerage, and for the Welsh Government there would be enhanced executive competence in respect of energy consents, youth justice, the regulation of buses and taxis, teachers' pay, building regulations and broadcasting appointments, among other things. In the longer term, there is the prospect of devolving powers relating to justice.

Yn ogystal ag argymell mabwysiadu'r model pwerau a gedwir, mae comisiwn Silk yn cynnig y dylid ehangu pwerau'r sefydliadau datganoledig. O safbwynt y Cynulliad, cynigir cymhwysedd deddfwriaethol newydd ar gyfer materion megis plismona, diogelwch ar y ffyrdd, gweinyddu a chynnal etholiadau llywodraeth leol, porthladdoedd a charthffosiaeth, a byddai Llywodraeth Cymru'n cael mwy o gymhwysedd gweithredol o ran caniatadau ynni, cyfiawnder ieuenctid, rheoleiddio bysiau a thacsis, cyflogau athrawon, rheoliadau adeiladu a phenodiadau darlledu, ymhlith pethau eraill. Yn y tymor hwy, mae posibilrwydd o ddatganoli pwerau'n ymwneud â chyfiawnder.

Pan drosglwyddir pwerau, rhaid cael trosglwyddiad llawn a theg o adnoddau ar gyfer y cyfrifoldebau newydd hynny, ac mae'r comisiwn wedi cefnogi ein safbwynt ar hyn. Er ein bod yn croesawu'r argymhellion ynglŷn â phenodiadau darlledu, rydym o'r farn bod risgiau ynghlwm wrth y cynnig i ddatganoli elfen yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o ariannu S4C ac y bydd angen trafod y mater hwn ymhellach yn fanwl.

Where powers are transferred, there must be a full and fair transfer of resources to cover new responsibilities, and the commission has supported our view on this. Although we welcome the recommendations on broadcasting appointments, we think that the proposed devolution of the Department for Culture, Media and Sport component of S4C funding carries risks and will need detailed further discussion.

Er ein bod yn cytuno â byrdwn y cynigion hyn, byddem wedi hoffi i'r comisiwn fynd ymhellach o ran rhai meysydd, gan gynnwys rhai allweddol megis ynni ac iechyd y cyhoedd. Felly, wrth ymateb i adroddiad comisiwn Silk heddiw, mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu ein hachos o blaid pwerau ehangach, ar sail y model cadw pwerau, fel y gall fwrw ymlaen yn fwy effeithiol â'i rhaglen o newid i gryfhau Cymru a gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Rhaid inni allu hybu ein nodau ar gyfer iechyd, yr amgylchedd, yr economi a thrafnidiaeth, ac ar gyfer ein cymunedau, heb gael ein llesteirio gan ansicrwydd a dryswch ynghylch ein pwerau.

While we agree with the thrust of these proposals, we would have liked the commission to have gone further in certain areas, including some critical ones like energy and public health. So, in responding today to the Silk commission's report, the Welsh Government is setting out our case for broader powers, on the reserved model, so that we can take forward more effectively our programme of change to strengthen Wales and Welsh public services. We must be able to promote our goals for health, the environment, the economy and transport, and for our communities, unfettered by uncertainty and confusion about our powers.

It is important to stress that today's publication, which I commend to the Assembly, is only one part of a rapidly developing picture. We are seeking broader powers, not to pursue short-term initiatives, but to promote the wellbeing of Wales for the long term. Next week, we will bring forward for the Assembly's consideration our future generations legislation, which will set out our proposals for shared goals for our country, based on a national conversation about the Wales we want to see. Over the longer term, the powers we are seeking through the Silk process will enable us to pursue that shared purpose far more effectively.

Mae'n bwysig pwysleisio mai dim ond un rhan o ddarlun sy'n datblygu'n gyflym yw'r cyhoeddiad hwn yr wyf yn ei gymeradwyo i'r Cynulliad heddiw. Rydym yn ceisio pwerau ehangach, nid ar gyfer cynlluniau tymor byr, ond i hyrwyddo lles Cymru yn y tymor hir. Yr wythnos nesaf, byddwn yn cyflwyno ein deddfwriaeth cenedlaethau'r dyfodol i'r Cynulliad ei hystyried; bydd yn nodi ein cynigion ar gyfer nodau cyffredin i'n gwlad, yn seiliedig ar sgwrs genedlaethol am y Gymru yr hoffem ei gweld. Yn fwy hirdymor, bydd y pwerau yr ydym yn eu ceisio drwy broses Silk yn ein galluogi i fwrw ymlaen â'r diben hwnnw a rennir yn fwy effeithiol o lawer.

Also next week, we will be publishing our plans for the next phase of reform of our public services, responding to the report of the Williams commission. These plans have been developed in tandem with our proposals for further devolution, as set out in the document published today. At their heart is our vision for public services, which informs our proposals for reformed governance at national and local level. The broader powers we are seeking will enable us to continue with our twin-track approach: both improving public services and supporting people to improve their own lives through our national goals for the sustainable development of our country. In two weeks' time, I will be making a statement on the Welsh Government's forward legislative programme, setting out an ambitious set of plans to take us to the end of this Assembly.

Hefyd yr wythnos nesaf, byddwn yn cyhoeddi ein cynlluniau ar gyfer cam nesaf y broses o ddiwygio ein gwasanaethau cyhoeddus, gan ymateb i adroddiad comisiwn Williams. Datblygwyd y cynlluniau hyn ochr yn ochr â'n cynigion ar gyfer datganoli pellach, fel y nodir yn y ddogfen a gyhoeddwyd heddiw. Mae ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn ganolog iddynt, ac yn llywio ein cynigion ar gyfer diwygio llywodraethu cenedlaethol a lleol. Bydd y pwerau ehangach yr ydym yn eu ceisio'n ein galluogi i barhau â'n hymagwedd ddeublyg: gwella gwasanaethau cyhoeddus a chynorthwyo pobl i wella eu bywydau eu hunain drwy ein nodau cenedlaethol ar gyfer datblygu cynaliadwy ein gwlad. Ymhen pythefnos, gwnaf ddatganiad am flaenraglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, gan nodi cyfres uchelgeisiol o gynlluniau i fynd â ni at ddiwedd y Cynulliad hwn.

I grynhoi ein safbwynt ar ddiwygio cyfansoddiadol, rydym yn cefnogi byrdwn adroddiad Silk. Mewn rhai meysydd, fel yr wyf wedi sôn, rydym o'r farn nad yw'r comisiwn wedi mynd yn ddigon pell, a byddwn yn parhau i ddadlau hynny. Nid ydym o'r farn fod yr argymhellion unigol wedi'u cerfio mewn marmor. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen i'r darpariaethau manwl yn y Bil Cymru nesaf ystyried newidiadau llawer ehangach i setliad datganoli'r Deyrnas Unedig yn sgîl refferendwm yr Alban. Byddwn yn barod i ystyried yr hyn sy'n bwysig o ran dyfodol Cymru ac ystyried beth bynnag sy'n cael ei gynnig yn y dyfodol yn ei gyfanrwydd. Felly, nid Silk yw diwedd y gân, o bell ffordd, ond mae'n dangos i ba gyfeiriad rydym yn teithio, ac o'i fabwysiadu, byddwn ar y trywydd iawn. Gobeithio y bydd Bil Cymru drafft yn cael ei gyflwyno'n fuan yn ystod oes y Senedd nesaf, a'r model cadw pwerau yn dod i rym ar ôl etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2021.

To sum up our position on constitutional reform, we support the thrust of the Silk report. In some areas, as I have said, we believe that the commission has not gone far enough, and we will continue to make that case. We do not regard the individual recommendations as set in stone. In any event, it is possible that the detailed provisions in the next Wales Bill will need to take into account much wider changes to the UK's devolution settlement following the Scottish referendum. We will be ready to consider what is important for the future of Wales and to consider whatever is proposed in future as a whole. So, Silk is not by any means the end of the story, but it sets a direction of travel, and adopting it would put us on the right path. We hope to see a draft Wales Bill introduced early in the next Parliament, with the reserved-powers model coming into effect after the National Assembly elections in 2021.

Ar ei ffurf bresennol, mae'r setliad datganoli yng Nghymru yn rhy ochelgar, yn rhy gymhleth, ac wedi dyddio. Mae Llywodraeth Cymru yn barod i gydweithio â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn awr ac yn y dyfodol, i gyflwyno'r cyfansoddiad diwygiedig y mae ar Gymru ei angen.

The Welsh devolution settlement in its current form is overly cautious, overly complex and outdated. The Welsh Government stands ready to work with the current and future UK Governments to put in place the reformed constitution that Wales needs.

15:04

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. I call on the opposition spokesperson, Andrew R.T. Davies.

Diolch, Brif Weinidog. Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

15:04

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the opportunity to respond to the statement—one of many statements that we have spoken on regarding the Silk commission, part 1 and part 2, and the train carries on proceeding down the track. I reiterate my thanks to the Silk commissioners, and I commend the UK Government for the way in which it proceeded with the Silk commission process by getting party buy-in and independent commissioners to sit on the commission in the development of the report. That was an important buy-in, and it also offered independent thought through the independence of the three commissioners and the chair who sat on the commission.

Croesawaf y cyfle i ymateb i'r datganiad—un o lawer o ddatganiadau yr ydym wedi siarad amdanynt ynglŷn â chomisiwn Silk, rhan 1 a rhan 2, ac mae'r trên yn dal i fynd ar hyd y cledrau. Rwyf am ailadrodd fy niolch i gomisiynwyr Silk, ac rwyf yn canmol Llywodraeth y DU am y ffordd y mae wedi bwrw ymlaen â phroses comisiwn Silk drwy sicrhau cefnogaeth y pleidiau a chael comisiynwyr annibynnol i eistedd ar y comisiwn yn ystod datblygiad yr adroddiad. Roedd y gefnogaeth honno'n bwysig, ac roedd hefyd yn cynnig syniadau annibynnol oherwydd annibyniaeth y tri chomisiynydd a'r cadeirydd a oedd yn eistedd ar y comisiwn.

First Minister, I would like to ask you a couple of questions on this particular statement. I think that most people accept that, by and large, the recommendations emanating from Silk part 2 will form the basis of party manifestos for the general election, and that it would be for a future UK Government, in discussion with the Welsh Government and the National Assembly for Wales, as to how some or all of these recommendations might be taken forward. As to my first question, you say in your statement that

Brif Weinidog, hoffwn ofyn rai cwestiynau ichi am y datganiad penodol hwn. Credaf fod y rhan fwyaf o bobl yn derbyn, at ei gilydd, y bydd yr argymhellion a ddaw o ran 2 Silk yn sail i faniffestos y pleidiau ar gyfer yr etholiad cyffredinol, ac mai mater i Lywodraeth y DU yn y dyfodol, drwy drafod â Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, fyddai penderfynu sut y gellid datblygu rhai neu bob un o'r argymhellion hyn. O ran fy nghwestiwn cyntaf, rydych yn dweud yn eich datganiad

'At their heart is our vision for public services which informs our proposals for reformed governance at national and local level.'

Mae ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn ganolog iddynt, ac yn llywio ein cynigion ar gyfer diwygio llywodraethu cenedlaethol a lleol.'

I would be grateful if you could enlarge on that particular statement in what you delivered today, how you see local and national governance developing in Wales and being enhanced by specific measures that you believe sit in Silk part 2 that would enable you to perform in the current model of Government that we have in Wales, but which future Welsh Government would be able to deliver on.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymhelaethu ar y datganiad penodol hwnnw ynghylch yr hyn yr ydych wedi'i gyflwyno heddiw, sut y gwelwch lywodraethu lleol a chenedlaethol yn datblygu yng Nghymru ac yn cael eu gwella gan fesurau penodol yr ydych yn credu eu bod yn rhan 2 Silk a fyddai'n eich galluogi i berfformio yn y model Llywodraethu presennol sydd gennym yng Nghymru, ond y gallai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol eu cyflawni.

I also seek some clarification when you talk about short-term initiatives and that you will be able to look more to the longer term, rather than at short-term initiatives, if a future Welsh Government, of whatever political colour, had some or all of these powers. Could you identify specific examples where, with your experience in Government, in fairness to you, First Minister, you can see where the people of Wales's lives would have been improved if some or all of these powers resided in Cardiff bay and had been transferred over to the Welsh Government?

Gofynnaf am rywfaint o eglurhad pan fyddwch yn sôn am fentrau tymor byr ac y byddwch yn gallu edrych yn fwy at y tymor hir, yn hytrach nag ar fentrau tymor byr, pe bai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, o ba bynnag liw gwleidyddol, yn cael rhai neu bob un o'r pwerau hyn. A allwch nodi enghreifftiau penodol, gyda'ch profiad yn y Llywodraeth, a bod yn deg i chi, Brif Weinidog, lle gallwch weld ble y byddai bywydau pobl Cymru wedi eu gwella pe bai rhai neu bob un o'r pwerau hyn i'w cael ym mae Caerdydd ac wedi'u trosglwyddo i Lywodraeth Cymru?

I would also like to hear your thoughts on the devolution of teachers' pay, which is a specific recommendation from Silk part 2. I well remember the former Minister for education and me being on a panel with one of the unions in Cardiff during the last Assembly elections. In fairness to Plaid Cymru's education spokesman at that time who was promoting such devolution, he was roundly ridiculed by the then Minister for education for proposing such terms. Given your very warm embrace of the proposals in Silk part 2 as First Minister—your statement calls for the entire devolution of these responsibilities—how does the devolution of teachers' pay enhance the teaching profession in Wales? How does it also stop the creeping effect of regional pay? If you are prepared to have it for teachers, why not for other professions? We know that the Labour Party did that for the courts service back in 2007, so is this now an acknowledgement from the Labour Party that you will be actively promoting the devolution of the pay awards of other parts of the public sector, and therefore creating regional pay in all but name?

Hoffwn hefyd glywed eich barn am ddatganoli tâl athrawon, sy'n un o argymhellion penodol rhan 2 Silk. Cofiaf yn iawn pan oedd y cyn Weinidog addysg a mi ar banel gydag un o'r undebau yng Nghaerdydd yn ystod etholiadau diwethaf y Cynulliad. A bod yn deg â llefarydd addysg Plaid Cymru ar y pryd a oedd yn hyrwyddo datganoli o'r fath, cafodd ei wawdio'n hallt gan y Gweinidog addysg ar y pryd am gynnig telerau o'r fath. Ac ystyried eich bod wedi cofleidio'r cynigion yn rhan 2 Silk yn gynnes iawn fel Prif Weinidog—mae eich datganiad yn galw am ddatganoli'r cyfrifoldebau hyn yn llwyr—sut y mae datganoli cyflogau athrawon yn gwella'r proffesiwn addysgu yng Nghymru? Sut y mae hefyd yn atal effaith ymgripiol tâl rhanbarthol? Os ydych yn barod i wneud hynny ar gyfer athrawon, pam nad ar gyfer proffesiynau eraill? Gwyddom fod y Blaid Lafur wedi gwneud hynny ar gyfer y gwasanaeth llysoedd yn ôl yn 2007, felly a yw hyn yn awr yn gydnabyddiaeth gan y Blaid Lafur y byddwch yn mynd ati i hybu datganoli cyflogau mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, ac felly'n creu tâl rhanbarthol ym mhob peth ond enw?

The other point I would like to ask a question on is in connection with the direction of travel and adopting the right path, as I think you talked about in your closing paragraph. Owen Smith gave a discussion, briefing or seminar—call it what you will—at an event held by the Institute of Welsh Affairs some two weeks ago. At that discussion or briefing, he outlined how if, God forbid, Labour was successful in May of next year, he would commission another commission on devolution. I am not quite sure what you think of another commission on devolution, whether you support the creation of another commission on devolution, and whether what is in Silk part 2 really meets the needs of a future Welsh Government and a future constitutional arrangement for the UK as a whole. So, I would be grateful for clarity to understand whether you are in support of a further commission, such as the commission proposed by the shadow Secretary of State in the IWA event some two weeks ago, or do you believe that if Silk part 2 is adopted in its entirety, it will provide you or future Welsh Governments with the tools to do the job?

Mae'r pwynt arall yr hoffwn ofyn cwestiwn amdano'n ymwneud â chyfeiriad teithio a mabwysiadu'r llwybr cywir, y credaf ichi sôn amdanynt yn eich paragraff clo. Rhoddodd Owen Smith drafodaeth, sesiwn wybodaeth neu seminar—beth bynnag y dymunwch ei alw—mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan y Sefydliad Materion Cymreig tua phythefnos yn ôl. Yn y drafodaeth neu'r sesiwn wybodaeth honno, amlinellodd sut y byddai, pe byddai—Duw a'n gwaredo—Llafur yn llwyddiannus ym mis Mai y flwyddyn nesaf, yn comisiynu comisiwn arall ar ddatganoli. Nid wyf yn hollol siŵr beth yw eich barn am gomisiwn arall ar ddatganoli, a ydych o blaid creu comisiwn arall ar ddatganoli, ac a yw'r hyn sydd yn rhan 2 Silk mewn gwirionedd yn bodloni anghenion Llywodraeth Cymru yn y dyfodol a threfniant cyfansoddiadol yn y dyfodol ar gyfer y DU gyfan. Felly, byddai'n dda gennyf gael eglurhad er mwyn deall a ydych o blaid comisiwn pellach, fel y comisiwn a gynigiodd Ysgrifennydd Gwladol yr wrthblaid yn nigwyddiad y Sefydliad Materion Cymreig ryw bythefnos yn ôl, ynteu a ydych yn credu, os caiff rhan 2 Silk ei mabwysiadu yn ei chyfanrwydd, y bydd yn rhoi i chi neu i Lywodraethau Cymru yn y dyfodol yr offer i wneud y gwaith?

15:09

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

It will help, but it will not be the whole process, as I have said many times before. Members will have heard me say ad nauseam that there is a need for a constitutional convention to get devolution right across the UK, because even with Silk part 2 in place, we will still have anomalies in the devolution settlements across the UK. For example, it cannot be right, as I have said before, that the UK Parliament has the ability to abolish the Scottish Parliament or the National Assembly without any reference to the people of Scotland and Wales. That cannot be right, but yet the ability exists—in theory, perhaps, rather than practice. However, it is possible, legally. Secondly, it cannot be right that the Secretary of State for Wales has a veto over Bills passed in this place, as if we were unable to take sensible decisions ourselves and needed the wise guiding hand of the Secretary of State in order to allow us to legislate. That is wholly wrong in the present day and age. Thirdly, in terms of water, for example, it seems from the current Government of Wales Act 2006 that we cannot be trusted with water resources and that somehow we will turn the taps off. The same argument was used when I was Minister for environment when we set up flood defence committees on a geographical basis and not on the basis of water catchment areas. It was obliquely suggested to me that we would do something to the Severn that would cause Gloucester to flood and we would happily sit back and see it happen. Of course, that is not the way we did it and that is not the way for two Governments to treat each other maturely in the twenty-first century. So, there is still work to be done. Nevertheless, Williams takes us forward in terms of local government—he asked about that—and Silk takes us forward in terms of national Government here in Wales.

Bydd yn helpu, ond nid dyna fydd y broses gyfan, fel yr wyf wedi'i ddweud sawl gwaith o'r blaen. Bydd yr Aelodau wedi fy nghlywed yn dweud hyd syrffed fod angen confensiwn cyfansoddiadol i gael datganoli'n iawn ledled y DU, oherwydd hyd yn oed gyda rhan 2 Silk, bydd gennym anghysondebau o hyd yn y setliadau datganoli ar draws y DU. Er enghraifft, ni all fod yn iawn, fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen, fod gan Lywodraeth y DU y gallu i ddiddymu Senedd yr Alban neu'r Cynulliad Cenedlaethol heb gyfeirio o gwbl at bobl Cymru a'r Alban. Ni all hynny fod yn iawn, ond eto mae'r gallu'n bodoli—yn ddamcaniaethol, efallai, yn hytrach nag yn ymarferol. Fodd bynnag, mae'n bosibl, yn ôl y gyfraith. Yn ail, ni all fod yn iawn fod gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru feto dros Filiau sy'n cael eu pasio yn y lle hwn, fel pe na baem yn gallu gwneud penderfyniadau synhwyrol ein hunain a bod arnom angen llaw arweiniol ddoeth yr Ysgrifennydd Gwladol i ganiatáu inni i ddeddfu. Mae hynny'n gwbl anghywir yn yr oes sydd ohoni. Yn drydydd, o ran dŵr, er enghraifft, mae'n ymddangos o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel ag y mae ar hyn o bryd na ellir ymddiried adnoddau dŵr inni ac y byddwn rywsut yn diffodd y tapiau. Cafodd yr un ddadl ei defnyddio pan oeddwn yn Weinidog yr amgylchedd pan aethom ati i sefydlu pwyllgorau amddiffyn rhag llifogydd ar sail ddaearyddol, ac nid ar sail dalgylchoedd dŵr. Yr awgrym anuniongyrchol imi oedd y byddem yn gwneud rhywbeth i afon Hafren a fyddai'n achosi llifogydd yng Nghaerloyw ac y byddem yn hapus i eistedd yn ôl a gwylio hynny'n digwydd. Wrth gwrs, nid dyna sut y bu pethau ac nid dyna'r ffordd i ddwy Lywodraeth drin ei gilydd yn aeddfed yn yr unfed ganrif ar hugain. Felly, mae gwaith i'w wneud o hyd. Serch hynny, mae Williams yn ein symud ymlaen o ran llywodraeth leol—gofynnodd am hynny—ac mae Silk yn ein symud ymlaen o ran Llywodraeth genedlaethol yma yng Nghymru.

There are three areas that would certainly make life easier. First, there is the reserved-powers model, because that would mean that we do not spend all our time wondering what is devolved or not because of the vagueness that exists in parts of the current Government of Wales Act. Secondly, there are energy powers; the people of Wales, to my mind, deserve the same level of control over their resources as are granted to the people of England, Scotland and Northern Ireland. Thirdly, there is policing—the only emergency service that is not devolved—in order to create a more coherent emergency response here in Wales.

Mae tri maes a fyddai'n sicr yn gwneud bywyd yn haws. Yn gyntaf, y model pwerau a gedwir, oherwydd byddai hynny'n golygu nad ydym yn treulio ein holl amser yn meddwl tybed beth sydd wedi'i ddatganoli neu beidio oherwydd yr amwysedd sy'n bodoli mewn rhannau o Ddeddf Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Yn ail, pwerau ynni; mae pobl Cymru, yn fy marn i, yn haeddu'r un lefel o reolaeth dros eu hadnoddau ag a roddir i bobl Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn drydydd, plismona—yr unig wasanaeth brys nad yw wedi'i ddatganoli—er mwyn creu ymateb brys mwy cydlynol yma yng Nghymru.

He asked about short-term initiatives. I suppose the way to encapsulate that is to say that we spend much of our time trying to do things because we are not entirely sure what is devolved and what is not. Why? We know that there have been three referrals to the Supreme Court. No referrals have occurred, to my mind, in Scotland. That is a sign that the devolution settlement of Wales does not work properly. It is in no-one's interest that there should be this vagueness, and in no-one's interest that costs should be—with respect to my former profession—wasted on lawyers, when those costs could be not spent in the first place if the devolution was far clearer.

Gofynnodd am fentrau tymor byr. Mae'n debyg mai'r ffordd o grynhoi hynny yw ein bod yn treulio llawer o'n hamser yn ceisio gwneud pethau oherwydd nad ydym yn hollol siŵr beth sydd wedi'i ddatganoli a beth nad yw wedi'i ddatganoli. Pam? Rydym yn gwybod y bu tri atgyfeiriad i'r Goruchaf Lys. Nid oes atgyfeiriadau wedi digwydd, hyd y gwn, yn yr Alban. Mae hynny'n arwydd nad yw setliad datganoli Cymru'n gweithio'n iawn. Nid yw'r amwysedd hwn o fudd i neb, ac nid yw gwastraffu costau ar gyfreithwyr—gyda pharch i'm cyn broffesiwn—o fudd i neb ychwaith, pan ellid osgoi gwario'r costau hynny yn y lle cyntaf pe bai'r datganoli'n llawer cliriach.

When it comes to teachers' pay and conditions, it is an anomaly that teachers' pay and conditions are not devolved. Historically, that has not been the case. Many have said to me that they found it strange that teachers are on strike in Wales over pay when they thought education was devolved. That is an issue that was difficult to explain to the public. He talks about regional pay; regional pay is usually used in a prejudicial sense, in that regional pay was thought through by the Chancellor on the basis that people in Wales would be paid less than people in Bristol or Chester. That is not the case. In any event, much of NHS pay is already devolved. Mention has already been made of consultants' and doctors' pay in Wales. That is already in the hands of the Welsh Government, so this is not something that is highly unusual. However, much of the debate around teachers' pay and conditions revolves around the proper transfer of resources. We could not accept, on this or any other issue, devolution being done on the basis of an inadequate transfer of resources to cover the costs. Thus far, that offer is not on the table. When it comes to teachers' pay and conditions, we need to be assured that, for us, it is cost-neutral. We would not want to see a situation where teachers in Wales were paid less than teachers elsewhere in the UK. That is certainly not the intention.

O ran tâl ac amodau athrawon, mae'n anghyson nad yw cyflog ac amodau athrawon wedi'u datganoli. Yn hanesyddol, nid dyna sut y bu pethau. Mae llawer un wedi dweud wrthyf eu bod yn ei chael yn rhyfedd fod athrawon ar streic yng Nghymru dros gyflogau a hwythau'n credu bod addysg wedi'i datganoli. Mae hwnnw'n fater a oedd yn anodd ei esbonio i'r cyhoedd. Mae'n sôn am dâl rhanbarthol; fel arfer, caiff tâl rhanbarthol ei ddefnyddio mewn ystyr niweidiol, hynny yw bod y Canghellor wedi meddwl am dâl rhanbarthol ar y sail y byddai pobl yng Nghymru'n cael llai o dâl na phobl ym Mryste neu Gaer. Nid dyna fel y mae pethau. Beth bynnag, mae llawer o dâl y GIG eisoes wedi'i ddatganoli. Soniwyd eisoes am dâl ymgynghorwyr a meddygon yng Nghymru. Mae hynny eisoes yn nwylo Llywodraeth Cymru, felly nid yw hyn yn rhywbeth sy'n anarferol iawn. Fodd bynnag, mae llawer o'r drafodaeth ynghylch tâl ac amodau gwaith athrawon yn ymwneud â throsglwyddo adnoddau'n briodol. Ni allem dderbyn, ar hyn nac ar unrhyw fater arall, datganoli ar sail trosglwyddo adnoddau annigonol i dalu am y costau. Hyd yma, nid yw'r cynnig hwnnw ar y bwrdd. O ran tâl ac amodau athrawon, mae angen inni fod yn sicr bod hynny, i ni, yn gost-niwtral. Ni fyddem am weld sefyllfa lle mae athrawon yng Nghymru'n cael eu talu llai nag athrawon mewn mannau eraill yn y DU. Yn sicr, nid dyna yw'r bwriad.

One of the issues that my colleague Owen Smith has referred to, when it comes to examining further devolution, is the way in which the joint ministerial committee machinery works—an important point, because at the moment it does not work particularly well. Basically, there is discussion, but if there is any kind of dispute, the dispute is resolved by the UK Government. So, the reality is that we can go through the dispute resolution process, but, ultimately, if that dispute continues to its final stage, it is the UK Government that is judge and jury over it. That, clearly, is not appropriate for the future. There needs to be a far more independent system, as I suggested some years ago on the JMC, in order to resolve disputes. That has not been created so far. Again, we come back to this point that it is perfectly possible to have a stable constitution without the doctrine, for example, of parliamentary sovereignty, where one institution is superior to all the others. There is a way of doing it, by ensuring that the duties and powers of each institution are clearly marked. On that basis, there can be no room—or certainly very little room—for dispute, because all institutions know what they are able to do and what their powers are. That is the direction we need to go in and that is why we need to have a constitutional convention—call it what you will—in terms of determining the shape of the UK in the future, in order to strengthen the UK in the future.

Un o'r materion y mae fy nghydweithiwr Owen Smith wedi cyfeirio atynt, o ran archwilio datganoli pellach, yw'r ffordd y mae mecanwaith y pwyllgorau gweinidogol ar y cyd yn gweithio—pwynt pwysig, oherwydd ar hyn o bryd nid yw'n gweithio'n arbennig o dda. Yn y bôn, ceir trafodaeth, ond os ceir unrhyw fath o anghydfod, caiff yr anghydfod ei ddatrys gan Lywodraeth y DU. Felly, y gwir yw y gallwn fynd drwy'r broses datrys anghydfod, ond, yn y pen draw, os yw'r anghydfod yn parhau hyd at y cam olaf, Llywodraeth y DU yw'r barnwr a'r rheithgor yn hyn o beth. Wrth gwrs, nid yw hynny'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae angen system fwy annibynnol o lawer, fel yr awgrymais rai blynyddoedd yn ôl ar Gyd-bwyllgor y Gweinidogion, er mwyn datrys anghydfodau. Nid yw honno wedi ei chreu hyd yma. Unwaith eto, down yn ôl at y pwynt ei bod yn gwbl bosibl cael cyfansoddiad sefydlog heb, er enghraifft, athrawiaeth sofraniaeth seneddol, lle mae un sefydliad yn rhagori ar bob un arall. Mae ffordd o wneud hynny, drwy sicrhau bod dyletswyddau a phwerau pob sefydliad yn cael eu nodi'n glir. Ar y sail honno, ni all fod dim lle—neu yn sicr ond ychydig iawn o le—ar gyfer anghydfod, gan fod pob sefydliad yn gwybod yr hyn y mae'n gallu ei wneud a beth yw ei bwerau. Dyna'r cyfeiriad y mae angen inni symud tuag ato a dyna pam y mae angen inni gael confensiwn cyfansoddiadol—galwch ef beth bynnag y dymunwch—i benderfynu ar siâp y DU yn y dyfodol, er mwyn cryfhau'r DU yn y dyfodol.

15:14

## Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call Leanne Wood, Plaid Cymru spokesperson.

Galwaf Leanne Wood, llefarydd Plaid Cymru.

15:14

## Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I would like to add Plaid Cymru's support for the recommendations in part 2 of the Silk commission's work as the basis, not necessarily the completion, of the next stage of enhancing Welsh self-government. The preference of the Party of Wales would be to see the entirety of parts 1 and 2 of Silk implemented as soon as possible and without cherry-picking, so that the next Welsh Government has a much fuller set of tools to overcome the problems that Wales has. Following September's referendum in Scotland, there will be a reshaped United Kingdom, regardless of the outcome of the Scottish vote. If Scotland receives a much stronger settlement, whether it be independence or devolution max, Wales risks not catching up with the powers Scotland has in relative terms. Putting aside the wider constitutional picture, Plaid Cymru is of the view that Silk part 2 recommends powers for a purpose in the short term. We would ask the Government, however, to provide more detail on implementation.

Hoffwn ychwanegu cefnogaeth Plaid Cymru i'r argymhellion yn rhan 2 gwaith comisiwn Silk fel sail, ac nid o reidrwydd fel cwblhad, cyfnod nesaf gwella hunanlywodraeth i Gymru. Dewis Plaid Cymru fyddai gweld y cyfan o rannau 1 a 2 Silk yn cael eu rhoi ar waith cyn gynted ag y bo modd a heb ddewis a dethol, fel bod gan Lywodraeth nesaf Cymru gyfres fwy cyflawn o lawer o offer i oresgyn y problemau sy'n wynebu Cymru. Ar ôl refferendwm yr Alban ym mis Medi, bydd y Deyrnas Unedig wedi newid ei ffurf, waeth beth fydd canlyniad y bleidlais yn yr Alban. Os caiff yr Alban setliad llawer cryfach, boed yn annibyniaeth neu'n ddatganoli i'r eithaf, bydd perygl i Gymru fod ar ei hôl hi o gymharu â'r pwerau sydd gan yr Alban. A rhoi'r darlun cyfansoddiadol ehangach o'r neilltu, mae Plaid Cymru o'r farn bod rhan 2 Silk yn argymell pwerau at bwrpas yn y tymor byr. Byddem yn gofyn i'r Llywodraeth, fodd bynnag, roi mwy o fanylion ynglŷn â rhoi hyn ar waith.

The First Minister and the Minister for the Economy, Science and Transport have spoken about the recommended transport powers, particularly in relation to the rail franchise and rail infrastructure and how the devolution boundary has caused confusion over Valleys lines electrification. Our concern is that we could be stuck in a grey area for some time where rail projects are subject to dispute between the two Governments. Rail powers, therefore, are needed more urgently than anything else because of the impending renewal of the next Wales and borders rail franchise. The First Minister noted today a desire to have a specific timetable for the devolution of rail, and so my first questions relate specifically to rail. Is the First Minister looking to fast-track the devolution of those powers, and how can the next rail franchise for Wales be planned in the meantime?

Mae'r Prif Weinidog a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi siarad am y pwerau trafnidiaeth a argymhellir, yn enwedig o ran y fasnachfraint rheilffyrdd a seilwaith y rheilffyrdd a sut y mae ffin datganoli wedi achosi dryswch dros drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd. Ein pryder yw y gallem fod wedi ein dal mewn man llwyd am beth amser lle mae prosiectau rheilffyrdd yn destun anghydfod rhwng y ddwy Lywodraeth. Mae angen pwerau dros y rheilffyrdd, felly, ar fwy o frys na dim byd arall oherwydd mae masnachfraint rheilffyrdd nesaf Cymru a'r gororau ar fin cael ei hadnewyddu. Nododd y Prif Weinidog heddiw yr hoffai gael amserlen benodol ar gyfer datganoli'r rheilffyrdd, ac felly mae fy nghwestiynau cyntaf yn ymwneud yn benodol â'r rheilffyrdd. A yw'r Prif Weinidog yn bwriadu cyflymu proses datganoli'r pwerau hynny, a sut y gellir cynllunio masnachfraint rheilffyrdd nesaf Cymru yn y cyfamser?

On the overall Silk report and its future, will the First Minister give us an indication as to whether the UK Labour Party as a whole has considered the Silk recommendations and, if so, what are the outcomes of such considerations? On energy, Plaid Cymru's concerns centre around energy consents and the alignment of infrastructure consents with the relevant planning authority. In relation to the 350 MW limit proposed by the commission, this would see consents effectively moved to the UK Government. I know that energy is a priority for the First Minister, but this recommendation may not reflect the view that he has previously stated on energy consenting powers. Accepting the recommendations as part of a package may still be considered reasonable by the Government, but I would ask for some clarity on the position on these consents.

O ran adroddiad Silk yn gyffredinol a'i ddyfodol, a wnaiff y Prif Weinidog roi syniad ynghylch a yw Plaid Lafur y DU yn ei chyfanrwydd wedi ystyried argymhellion Silk ac, os ydyw, beth yw canlyniadau'r ystyriaethau hynny? O ran ynni, mae pryderon Plaid Cymru'n ymwneud â chaniatadau ynni ac alinio caniatadau seilwaith â'r awdurdod cynllunio perthnasol. O ran y cyfyngiad 350 MW a gynigiwyd gan y comisiwn, byddai hyn yn golygu bod caniatâd i bob diben yn symud i Lywodraeth y DU. Gwn fod ynni'n flaenoriaeth i'r Prif Weinidog, ond efallai na fydd yr argymhelliad hwn yn adlewyrchu'r farn y mae wedi'i datgan yn flaenorol am bwerau caniatâd ynni. Efallai y bydd y Llywodraeth yn dal i ystyried ei bod yn rhesymol derbyn yr argymhellion yn rhan o becyn, ond byddwn yn gofyn am rywfaint o eglurhad am sefyllfa'r caniatadau hyn.

Would the First Minister agree that the Silk part 2 recommendations are not the end of the road, but that they can be built upon so that the next Welsh Government could aim for a much stronger settlement that reflects to some extent the outcome of the referendum in Scotland in September? Finally, the First Minister has talked quite a lot this afternoon about the importance of a constitutional convention. I wonder whether he could tell us what discussions he has had with counterparts in Westminster about holding such a convention.

A fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno nad argymhellion rhan 2 Silk yw diwedd y ffordd, ond y gellir adeiladu arnynt er mwyn i Lywodraeth nesaf Cymru allu anelu am setliad llawer cryfach sy'n adlewyrchu, i ryw raddau, canlyniad y refferendwm yn yr Alban ym mis Medi? Yn olaf, mae'r Prif Weinidog wedi siarad gryn dipyn y prynhawn yma am bwysigrwydd confensiwn cyfansoddiadol. Tybed a all ddweud wrthym pa drafodaethau y mae wedi'u cael â chymheiriaid yn San Steffan ynghylch cynnal confensiwn o'r fath.

15:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

There was little there, I have to say, that I disagreed with. In terms of a reshaped UK, if the people of Scotland decide to vote to leave the UK in September, some fundamental questions arise, namely what you call the state that is left and what flag it has, let alone the constitutional arrangements to provide stability in a state where there are three nations, one of which is much, much larger—with 92% of the entire population—than the other two. However, that question remains if the people of Scotland, as I hope they will, remain in the UK. Certainly, there would still be a need for a convention process to ensure that the UK's constitution is right for the twenty-first century. That will apply after September whatever the result in Scotland. My view is that devolution in Scotland, Wales and Northern Ireland should be governed by a parity of approach. That is not necessarily a parity of powers. I do not argue that the powers should all be exactly the same, but the approach to devolving powers should be the same. For example, I think that it is wholly wrong that we have a conferred-powers model while Scotland has a reserved-powers model. That is unsustainable in the future. There is no reason why, constitutionally, Wales should be treated in a different, and I would argue inferior, way to Scotland and, to an extent, the much smaller jurisdiction of Northern Ireland.

Nid oedd llawer yno, rhaid imi ddweud, yr wyf yn anghytuno ag ef. O ran y DU ar ei newydd wedd, os bydd pobl yr Alban yn penderfynu pleidleisio i adael y DU ym mis Medi, bydd rhai cwestiynau sylfaenol yn codi, sef beth i alw'r wladwriaeth sydd ar ôl a beth fydd ei baner, heb sôn am y trefniadau cyfansoddiadol i ddarparu sefydlogrwydd mewn gwladwriaeth lle ceir tair gwlad, ac un ohonynt yn llawer, llawer mwy—â 92% o'r holl boblogaeth—na'r ddwy arall. Fodd bynnag, bydd y cwestiwn hwnnw'n parhau os bydd pobl yr Alban, fel y gobeithiaf y gwnânt, yn aros yn y DU. Yn sicr, byddai angen proses gonfensiwn o hyd i sicrhau bod cyfansoddiad y DU yn briodol i'r unfed ganrif ar hugain. Bydd hynny'n berthnasol ar ôl mis Medi beth bynnag fo'r canlyniad yn yr Alban. Fy marn i yw y dylid llywodraethu datganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon mewn dull cydradd. Nid yw hynny o reidrwydd yn golygu pwerau cydradd. Nid wyf yn dadlau y dylai'r pwerau i gyd fod yn union yr un fath, ond dylai'r ymagwedd tuag at ddatganoli pwerau fod yr un fath. Er enghraifft, rwyf yn meddwl ei bod yn gwbl anghywir bod gennym ni fodel pwerau a roddwyd tra bo gan yr Alban fodel pwerau a gedwir. Nid yw hynny'n gynaliadwy yn y dyfodol. Nid oes dim rheswm pam, yn gyfansoddiadol, y dylid trin Cymru mewn ffordd wahanol, a byddwn i'n dadlau mewn ffordd israddol, i'r Alban ac, i raddau, i awdurdodaeth lawer llai Gogledd Iwerddon.

In terms of transport, we would prefer to see the rail powers that we seek devolved now, if the UK Government would agree to it, with a substantial transfer of resources. This is one of the issues that we have been discussing with regard to electrification. It would, as she rightly says, remove the confusion that exists at the moment. It is quite clear that rail infrastructure is not devolved; we pay for some of it, but that is in addition to what is already paid for by the UK Government. That is why we need it devolved, to make sure that that confusion is removed and we are in the same position, for example, as Scotland, with the appropriate transfer of resources.

O ran trafnidiaeth, byddai'n well gennym weld pwerau'r rheilffyrdd yr ydym yn eu ceisio'n cael eu datganoli yn awr, pe bai Llywodraeth y DU yn cytuno i hynny, ac adnoddau'n cael eu trosglwyddo'n sylweddol. Mae hwn yn un o'r materion yr ydym wedi bod yn eu trafod o ran trydaneiddio. Byddai, fel y mae'n gywir i'w ddweud, yn cael gwared ar y dryswch sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae'n eithaf clir nad yw seilwaith y rheilffyrdd wedi'i ddatganoli; rydym yn talu am rywfaint ohono, ond mae hynny ar ben yr hyn sydd eisoes yn cael ei dalu gan Lywodraeth y DU. Dyna pam y mae angen ei ddatganoli, i wneud yn siŵr nad oes dryswch a'n bod yn yr un sefyllfa, er enghraifft, â'r Alban, a bod adnoddau wedi'u trosglwyddo'n briodol.

As far as the UK Labour Party is concerned, it is broadly supportive of the Silk commission, and the 2015 manifesto will reflect what my own party's view is with regard to the election next year.

O ran Plaid Lafur y DU, mae'n gefnogol ar y cyfan i gomisiwn Silk, a bydd maniffesto 2015 yn adlewyrchu barn fy mhlaid i o ran yr etholiad y flwyddyn nesaf.

With regard to energy, it is quite right to say that the Government's position has changed. At one time, we did talk of 100 MW as the limit on and offshore. The Silk commission has recommended 350 MW. As we have said in our response, the case is not made, we believe, for 350 MW, and we have moved beyond the 100 MW. I see no reason why there should be any limit, frankly. No case has been made for 350 MW, more or less than any other level. I would say that nuclear is probably a step too far, mainly because of the cost, and the fact that we have already have one nuclear power station means that the costs to the inspectorate would be quite significant. However, the 350 MW limit is not something that we would pursue; that is the Silk commission's own view and, as we have said, we do not believe that the case is made for that limit.

O ran ynni, mae'n ddigon teg dweud bod safbwynt y Llywodraeth wedi newid. Ar un adeg, fe wnaethom sôn am 100 MW fel terfyn ar y glannau ac ar y môr. Mae comisiwn Silk wedi argymell 350 MW. Fel yr ydym wedi'i ddweud yn ein hymateb, nid yw'r achos wedi'i wneud, yn ein barn ni, dros 350 MW, ac rydym wedi symud y tu hwnt i'r 100 MW. Ni welaf ddim rheswm pam y dylai fod unrhyw gyfyngiad, a dweud y gwir. Nid oes achos wedi'i wneud dros 350 MW, yn fwy nac yn llai nag unrhyw lefel arall. Byddwn yn dweud bod ynni niwclear, mae'n debyg, yn gam yn rhy bell, yn bennaf oherwydd y gost, ac mae'r ffaith bod gennym eisoes un atomfa'n golygu y byddai'r costau i'r arolygiaeth yn eithaf sylweddol. Fodd bynnag, nid yw'r cyfyngiad 350 MW yn rhywbeth y byddem yn ei geisio; barn comisiwn Silk ei hun yw hynny ac, fel yr ydym wedi'i ddweud, nid ydym yn credu bod achos wedi'i wneud dros y terfyn hwnnw.

With regard to the convention process, it is something that will need to happen. As I said, regardless of the result in Scotland, it is crucial that we move to a situation where the UK is more stable, in my mind, and to a situation where we do not have all power, unfettered, coming from one place. I believe that Members here have an equal right to be considered as part of the UK process and that Members here are in a position where they are as elected as Members in Westminster. Therefore, why should we be in a position where, somehow, we are regarded as not quite as legitimate as Members in Westminster are? What is needed is not parliamentary sovereignty, but a situation where each institution understands what it does, and that is something that the convention process can address.

O ran y broses gonfensiwn, mae'n rhywbeth y bydd angen iddo ddigwydd. Fel y dywedais, beth bynnag yw’r canlyniad yn yr Alban, mae'n hollbwysig ein bod yn symud at sefyllfa lle mae'r DU yn fwy sefydlog, yn fy marn i, ac at sefyllfa lle nad yw’r pŵer i gyd, yn ddiymatal, yn dod o un lle. Rwyf yn credu bod gan Aelodau yma hawl gyfartal i gael eu hystyried fel rhan o broses y DU a bod Aelodau yma mewn sefyllfa lle maent wedi’u hethol i’r un graddau â’r Aelodau yn San Steffan. Felly, pam y dylem fod mewn sefyllfa lle’r ydym, rywsut, yn cael ein hystyried yn llai dilys nag Aelodau San Steffan? Nid sofraniaeth seneddol sydd ei hangen, ond sefyllfa lle mae pob sefydliad yn deall yr hyn y mae'n ei wneud, ac mae hynny'n rhywbeth y gall y broses gonfensiwn ymdrin ag ef.

15:22 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call the Liberal Democrats’ spokesperson, Kirsty Williams.

Galwaf lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, Kirsty Williams.

15:22 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you, acting Presiding Officer. I thank the First Minister for his statement this afternoon. It was slightly curious to hear the First Minister berate the current settlement. We labour under this current settlement; a settlement designed by his own party colleagues that was supposed to last us a generation. I am glad that it is not just on energy consents that the First Minister has changed his mind.

Diolch, Lywydd dros dro. Diolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma. Roedd ychydig yn rhyfedd clywed y Prif Weinidog yn beirniadu’r setliad presennol. Rydym yn llafurio o dan y setliad presennol hwn; setliad a gynlluniwyd gan ei gyd-aelodau yn ei blaid ei hun a oedd i fod i bara am genhedlaeth inni. Rwyf yn falch nad dim ond am ganiatadau ynni y mae’r Prif Weinidog wedi newid ei feddwl.

Like the First Minister, I very much welcome the recommendation in Silk for a reserved-powers model. I would agree wholeheartedly with the First Minister that until we move to such a system, we will continue to have endless debates about what is and what is not a devolved area, which is not helpful to the constituents we serve.

Rwyf finnau, fel y Prif Weinidog, yn croesawu'n fawr yr argymhelliad yn Silk ar gyfer model pwerau a gedwir. Byddwn yn cytuno'n llwyr â'r Prif Weinidog, hyd nes inni symud at system o'r fath, y byddwn yn parhau i gael dadleuon diddiwedd ynglŷn â’r hyn sydd a’r hyn nad yw yn faes wedi'i ddatganoli, ac nid yw hynny o gymorth i'r etholwyr yr ydym yn eu gwasanaethu.

May I also agree with the First Minister that Silk 2 is, indeed, a matter for party manifestos? That was the intention and expectation of Silk 2, and I am very pleased to say that, as the First Minister has said, Silk 2 will form the basis of my own party’s manifesto.

A gaf fi hefyd gytuno â'r Prif Weinidog fod Silk 2, yn wir, yn fater i faniffestos y pleidiau? Dyna oedd bwriad a disgwyliad Silk 2, ac rwyf yn falch iawn o ddweud, fel y mae'r Prif Weinidog wedi’i ddweud, y bydd Silk 2 yn sail i faniffesto fy mhlaid i.

I have some specific questions on points that the First Minister raised in his statement. First, on the issue of caution over S4C funding and the role or non-continuing role of the Department for Culture, Media and Sport in that regard, the First Minister says that it needs further consideration. Could he outline what his concerns are in this regard, please?

Mae gennyf rai cwestiynau penodol am bwyntiau a gododd y Prif Weinidog yn ei ddatganiad. Yn gyntaf, ynglŷn â phwyll ynghylch ariannu S4C a’r posibilrwydd na fydd swyddogaeth yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn parhau yn hynny o beth, mae’r Prif Weinidog yn dweud bod angen ei ystyried ymhellach. A fyddai cystal ag amlinellu beth yw ei bryderon yn hyn o beth?

Will the First Minister agree with me that, in promoting this set of proposals to the Welsh people, it is necessary for us to talk about the purpose of having these powers and not simply to talk about the ability of the Welsh Government or, indeed, this Chamber to have the powers, but that they are powers for a purpose? Therefore, could he, perhaps, expand on what he says are the limitations of Silk 2 with regard to public health? What, for instance, does he believe cannot be achieved under Silk 2 proposals with regard to public health for which he feels it is necessary to go beyond Silk?

A wnaiff y Prif Weinidog gytuno â mi bod angen inni, wrth hyrwyddo’r gyfres hon o gynigion i bobl Cymru, sôn am ddiben y pwerau hyn, ac nid dim ond sôn am allu Llywodraeth Cymru neu, yn wir, y Siambr hon i gael y pwerau, ond bod diben i’r pwerau? Felly, a all, efallai, ymhelaethu ar yr hyn a ddywed yw cyfyngiadau Silk 2 o ran iechyd y cyhoedd? Beth, er enghraifft, y mae'n credu na ellir ei gyflawni dan gynigion Silk 2 o ran iechyd y cyhoedd y mae'n teimlo bod angen mynd y tu hwnt i Silk ar ei gyfer?

Silk part 1 and Silk part 2, if they are implemented, will have profound implications for this Chamber. What is the First Minister's analysis of, and views on, the need to strengthen the capacity of the National Assembly for Wales to deal with these new powers? What will his approach be to persuading the people of Wales of the need to strengthen the capacity within the Chamber? Silk talked about the need to begin building on inter-governmental relations prior to these powers being devolved to Wales and the report being implemented. Will the Minister give us any indication of what work is going on between the Westminster Government and the Welsh Government to prepare for a potential move to a reserved-powers model and the powers coming to Wales? Does he agree that, whatever the results of the Scottish referendum, the status quo is not an option. It is not an option for Scotland, and it is certainly not an option for us or, indeed, for England. Would he see that his constitutional convention has an opportunity to establish, once and for all, a truly federal United Kingdom?

Bydd rhan 1 Silk a rhan 2 Silk, os cânt eu rhoi ar waith, yn creu goblygiadau dwys i'r Siambr hon. Beth yw dadansoddiad y Prif Weinidog o'r angen i gryfhau gallu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ymdrin â'r pwerau newydd hyn, a'i farn am hynny? Sut y bydd yn ceisio darbwyllo pobl Cymru fod angen cryfhau'r gallu o fewn y Siambr? Soniodd Silk am yr angen i ddechrau adeiladu ar gysylltiadau rhynglywodraethol cyn i'r pwerau hyn gael eu datganoli i Gymru a chyn i'r adroddiad gael ei roi ar waith. A wnaiff y Gweinidog roi unrhyw arwydd inni o ba waith sy'n cael ei wneud rhwng Llywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru i baratoi am symud posibl tuag at fodel pwerau a gedwir a'r pwerau sy'n dod i Gymru? A yw'n cytuno, beth bynnag fo canlyniadau refferendwm yr Alban, nad yw'r status quo yn opsiwn. Nid yw'n opsiwn i'r Alban, ac yn sicr nid yw'n opsiwn i ni nac, yn wir, i Loegr. A fyddai'n gweld bod gan ei gonfensiwn cyfansoddiadol gyfle i sefydlu, unwaith ac am byth, Deyrnas Unedig wirioneddol ffederal?

15:26

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I thank the leader of the Liberal Democrats for her observations. The reserved-powers model, for me, is crucial. There have been no discussions between us and the UK Government, because the UK Government has not taken a formal view. The Member is right to point this out—and I accept this—that this is a matter for after the next general election, which is something that I have always accepted. Silk part 1 will be in place before the general election, but Silk part 2 will be a matter for parties after the election has taken place, and it is a matter for manifestos.

Diolch i arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei sylwadau. Mae'r model pwerau a gedwir, i mi, yn hanfodol. Ni fu trafodaethau rhyngom ni a Llywodraeth y DU, oherwydd nid yw Llywodraeth y DU wedi llunio barn ffurfiol. Mae'r Aelod yn gywir i dynnu sylw at hyn—ac rwyf yn derbyn hyn—mai mater i'w drafod ar ôl yr etholiad cyffredinol nesaf ydyw; mae hynny'n rhywbeth yr wyf bob amser wedi'i dderbyn. Bydd rhan 1 Silk ar waith cyn yr etholiad cyffredinol, ond bydd rhan 2 Silk yn fater i'r pleidiau ar ôl i'r etholiad ddigwydd, ac mae'n fater ar gyfer maniffestos.

S4C's funding situation has not been resolved in the long term, which is the difficulty that we have. It is proposed for the near future that S4C should be funded, in part at least, by the licence fee. We do not know whether the licence will be there in 10 years' time. More people are now watching their programmes online and on other devices. I am told that they are meant to have licences in certain circumstances, but there is a question mark as to the sustainability of a licence fee system where people are no longer watching television in the conventional sense. Bearing that in mind, unless there is some certainty about the funding of S4C, we run the risk of taking on board a responsibility where the funding stream will run out in the very near future, and it is a substantial funding stream. There needs to be far greater understanding of the stability of S4C's funding before we could consider any devolution of S4C itself, and we are not in that position at the moment.

Nid yw sefyllfa ariannu S4C wedi ei datrys yn y tymor hir, a dyna'r anhawster sydd gennym. Y cynnig ar gyfer y dyfodol agos yw y dylid ariannu S4C, yn rhannol o leiaf, drwy ffi'r drwydded. Nid ydym yn gwybod a fydd y drwydded yno ymhen 10 mlynedd. Mae mwy o bobl yn awr yn gwylio eu rhaglenni ar-lein ac ar ddyfeisiau eraill. Dywedir wrthyf y dylai fod ganddynt drwyddedau dan rai amgylchiadau, ond mae marc cwestiwn ynghylch cynaliadwyedd system ffi'r drwydded lle nad yw pobl mwyach yn gwylio'r teledu yn yr ystyr gonfensiynol. Ac ystyried hynny, oni cheir rhywfaint o sicrwydd am ariannu S4C, mae perygl y byddwn yn cymryd cyfrifoldeb lle bydd y ffrwd ariannu'n dod i ben yn y dyfodol agos iawn, ac mae'n ffrwd ariannu sylweddol. Mae angen llawer gwell dealltwriaeth o sefydlogrwydd cyllid S4C cyn y gallem roi unrhyw ystyriaeth i ddatganoli S4C ei hun, ac nid ydym yn y sefyllfa honno ar hyn o bryd.

An example of powers that will make a difference is energy. Scotland controls the renewables obligation certificates. Therefore, it controls the subsidy regime around renewable energy sources. Scotland has been able to move ahead with marine energy, despite the fact that its physical conditions in the North sea are far worse than ours, but it can put more money on the table. We are tied in to the subsidy regime of England. Northern Ireland and Scotland are not tied in, so they have been able to forge ahead with renewable energy technology, with all the jobs that that brings, whereas we have been held back because we are stuck with an England-and-Wales system. That is an example of where investment and jobs have potentially been lost because of our inability to use the subsidy regime to our advantage in the way that Scotland has done. That is just one example.

Un enghraifft o bwerau a fydd yn gwneud gwahaniaeth yw ynni. Yr Alban sy'n rheoli'r tystysgrifau rhwymedigaeth ynni adnewyddadwy. Felly, hwy sy'n rheoli'r gyfundrefn gymhorthdal o ran ffynonellau ynni adnewyddadwy. Mae'r Alban wedi gallu symud ymlaen ag ynni morol, er bod ei hamodau ffisegol ym môr y Gogledd yn llawer gwaeth na'n rhai ni, ond gall roi mwy o arian ar y bwrdd. Rydym wedi ein clymu yng nghyfundrefn cymhorthdal Lloegr. Nid yw Gogledd Iwerddon a'r Alban wedi eu clymu, felly maent wedi gallu bwrw ymlaen â thechnoleg ynni adnewyddadwy, a'r holl swyddi a ddaw yn sgil hynny, a ninnau wedi ein dal yn ôl oherwydd ein bod yn sownd yn system Cymru a Lloegr. Mae hynny'n enghraifft o ble y mae buddsoddi a swyddi wedi eu colli o bosibl oherwydd ein hanallu i fanteisio ar y gyfundrefn gymhorthdal fel y mae'r Alban wedi'i wneud. Dim ond un enghraifft yw honno.

When it comes to public health, the sewerage system, for some bizarre reason, is not devolved. I cannot, for the life of me, see why that is, but if we are to take a holistic approach to public health, there needs to be control of the sewerage system in order for us to ensure that that is not a source of public ill health in the future. There is no logical reason that I can see—I am sorry to labour this point—why the sewerage system is not devolved. Nevertheless, it is not, but it should be, in my view.

O ran iechyd y cyhoedd, nid yw'r system garthffosiaeth, am ryw reswm rhyfedd, wedi'i datganoli. Ni allaf yn fy myw weld pam, ond os ydym am gymryd ymagwedd gyfannol tuag at iechyd y cyhoedd, mae angen rheoli'r system garthffosiaeth er mwyn inni sicrhau nad yw'n achosi afiechyd cyhoeddus yn y dyfodol. Nid oes rheswm rhesymegol y gallaf ei weld—mae'n ddrwg gennyf lafurio ar y pwynt hwn—pam nad yw'r system garthffosiaeth wedi'i datganoli. Serch hynny, nid yw, ond dylai fod, yn fy marn i.

Regarding the capacity of the Assembly, the Member and I will both know—we have been here for some time—that it is difficult to convince the public of the need for more politicians. I take entirely the point that backbench Members here work exceptionally hard. There is no other institution where Members work harder, to put it diplomatically. Members here often sit on two or three committees a week, there is a huge amount to read, and it is important that that work is done in order to achieve scrutiny. I think that we manage it at the moment, but there is no doubt that, with more Members, scrutiny could be more effective. However, there is a job to do to convince the public of that. Northern Ireland has 109 Members with a population of 1.6 million. Scotland has 129 Members, and it is 60% bigger than Wales. So, there lies the arithmetic; we are not in the same position in terms of scrutiny, I would argue, compared to other Chambers, in terms of numbers.

O ran galluedd y Cynulliad, mae'r Aelod a minnau'n gwybod—rydym wedi bod yma ers peth amser—ei bod yn anodd argyhoeddi'r cyhoedd bod angen mwy o wleidyddion. Rwyf yn derbyn yn llwyr y pwynt bod Aelodau meinciau cefn yma'n gweithio'n eithriadol o galed. Nid oes sefydliad arall ble mae'r Aelodau'n gweithio'n galetach, a bod yn ddiplomyddol. Mae Aelodau yma'n aml yn eistedd ar ddau neu dri phwyllgor yr wythnos, mae llawer iawn i'w ddarllen, ac mae'n bwysig bod y gwaith hwnnw'n cael ei wneud er mwyn craffu'n briodol. Credaf ein bod yn ymdopi ar hyn o bryd, ond nid oes amheuaeth na allem graffu'n fwy effeithiol pe bai gennym fwy o Aelodau. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud i argyhoeddi'r cyhoedd ynghylch hynny. Mae gan Ogledd Iwerddon 109 o Aelodau a phoblogaeth o 1.6 miliwn. Mae gan yr Alban 129 o Aelodau, ac mae 60% yn fwy na Chymru. Felly, dyna'r rhifyddeg; nid ydym yn yr un sefyllfa o ran craffu, byddwn yn dadlau, o gymharu â Siambrau eraill, o ran niferoedd.

On the convention, yes, it does need to look at some of the outstanding issues that Silk does not deal with, such as the Secretary of State's veto, which cannot be right in the present day, and of course, ensuring—this is something that has been raised in Scotland—that the option is not there for the UK Parliament to dissolve this Assembly without its own consent or, indeed, the consent of the people of Wales. That is wholly undemocratic and something that, to my mind, should not persist in the future. Those are just two examples of what the convention could look at.

O ran y confensiwn, oes, mae angen iddo edrych ar rai o'r materion sy'n weddill nad yw Silk yn ymdrin â hwy, megis feto'r Ysgrifennydd Gwladol, na all fod yn iawn yn yr oes sydd ohoni, ac wrth gwrs, sicrhau—ac mae hyn yn rhywbeth sydd wedi ei godi yn yr Alban—nad yw'r opsiwn yno i Senedd y DU i ddiddymu'r Cynulliad hwn heb ei ganiatâd ei hun neu, yn wir, heb ganiatâd pobl Cymru. Mae hynny'n gwbl annemocrataidd ac yn rhywbeth na ddylai, yn fy marn i, barhau yn y dyfodol. Dyna ddwy enghraifft o'r hyn y gallai'r confensiwn edrych arno.

15:30

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have three more speakers and I ask them to be succinct in their questions. Perhaps to help them out, I will just say that I am quite happy to be known as 'Chair', which is the correct form of address and might shorten things slightly. [Laughter.] I call Mike Hedges.

Mae gennyf dri siaradwr arall a gofynnaf iddynt ofyn eu cwestiynau'n gryno. I'w helpu efallai, rwyf am ddweud fy mod yn ddigon hapus i gael fy ngalw'n 'Cadeirydd', sef y ffurf gywir i'm cyfarch ac a allai efallai fyrhau pethau ychydig. [Chwerthin.] Galwaf ar Mike Hedges.

15:30

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Chair. [Laughter.] I welcome the statement. As Members may recall, I led a debate on reserved powers roughly this time last year. I listed a number of regions and nations that had the reserved-powers model and the clarity that has brought. Does the First Minister agree that reserved powers is the most important part of the recommendations, because without that, we will just continue to have lots of money for lawyers, but not necessarily good legislation?

Diolch, Gadeirydd. [Chwerthin.] Rwyf yn croesawu'r datganiad. Fel y bydd yr Aelodau efallai'n cofio, arweiniais ddadl am bwerau a gedwir tua'r adeg hon y llynedd. Rhestrais nifer o ranbarthau a chenhedloedd a oedd yn defnyddio'r model pwerau a gedwir a'r eglurder a ddaw yn sgil hynny. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno mai pwerau a gedwir yw'r rhan bwysicaf o'r argymhellion, oherwydd heb hynny, byddwn yn parhau i fod â llawer o arian i gyfreithwyr, ond dim deddfwriaeth dda o reidrwydd?

My other point is that I have a concern over additional powers without the correct money coming with them. That must be something of concern to all of us. Does the First Minister believe that we need an independent body to calculate the finance to be transferred with each additional power, rather than relying on a Treasury decision following any negotiations that take place?

Fy mhwynt arall yw fy mod yn pryderu ynglŷn â phwerau ychwanegol heb i'r arian cywir ddod law yn llaw â hwy. Rhaid i hynny fod yn destun pryder i bob un ohonom. A yw'r Prif Weinidog yn credu bod arnom angen corff annibynnol i gyfrifo'r cyllid i'w drosglwyddo gyda phob pŵer ychwanegol, yn hytrach na dibynnu ar benderfyniad y Trysorlys yn dilyn unrhyw drafodaethau sy'n digwydd?

15:31

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That second point is music to my ears. I would love to see a system where there is an independent assessment of what resources should be transferred. The Treasury, however, is a particularly closed beast in terms of keeping its powers to itself. Yes; one of the issues that the convention could look at is whether there should be an independent mechanism for assessing what resources are actually needed when a power is transferred.

Mae'r ail bwynt hwnnw'n fiwsig i'm clustiau. Byddwn wrth fy modd gweld system lle ceir asesiad annibynnol o ba adnoddau y dylid eu trosglwyddo. Mae'r Trysorlys, fodd bynnag, yn beth arbennig o gaeedig o ran cadw ei bwerau iddo'i hunan. Ie; un o'r materion y gallai'r confensiwn edrych arno yw a ddylai fod mecanwaith annibynnol i asesu pa adnoddau sydd eu hangen mewn gwirionedd pan gaiff pŵer ei drosglwyddo.

The reserved-powers model is absolutely crucial. Again, it cannot be right that we have a system where Bills end up in court not because of any malice on the part of either Government, but because there is genuine disagreement or lack of clarity over what the devolution settlement actually says. While it is right to say that it was introduced by my party, it is a work in progress. Bear in mind that it also contained the unlamented legislative consent Order process, which none of us would want to return to. It is a work in progress and it has got us to a position where we are a primary legislative body, but we need to be in a situation where there is far greater clarity over what we can do.

Mae'r model pwerau a gedwir yn gwbl hanfodol. Unwaith eto, ni all fod yn iawn fod gennym system lle mae Biliau'n gorfod mynd i'r llys nid oherwydd unrhyw falais ar ran y naill Lywodraeth na'r llall, ond oherwydd bod anghytuno gwirioneddol neu ddiffyg eglurder ynghylch yr hyn y mae'r setliad datganoli'n ei ddweud mewn gwirionedd. Er ei bod yn deg dweud mai fy mhlaid i a'i cyflwynodd, mae'n waith sy'n mynd rhagddo. Cofiwch ei bod hefyd yn cynnwys y broses Gorchymyn cydsyniad deddfwriaethol nad oes colled ar ei hôl, ac na fyddai neb ohonom am ddychwelyd ati. Mae'n waith sy'n mynd rhagddo ac mae wedi ein rhoi mewn sefyllfa lle'r ydym yn gorff deddfu sylfaenol, ond mae angen inni fod mewn sefyllfa lle ceir llawer mwy o eglurder ynghylch yr hyn y gallwn ei wneud.

I have used these examples before. How can it be right, for example, for the Act to say that adoption law is devolved but that family law is not? It is a complete contradiction. There are some vagaries over local government electoral relations and whether they are devolved or not. There are all manner of things in what is quite a small schedule, Schedule 7, that create uncertainty. They need to be resolved. The only way to resolve that with clarity is to move towards the reserved-powers model, so that we can have the same clarity as Scotland and so that we can avoid the costs of lawyers, which Scotland has, so far, been able to avoid. The people of Wales need to make sure that they have clarity in terms of the powers that they can exercise; they do not need, with respect to my former profession, more money for lawyers.

Rwyf wedi defnyddio'r enghreifftiau hyn o'r blaen. Sut y gall fod yn iawn, er enghraifft, fod y Ddeddf yn dweud bod cyfraith mabwysiadu wedi'i datganoli, ond nad yw cyfraith teulu? Mae'n wrthddweud llwyr. Mae rhai amwysterau dros gysylltiadau etholiadol llywodraeth leol ac a ydynt wedi'u datganoli ai peidio. Mae pob math o bethau mewn atodlen eithaf bach, Atodlen 7, sy'n creu ansicrwydd. Mae angen eu datrys. Yr unig ffordd o ddatrys hynny gydag eglurder yw symud tuag at fodel pwerau a gedwir, fel y gallwn gael yr un eglurder â'r Alban ac fel y gallwn osgoi costau cyfreithwyr, y mae'r Alban, hyd yma, wedi gallu eu hosgoi. Mae angen i bobl Cymru sicrhau eglurder o ran y pwerau y gallant eu harfer; nid oes arnynt angen, gyda pharch i'm cyn broffesiwn, mwy o arian i'w roi i gyfreithwyr.

15:33 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased that the issue of the capacity of the Assembly has been raised here already this afternoon. I am glad that Silk part 2 recognises the fact that more Assembly Members are needed to do the business of the Assembly. It is actually saying that the National Assembly cannot serve the interests of the people of Wales as it ought. That is the key thing: how we serve the interests of the people of Wales. I accept that it is difficult to sell more politicians to the public, but I wondered whether the First Minister thought that this is something that could be addressed in a cross-party way, in view of the fact that we are all aware of how difficult it is to do the business of the Assembly in a proper and appropriate way, serving the people of Wales.

Rwyf yn falch bod mater galluedd y Cynulliad wedi ei godi yma eisoes y prynhawn yma. Rwyf yn falch bod rhan 2 Silk yn cydnabod y ffaith bod angen rhagor o Aelodau Cynulliad i gynnal busnes y Cynulliad. Yn wir, mae'n dweud na all y Cynulliad Cenedlaethol wasanaethu buddiannau pobl Cymru fel y dylai. Dyna sy'n allweddol: sut yr ydym yn gwasanaethu buddiannau pobl Cymru. Rwyf yn derbyn ei bod yn anodd gwerthu mwy o wleidyddion i'r cyhoedd, ond roeddwn yn meddwl tybed a yw'r Prif Weinidog yn credu bod hyn yn rhywbeth y gellid ymdrin ag ef mewn modd trawsbleidiol, yn wyneb y ffaith ein bod i gyd yn gwybod pa mor anodd yw cynnal busnes y Cynulliad mewn ffordd briodol, a gwasanaethu pobl Cymru.

I also particularly welcome the proposals in relation to policing and youth justice and, eventually, justice itself. Silk part 2 recommends that, after policing has been devolved, the two Governments should get together to look at devolving probation and prisons. Does the First Minister agree that it is very important that probation should be devolved, in view of the nature of the work that it does, linking with other bodies in the community? Does he also think that this should be done as soon as possible? Otherwise, there will not be a probation service that is fit for purpose, in view of the ongoing privatisation that is going on at the moment.

Croesawaf hefyd y cynigion ynglŷn â phlismona a chyfiawnder ieuenctid yn arbennig ac, yn y pen draw, ynglŷn â chyfiawnder ei hun. Mae rhan 2 Silk yn argymell, ar ôl i blismona gael ei ddatganoli, y dylai'r ddwy Lywodraeth ddod at ei gilydd i edrych ar ddatganoli'r gwasanaeth prawf a charchardai. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno ei bod yn bwysig iawn datganoli'r gwasanaeth prawf, ac ystyried natur y gwaith y mae'n ei wneud, gan gysylltu â chyrff eraill yn y gymuned? A yw hefyd yn credu y dylid gwneud hyn cyn gynted ag y bo modd? Fel arall, ni fydd gwasanaeth prawf sy'n addas at ei ddiben, ac ystyried y preifateiddio parhaus sy'n digwydd ar hyn o bryd.

15:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I thank the Member for her comments. I think that the idea of a cross-party approach to the future structure of this institution is a sensible approach, and one, certainly, that I would be willing to explore with other parties, although I do not know what their views would be on the timetable and the numbers. I know that there are different views on this.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Credaf fod y syniad o roi strwythur trawsbleidiol i'r sefydliad hwn yn y dyfodol yn un synhwyrol, ac yn un, yn sicr, y byddwn yn barod i'w archwilio gyda phleidiau eraill, er nad wyf yn gwybod beth fyddai eu barn am yr amserlen a'r niferoedd. Gwn y ceir gwahaniaeth barn am hyn.

When it comes to the justice system, I think that it would be difficult to separate probation and prisons from the justice system as a whole. It is possible to do it, I believe, with the police, because what the police do is to bring people to the door of the criminal justice system. Once they walk through that door, they are in the hands of the Crown Prosecution Service, the courts, sentencing policy, prisons, probation—all that comes as a block.

O ran y system gyfiawnder, rwyf yn meddwl y byddai'n anodd gwahanu'r gwasanaeth prawf a charchardai oddi wrth y system gyfiawnder yn ei chyfanrwydd. Mae'n bosibl gwneud hynny, rwyf yn credu, gyda'r heddlu, oherwydd yr hyn y mae'r heddlu'n ei wneud yw dod â phobl at ddrws y system cyfiawnder troseddol. Wedi iddynt gerdded drwy'r drws hwnnw, maent yn nwylo Gwasanaeth Erlyn y Goron, y llysoedd, polisi dedfrydu, carchardai, y gwasanaeth prawf—mae'r rheini i gyd yn un bloc.

With probation and prisons, the number of people who are on probation and who go to prison is directly influenced by sentencing policy. So, having one without controlling the other—and, indeed, prosecution policy—would be difficult, because, in order to control the numbers coming through, the whole package needs to come our way. That is a substantial amount of devolution, I agree, and I agree entirely with her point about probation—there is no question about that; I have the same concerns as she does, as I have concerns about Legal Aid. I can see a situation very, very soon in this country where lawyers prosecuting and defending serious criminal cases are not qualified to do so, as happens in many states in the USA. I think that that would be a retrograde step as far as justice is concerned.

Gyda'r gwasanaeth prawf a charchardai, mae'r polisi dedfrydu'n dylanwadu'n uniongyrchol ar nifer y bobl sydd ar brawf ac sy'n mynd i'r carchar. Felly, byddai cael un heb reoli'r llall—ac, yn wir, y polisi erlyn—yn anodd, oherwydd, er mwyn rheoli'r niferoedd sy'n dod drwodd, mae angen rhoi'r pecyn cyfan inni. Mae hynny'n ddatganoli sylweddol, rwyf yn cytuno, ac rwyf yn cytuno'n llwyr â'i phwynt am y gwasanaeth prawf—nid oes amheuaeth am hynny; mae gennyf yr un pryderon â hi, ac mae gennyf hefyd bryderon am Gymorth Cyfreithiol. Gallaf weld sefyllfa'n fuan iawn, iawn yn y wlad hon lle nad yw cyfreithwyr sy'n erlyn ac yn amddiffyn achosion troseddol difrifol yn gymwysedig i wneud hynny, fel sy'n digwydd mewn llawer o daleithiau yn yr Unol Daleithiau. Rwyf yn meddwl y byddai hynny'n gam yn ôl o ran cyfiawnder.

However, I do think that policing comes first. Beyond that, justice can be looked at on a far longer timescale—believing, as I do, that justice has to be taken as a whole. It would be very difficult to take individual items out of criminal justice, such as probation and prisons, without accepting the whole package.

Fodd bynnag, rwyf yn credu bod plismona’n dod yn gyntaf. Y tu hwnt i hynny, gellir ystyried cyfiawnder yn y tymor hwy o lawer—oherwydd fy mod yn credu bod yn rhaid edrych ar gymryd cyfiawnder yn ei gyfanrwydd. Byddai'n anodd iawn cymryd eitemau unigol allan o gyfiawnder troseddol, megis y gwasanaeth prawf a charchardai, heb dderbyn y pecyn cyfan.

15:37

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finally, I call Mick Antoniw.

Yn olaf, galwaf ar Mick Antoniw.

15:37

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, since Kilbrandon, in 1973, for those of us who were in the 1979 devolution referendum—I remember it very, very well—we have made an enormous amount of constitutional progress. However, I want to take up the direction of where we go. I welcome your comments about the future constitutional developments that need to take place. First, there is talk of federalism. Federalism never formed part of the Kilbrandon recommendations, and it was never part of the 1979 proposals; in fact, it was not in the 1999 proposals either. What we have always been talking about is the decentralisation—the devolution—of power. Of course, the big gap in the constitutional dysfunction that we have is the failure to address the situation in England. We cannot resolve the whole UK position until England gets to grip with its own decentralisation. It seems to me that that is a core requirement.

Brif Weinidog, ers Kilbrandon, yn 1973, i’r rhai ohonom a oedd yn refferendwm datganoli 1979—rwyf yn ei gofio’n dda iawn, iawn—rydym wedi gwneud llawer iawn o gynnydd cyfansoddiadol. Fodd bynnag, hoffwn sôn am y cyfeiriad y byddwn yn symud tuag ato. Rwyf yn croesawu eich sylwadau am y datblygiadau cyfansoddiadol sydd eu hangen yn y dyfodol. Yn gyntaf, mae sôn am ffederaliaeth. Nid oedd ffederaliaeth erioed yn rhan o argymhellion Kilbrandon, ac nid oedd erioed yn rhan o gynigion 1979; yn wir, nid oedd yng nghynigion 1999 chwaith. Yr hyn yr ydym bob amser wedi bod yn siarad amdano yw datganoli grym. Wrth gwrs, y bwlch mawr yn y trafferthion cyfansoddiadol sydd gennym yw methiant i ymdrin â'r sefyllfa yn Lloegr. Ni allwn ddatrys sefyllfa’r DU gyfan nes i Loegr fynd i’r afael â’i datganoli ei hun. Mae'n ymddangos i mi fod hynny’n ofyniad craidd.

First Minister, with regard to your proposals in respect of a constitutional convention, it seems to me that there are three parts that I would like it to consider. One is the essential need for decentralisation—for devolution—to take place in England. The second part is a review of the functions of the UK Parliament. The third is the need, potentially, for a written constitution, which would have, at its core, equality, redistribution and sustainability.

Brif Weinidog, o ran eich cynigion ynglŷn â chonfensiwn cyfansoddiadol, mae'n ymddangos i mi fod tair rhan yr hoffwn iddo eu hystyried. Un yw'r angen hanfodol i ddatganoli ddigwydd yn Lloegr. Yr ail ran yw adolygu swyddogaethau Senedd y DU. Y drydedd yw'r angen, o bosibl, am gyfansoddiad ysgrifenedig, a fyddai’n cynnwys, yn ei hanfod, gydraddoldeb, ailddosbarthu a chynaliadwyedd.

15:38

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

May I thank the Member for his comments? He talks about the 1979 referendum. I would recommend to Members the book, ‘The Welsh Veto’, with the foreword by Dr Kenneth O. Morgan, who talks about the campaign that took place then, and outlines the powers that would have been available to what was then called the Welsh assembly. They were fairly pitiful compared to what we have now—pitiful even compared to 1999. However, it is an interesting historical book, when comparing where we have come in what is, ultimately, quite a short space of time.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod am ei sylwadau? Mae'n sôn am refferendwm 1979. Byddwn yn argymell i'r Aelodau y llyfr, 'The Welsh Veto’, â rhagair gan Dr Kenneth O. Morgan, sy'n sôn am yr ymgyrch a gynhaliwyd bryd hynny, ac sy’n amlinellu’r pwerau a fyddai wedi bod ar gael i’r hyn a alwyd ar y pryd yn gynulliad Cymru. Roeddent yn weddol druenus o’u cymharu â'r hyn sydd gennym yn awr—yn druenus hyd yn oed o'u cymharu ag 1999. Fodd bynnag, mae'n llyfr hanesyddol diddorol, wrth gymharu ble’r ydym wedi cyrraedd mewn cyfnod eithaf byr, a dweud y gwir.

Decentralisation is important. The English question is the great unresolved question. We know that. How it is resolved is a more complicated issue, but the convention process would look at England as well, of course; it is important to understand what happens in terms of decentralisation in England. I believe that that is being addressed, particularly by our party, in terms of looking at what happens with the bigger cities, and then decentralising power down to the large conurbations in England, which I think is a welcome step.

Mae datganoli’n bwysig. Y cwestiwn ynglŷn â Lloegr yw'r cwestiwn mawr sydd heb ei ddatrys. Rydym yn gwybod hynny. Mae sut y caiff ei ddatrys yn fater mwy cymhleth, ond byddai'r broses gonfensiwn yn edrych ar Loegr hefyd, wrth gwrs; mae'n bwysig deall beth sy'n digwydd o ran datganoli yn Lloegr. Credaf fod hynny'n cael sylw, yn enwedig gan ein plaid ni, o ran edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn y dinasoedd mwy, ac yna ddatganoli pŵer i lawr i'r cytrefi mawr yn Lloegr, sydd, yn fy marn i, yn gam i'w groesawu.

In terms of the review of the functions of the UK Parliament, I think that it is inevitable that that will happen. There are, in fact, very few functions that are carried out by the UK Government across the whole of the UK—a handful, such as security, defence, general taxation, and border control; there is not much else that is not devolved. So, examining what the UK Parliament does, and its powers and functions, is an important part of delineating between the UK Parliament, on the one hand, and the devolved administrations on the other, so that there is greater clarity as to who does what.

O ran yr adolygiad o swyddogaethau Senedd y DU, rwyf yn meddwl ei bod yn anochel y bydd hynny'n digwydd. Mewn gwirionedd, ychydig iawn o swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni gan Lywodraeth y DU ar draws y DU gyfan—llond llaw, megis diogelwch, amddiffyn, trethiant cyffredinol, a rheoli ffiniau; nid oes llawer arall nad yw wedi'i ddatganoli. Felly, mae edrych ar yr hyn y mae Senedd y DU yn ei wneud, ac ar ei phwerau a'i swyddogaethau, yn rhan bwysig o dynnu llinell rhwng Senedd y DU, ar y naill law, a'r gweinyddiaethau datganoledig ar y llaw arall, er mwyn sicrhau mwy o eglurder ynghylch pwy sy'n gwneud beth.

On a written constitution, I used to be a great fan of a written constitution, but I think that there is a need for flexibility. One of the advantages of having an unwritten constitution is flexibility. I think that it is an open question as to whether the constitution could be partially written or wholly written, or whether it could simply be adapted, as it has done, from being a wholly unwritten constitution based entirely on the sovereignty of Parliament—a concept that I think is probably now beyond its sell-by date when it comes to the twenty-first century and understanding the need for parity of esteem, if I may use a phrase that was current in the 1990s, between the devolved administrations and UK Parliament.

O ran cyfansoddiad ysgrifenedig, roeddwn yn arfer bod yn hoff iawn o gyfansoddiadau ysgrifenedig, ond credaf fod angen hyblygrwydd. Un o fanteision cyfansoddiad anysgrifenedig yw ei hyblygrwydd. Rwyf yn meddwl ei fod yn gwestiwn agored a ellid ysgrifennu’r cyfansoddiad yn rhannol neu'n gyfan gwbl, neu a ellid ei addasu, fel sydd wedi digwydd, o fod yn gyfansoddiad cwbl anysgrifenedig yn llwyr seiliedig ar sofraniaeth y Senedd y DU—cysyniad sydd, rwyf yn meddwl, yn ôl pob tebyg yn awr wedi chwythu ei blwc yn yr unfed ganrif ar hugain lle’r ydym yn deall bod angen parch cydradd, os caf ddefnyddio ymadrodd a oedd yn gyfoes yn yr 1990au, rhwng y gweinyddiaethau datganoledig a Senedd y DU .

15:41

## Datganiad: Cyflwyno’r Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

## Statement: Introduction of the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill

Senedd.tv Fideo Video

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

Yesterday, I laid the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill, together with the explanatory memorandum, before the National Assembly for Wales. The Bill is part of a significant package of work being undertaken by the Welsh Government aimed at ending gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. The introduction of the Bill is an important milestone in our ongoing work to tackle these issues that could not have come about without the engagement of various committed individuals and stakeholders over the last few years. These include my predecessor, Carl Sargeant, the then Minister for Local Government and Communities, who commissioned an expert task and finish group to advise us on the development of our White Paper consultation on proposed legislation. The engagement of both stakeholders and the public during the extensive consultation has helped to inform and shape the Bill that is now before the Assembly.

Ddoe, gosodais Fil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), ynghyd â’r memorandwm esboniadol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Bil yn rhan o becyn sylweddol o waith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru â’r nod o roi terfyn ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae cyflwyno'r Bil yn garreg filltir bwysig yn ein gwaith parhaus i ymdrin â'r materion hyn na allai fod wedi digwydd heb ymrwymiad amryw o unigolion a rhanddeiliaid ymroddedig dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys fy rhagflaenydd, Carl Sargeant, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd, a gomisiynodd grŵp gorchwyl a gorffen arbenigol i roi cyngor inni ar y gwaith o ddatblygu ein hymgynghoriad Papur Gwyn ar ddeddfwriaeth arfaethedig. Mae ymgysylltiad rhanddeiliaid a'r cyhoedd fel ei gilydd yn ystod yr ymgynghoriad helaeth wedi helpu i lywio a llunio'r Bil sydd bellach gerbron y Cynulliad.

The Bill, if passed, will enshrine into legislation the Welsh Government's commitment to addressing gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. We recognise that in Wales, consistent with the rest of the world, women are disproportionally affected by all forms of intimate violence. The Welsh Government recognises and agrees with the Council of Europe regarding the gendered nature of domestic abuse and sexual violence, the fact that perpetrators are predominantly men and victims are mostly women and children, recognising this as not only a violation of human rights, but also as gender-based discrimination. The shocking fact is that two women a week are killed in the UK by their partner or ex-partner.

Bydd y Bil, os caiff ei basio, yn ymgorffori mewn deddfwriaeth ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymdrin â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rydym yn cydnabod, yng Nghymru, fel yng ngweddill y byd, fod pob math o drais personol yn effeithio'n anghymesur ar fenywod. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod ac yn cytuno â Chyngor Ewrop ynglŷn â rhywedd a cham-drin domestig a thrais rhywiol, y ffaith mai dynion yw'r troseddwyr yn bennaf ac mai menywod a phlant yw'r dioddefwyr yn bennaf, gan gydnabod bod hyn, yn ogystal â bod yn groes i hawliau dynol, hefyd yn gwahaniaethu ar sail rhyw. Y ffaith syfrdanol yw bod dwy fenyw yr wythnos yn cael eu lladd yn y DU gan eu partner neu gyn-bartner.

Although the prevalence and severity of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence disproportionally affect women, the Welsh Government recognises that victims can be from across the whole spectrum of society, and this is reflected in the Bill. The Bill extends to older people, all ethnicities, religions and beliefs, people with disabilities and people from the lesbian, gay, bisexual and transgender community. The Welsh Government is making a stand, as outlined in our White Paper: we believe that everyone in Wales has the right to live free from such violence and abuse. As well as the human cost of these issues, the estimated cost of domestic abuse in Wales to services and the economy is £303.5 million annually. This consists of £202.6 million for service costs and £100.9 million in lost economic output.

Er bod nifer a difrifoldeb yr achosion o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio'n anghymesur ar fenywod, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gall dioddefwyr ddod o holl sbectrwm cymdeithas, ac mae'r Bil yn adlewyrchu hyn. Mae'r Bil yn cynnwys pobl hŷn, pob ethnigrwydd, crefydd a chred, pobl ag anableddau a phobl o'r gymuned lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Mae Llywodraeth Cymru'n gwneud safiad, fel yr amlinellir yn ein Papur Gwyn: rydym yn credu bod gan bawb yng Nghymru hawl i fyw'n rhydd rhag trais a cham-drin o'r fath. Yn ogystal â chost ddynol y materion hyn, amcangyfrifir bod cam-drin domestig yng Nghymru'n costio £303.5 miliwn y flwyddyn i wasanaethau a'r economi. Mae hyn yn cynnwys £202.6 miliwn am gostau gwasanaethau a £100.9 miliwn mewn allbwn economaidd a gollwyd.

The provisions of this Bill are intended to ensure a focus across the public sector on the prevention of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence, the protection of victims and the support for those affected by such issues. The Welsh Government's principal policy aim in this area is to reduce the rates of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence in Wales. The Bill supports this aim by seeking an improved public sector response to these issues.

Bwriad darpariaethau'r Bil hwn yw sicrhau pwyslais ar draws y sector cyhoeddus ar atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, amddiffyn dioddefwyr a rhoi cymorth i bobl y mae materion o'r fath yn effeithio arnynt. Prif nod polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yw lleihau cyfraddau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru. Mae'r Bil yn cefnogi'r nod hwn drwy geisio ymateb gwell gan y sector cyhoeddus i'r materion hyn.

The Bill places duties on Welsh Ministers, local authorities and local health boards to prepare and publish strategies to address gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. The Bill further provides a power to Welsh Ministers to issue guidance to local authorities, local health boards, NHS trusts and fire and rescue authorities on how they should exercise their functions with a view to contributing to addressing gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. The Bill also contains provision for the appointment of a ministerial adviser; such a statutory role to advise on these issues is a first in the UK. The Welsh Government is, once again, leading the way.

Mae'r Bil yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau i ymdrin â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r Bil yn rhoi pŵer pellach i Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau tân ac achub am sut y dylent arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar gyfrannu at ymdrin â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer penodi cynghorydd gweinidogol; y swyddogaeth statudol gyntaf o'i math yn y DU i gynghori ar y materion hyn. Mae Llywodraeth Cymru, unwaith eto, yn arwain y ffordd.

We believe that the duty on local authorities and local health boards to jointly prepare and publish a local strategy will ensure transparency around the extent of the issue in a local area and the proposed actions to be taken to address it. This is required to raise awareness among professionals working in the public sector and the general public. Issues such as domestic abuse are often hidden issues. In order to improve the response, earlier intervention is required, which, in turn, requires a specific focus to work towards removing the stigma attached to them, by demonstrating the importance of tackling these issues at both the national and local levels.

Credwn y bydd y ddyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i baratoi a chyhoeddi strategaeth leol ar y cyd yn sicrhau tryloywder o ran graddfa'r mater mewn ardal benodol a'r camau y bwriedir eu cymryd i ymdrin ag ef. Mae angen hyn er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus ac ymysg y cyhoedd. Mae materion megis cam-drin domestig yn aml yn faterion cudd. Er mwyn gwella'r ymateb, mae angen ymyrryd yn gynharach, sydd, yn ei dro, yn mynnu pwyslais penodol i weithio tuag at gael gwared ar y stigma sydd ynghlwm wrthynt, drwy ddangos pwysigrwydd ymdrin â'r materion hyn yn genedlaethol ac yn lleol.

I recognise that there is a considerable amount of good collaborative work that is currently undertaken between various public authorities in Wales to tackle these issues, which we would wish to further encourage. To reflect this, I have included the provision in section 4(4) of the Bill. It enables local authorities and local health boards to include in their local strategy provision relating to specific actions that they expect to be taken by any public authority, voluntary organisation or other person with functions, or who undertake activities that are capable of contributing to the purpose of the Bill. Section 4(5) provides the inclusion in a local strategy of any provision relating to action mentioned in subsection (4) that requires the approval of the body or person concerned. The provision currently excludes Minister of the Crown functions; however, it may be possible that a Minister of the Crown could exercise functions in relation to a local area that are capable of contributing to the purpose of the Bill. For the avoidance of doubt, I am seeking the consent of the Secretary of State, and may seek to amend this provision to include Minister of the Crown functions at a later date.

Rwyf yn cydnabod bod cryn dipyn o waith da yn cael ei wneud ar y cyd ar hyn o bryd rhwng gwahanol awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i ymdrin â'r materion hyn, a byddem yn dymuno eu hannog ymhellach. I adlewyrchu hyn, rwyf wedi cynnwys y ddarpariaeth yn adran 4(4) y Bil. Mae'n galluogi awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i gynnwys darpariaeth yn eu strategaeth leol yn ymwneud â chamau gweithredu penodol y dylai unrhyw awdurdod cyhoeddus, mudiad gwirfoddol neu unigolyn arall sydd â swyddogaethau, neu sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n gallu cyfrannu at bwrpas y Bil eu cymryd. Mae adran 4(5) yn caniatáu cynnwys mewn strategaeth leol unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â gweithredu a nodwyd yn is-adran (4) sy'n gofyn am gymeradwyaeth y corff neu'r unigolyn dan sylw. Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth yn eithrio swyddogaethau Gweinidogion y Goron; fodd bynnag, gallai fod yn bosibl i un o Weinidogion y Goron arfer swyddogaethau ar gyfer ardal leol a all gyfrannu at bwrpas y Bil. Er mwyn osgoi amheuaeth, rwyf yn ceisio cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, ac efallai y ceisiaf ddiwygio'r ddarpariaeth hon i gynnwys swyddogaethau Gweinidogion y Goron yn ddiweddarach.

The ministerial adviser and the strategy requirements strengthen strategic leadership and accountability. The strategy requirements will ensure consideration of the issues as part of the strategic planning process. The Bill will improve the consistency and quality of service provision in Wales by enabling the Welsh Ministers to issue guidance to relevant authorities on—among other things—the training and support available for staff to help them to recognise signs of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence; the circumstances where it is safe and appropriate to ask and act; the sharing of information between public sector bodies and others; and the co-operation arrangements between public sector bodies.

Mae'r cynghorydd gweinidogol a gofynion y strategaeth yn cryfhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd strategol. Bydd gofynion y strategaeth yn sicrhau y caiff y materion hyn eu hystyried fel rhan o'r broses cynllunio strategol. Bydd y Bil yn gwella cysondeb ac ansawdd darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru drwy alluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau perthnasol ynghylch, ymhlith pethau eraill, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd ar gael i staff i'w helpu i adnabod arwyddion o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; yr amgylchiadau lle mae'n ddiogel ac yn briodol gofyn a gweithredu; rhannu gwybodaeth rhwng cyrff y sector cyhoeddus ac eraill; a'r trefniadau cydweithredu rhwng cyrff yn y sector cyhoeddus.

The Bill clearly demonstrates our commitment to addressing these issues. I hope that it is supported by Members across the Chamber. I look forward to the scrutiny of the Bill in the forthcoming months and commend it to the Chamber today. Diolch.

Mae'r Bil yn dangos yn glir ein hymrwymiad i ymdrin â'r materion hyn. Rwyf yn gobeithio y caiff gefnogaeth Aelodau ar draws y Siambr. Edrychaf ymlaen at graffu ar y Bil yn ystod y misoedd sydd i ddod ac rwyf yn ei gymeradwyo i'r Siambr heddiw. Diolch.

15:47 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Mark Isherwood, the opposition spokesperson.

Galwaf ar Mark Isherwood, llefarydd yr wrthblaid.

15:47 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Clearly, the goals of the Bill are fully shared and we will seek to work with you to achieve those. Of course, the Bill is a lot slimmer than the White Paper and, essentially, it focuses on local authority and health board strategies, ministerial guidance and a ministerial adviser, with a lot else changed or removed.

Wrth gwrs, mae amcanion y Bil yn rhai a rennir yn llawn a byddwn yn ceisio gweithio gyda chi i'w cyflawni. Wrth gwrs, mae'r Bil yn llawer teneuach na'r Papur Gwyn ac, yn ei hanfod, mae'n canolbwyntio ar strategaethau awdurdodau a byrddau iechyd lleol, arweiniad gweinidogol a chynghorydd gweinidogol; mae llawer o bethau eraill wedi'u newid neu eu dileu.

I clearly welcome the news that you will be supporting Hafan Cymru to deliver relationship lessons in all schools over a two-year period. I would welcome your response on how you will ensure that that happens, given the curriculum approaches of different authorities and different schools.

Rwyf yn croesawu'n glir y newyddion y byddwch yn cefnogi Hafan Cymru i gyflwyno gwersi perthynas ym mhob ysgol dros gyfnod o ddwy flynedd. Byddwn yn croesawu eich ymateb ynghylch sut y byddwch yn sicrhau bod hynny'n digwydd, ac ystyried ymagweddau gwahanol awdurdodau a gwahanol ysgolion at y cwricwlwm.

Specifically on the move to gender-based violence, as opposed to violence against women, being within the title, when the Welsh Government's domestic abuse strategy was debated some years ago, I highlighted Welsh Women's Aid research that showed that male and female victims of domestic abuse had different levels of need, requiring different kinds of services, where gender-neutral responses were not helpful. I have since been advised by Welsh Women's Aid that my comments were spot-on regarding that need, and that men and women experience not only a different level of need, but also have different types of need, requiring different types of services. How, therefore, do you respond to the statement by the chair of the Wales Violence Against Women Action Group yesterday? There are concerns that if the Bill is gender neutral, it will not tackle the issues that it is supposed to tackle, because nothing will have changed. It is not that there is no recognition that men experience certain forms of violence, but to get appropriate services, you have to look at the extent of violence for particular groups. Therefore, as with the strategy all of those years ago, there is a need for a gender-specific male strategy and a gender-specific female strategy, as opposed to a gender-neutral strategy, which risks failure for the reasons highlighted by Welsh Women's Aid.

Yn benodol, o ran newid y teitl i gyfeirio at drais ar sail rhywedd, yn hytrach na thrais yn erbyn menywod, pan gafwyd dadl am strategaeth cam-drin domestig Llywodraeth Cymru rai blynyddoedd yn ôl, tynnais sylw at ymchwil Cymorth i Fenywod Cymru a oedd yn dangos bod gan ddynion a menywod sy'n dioddef trais domestig wahanol lefelau o angen, a bod angen gwahanol fathau o wasanaethau arnynt, ac nad oedd ymatebion niwtral o ran rhywedd yn ddefnyddiol. Ers hynny, mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi dweud wrthyf fod fy sylwadau am yr angen hwnnw'n taro'r hoelen ar ei phen, a bod dynion a menywod nid yn unig yn profi lefel wahanol o angen, ond bod ganddynt hefyd wahanol fathau o angen, sy'n galw am wahanol fathau o wasanaethau. Sut, felly, ydych chi'n ymateb i'r datganiad gan gadeirydd Grŵp Gweithredu Cymru ar Drais yn Erbyn Menywod ddoe? Mae pryderon, os bydd y Bil yn niwtral o ran rhywedd, na fydd yn ymdrin â'r materion y dylai ymdrin â hwy, oherwydd ni fydd dim wedi newid. Nid yw'n fater o beidio â chydnabod bod dynion yn profi rhai mathau o drais, ond er mwyn cael gwasanaethau priodol, rhaid ichi edrych ar raddfa trais yn erbyn grwpiau penodol. Felly, fel gyda'r strategaeth flynyddoedd yn ôl, mae angen strategaeth ar gyfer dynion a strategaeth ar gyfer menywod, yn hytrach na strategaeth niwtral o ran rhywedd, y mae perygl iddi fethu am y rhesymau a nodwyd gan Gymorth i Fenywod Cymru.

How will you work on a cross-border and cross-sector basis, given that so many of the services are provided by organisations like the Rape and Sexual Abuse Support Centre in north Wales, Welsh Women's Aid and other third sector bodies, as well as cross-border, with the statutory and third sectors, with the independent domestic violence advisers, independent sexual violence advisers, sexual assault referral centres, and— I do not want to get party political—whichever party is in Government at UK level after next year?

Sut y byddwch yn gweithio ar draws ffiniau ac ar draws sectorau, ac ystyried bod cynifer o'r gwasanaethau'n cael eu darparu gan sefydliadau megis Canolfan Gymorth Trais Rhywiol a Cham-drin Rhywiol yn y gogledd, Cymorth i Fenywod Cymru a chyrff eraill yn y trydydd sector, yn ogystal ag ar draws ffiniau, gyda'r sector statudol a'r trydydd sector, gyda'r cynghorwyr annibynnol ar drais domestig, y cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol, y canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol, ac—nid wyf am fod yn bleidiol—pa bynnag blaid a fydd mewn Llywodraeth ar lefel y DU ar ôl y flwyddyn nesaf?

Welsh Women's Aid statistics show that 316 women in north Wales—1,306 across Wales—were accommodated in refuges last year. What will the Bill do to support more women in accessing these life-saving services? Welsh Women's Aid statistics also show that 172 women accessed refuge in Dyfed-Powys last year. So, how will the Bill ensure that more women living in rural communities will have access to these life-saving services and community support? Welsh Women's Aid statistics show that 45% of women accessing refuge last year had children with them. So, what can the Bill do to ensure that these children and young people can access support services in their own right, while they are still children? In the context of young men, who have passed 16, how will their needs be addressed when they are themselves victims and members of a family that is being abused?

Mae ystadegau Cymorth i Fenywod Cymru’n dangos bod 316 o ferched yn y gogledd—1,306 ledled Cymru—wedi eu lletya mewn llochesi y llynedd. Beth fydd y Bil yn ei wneud i gynorthwyo mwy o’r menywod i gael gafael ar y gwasanaethau hyn a all achub bywydau? Mae ystadegau Cymorth i Fenywod Cymru hefyd yn dangos bod 172 o fenywod wedi defnyddio lloches yn Nyfed-Powys y llynedd. Felly, sut y bydd y Bil yn sicrhau y bydd mwy o ferched sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn gallu defnyddio’r gwasanaethau a’r cymorth cymunedol hyn sy’n gallu achub bywydau? Mae ystadegau Cymorth i Fenywod Cymru’n dangos bod gan 45% o ferched a ddefnyddiodd loches y llynedd blant gyda hwy. Felly, beth y gall y Bil ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau cymorth ar gael i’r plant a’r bobl ifanc hyn eu hunain, tra byddant yn dal yn blant? Yng nghyd-destun dynion ifanc, sydd dros 16, sut yr ymdrinnir â’u hanghenion pan fyddant hwy eu hunain yn ddioddefwyr ac yn aelodau o deulu sy'n cael ei gam-drin?

Finally, in the context of human trafficking and slavery—another matter that is receiving a lot of attention here and at UK level at the moment—how will the Bill seek to address the related matters in that agenda and in the context of the recommendations by the Communities, Equality and Local Government Committee report—I know that you cannot reply yet, as you have only just received a letter—particularly through closer working between the anti-slavery co-ordinator, police and crime commissioners, and front-line professionals in health and education, with encouragement of each local authority to have a lead responsible officer for anti-slavery?

Yn olaf, yng nghyd-destun masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth—mater arall sy’n cael llawer o sylw yma ac ar lefel y DU ar hyn o bryd—sut y bydd y Bil yn ceisio ymdrin â'r materion cysylltiedig yn yr agenda honno ac yng nghyd-destun argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol—rwyf yn gwybod na allwch ateb eto, gan mai dim ond newydd gael llythyr yr ydych—yn enwedig drwy gydweithio agosach rhwng y cydlynydd gwrth-gaethwasiaeth, yr heddlu a’r comisiynwyr troseddu, a gweithwyr proffesiynol rheng flaen ym meysydd iechyd ac addysg, ac annog pob awdurdod lleol i benodi swyddog cyfrifol arweiniol ar gyfer gwrth-gaethwasiaeth?

15:51

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Mark Isherwood for those questions. In relation to what you mentioned about Hafan Cymru, you are quite right; we have funded the programme more. At the moment, 36% of schools within the programme are currently delivering the programme, and the funding that we have given will ensure that, from this autumn onwards, we will be rolling out in 50% of schools.

Diolch i Mark Isherwood am y cwestiynau hynny. O ran yr hyn yr oeddech yn sôn amdano am Hafan Cymru, rydych yn llygad eich lle; rydym wedi rhoi mwy o arian i’r rhaglen. Ar hyn o bryd, mae 36% o ysgolion yn y rhaglen yn darparu’r rhaglen, a bydd yr arian yr ydym wedi'i roi’n sicrhau, o'r hydref hwn ymlaen, y byddwn yn ei chyflwyno mewn 50% o ysgolion.

In relation to your question about gender neutrality, this Bill is gender specific, in that it enables a gender-specific response where necessary. I think that you are quite right that, for women and men, specific services could be required. So, I think that it is very important that this requires a response by authorities based on a robust assessment of what is needed in their areas, which recognises that men and women are likely to sometimes require different services and different support. I think that if you use ‘gender neutral’, it implies that the same services will be provided, which is clearly not the case with the Bill.

O ran eich cwestiwn am niwtraliaeth o ran rhywedd, mae'r Bil hwn yn rhywedd-benodol, gan ei fod yn galluogi ymateb rhywedd-benodol lle y bo angen. Rwyf yn meddwl eich bod yn llygad eich lle y gallai fod angen gwasanaethau penodol ar gyfer menywod a dynion. Felly, rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig iawn fod hyn yn gofyn am ymateb gan awdurdodau sy’n seiliedig ar asesiad cadarn o'r hyn sydd ei angen yn eu hardaloedd, sy'n cydnabod ei bod yn debygol weithiau y bydd angen gwasanaethau gwahanol a chymorth gwahanol ar ddynion a menywod. Rwyf yn credu, os defnyddiwch 'niwtral o ran rhywedd', ei fod yn awgrymu y caiff yr un gwasanaethau eu darparu; wrth gwrs, nid yw hynny’n wir am y Bil.

In relation to cross-border and cross-sector issues, you are quite right that it does not matter which Government is in Westminster; it is really important that we get that right. I think that this Bill will just build on that work that is currently being undertaken. One thing that I think we do need to improve in relation to cross-border work in particular is the sharing of safe information. Under section 12 of the Bill, that is something where we are having guidance, and, again, I am going to bring forward some draft information regarding section 12, which I will share with the Communities, Equality and Local Government Committee as it looks at its Stage 1 scrutiny and evidence.

O ran materion ar draws ffiniau ac ar draws sectorau, rydych yn llygad eich lle nad oes ots pa Lywodraeth sydd yn San Steffan; mae'n bwysig iawn ein bod yn gwneud hynny'n iawn. Credaf y bydd y Bil hwn yn adeiladu ar y gwaith hwnnw sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd. Un peth yr wyf yn meddwl bod angen inni ei wella o ran gwaith traws-ffiniol yn arbennig yw rhannu gwybodaeth yn ddiogel. O dan adran 12 o'r Bil, mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn cael arweiniad yn ei gylch, ac, unwaith eto, byddaf yn cyflwyno rhywfaint o wybodaeth ddrafft ynghylch adran 12, a byddaf yn ei rhannu â'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wrth iddo edrych ar ei waith craffu a thystiolaeth Cyfnod 1.

You referred to safe accommodation for people who require that service, and I think that that is more appropriately taken forward in the context of the Housing (Wales) Bill. You will be aware that my officials are working very closely with the Minister for Housing and Regeneration's officials in taking those proposals forward. In addition, in due course, the Minister for housing will also be bringing forward legislation related to renting homes. It is intended that provision will be made in the Bill for a statutory, prohibited conduct term to be included in every rental contract for housing, giving a more flexible approach to joint tenancies. This would enable perpetrators of domestic abuse to be evicted, while leaving the victim and any children remaining in their home.

Cyfeiriasoch at lety diogel i bobl y mae angen y gwasanaeth hwnnw arnynt, a chredaf ei bod yn fwy priodol bwrw ymlaen â hynny yng nghyd-destun Bil Tai (Cymru). Byddwch yn ymwybodol bod fy swyddogion yn gweithio'n agos iawn gyda swyddogion y Gweinidog Tai ac Adfywio i fwrw ymlaen â'r cynigion hynny. Yn ogystal â hynny, maes o law, bydd y Gweinidog tai hefyd yn cyflwyno deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â rhentu cartrefi. Y bwriad yw y bydd y Bil yn darparu ar gyfer cynnwys amod statudol ar gyfer ymddygiad a waherddir ym mhob contract rhent ar gyfer tai, gan roi ymagwedd fwy hyblyg tuag at denantiaethau ar y cyd. Byddai hyn yn caniatáu i'r rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig gael eu troi allan, gan adael i'r dioddefwr ac unrhyw blant aros yn eu cartref.

Clearly, there will be some joint working required with the anti-slavery co-ordinator, and that is something that we can look at. There is also the role of the ministerial adviser, which I see very much in the same sort of vein as that of the anti-slavery co-ordinator. Again, we can look at that as we take the Bill through its scrutiny.

Wrth gwrs, bydd angen rhywfaint o weithio ar y cyd â'r cydlynydd gwrth-gaethwasiaeth, ac mae hynny'n rhywbeth y gallwn edrych arno. Ceir hefyd swyddogaeth y cynghorydd gweinidogol, sy'n ymddangos i mi'n debyg iawn i swyddogaeth y cydlynydd gwrth-gaethwasiaeth. Unwaith eto, gallwn edrych ar hynny wrth inni graffu ar y Bil.

15:54

## Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call Jocelyn Davies, the Plaid Cymru spokesperson.

Galwaf ar Jocelyn Davies, llefarydd Plaid Cymru.

15:54

## Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Chair. Of course, this is the very earliest stage of the Bill, and I am sure that it will be reshaped during the coming months. I know that you will be aware of the criticisms already levelled at the Bill. 'The Right to be Safe' strategy boldly set out the need to tackle violence against women in an effort to reduce all domestic abuse. It recognised that women are disproportionately affected just because they are women and that this is a major barrier to equality between the genders. So, it is about society's attitude to women. If, of course, we are truly to achieve the goal of eradicating domestic abuse in Wales, it is essential that we tackle the underlying driving forces. I was very proud to have been part of the Government that launched 'The Right to be Safe' strategy, and I know that the previous Minister, Carl Sargeant, who is sitting here, certainly fully understood that. However, how can this Bill be expected to end successfully the violence that women experience disproportionately if it has a gender-neutral approach? Surely, the Government adviser should focus on violence against women and its causes, or do you intend to maintain 'The Right to be Safe' strategy alongside the Bill?

Diolch, Gadeirydd. Wrth gwrs, cam cynharaf un y Bil yw hwn, ac rwyf yn siŵr y caiff ei ail-lunio yn ystod y misoedd nesaf. Gwn y byddwch yn ymwybodol o'r feirniadaeth a fu o'r Bil eisoes. Roedd y strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' yn nodi'n glir fod angen ymdrin â thrais yn erbyn menywod mewn ymdrech i leihau pob cam-drin domestig. Roedd yn cydnabod bod hyn yn effeithio'n anghymesur ar fenywod dim ond oherwydd mai menywod ydynt, a bod hyn yn rhwystr mawr i gydraddoldeb rhwng y rhywiau. Felly, mae'n ymwneud ag agwedd y gymdeithas tuag at fenywod. Wrth gwrs, er mwyn inni gyrraedd y nod o ddileu cam-drin domestig yng Nghymru mewn gwirionedd, mae'n hanfodol ein bod yn ymdrin â'i achosion sylfaenol. Roeddwn yn falch iawn o fod wedi bod yn rhan o'r Llywodraeth a lansiodd strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel', a gwn fod y Gweinidog blaenorol, Carl Sargeant, sy'n eistedd yma, yn sicr yn deall hynny'n iawn. Fodd bynnag, sut y gellir disgwyl i'r Bil hwn lwyddo i roi terfyn ar y trais y mae menywod yn ei brofi'n anghymesur os yw'n defnyddio dulliau niwtral o ran rhywedd? Oni ddylai cynghorydd y Llywodraeth ganolbwyntio ar drais yn erbyn menywod a'i achosion, ynteu a ydych yn bwriadu cynnal strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' ochr yn ochr â'r Bil?

I understand that the Government is planning to roll out its healthy relationship education programme this autumn. However, given how important education is for early intervention and prevention of domestic abuse and sexual violence, why are schools and further education colleges not required by this Bill to have their own strategies, and why is education absent from the Bill?

Deallaf fod y Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno ei rhaglen addysg perthynas iach yr hydref hwn. Fodd bynnag, ac ystyried pa mor bwysig yw addysg o ran ymyrraeth gynnar ac atal cam-drin domestig a thrais rhywiol, pam nad yw'r Bil hwn yn mynnu bod gan ysgolion a cholegau addysg bellach eu strategaethau eu hunain, a pham y mae addysg yn absennol o'r Bil?

All victims of violence and abuse should have access to the support services that they need, regardless of their gender, sexuality, race, religion, age or any other factor. We must not pit victim against victim, because what we want, of course, are fewer victims overall. So, services must be gender specific and must be gender appropriate. However, services and prevention are very different things. Does the Minister not agree that prevention of domestic abuse must involve tackling violence against women? If you do, perhaps you will tell us why the Bill does not say that.

Dylai holl ddioddefwyr trais a cham-drin allu cael y gwasanaethau cymorth sydd eu hangen arnynt, waeth beth fo'u rhyw, eu rhywioldeb, eu hil, eu crefydd, eu hoedran neu unrhyw ffactor arall. Rhaid inni beidio â gosod un dioddefwr yn erbyn y llall, oherwydd yr hyn yr hoffem ei weld, wrth gwrs, yw llai o ddioddefwyr yn gyffredinol. Felly, rhaid i wasanaethau fod yn rhywedd-benodol a rhaid iddynt fod yn rhywedd-briodol. Fodd bynnag, mae gwasanaethau ac atal yn bethau gwahanol iawn. Onid yw'r Gweinidog yn cytuno bod yn rhaid i atal cam-drin domestig ymdrin â thrais yn erbyn menywod? Os ydych, efallai y dywedwch wrthym pam nad yw'r Bil yn dweud hynny.

The abuse and violence that women face from their partners can be more severe. You mentioned deaths every year in the UK; every year, we can expect seven women in Wales to be killed by their partner or ex-partner. Of course, women are more likely to be repeatedly victimised. How will the Government ensure that the local authority and health board strategies include provisions for those trapped in patterns of repeated victimisation? We are told that domestic abuse often starts during pregnancy and that domestic violence has been identified as a prime cause of miscarriage and stillbirth. Will the strategies required by the Bill include measures to support women experiencing domestic abuse during pregnancy?

Mae'r cam-drin a'r trais y mae menywod yn eu hwynebu gan eu partneriaid yn gallu bod yn fwy difrifol. Soniasoch am farwolaethau bob blwyddyn yn y DU; bob blwyddyn, gallwn ddisgwyl i saith o fenywod yng Nghymru gael eu lladd gan eu partner neu gyn-bartner. Wrth gwrs, mae menywod yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr dro ar ôl tro. Sut y bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod strategaethau awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn cynnwys darpariaethau ar gyfer y rheini sy'n gaeth mewn patrymau o gael eu cam-drin dro ar ôl tro? Dywedir wrthym fod cam-drin domestig yn aml yn dechrau yn ystod beichiogrwydd a bod trais domestig wedi cael ei nodi fel un o brif achosion camesgor a marw-enedigaethau. A fydd y strategaethau sy'n ofynnol o dan y Bil yn cynnwys mesurau i gefnogi menywod sy'n dioddef cam-drin domestig yn ystod beichiogrwydd?

I am very pleased that the Bill continues to use the broad definition of abuse. Of course, this definition is at odds with the criminal definition of abuse, meaning that gaps remain so that some behaviour is abusive, but is not illegal. Does the Minister agree that it is a shame that the Welsh Government does not have the power to change the law to tackle this?

Rwyf yn falch iawn fod y Mesur yn parhau i ddefnyddio'r diffiniad eang o gam-drin. Wrth gwrs, mae'r diffiniad hwn yn groes i'r diffiniad troseddol o gam-drin, sy'n golygu bod bylchau'n parhau fel bod rhai mathau o ymddygiad yn gamdriniol, ond nid yn anghyfreithlon. A yw'r Gweinidog yn cytuno ei bod yn drueni nad oes gan Lywodraeth Cymru rym i newid y gyfraith i ymdrin â hyn?

There is evidence that children experience that gender stereotyping, sexism and harassment at a very young age, which leads to this behaviour later on. Without a requirement for schools and colleges to have their own strategies for educating children about healthy relationships and abuse, how can this Government be sure that they are receiving the education that they need to tackle this?

Mae tystiolaeth bod plant yn profi stereoteipio ar sail rhywedd, rhywiaeth ac aflonyddu'n ifanc iawn, sy'n arwain at yr ymddygiad hwn yn nes ymlaen. Heb fynnu bod gan ysgolion a cholegau eu strategaethau eu hunain ar gyfer addysgu plant am berthnasoedd iach a cham-drin, sut y gall y Llywodraeth hon fod yn sicr eu bod yn cael yr addysg sydd ei hangen arnynt i ymdrin â hyn?

15:59 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Jocelyn Davies for her contribution and questions. The title of the Bill reflects the content of the Bill. I know that there has been some unhappiness that ending violence against women is not in the title of the Bill. However, violence against women is a form of gender-based violence; in fact, that is the United Nations definition. I think that the most important thing is what is in the Bill—the contents of the Bill—and, as you say, getting the most robust and futureproof legislation that we can, along with the supporting statutory guidance, the wider policies and the wider structures, and making sure that the services are out there to support the victims of these terrible crimes.

Diolch i Jocelyn Davies am ei chyfraniad a'i chwestiynau. Mae teitl y Bil yn adlewyrchu cynnwys y Bil. Gwn y bu rhywfaint o anhapusrwydd nad yw rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod yn nheitl y Bil. Fodd bynnag, mae trais yn erbyn menywod yn fath o drais ar sail rhywedd; yn wir, dyna yw diffiniad y Cenhedloedd Unedig. Rwyf yn credu mai'r peth pwysicaf yw'r hyn sydd yn y Bil—cynnwys y Bil—ac, fel y dywedwch, sicrhau deddfwriaeth mor gadarn ac mor addas at y dyfodol â phosibl, ynghyd â'r canllawiau statudol ategol, y polisïau ehangach a'r strwythurau ehangach, a gwneud yn siŵr bod gwasanaethau ar gael i gefnogi dioddefwyr y troseddau dychrynllyd hyn.

You are quite right that it is not a criminal justice Bill, and we do not have the powers to look at that. We do accept, as I said in my opening remarks, that women are disproportionately affected. I am sure that when we look at the services—. I have just had an independent review of domestic abuse services done right across Wales and it is clear that most of the services are for women, because they are disproportionately affected. As those local strategies are prepared jointly by local health boards and local authorities, I am sure that that will also come through. You are quite right that everybody must be covered in this Bill; it does not matter what age you are, what sexuality you are or what religion you are. It is important that everybody is covered in the Bill.

Rydych yn llygad eich lle nad Bil cyfiawnder troseddol ydyw, ac nad oes gennym bwerau i edrych ar hynny. Rydym yn derbyn, fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, fod hyn yn effeithio'n anghymesur ar fenywod. Rwyf yn siŵr, pan edrychwn ar y gwasanaethau—. Rwyf newydd drefnu adolygiad annibynnol o wasanaethau cam-drin domestig ledled Cymru ac mae'n amlwg bod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau ar gyfer menywod, oherwydd bod hyn yn effeithio'n anghymesur arnynt. Gan fod y strategaethau lleol hynny'n cael eu paratoi ar y cyd gan fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol, rwyf yn siŵr y bydd hynny hefyd yn dod i'r amlwg. Rydych yn llygad eich lle fod yn rhaid i'r Mesur hwn gynnwys pawb; nid oes ots beth yw eich oedran, beth yw eich rhywioldeb na beth yw eich crefydd. Mae'n bwysig bod y Bil yn cynnwys pawb.

Education is obviously very important, and I absolutely remain committed to delivering the White Paper proposals on healthy relationship education and on encouraging schools to take a whole-school approach to addressing gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. The proposals will not feature on the face of the Bill for a number of reasons. One, as you will be aware from our discussions, is that the Minister for Education and Skills has commissioned a review of the national curriculum and assessment arrangements in Wales, and that work by Professor Donaldson will consider the place of healthy relationships education in our future approach to PSE in Wales. That is a real opportunity that we must make the most of. I do not want to see healthy relationships taught at the end of the week by somebody who is not appropriately trained. That is another thing: we must make sure that the people delivering that healthy relationships education in our schools are appropriately trained.

Mae addysg yn amlwg yn bwysig iawn, ac rwyf yn bendant yn dal i fod wedi ymrwymo i gyflawni cynigion y Papur Gwyn ar addysg perthynas iach ac ar annog ysgolion i arfer ymagwedd ysgol-gyfan tuag at ymdrin â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ni fydd y cynigion yn ymddangos ar wyneb y Bil am nifer o resymau. Un o'r rheini, fel y byddwch yn ymwybodol o'n trafodaethau, yw bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi comisiynu adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu yng Nghymru, a bydd y gwaith hwnnw gan yr Athro Donaldson yn ystyried lle addysg perthynas iach yn ein hymagwedd yn y dyfodol tuag at ddarparu ABCh yng Nghymru. Mae hynny'n gyfle gwirioneddol y mae'n rhaid inni fanteisio arno. Nid wyf am weld gwersi ar berthynas iach yn cael eu cynnal ar ddiwedd yr wythnos gan rywun nad yw wedi'i hyfforddi'n briodol. Dyna beth arall: rhaid inni wneud yn siŵr bod y bobl sy'n darparu'r addysg perthynas iach honno yn ein hysgolion wedi'u hyfforddi'n briodol.

Any future education-related Bill would take forward any legislative changes to the curriculum, and I think that it is advisable that we should do that within that Bill. My officials work closely with the review team, and I have been having many discussions with the Minister for Education and Skills to make sure that work is aligned. However, as I mentioned in my answer to Mark Isherwood, I have approved additional funding to Hafan Cymru for an extension of the Spectrum programme, and I expect that extended programme to go live from autumn of this year.

Byddai unrhyw Fil sy'n gysylltiedig ag addysg yn y dyfodol yn bwrw ymlaen ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol i'r cwricwlwm, ac rwyf yn meddwl ei bod yn dda o beth inni wneud hynny o fewn y Bil hwnnw. Mae fy swyddogion yn cydweithio'n agos â'r tîm adolygu, ac rwyf wedi cael llawer o drafodaethau â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i sicrhau bod y gwaith hwnnw wedi'i alinio. Fodd bynnag, fel y soniais yn fy ateb i Mark Isherwood, rwyf wedi cymeradwyo cyllid ychwanegol i Hafan Cymru i estyn y rhaglen Sbectrwm, ac rwyf yn disgwyl i'r rhaglen estynedig fynd yn fyw yn yr hydref eleni.

You will be aware of the maternity pathway, and part of the national training framework that we have alongside the Bill is making sure that professionals have the confidence to ask and act, and we are currently rolling out the training of that, and health professionals are, obviously, right at the forefront of that training.

Byddwch yn ymwybodol o'r llwybr mamolaeth, ac mae rhan o'r fframwaith hyfforddiant cenedlaethol sydd gennym ochr yn ochr â'r Bil yn ymwneud â sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol yr hyder i ofyn ac i weithredu, ac ar hyn o bryd rydym yn cyflwyno'r hyfforddiant hwnnw, a gweithwyr iechyd proffesiynol, wrth gwrs, fydd y cyntaf i gael yr hyfforddiant hwnnw.

16:02

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Peter Black, the Liberal Democrats' spokesperson.

Galwaf ar Peter Black, llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol.

16:02

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Chair. May I, first of all, welcome the fact that the Minister is legislating on this issue? I think it is very important that we send the right message from Wales in terms of domestic abuse and gender-based violence and that we clearly set out a very comprehensive policy in terms of how we will deal with it in Wales. Having said that, like other speakers, I remain disappointed that the promise of the White Paper has not been reflected in the Bill, and I am also concerned that the approach taken by the Bill does not reflect the reality of gender-based violence, namely that 95% of that violence is perpetrated against women and that services should be designed to reflect that fact. I would hope, in terms of the strategy that the Bill commissions, and in terms of the adviser that the Minister is proposing to legislate for, that that will be reflected in their programme of work and in how that is done.

Diolch, Gadeirydd. A gaf fi, yn gyntaf oll, groesawu'r ffaith bod y Gweinidog yn deddfu ar y mater hwn? Credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn anfon y neges gywir o Gymru am gam-drin domestig a thrais ar sail rhywedd a'n bod yn nodi'n glir bolisi cynhwysfawr iawn o ran sut y byddwn yn ymdrin â'r mater yng Nghymru. Wedi dweud hynny, fel siaradwyr eraill, rwyf yn siomedig nad yw addewid y Papur Gwyn wedi ei adlewyrchu yn y Bil, ac rwyf hefyd yn pryderu nad yw'r ymagwedd a arferir yn y Bil yn adlewyrchu realiti trais ar sail rhywedd, sef bod 95% o'r trais hwnnw'n cael ei gyflawni yn erbyn menywod ac y dylid cynllunio gwasanaethau i adlewyrchu'r ffaith honno. Byddwn yn gobeithio, o ran y strategaeth y mae'r Bil yn ei chomisiynu, ac o ran y cynghorydd y mae'r Gweinidog yn bwriadu deddfu ar ei gyfer, y caiff hynny ei adlewyrchu yn y rhaglen waith ac yn y modd y gwneir hynny.

The question that I have, Minister, is: given that most of what is in the Bill is already within your power, why do you need to legislate? It seems to me that there is nothing in this Bill that cannot already be done by Ministers without this legislation coming forward. I am concerned that because the Bill is so thin and has so little in it that we are, effectively, legislating for the sake of legislating, when the work outlined in the Bill could already be implemented by Ministers at present. It is within your power to appoint a ministerial adviser, it is within your power to set in place a strategy—indeed, you already have a strategy—and, as you have already pointed out, it is within your power to review the curriculum. Also, the Minister for housing is already taking forward legislation in relation to the possibility of evicting perpetrators of domestic violence. So, the question I have to ask is: why is this Bill necessary, given how little is in it?

Y cwestiwn sydd gennyf, Weinidog, yw hyn: o gofio bod y rhan fwyaf o'r hyn sydd yn y Bil eisoes o fewn eich grym, pam y mae angen ichi ddeddfu? Mae'n ymddangos i mi nad oes dim yn y Bil hwn na all Gweinidogion ei wneud eisoes heb gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon. Rwyf yn bryderus, gan fod y Bil mor denau a bod cyn lleied ynddo, ein bod, i bob pwrpas, yn deddfu er mwyn deddfu, pan allai Gweinidogion wneud y gwaith a amlinellir yn y Bil eisoes ar hyn o bryd. Mae o fewn eich grym i benodi cynghorydd gweinidogol, mae o fewn eich grym i roi strategaeth ar waith—yn wir, mae gennych strategaeth eisoes—ac, fel yr ydych eisoes wedi'i nodi, mae o fewn eich grym i adolygu'r cwricwlwm. Hefyd, mae'r Gweinidog tai eisoes yn bwrw ymlaen â deddfwriaeth ar gyfer posibilrwydd troi allan bobl sy'n cyflawni trais domestig. Felly, y cwestiwn y mae'n rhaid imi ei ofyn yw hyn: pam y mae angen y Bil hwn, ac ystyried cyn lleied sydd ynddo?

The second point I want to make is that it seems to me that if you are going to legislate on gender-based violence, you should take the opportunity to make it a comprehensive Bill. Therefore, I am disappointed that you have not included education in this, and that you have not included the other cross-cutting issues that have been referred to as part of this discussion, because that would have made the biggest statement by creating a comprehensive Bill that covered the whole range of services and issues that women and other victims of gender-based violence suffer. That would also include female genital mutilation and violence against children as well, which can be a symptom of that gender-based violence.

Yr ail bwynt yr hoffwn ei wneud yw ei bod yn ymddangos i mi, os ydych yn mynd i ddeddfu ar drais ar sail rhywedd, y dylech fachu ar y cyfle i'w wneud yn Fil cynhwysfawr. Felly, rwyf yn siomedig nad ydych wedi cynnwys addysg yn hyn, ac nad ydych wedi cynnwys y materion trawsbynciol eraill y cyfeiriwyd atynt fel rhan o'r drafodaeth hon, oherwydd byddai hynny wedi gwneud y datganiad mwyaf drwy greu Bil cynhwysfawr i gynnwys yr holl ystod o wasanaethau a'r materion sy'n wynebu menywod a dioddefwyr eraill trais ar sail rhywedd. Byddai hynny hefyd yn cynnwys anffurfio organau rhywiol benywod a thrais yn erbyn plant yn ogystal, a all fod yn symptom o'r trais hwnnw ar sail rhywedd.

Minister, it is not just about the curriculum, because there are a number of issues in the education system that could be legislated for. For example, you could legislate to make sure that there is one fully trained, go-to staff member in each school with expertise in gender-based violence. You could legislate to ensure that schools regularly collect data on all forms of gender-based violence, including sexual harassment and bullying. You could legislate to ensure that education on gender-based violence and healthy relationships is available to children and young people not engaged in the formal education system or those who are not in education, employment or training. You could, of course, legislate to appoint a gender-based violence champion among school governors and the student council. None of that is in the Bill. So, this is not just about a curriculum review, but about a comprehensive approach, which appears to be missing from the Bill.

Weinidog, mae hyn yn ymwneud â mwy na dim ond y cwricwlwm, oherwydd mae nifer o faterion yn y system addysg y gellid deddfu ar eu cyfer. Er enghraifft, gallech ddeddfu i wneud yn siŵr bod un aelod o'r staff wedi'i hyfforddi'n llawn y gellir mynd ato neu ati ym mhob ysgol sydd ag arbenigedd mewn trais ar sail rhywedd. Gallech ddeddfu i sicrhau bod ysgolion yn casglu data'n rheolaidd am bob math o drais ar sail rhywedd, gan gynnwys aflonyddu rhywiol a bwlio. Gallech ddeddfu i sicrhau bod addysgu am drais ar sail rhywedd a pherthnasau iach ar gael i blant a phobl ifanc nad ydynt yn cymryd rhan yn y system addysg ffurfiol neu nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Gallech, wrth gwrs, ddeddfu i benodi eiriolwr trais ar sail rhywedd ymhlith llywodraethwyr ysgolion a chynghorau myfyrwyr. Nid oes dim o hynny yn y Bil. Felly, nid dim ond mater o adolygu'r cwricwlwm yw hyn, ond mater o ymagwedd gynhwysfawr, ac mae'n ymddangos nad yw hynny'n bresennol yn y Bil.

Finally, Minister, you will be aware that the only perpetrator programme in Wales, run by Relate, has just closed down, or is about to close down. Why is there nothing in this Bill about perpetrator programmes? Is it your intention to legislate to put a duty on Ministers to ensure that perpetrator programmes are available in terms of re-educating those people who are perpetrators of domestic violence?

Yn olaf, Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod yr unig raglen tramgwyddwyr yng Nghymru, a oedd yn cael ei rhedeg gan Relate, newydd gau, neu ar fin cau. Pam nad oes dim yn y Bil hwn am raglenni tramgwyddwyr? A ydych yn bwriadu deddfu i'w gwneud yn ddyletswydd ar Weinidogion i sicrhau bod rhaglenni tramgwyddwyr ar gael o ran addysgu o'r newydd y bobl hynny sy'n cyflawni trais domestig?

16:06

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Peter Black, for your contribution. I do not think that we are legislating for legislation's sake. For example, you can ask why legislation is required for the appointment of a ministerial adviser. I think that the creation of a statutory advisory role—someone who is appointed by Welsh Ministers—is absolutely needed to ensure ownership of the issue at a very high strategic level. The role will also seek to improve joint working operationally, both within and across Government departments and identified regional structures. Given the cross-cutting nature of the policy area, I consider enshrining such a role in statute to be the best way to fulfil the key policy objective of ensuring that these issues are the core business of all of our public sector organisations, right across Wales. The public sector is doing a huge amount of work. You only have to look at the workplace policies. We now have 42 public organisations across Wales that have either refreshed or brought forward new workplace policies. I also think that enshrining that role in statute will give that person teeth, if you like. The fact that they are there for Welsh Government, working alongside Welsh Government, going out there and working with key stakeholders will ensure that the effective implementation of the remaining duties of the Bill is taken forward.

Diolch, Peter Black, am eich cyfraniad. Nid wyf yn meddwl ein bod yn deddfu er mwyn deddfu. Er enghraifft, gallwch ofyn pam y mae angen deddfwriaeth i benodi cynghorydd gweinidogol. Credaf fod creu swyddogaeth cynghori statudol—rhywun a benodir gan Weinidogion Cymru—yn hollol angenrheidiol er mwyn sicrhau perchnogaeth o'r mater ar lefel strategol uchel iawn. Bydd y swyddogaeth yn ceisio gwella gweithio ar y cyd yn weithredol, o fewn ac ar draws adrannau'r Llywodraeth a strwythurau rhanbarthol a nodwyd. Oherwydd natur drawsbynciol y maes polisi, rwyf yn ystyried mai cynnwys swyddogaeth o'r fath mewn statud yw'r ffordd orau o gyflawni'r amcan polisi allweddol o sicrhau mai'r materion hyn yw busnes craidd ein holl sefydliadau yn y sector cyhoeddus, ar hyd a lled Cymru. Mae'r sector cyhoeddus yn gwneud llawer iawn o waith. Nid oes ond raid ichi edrych ar y polisïau yn y gweithle. Erbyn hyn mae gennym 42 o sefydliadau cyhoeddus ledled Cymru sydd naill ai wedi adnewyddu eu polisïau yn y gweithle neu wedi cyflwyno rhai newydd. Rwyf hefyd yn credu y bydd ymgorffori'r swyddogaeth honno mewn statud yn rhoi dannedd i'r unigolyn, os hoffech. Bydd y ffaith eu bod yno i Lywodraeth Cymru, yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, yn mynd allan yno ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn sicrhau y caiff gweddill dyletswyddau'r Bil eu cyflawni'n effeithiol yn y dyfodol.

I heard what you said about education, and you will have heard my answer, particularly in my response to Jocelyn Davies. I believe that this is too good an opportunity to miss. We can have the curriculum in Wales that the Minister for Education and Skills wants, which is made in Wales, and I think having something in that curriculum regarding healthy relationships is the way forward.

Clywais yr hyn a ddywedasoch am addysg, a byddwch wedi clywed fy ateb, yn enwedig wrth imi ymateb i Jocelyn Davies. Credaf fod hwn yn gyfle rhy dda i'w golli. Gallwn gael y cwricwlwm yng Nghymru sydd ei eisiau ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau, wedi'i wneud yng Nghymru, ac rwyf yn meddwl mai cael rhywbeth yn y cwricwlwm ynglŷn â pherthynas iach yw'r ffordd ymlaen.

FGM is covered in the Bill. You mentioned children, and one of the stark facts that I have learned while holding this portfolio is that over 60% of children who witness domestic abuse are not known to local authorities. I think this Bill will certainly address that concern.

Mae'r Bil yn ymdrin ag anffurfio organau cenhedlu benywod. Soniasoch am blant, ac un o'r ffeithiau caled yr wyf wedi'u dysgu a minnau'n dal y portffolio hwn yw nad yw awdurdodau lleol yn gwybod am dros 60% o blant sy'n dystion i gam-drin domestig. Rwyf yn credu y bydd y Bil hwn yn sicr yn ymdrin â'r pryder hwnnw.

16:08

## Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am grateful to the Minister for her statement today, and I welcome the publication of the Bill. I think its aims of prevention and support, and so on, are absolutely spot on, and I know that a lot of work has taken place to get us this far. However, I am also disappointed not to see provisions relating to healthy relationships education in the Bill and at the lack of a whole-school approach, which we had hoped to see. I want this Bill to be a real game-changer and, for me, the key is in education, helping girls to grow up with good self-esteem and boys to grow up to respect girls and women, and for them both to have really healthy expectations of themselves and other people when it comes to their relationships.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw, ac rwyf yn croesawu cyhoeddi'r Bil. Rwyf yn meddwl bod ei nodau o atal a chynorthwyo, ac yn y blaen, yn hollol gywir, a gwn fod llawer o waith wedi'i wneud i ddod â ni cyn belled â hyn. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn siomedig o beidio â gweld darpariaethau sy'n ymwneud ag addysg ynglŷn â pherthynas iach yn y Bil a'r diffyg ymagwedd ysgol-gyfan, yr oeddem wedi gobeithio ei gweld ynddo. Rwyf am i'r Bil hwn achosi newid gwirioneddol ac, i mi, addysg yw'r allwedd i hyn, er mwyn helpu merched i dyfu i fyny ag ymdeimlad da o hunan-barch a helpu bechgyn i dyfu i fyny i barchu merched a menywod, ac i'r ddau ryw fod â disgwyliadau gwirioneddol iach ohonynt eu hunain ac o bobl eraill o ran cynnal perthynas.

I know that I have limited time, so I would refer Members to my short debate on child safety online, in which I explored a lot of these issues in depth. I heard what you said about the curriculum review, but it will take some convincing for me to believe that PSE alone will suffice, so I would like to know how the prevention aims of this Bill will be realised in the absence of specific measures related to education. How will we realise that whole-school approach now? How will the Bill, for example, improve teachers' and school staff's ability to deal effectively with disclosures of domestic abuse and make safe referrals, because that does not come about through PSE?

Gwn mai dim ond ychydig o amser sydd gennyf, felly hoffwn gyfeirio'r Aelodau at fy nadl fer ynglŷn â diogelwch plant ar-lein, lle'r archwiliais lawer o'r materion hyn yn fanwl. Clywais yr hyn a ddywedasoch am adolygu'r cwricwlwm, ond bydd yn anodd fy narbwyllo y bydd ABCh ar ei phen ei hun yn ddigon, felly hoffwn wybod sut y bydd amcanion atal y Bil hwn yn cael eu gwireddu heb yn awr? Sut y bydd y Bil, er enghraifft, yn gwella gallu athrawon a staff yr ysgol i ymdrin yn effeithiol â datgeliadau am gam-drin domestig ac i wneud atgyfeiriadau diogel, oherwydd nid fesurau penodol sy'n ymwneud ag addysg. Sut y byddwn yn gwireddu'r ymagwedd ysgol-gyfan honno yw hynny'n digwydd trwy ABCh?

Much of this Bill is about futureproofing what we do well, I think, but, if we futureproof anything, it has to be our children and young people. However, more broadly, what does the Minister really see as the real strengths in this Bill insofar as prevention is concerned?

Credaf fod llawer o'r Bil hwn yn ymwneud â diogelu'r hyn yr ydym yn ei wneud yn dda at y dyfodol, ond os ydym am ddiogelu rhywbeth at y dyfodol, rhaid inni ddiogelu ein plant a'n pobl ifanc. Fodd bynnag, yn fwy cyffredinol, beth y mae'r Gweinidog mewn gwirionedd yn meddwl sy'n gryfderau gwirioneddol yn y Bil hwn o ran atal?

I welcome the prospect of national indicators, and, even though education is excluded from the Bill, I would hope that those indicators will include things that we can measure about children and young people, such as the percentages of children excluded from school because of sexually inappropriate behaviour, arrests of children and young people for sexual or violent gender-motivated crimes, bullying data, surveys of young people detailing their experiences and attitudes, and so on. Is the Minister in a position to provide us with more information on the vision for the national indicators?

Rwyf yn croesawu'r posibilrwydd o ddangosyddion cenedlaethol, ac, er nad yw addysg wedi'i chynnwys yn y Bil, byddwn yn gobeithio y bydd y dangosyddion hynny'n cynnwys pethau y gallwn eu mesur ynglŷn â phlant a phobl ifanc, megis canrannau'r plant sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol oherwydd ymddygiad rhywiol amhriodol, nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu harestio am droseddau rhywiol neu droseddau treisgar â chymhelliant sy'n gysylltiedig â rhywedd, data ynglŷn â bwlio, arolygon ymhlith pobl ifanc yn rhoi manylion eu profiadau a'u hagweddau, ac yn y blaen. A yw'r Gweinidog mewn sefyllfa i roi mwy o wybodaeth inni ynglŷn â'r weledigaeth ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol?

I also welcome the focus in the Bill on health boards. I would hope that this Bill, for example, would address the issue that, on average, it takes 11 visits to A&E for action to be taken to provide a victim with the support that they need.

Rwyf hefyd yn croesawu'r pwyslais yn y Bil ar fyrddau iechyd. Byddwn yn gobeithio y bydd y Bil hwn, er enghraifft, yn mynd i'r afael â'r ffaith ei bod yn cymryd 11 o ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys, ar gyfartaledd, cyn i gamau gael eu cymryd i roi'r cymorth sydd ei angen arnynt i ddioddefwyr.

Finally, like other Members, I am also interested in the idea of the ministerial adviser role. I am keen to better understand how that role would work with and complement the work of the anti-human trafficking co-ordinator, whose role partly deals with women and children who have been trafficked into prostitution, and who, as such, are victims of sexual violence and perhaps some of the most vulnerable people in Wales.

Yn olaf, mae gen innau, fel Aelodau eraill, ddiddordeb yn syniad rôl y cynghorydd gweinidogol. Rwyf yn awyddus i ddeall yn well sut y byddai'r rôl honno'n gweithio gyda gwaith y cydlynydd atal masnachu mewn pobl, ac yn ategu'r gwaith hwnnw, gan fod ei rôl yn rhannol yn ymdrin â menywod a phlant sydd wedi cael eu masnachu i mewn i buteindra, ac sydd, yn hynny o beth, yn dioddef trais rhywiol ac efallai'n rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru.

To conclude, there is a great deal to welcome in the Bill, and I look forward to it developing in due course.

I gloi, mae llawer i'w groesawu yn y Bil, ac edrychaf ymlaen at ei weld yn datblygu maes o law.

16:11

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Rebecca Evans, for those questions. I will not repeat what I said about education, but I think that one area where we can continue to work very closely is on the fact that the Minister for Education and Skills and I are concerned that the healthy relationships education in schools at the moment is not being delivered by the most appropriately trained staff. So, part of the national training framework is to ensure that all public sector workers in Wales, including teachers, can be trained to a consistent standard. It is really important that the standard of training is consistent, and that can be rolled out in our schools now.

Diolch ichi, Rebecca Evans, am y cwestiynau hynny. Nid wyf am ailadrodd yr hyn a ddywedais ynglŷn ag addysg, ond credaf fod un maes lle gallwn barhau i weithio'n agos iawn, sef bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau a minnau'n pryderu nad yw'r addysg ynglŷn â chynnal perthynas iach mewn ysgolion yn cael ei darparu ar hyn o bryd gan y staff sydd wedi'u hyfforddi'n fwyaf priodol. Felly, rhan o'r fframwaith hyfforddi cenedlaethol yw sicrhau bod holl weithwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys athrawon, yn gallu cael hyfforddiant o safon gyson. Mae'n wirioneddol bwysig bod safon yr hyfforddiant yn gyson, ac y gellir cyflwyno hynny yn ein hysgolion yn awr.

The national training framework will also help with the health sector, and I think that you are quite right about 11 visits to A&E, for instance, being cited as the average number of visits. We know that a victim will often seek health services rather than go to the police, for instance; they will go via the health service. So, again, it is really important that our health professionals have that confidence to ask and act. When I was Minister for health, I remember visiting A&E departments in north Wales to see the level of ask and act—it was not called ask and act in those days—that was being undertaken, and it was very variable. So, I think it is about making sure that we put that national training in place. It is being provided by the Welsh Government and we are paying for it, so I think the take-up of that training will be very high because we are offering it, we are running it and, also, we are paying for it.

Bydd y fframwaith hyfforddi cenedlaethol hefyd yn helpu o ran y sector iechyd, a chredaf eich bod yn llygad eich lle mai 11 o ymweliadau ag unedau damweiniau ac achosion brys yw'r nifer ar gyfartaledd, yn ôl pob sôn. Gwyddom y bydd dioddefwyr yn aml yn mynd at y gwasanaethau iechyd yn hytrach na mynd at yr heddlu, er enghraifft; byddant yn mynd at yr heddlu drwy'r gwasanaeth iechyd. Felly, unwaith eto, mae'n bwysig iawn fod gan ein gweithwyr iechyd proffesiynol yr hyder i holi a gweithredu. Pan oeddwn yn Weinidog iechyd, rwyf yn cofio ymweld ag adrannau damweiniau ac achosion brys yng ngogledd Cymru i weld lefel yr holi a gweithredu—nid oedd yn cael ei alw'n holi a gweithredu yn y dyddiau hynny—a oedd yn digwydd, ac roedd yn amrywiol iawn. Felly, credaf fod hyn yn fater o sicrhau ein bod yn rhoi hyfforddiant cenedlaethol ar waith. Mae'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ac rydym yn talu amdano, felly credaf y bydd nifer fawr o bobl yn manteisio ar yr hyfforddiant oherwydd ein bod yn ei gynnig, rydym yn ei gynnal, a hefyd, rydym yn talu amdano.

You mentioned the national indicators. What they will do is measure the way in which the purpose of the Bill is being achieved. So, we will have overarching measures of success indicators in the Welsh Government's national strategy and in local health boards' and local authorities' local strategies. Such an indicator could include the incidence of domestic abuse or sexual crime. It could include the number of individuals who have been referred to multi-agency risk assessment conferences, or it could be the number of public sector bodies that have domestic abuse workplace policies. So, there will be very high level indicators that will be able to measure the Bill.

Soniasoch am y dangosyddion cenedlaethol. Yr hyn y byddant yn ei wneud yw mesur y ffordd y bydd diben y Bil yn cael ei gyflawni. Felly, bydd gennym fesurau cyffredinol o ddangosyddion llwyddiant yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ac yn strategaethau lleol byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol. Gallai dangosydd o'r fath gynnwys yr achosion o gam-drin domestig neu droseddau rhywiol. Gallai gynnwys nifer yr unigolion sydd wedi cael eu hatgyfeirio at gynadleddau asesu risg amlasiantaeth, neu gallai gynnwys nifer y cyrff yn y sector cyhoeddus a chanddynt bolisïau yn y gweithle'n ymwneud â cham-drin domestig. Felly, bydd lefel uchel iawn o ddangosyddion a fydd yn gallu mesur y Bil.

In relation to the anti-slavery co-ordinator, I mentioned before that there will be an overlap and we will have to see, as we go forward in scrutiny, how his role—it is a 'him' at the moment—will fit in with the ministerial adviser role. However, I would anticipate that they would work very closely together. At one time, it was mooted that we should perhaps have a commissioner, but I think an adviser is absolutely the right level—someone who is out there working with our public sector bodies to ensure that the prevention, support and services are absolutely what we need to address this Bill.

O ran y cydlynydd gwrth-gaethwasiaeth, soniais o'r blaen y bydd gorgyffwrdd a bydd yn rhaid inni weld, wrth inni symud ymlaen o ran craffu, sut y mae ei rôl ef—'ef' ydyw ar hyn o bryd—yn cyd-fynd â rôl y cynghorydd gweinidogol. Fodd bynnag, rwyf yn rhagweld y byddent yn gweithio'n agos iawn gyda'i gilydd. Ar un adeg, crybwyllwyd y dylem efallai cael comisiynydd, ond credaf mai cynghorydd yw'r lefel fwyaf addas—rhywun sy'n gweithio gyda chyrff y sector cyhoeddus i sicrhau bod y gweithdrefnau atal, y cymorth a'r gwasanaethau yn bodloni gofynion y Bil hwn yn llwyr.

Peter Black mentioned perpetrator programmes; I am sorry, I forgot to answer his questions. My officials have recently discussed provision of perpetrator programmes with Wales Probation and it was content with the all-Wales coverage of such programmes. I know that there are some innovative programmes being tested—there is one in the Vale of Glamorgan. I am having a look at those programmes, within the independent review of the services, to see where the gaps are.

Soniodd Peter Black am raglenni tramgwyddwyr; mae'n ddrwg gennyf, anghofiais ateb ei gwestiynau. Yn ddiweddar, trafododd fy swyddogion ddarpariaeth rhaglenni tramgwyddwyr â Gwasanaeth Prawf Cymru ac roedd yn fodlon â dosbarthiad Cymru gyfan rhaglenni o'r fath. Gwn fod rhai rhaglenni arloesol yn cael eu profi—mae un ym Mro Morgannwg. Rwyf yn bwrw golwg dros y rhaglenni hynny, yn rhan o'r adolygiad annibynnol o'r gwasanaethau, i weld ble y mae'r bylchau.

16:15 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. I have four further speakers. Comments have already been made the spokespeople, so I hope that people can be succinct in their questions. I now call on Lindsay Whittle.

Diolch ichi, Weinidog. Mae gennyf bedwar siaradwr arall. Mae sylwadau eisoes wedi eu gwneud gan y llefarwyr, felly rwyf yn gobeithio y gall pobl ofyn eu cwestiynau'n gryno. Galwaf yn awr ar Lindsay Whittle.

16:15 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have so many notes, but I will try to be very quick. We are told by the experts that, during rugby internationals and the World Cup, domestic violence will increase. I suppose, when you see overpaid players biting each other, there is little wonder. Domestic violence is not normal behaviour.

Mae gennyf gynifer o nodiadau, ond ceisiaf fod yn gyflym iawn. Dywed yr arbenigwyr wrthym y bydd trais domestig yn cynyddu yn ystod gemau rygbi rhyngwladol a Chwpan y Byd. Nid oes fawr o syndod, mae'n debyg, pan fyddwch yn gweld chwaraewyr sy'n cael gormod o gyflog o lawer yn brathu ei gilydd. Nid yw trais domestig yn ymddygiad normal.

The first question I want to ask is: Minister, how will this Bill monitor the situation with our police and crime commissioners and our police authorities? We are still hearing about incidents of domestic abuse reported to the police that are not taken seriously enough, not fully recorded and not even actioned upon. How will you monitor that progress?

Y cwestiwn cyntaf yr wyf am ei ofyn yw hyn: Weinidog, sut y bydd y Bil hwn yn monitro'r sefyllfa o ran ein heddlu a chomisiynwyr troseddu ac awdurdodau'r heddlu? Rydym yn dal i glywed am achosion o gam-drin domestig sy'n cael eu hadrodd i'r heddlu nad ydynt yn cael eu cymryd yn ddigon o ddifrif, nad ydynt yn cael eu cofnodi'n llawn ac nad oes camau'n cael eu cymryd yn eu sgil hyd yn oed. Sut y byddwch yn monitro'r cynnydd hwnnw?

We know that violence in the home is more likely to be aimed at women, but the fact that men are also victims should not be overlooked. You have mentioned that, but, of course, many men do not report incidents of violence due to the stigma involved, so I wonder whether the Bill could look at some of those issues as well.

Gwyddom fod trais yn y cartref yn fwy tebygol o fod wedi'i gyfeirio at fenywod, ond ni ddylid anghofio'r ffaith bod dynion hefyd yn dioddef. Rydych wedi crybwyll hynny, ond, wrth gwrs, mae llawer o ddynion sy'n dweud dim am achosion o drais oherwydd y stigma sy'n gysylltiedig â hynny, felly tybed a allai'r Bil edrych ar rai o'r materion hynny hefyd?

Thirdly, I read a press release that stated that you are particularly concerned about violence in lesbian, gay and bisexual relationships and, more delicately, transgender relationships. You have briefly touched on that, but I wonder whether the Bill will highlight that.

Yn drydydd, darllenais ddatganiad i'r wasg a oedd yn dweud eich bod yn pryderu'n arbennig am drais mewn perthnasoedd lesbiaidd, hoyw a deurywiol ac, yn fwy sensitif, perthnasoedd trawsrywiol. Rydych wedi sôn yn fras am hynny, ond tybed a fydd y Bil yn tynnu sylw at hynny.

For me, the most important issue is domestic abuse having a lasting and damaging effect on the children who witness it. What measures will this Bill take to help children overcome the trauma of witnessing domestic abuse? Please, please, please, why does this Bill not include a ban on the smacking of children, an issue that has been debated ad nauseam in the Chamber virtually since its inception? We can all talk the talk; it is about time we walked the walk. That is what this Bill should do. It should offer protection to children. We are talking about educating our children not to engage in domestic violence in future relationships when they grow up, yet we allow them to go home and be hit by adults. I cannot see the logic. I really think that this Bill is going to have amendment after amendment.

I mi, y mater pwysicaf yw bod cam-drin domestig yn cael effaith barhaol a niweidiol ar y plant sy'n dystion iddo. Pa gamau y bydd y Bil hwn yn eu cymryd i helpu plant i oresgyn y trawma o fod yn dystion i gam-drin domestig? Os gwelwch yn dda, os gwelwch yn dda, os gwelwch yn dda, pam nad yw'r Bil hwn yn cynnwys gwaharddiad ar smacio plant, mater sydd wedi ei drafod hyd at syrffed yn y Siambr bron ers ei sefydlu? Gallwn i gyd ddweud y pethau iawn; mae'n hen bryd inni wneud y pethau iawn. Dyna'r hyn y dylai'r Bil hwn ei wneud. Dylai gynnig amddiffyniad i blant. Rydym yn sôn am addysgu ein plant i beidio â chymryd rhan mewn trais domestig mewn perthynas yn y dyfodol pan fyddant wedi tyfu i fyny, ac eto rydym yn caniatáu iddynt fynd adref a chael eu taro gan oedolion. Ni allaf weld y rhesymeg. Rwyf yn credu'n wirioneddol fod y Bil hwn yn mynd i gael gwelliant ar ôl gwelliant.

16:18

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You are quite right about the rise in the incidence of domestic abuse during rugby internationals, and you have just referred to something that happened recently in the football World Cup. We have had campaigns to be timed with those sporting events, which I think have been very successful. It is something that I will be looking to continue to do as we go forward.

Rydych yn llygad eich lle ynghylch y cynnydd yn nifer yr achosion o gam-drin domestig yn ystod gemau rygbi rhyngwladol, ac rydych newydd gyfeirio at rywbeth a ddigwyddodd yn ddiweddar yng Nghwpan Pêl-droed y Byd. Rydym wedi cynnal ymgyrchoedd i gyd-redeg â'r digwyddiadau chwaraeon hynny, a chredaf iddynt fod yn llwyddiannus iawn. Mae'n rhywbeth y byddaf yn ceisio parhau i'w wneud wrth inni symud ymlaen.

In relation to the police, there has been a very damning report recently, to which I assume you are referring. I have raised this issue with both the chief constables and the police and crime commissioners. I have written to them to say that I am very happy to work with them, but this is a piece of work that the Home Office is primarily taking forward. I have also corresponded with the Home Secretary to say that I am very happy to work closely with her and the police forces in Wales, because it is very important that, when people go forward for help, those cries for help are taken very seriously by the police.

O ran yr heddlu, bu adroddiad damniol iawn yn ddiweddar, a thybiaf mai at hwnnw yr ydych yn cyfeirio. Rwyf wedi codi'r mater hwn gyda'r prif gwnstabliaid a chomisiynwyr yr heddlu a throseddu. Rwyf wedi ysgrifennu atynt i ddweud fy mod yn hapus iawn i weithio gyda hwy, ond mae hwn yn waith y bydd y Swyddfa Gartref yn bennaf yn bwrw ymlaen ag ef. Rwyf hefyd wedi gohebu â'r Ysgrifennydd Cartref i ddweud fy mod yn hapus iawn i weithio'n agos gyda hi a'r heddlu yng Nghymru, oherwydd mae'n bwysig iawn, pan fydd pobl yn ceisio cymorth, fod y ceisiadau hynny am gymorth yn cael eu cymryd yn wirioneddol o ddifrif gan yr heddlu.

As you say, it is women who are disproportionately affected, but men are affected too. I do not think that it is just men who are reluctant, sometimes, to report this due to stigma; I think it is women also. You mentioned the LGBT community, and it is covered in this Bill also.

Fel y dywedwch, mae hyn yn effeithio'n anghymesur ar fenywod, ond mae'n effeithio ar ddynion hefyd. Nid wyf yn credu mai dim ond dynion sy'n amharod, weithiau, i ddweud beth sydd wedi digwydd oherwydd stigma; credaf fod hyn yn wir am fenywod hefyd. Soniasoch am y gymuned lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, ac mae wedi'i chynnwys yn y Bil hwn hefyd.

I think there is one issue around children. I mentioned in an earlier answer the number of children who experience domestic abuse and who are not known to social services. The way in which that will be addressed here is through the local strategies that the local authorities and the health boards will be drafting together. I think that the fact is that this Bill will raise awareness and change attitudes and show that gender-based violence, domestic abuse and sexual violence are not acceptable and will not be tolerated.

Credaf fod un mater ynglŷn â phlant. Soniais mewn ateb cynharach am nifer y plant sy'n cael profiad o gam-drin domestig ac nad yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwybod amdanynt. Ymdrinnir â hynny yma drwy'r strategaethau lleol y bydd yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd yn eu drafftio gyda'i gilydd. Y gwir amdani, yn fy marn i, yw y bydd y Bil hwn yn codi ymwybyddiaeth ac yn newid agweddau ac yn dangos nad yw trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig na thrais rhywiol yn dderbyniol ac na chânt eu goddef.

In relation to smacking, this is not a criminal justice Bill and this is not the appropriate place for that.

O ran smacio, nid yw hwn yn Fil cyfiawnder troseddol ac nid dyma'r man priodol ar gyfer hynny.

16:20 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I just want to make a few brief comments, first on the variable nature of the number of incidents that are reported across Wales, the variable services across Wales and the variable amount of money that is actually committed to the services. Here where we are in south Wales, the South Wales Police area has the third-highest rate of domestic abuse out of the full 43 police authorities. I mean, it could be that there is better reporting, but we do not know. In any case, in this area where we are here there is a very high rate of domestic abuse. The other issue is funding and services. The Minister has emphasised the importance of partnership working, and it is obviously essential that it is not just left to the police and social services. As she has said, health has to be involved. The amount of money that the health authorities are able to commit is relatively small. So, I do not know how we are going to tackle this issue of the varying amounts of money that are spent across Wales. The funding for organisations like Women's Aid, for example, is very uncertain. Often, they have multiple sources of funding and there is no security, no stable funding. Then, if you look at the provision of independent domestic violence advocates, you will see that that again varies across Wales. In most of the south Wales areas, they do not reach the recommended number of IDVAs. Some local authorities do very well and give a lot of money and others do not. So, how will she see those inequalities ironed out through this Bill?

Rwyf am wneud rhai sylwadau byr yn unig, yn gyntaf ynglŷn â natur amrywiol nifer y digwyddiadau sy'n cael eu hadrodd ledled Cymru, y gwasanaethau amrywiol ar draws Cymru a'r swm amrywiol o arian sydd wedi ei glustnodi ar gyfer y gwasanaethau. Yma yn ne Cymru, lle'r ydym ni, ardal Heddlu De Cymru oedd â'r gyfradd uchaf ond dwy o gam-drin domestig o blith y 43 o awdurdodau'r heddlu. Mae'n bosibl mai gwell adrodd sydd i gyfrif am hynny, ond nid ydym yn gwybod. Beth bynnag, yn yr ardal hon lle'r ydym mae cyfradd uchel iawn o gam-drin domestig. Y mater arall yw cyllid a gwasanaethau. Mae'r Gweinidog wedi pwysleisio pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth, ac wrth gwrs mae'n hollbwysig nad yw hyn yn cael ei adael i'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol yn unig. Fel y dywedodd hi, rhaid i iechyd fod yn rhan o hyn. Mae'r symiau o arian y gall yr awdurdodau iechyd eu clustnodi ar gyfer hyn yn gymharol fach. Felly, nid wyf yn gwybod sut yr ydym am fynd i'r afael â phroblem y symiau amrywiol o arian sy'n cael eu gwario ledled Cymru. Mae'r cyllid ar gyfer sefydliadau megis Cymorth i Fenywod, er enghraifft, yn ansicr iawn. Yn aml, mae ganddynt nifer o ffynonellau cyllid ac nid oes dim sicrwydd, dim cyllid sefydlog. Yna, os edrychwch ar ddarpariaeth eiriolwyr annibynnol trais domestig, fe welwch fod hynny eto'n amrywio ledled Cymru. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd de Cymru, nid ydynt yn cyrraedd y nifer a argymhellir o eiriolwyr annibynnol trais domestig. Mae rhai awdurdodau lleol yn gwneud yn dda iawn ac yn rhoi llawer o arian ac eraill nad ydynt yn gwneud hynny. Felly, sut y mae'n bwriadu cael gwared ar yr anghydraddoldebau hyn drwy'r Bil hwn?

I also agree that it is very, very important that we look at the effect on children. I think that, in Cardiff and the Vale of Glamorgan, there were 859 children involved in the most serious domestic abuse cases in the last recorded year. Those are only the ones we know about. The effect of witnessing these violent scenes—. I do not think we can estimate what it can actually do to children, so I do hope that that will be a major part of the Bill. Finally, I agree with Lindsay Whittle that the issue of children being hit in the home must be addressed in this Assembly.

Rwyf hefyd yn cytuno ei bod yn bwysig iawn, iawn ein bod yn edrych ar yr effaith ar blant. Credaf, yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, fod 859 o blant yn rhan o'r achosion mwyaf difrifol o gam-drin domestig a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dim ond y rhai y gwyddom amdanynt yw'r rheini. Mae effaith gweld y golygfeydd treisgar hyn—. Nid wyf yn meddwl y gallwn amcangyfrif yr hyn y gall ei wneud mewn gwirionedd i blant, felly rwyf yn gobeithio y bydd hynny'n rhan bwysig o'r Bil. Yn olaf, rwyf yn cytuno â Lindsay Whittle fod yn rhaid mynd i'r afael â mater plant sy'n cael eu taro yn y cartref yn y Cynulliad hwn.

16:23 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Julie Morgan. I think that you are quite right about the variable services, and I think that the independent review of services that I recently undertook showed that. We have been able to identify the gaps and, obviously, as the Bill goes forward, that is a piece of work that is being done outside of this legislation. Even though my budget has taken a substantial reduction, I have actually increased the funding in this area up to £4 million from £3.6 million because I thought that, bringing a new piece of legislation forward, I had to do that to ensure that we were not reducing people's funding when, clearly, there was a need to increase it. You are quite right about partnership working. We cannot do this without having partnership working and, as I mentioned in my answer to Rebecca Evans, I think that health is an area where people go first sometimes. They access health services rather than reporting it to the police. Again, the national training framework will help. There is no cost involved with that. We are funding it. We are providing it at various levels to be the most appropriate training for that specific person who is working in the public sector.

Diolch i Julie Morgan. Rwyf yn meddwl eich bod yn llygad eich lle am y gwasanaethau amrywiol, ac rwyf yn meddwl bod yr adolygiad annibynnol o wasanaethau a gynhaliais yn ddiweddar yn dangos hynny. Rydym wedi gallu nodi'r bylchau ac, wrth gwrs, wrth i'r Bil fynd yn ei flaen, mae hwnnw'n waith sy'n cael ei wneud y tu allan i'r ddeddfwriaeth hon. Er bod fy nghyllideb wedi gostwng yn sylweddol, rwyf wedi cynyddu'r cyllid yn y maes hwn i £4 miliwn o £3.6 miliwn gan fy mod yn meddwl, wrth gyflwyno darn newydd o ddeddfwriaeth, fod yn rhaid imi wneud hynny i sicrhau nad oeddem yn lleihau cyllid pobl pan oedd angen ei gynyddu, yn amlwg. Rydych yn llygad eich lle ynglŷn â gweithio mewn partneriaeth. Ni allwn wneud hyn heb weithio mewn partneriaeth ac, fel y soniais yn fy ateb i Rebecca Evans, rwyf yn meddwl bod iechyd yn faes y mae pobl yn troi ato'n gyntaf weithiau. Maent yn mynd at y gwasanaethau iechyd yn hytrach nag adrodd wrth yr heddlu. Unwaith eto, bydd y fframwaith hyfforddi cenedlaethol yn helpu. Nid oes dim cost yn gysylltiedig â hynny. Rydym yn ei ariannu. Rydym yn ei ddarparu ar wahanol lefelau er mwyn iddo fod yr hyfforddiant mwyaf priodol ar gyfer yr unigolyn penodol hwnnw sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus.

You mention IDVAs. IDVAs have been raised with me several times. Obviously, most of them were funded with Home Office funding, and we have supported them also. Again, it is variable across local authorities, but the ministerial adviser can advise local authorities and local health boards as they bring forward their local strategies. You mention the number of children we know of, and that is what I was saying—so many children who witness domestic abuse are not known to social services. Again, I just reiterate that this is not a criminal justice Bill.

Rydych yn sôn am eiriolwyr annibynnol trais domestig. Mae'r eiriolwyr hyn wedi eu codi gyda mi sawl gwaith. Wrth gwrs, ariannwyd y rhan fwyaf ohonynt â chyllid y Swyddfa Gartref, ac rydym wedi eu cefnogi hefyd. Unwaith eto, mae'n amrywio ar draws awdurdodau lleol, ond gall y cynghorydd gweinidogol gynghori awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol wrth iddynt gyflwyno eu strategaethau lleol. Rydych yn sôn am nifer y plant y gwyddom amdanynt, a dyna'r hyn yr oeddwn yn ei ddweud—mae cynifer o blant sy'n dystion i gam-drin domestig nad yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwybod amdanynt. Dywedaf unwaith eto nad yw hwn yn Fil cyfiawnder troseddol.

16:25 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Prevention is always better than detection and treatment, so I suppose that one of the things that I want to know is how this Bill will try to break the link between the perpetrators and victims of domestic violence and the children of the perpetrators and victims of domestic violence becoming the next generation.

Mae atal bob amser yn well na chanfod a thrin, felly mae'n debyg mai un o'r pethau yr hoffwn eu gwybod yw sut y bydd y Bil hwn yn ceisio torri'r cyswllt rhwng tramgwyddwyr a dioddefwyr trais domestig, ac mai plant tramgwyddwyr a dioddefwyr trais domestig fydd y genhedlaeth nesaf.

I welcome your proposal to have courses in schools to educate children and young people on the importance of having respectful relationships and I look forward to hearing more detail about exactly what shape that programme will take.

Croesawaf eich cynnig i gael cyrsiau mewn ysgolion i addysgu plant a phobl ifanc am bwysigrwydd parch mewn perthynas ac edrychaf ymlaen at glywed mwy o fanylion ynglŷn ag union gynnwys y rhaglen.

I would like to know whether the Minister is aware of an app that is being developed at Coventry University to try to prevent female genital mutilation. It is an app that will be targeted at girls, most of whom now have a mobile phone, to ensure that they are aware of their right not to be physically assaulted in this way. It seems to me that that is something that we ought to be supporting, because we most definitely want to try to protect our girls and young women from that.

Hoffwn wybod a yw'r Gweinidog yn ymwybodol o ap sy'n cael ei ddatblygu ym Mhrifysgol Coventry i geisio atal anffurfio organau cenhedlu benywod. Mae'n ap a fydd yn cael ei dargedu at ferched, y mae gan y rhan fwyaf ohonynt ffôn symudol erbyn hyn, i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u hawl i beidio â dioddef y math hwn o ymosodiad corfforol. Mae'n ymddangos i mi fod hynny'n rhywbeth y dylem fod yn ei gefnogi, oherwydd rydym yn sicr yn awyddus i geisio amddiffyn ein merched a'n menywod ifanc rhag hynny.

In terms of the issue raised by Julie Morgan about south Wales having a very high incidence of domestic violence and how we really do not know whether that is because that authority is better at detecting it, but it is certainly better at prosecuting it when it does find it, because it is noticeable that 96 out of 100 incidents of domestic violence that it attends lead to an arrest. That hugely increases the number of victims who say that they feel safe after the event, and, of course, that will increase the number of people willing to come forward.

O ran y mater a godwyd gan Julie Morgan am y nifer uchel iawn o achosion o drais domestig yn ne Cymru a'r ffaith nad ydym mewn gwirionedd yn gwybod a yw hynny oherwydd bod yr awdurdod yn hynny'n well, ond y mae'n sicr yn well am erlyn pan fydd yn ei ganfod, oherwydd mae 96 o bob 100 o achosion o drais domestig y maent yn eu mynychu yn arwain at arestio rhywun. Mae hynny'n golygu bod mwy o lawer o ddioddefwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel ar ôl y digwyddiad, ac, wrth gwrs, bydd yn cynyddu nifer y bobl sy'n barod i ddod ymlaen.

So, I am interested to see that the number of incidents per 10,000 of the population in Dyfed-Powys, Gwent and the other police authorities is so much lower than it is in south Wales. We need to know whether that is just because the other authorities are not paying as much attention to it. I remain to be convinced that there is less domestic violence going on in the Dyfed-Powys area than there is in, say, the south Wales area. Yes, there is some link with deprivation, but I would like to highlight the fact that, of the wards in Cardiff with the greatest number of incidents of domestic violence attended by the police, number 3 is Cathays, which is the ward nearest to Cardiff University. Nearly 90% of the population there are students. So, these are not the traditional families living in poor areas, which is the popular image of where domestic violence occurs. These are educated young people who do not seem to have learnt how to behave towards each other. That is clearly something that we have to do something about.

Felly, mae'n ddiddorol gweld bod nifer yr achosion fesul 10,000 o'r boblogaeth yn ardal Dyfed-Powys, Gwent ac awdurdodau heddlu eraill yn is o lawer nag yn ne Cymru. Mae angen inni wybod a yw hynny'n syml oherwydd nad yw'r awdurdodau eraill yn rhoi'r un faint o sylw i'r mater. Nid wyf wedi fy argyhoeddi o hyd bod llai o drais domestig yn digwydd yn ardal Dyfed-Powys nag, er enghraifft, yn ardal de Cymru. Oes, mae rhyw gysylltiad ag amddifadedd, ond hoffwn dynnu sylw at y ffaith, o'r wardiau yng Nghaerdydd â'r nifer mwyaf o achosion o drais domestig a fynychwyd gan yr heddlu, rhif 3 yw ward Cathays, sef y ward agosaf at Brifysgol Caerdydd. Mae bron i 90% o'r boblogaeth yno'n fyfyrwyr. Felly, nid teuluoedd traddodiadol sy'n byw mewn ardaloedd tlawd yw'r rhain, sef y darlun poblogaidd o'r mannau lle y mae trais domestig yn digwydd. Mae'r rhain yn bobl ifanc addysgedig nad ydynt fel petaent wedi dysgu sut i ymddwyn tuag at ei gilydd. Mae hynny'n amlwg yn rhywbeth y mae'n rhaid inni wneud rhywbeth yn ei gylch.

The multi-agency risk assessment conference was pioneered in Cardiff to deal with the most serious cases of domestic violence and that multi-agency approach has, no doubt, saved many people's lives. I want to know whether this Bill will enable that multi-agency approach to be spread out to detect and prevent domestic violence before it gets to the MARAC level. MARAC only hears about the cases where there is a serious threat of somebody losing their life. What we need to do, surely, is to ensure that we are detecting domestic violence before 35 times—

Cafodd y gynhadledd asesu risg amlasiantaeth ei datblygu yng Nghaerdydd i ymdrin â'r achosion mwyaf difrifol o drais domestig ac mae'r ymagwedd amlasiantaeth hon, yn ddiau, wedi achub bywydau llawer o bobl. Hoffwn wybod a fydd y Bil hwn yn golygu y gellir lledaenu'r ymagwedd amlasiantaeth hon i ganfod ac atal trais domestig cyn iddo gyrraedd lefel y gynhadledd honno. Dim ond am yr achosion lle mae bygythiad difrifol y gallai rhywun golli ei fywyd y mae'r gynhadledd yn clywed. Yr hyn y mae angen ei wneud, onid e, yw sicrhau ein bod yn canfod trais domestig cyn 35 gwaith—

16:29 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I ask you to come to your question, please? I have one more speaker I would like to get in.

A gaf fi ofyn ichi ofyn eich cwestiwn, os gwelwch yn dda? Mae gennyf un siaradwr arall yr hoffwn ei alw.

16:29 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay. In what way will this Bill ensure that our schools, social services and all of the other agencies that need to be involved are much more aware and ask the right questions?

Iawn. Ym mha ffordd y bydd y Bil hwn yn sicrhau bod ein hysgolion, ein gwasanaethau cymdeithasol a'r holl asiantaethau eraill y mae angen iddynt gymryd rhan yn fwy ymwybodol o lawer ac yn gofyn y cwestiynau cywir?

16:29 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will start with female genital mutilation. It is specifically captured in the Bill as a form of gender-based violence and it would be captured by the definition of domestic abuse if it were carried out by a person associated with the victim. It is really important that awareness raising and training to tackle FGM is delivered in line with the national training framework. I am not aware of the app, but I will ask officials to look into that. It is the most horrific form of abuse. It is very often hidden from view and shrouded in secrecy, and it can have a devastating effect on people. That is a piece of work that I am very happy to look at, and we can take it forward.

Rwyf am ddechrau gydag anffurfio organau cenhedlu benywod. Mae'n cael ei nodi'n benodol yn y Bil fel math o drais ar sail rhywedd a byddai'n cael ei gynnwys yn y diffiniad o gam-drin domestig pe bai unigolyn sy'n gysylltiedig â'r dioddefwr yn ei gyflawni. Mae'n wirioneddol bwysig bod codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i fynd i'r afael ag anffurfio organau benywod yn cael eu darparu yn unol â'r fframwaith hyfforddi cenedlaethol. Nid wyf yn gwybod am yr ap, ond byddaf yn gofyn i swyddogion ymchwilio i hynny. Dyma'r math mwyaf erchyll o gam-drin. Yn aml iawn mae'n cael ei guddio o'r golwg a than len o gyfrinachedd, a gall gael effaith ddinistriol ar bobl. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn hapus iawn i edrych arno, a gallwn fwrw ymlaen ag ef.

You mentioned Cathays as being an area of high incidence of domestic abuse. Students are a group, outside this legislation, that we have targeted. We had a special campaign at the beginning of this academic year, which was launched at Cardiff University during freshers week, to raise that awareness.

Soniasoch am Cathays fel ardal lle mae lefel uchel o gam-drin domestig. Mae myfyrwyr yn grŵp, y tu allan i'r ddeddfwriaeth hon, yr ydym wedi ei dargedu. Cawsom ymgyrch arbennig ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon, a lansiwyd ym Mhrifysgol Caerdydd yn ystod wythnos y glas, er mwyn codi ymwybyddiaeth.

You asked about prevention. The main aim of the Bill is to reduce the rates of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. The way that we will do that is to have an improved public sector response to promote awareness, to prevent, to support and to protect victims, to strengthen the strategic leadership and accountability and improve the consistency, quality and joining-up of services across Wales. That is where local strategies will come in, between the local authorities and the local health boards. It is really important that they have a joint strategy that is pertinent to their local area.

Gofynasoch ynglŷn ag atal. Prif nod y Bil yw lleihau cyfraddau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Byddwn yn gwneud hynny drwy gael ymateb gwell yn y sector cyhoeddus i hybu ymwybyddiaeth, i atal, i gynorthwyo ac i ddiogelu dioddefwyr, i gryfhau arweinyddiaeth strategol ac atebolrwydd a gwella cysondeb, ansawdd a chydgysylltu gwasanaethau ledled Cymru . Dyna lle y bydd strategaethau lleol yn bwysig, rhwng yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol. Mae'n wirioneddol bwysig bod ganddynt strategaeth ar y cyd sy'n berthnasol i'w hardal leol.

You mentioned south Wales and whether there is better reporting and prosecuting. I have had discussions will all the four chief constables and the four police and crime commissioners, and I have asked to see their crime and police plan. They all have issues around domestic abuse within their police and crime plan. Certainly, you are right that we are seeing better prosecution numbers from south Wales. If it down to best practice, let us get that best practice rolled out across the four police authorities in Wales.

Soniasoch am dde Cymru ac a oes gwell adrodd ac erlyn yno. Rwyf wedi cael trafodaethau â'r pedwar prif gwnstabl a'r pedwar comisiynydd heddlu a throseddu, ac rwyf wedi gofyn am gael gweld eu cynlluniau troseddu a phlismona. Mae ganddynt i gyd faterion sy'n ymwneud â cham-drin domestig yn eu cynlluniau plismona a throseddu. Yn sicr, rydych yn gywir ein bod yn gweld mwy o erlyniadau yn ne Cymru. Os yw'n gwestiwn o arfer gorau, gadewch inni gyflwyno'r arfer gorau hwnnw ar draws y pedwar awdurdod heddlu yng Nghymru.

16:32 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The first thing that I want to say is that I genuinely welcome this Bill. I absolutely support what the Government is trying to do and has been trying to do since the very start of this Assembly, moving from strategies to Bills. However, I have some concerns and questions around those concerns. I am particularly keen to hear that a duty will be placed on local government. I want to know how you are going to monitor the delivery in accordance with that duty, and I would like to know what you think progress might look like.

Y peth cyntaf yr wyf am ei ddweud yw fy mod yn wirioneddol yn croesawu'r Bil hwn. Rwyf yn llwyr gefnogi'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ceisio ei wneud ac wedi bod yn ceisio ei wneud ers cychwyn y Cynulliad hwn, gan symud o strategaethau i Filiau. Fodd bynnag, mae gennyf rai pryderon a chwestiynau ynglŷn â'r pryderon hynny. Rwyf yn arbennig o awyddus i glywed y bydd dyletswydd yn cael ei rhoi ar lywodraeth leol. Hoffwn wybod sut yr ydych yn bwriadu monitro'r ddarpariaeth yn unol â'r ddyletswydd honno, a hoffwn wybod sut y byddai cynnydd yn edrych yn eich barn chi.

I want to go back to the Spectrum programme—and I am glad that you are putting money towards Hafan Cymru so that it can deliver training to schools. I am deeply concerned that, if there is disclosure within those schools by any person, either those working in the school or, more specifically, pupils in the school, they get the relevant support. If they do not have the relevant support and they disclose, we could end up doing more harm than good. How are you going to manage that?

Hoffwn fynd yn ôl at y rhaglen Sbectrwm—ac rwyf yn falch eich bod yn rhoi arian tuag at Hafan Cymru fel y gall ddarparu hyfforddiant i ysgolion. Rwyf yn awyddus iawn, os bydd datgelu yn yr ysgolion hynny gan unrhyw un, naill ai'r rhai sy'n gweithio yn yr ysgol neu, yn fwy penodol, ddisgyblion yn yr ysgol, i'w gweld yn cael y cymorth priodol. Os na chânt y cymorth priodol a'u bod yn datgelu, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud mwy o ddrwg nag o les yn y pen draw. Sut ydych chi'n mynd i reoli hynny?

I am again concerned about the role that GPs play and how we are going to reach out to them. If there are examples of best practice that we can emulate, even if they do not exist in Wales, are we going to be able to do that? I did a survey last year of only 100 students—this goes back to the point that Jenny made—and 50% of them told me that they had experienced some form of violence against themselves and one third said that they had stayed quiet when they had witnessed or been a victim of violence against either themselves or another person. So, there is a huge job of work to be done, and I know that you are on the way to doing it. I welcome the Bill, but I have just raised some concerns.

Rwyf unwaith eto'n bryderus ynglŷn â'r rôl y mae meddygon teulu'n ei chwarae a sut yr ydym am estyn allan atynt. Os oes enghreifftiau o arfer gorau y gallwn eu hefelychu, hyd yn oed os nad ydynt yn bodoli yng Nghymru, a ydym yn mynd i allu gwneud hynny? Cynhaliais arolwg y llynedd ymhlith 100 o fyfyrwyr—mae hyn yn mynd yn ôl at y pwynt a wnaeth Jenny—a dywedodd 50% ohonynt wrthyf eu bod wedi profi rhyw fath o drais yn eu herbyn a dywedodd traean nad oeddent wedi dweud dim pan oeddent yn dystion i drais naill ai yn eu herbyn eu hunain neu yn erbyn rhywun arall, neu wedi dioddef trais o'r fath. Felly, mae tasg enfawr i'w chyflawni, a gwn eich bod wedi cychwyn arni. Rwyf yn croesawu'r Bil, ond rwyf wedi codi rhai o'm pryderon.

16:34 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Joyce Watson, for that contribution. In relation to the duties being placed on local government and local health boards in their jointly prepared strategies, I think that the difference that the duty will make is that they will have to publish a strategy that will ensure transparency around the extent of an issue in the local area, the proposed actions that they will take to address it and the services that they will provide. However, at the current time, we have single integrated plans, which I do not think address all the needs around these issues, because there is no specific statutory requirement for them to do so. Therefore, this will place a duty on them.

Diolch ichi, Joyce Watson, am y cyfraniad hwnnw. O ran y dyletswyddau a roddir ar lywodraeth leol a byrddau iechyd lleol yn y strategaethau y maent yn eu paratoi ar y cyd, credaf mai'r gwahaniaeth y bydd y ddyletswydd yn ei wneud yw y bydd yn rhaid iddynt gyhoeddi strategaeth a fydd yn sicrhau tryloywder o ran maint y broblem yn yr ardal, y camau arfaethedig y byddant yn eu cymryd i fynd i'r afael â hi a'r gwasanaethau y byddant yn eu darparu. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae gennym gynlluniau integredig sengl, ac nid wyf yn credu eu bod yn ymdrin â'r holl anghenion ynghylch y materion hyn, oherwydd nad oes gofyniad statudol penodol iddynt wneud hynny. Felly, bydd hyn yn rhoi dyletswydd arnynt.

In relation to the Spectrum programme, you are quite right about concerns in relation to what happens if somebody discloses. I and the Minister for Education and Skills are concerned about this and about the person who is having the disclosure made to them not being prepared, equipped or trained to cope with that. That is where, again, the national training framework that we are rolling out, paying for and providing will come into its own.

O ran rhaglen Sbectrwm, rydych yn llygad eich lle ynglŷn â phryderon o ran yr hyn sy'n digwydd os oes rhywun yn datgelu. Rwyf fi a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn pryderu am hyn ac ynglŷn â'r ffaith nad yw'r unigolion y datgelir hyn wrthynt o reidrwydd wedi cael eu paratoi, na'u hyfforddi i ymdopi â hynny. Dyna lle, unwaith eto, y bydd y fframwaith hyfforddi cenedlaethol yr ydym yn ei gyflwyno, yn talu amdano ac yn ei ddarparu yn profi ei werth.

You asked about best practice in relation to GPs. I have seen a very good example of best practice, and it was not in Wales but in Bristol. I went out, when I was in my previous portfolio, along with Carl Sargeant, who was in this portfolio, to see the work that was being undertaken by GPs in Bristol. It was an excellent scheme that we have certainly looked at very closely to see if it is possible to bring it to Wales.

Gofynasoch ynglŷn ag arfer gorau o ran meddygon teulu. Rwyf wedi gweld un enghraifft dda iawn o arfer gorau, ac nid yng Nghymru yr oedd hynny ond ym Mryste. Euthum yno, pan oeddwn yn fy mhortffolio blaenorol, ynghyd â Carl Sargeant, a oedd yn y portffolio hwn, i weld y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan feddygon teulu ym Mryste. Roedd yn gynllun rhagorol yr ydym yn sicr wedi edrych yn ofalus iawn arno i weld a oes modd dod ag ef i Gymru.

*Daeth Rhodri Glyn Thomas i'r Gadair am 16:36.*

*Rhodri Glyn Thomas took the Chair at 16:36.*

16:36

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch Bil Cymru

## Legislative Consent Motion on the Wales Bill

Senedd.tv
Fideo Video

### Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Galwaf ar y Gweinidog Cyllid i gynnig y cynnig.

I call on the Minister for Finance to move the motion.

Cynnig NDM5501 Jane Hutt

Motion NDM5501 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau ym Mil Cymru sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions in the Wales Bill which modify the legislative competence of the Assembly should be considered by the UK Parliament.

16:36

### Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

The Wales Bill is an important landmark for devolution, paving the way for implementation of most of the financial reforms recommended by the Silk commission. It will devolve significant new powers to Wales, allowing us to introduce Welsh taxes to replace UK stamp duty land tax and UK landfill tax, and enabling us to develop new taxes on a case-by-case basis, subject to the approval of Parliament. It will provide powers to borrow up to £500 million for capital investment, and a further £500 million to manage short-term budgetary fluctuations arising from tax devolution. It will allow us to call a referendum on the partial devolution of income tax at such time as the Assembly agrees that the circumstances are right to do so.

Mae Bil Cymru yn garreg filltir bwysig ar gyfer datganoli, gan baratoi'r ffordd ar gyfer gweithredu'r rhan fwyaf o'r diwygiadau ariannol a argymhellir gan gomisiwn Silk. Bydd yn datganoli pwerau newydd sylweddol i Gymru, gan ein galluogi i gyflwyno trethi Cymru i ddisodli treth dir y dreth stamp yn y DU a threth tirlenwi yn y DU, ac yn ein galluogi i ddatblygu trethi newydd ar sail fesul achos, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd. Bydd yn darparu pwerau i fenthyg hyd at £500 miliwn ar gyfer buddsoddi cyfalaf, a £500 miliwn arall i reoli amrywiadau cyllidebol tymor byr sy'n deillio o ddatganoli treth. Bydd yn ein galluogi i alw refferendwm ar ddatganoli rhannol ar dreth incwm ar yr adeg y bydd y Cynulliad yn cytuno bod yr amgylchiadau yn iawn ar gyfer gwneud hynny.

The Bill also addresses a number of constitutional issues, including the timing of National Assembly elections and qualification for membership of the Assembly, plus the relationship between the Law Commission and Welsh devolved institutions, and the borrowing limits for local housing authorities. However, the subject of today's debate is those clauses of the Bill addressing financial reforms that will modify the Assembly's legislative competence.

Mae'r Bil hefyd yn mynd i'r afael â nifer o faterion cyfansoddiadol, gan gynnwys amseru etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a chymhwyso ar gyfer aelodaeth o'r Cynulliad, yn ogystal â'r berthynas rhwng Comisiwn y Gyfraith a sefydliadau datganoledig Cymru, a'r terfynau benthyca ar gyfer awdurdodau tai lleol. Fodd bynnag, testun dadl heddiw yw'r cymalau hynny o'r Bil sy'n mynd i'r afael â diwygiadau ariannol a fydd yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Since it was introduced in March, the Wales Bill has progressed quickly and relatively smoothly through Parliament. The House of Commons stages were completed last week, and Second Reading in the House of Lords has already been announced for 16 July. This pace is very welcome in order to ensure that the Bill gains Royal Assent before the general election, indeed perhaps before the end of this year. Along the way, since the draft Bill was published, we have secured a number of critical improvements, including: powers for the Assembly to set its own budgetary procedures; a commitment to review the borrowing ceiling for capital investment; and the creation of a joint exchequer committee, which will provide a new forum for Welsh and UK Ministers to discuss tax matters.

Ers ei gyflwyno ym mis Mawrth, mae Bil Cymru wedi symud ymlaen yn gyflym ac yn gymharol ddidrafferth drwy'r Senedd. Cwblhawyd camau Tŷ'r Cyffredin yr wythnos diwethaf, ac mae Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi eisoes wedi'i gyhoeddi ar gyfer 16 Gorffennaf. Mae'r cyflymder hwn i'w groesawu'n fawr er mwyn sicrhau bod y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol cyn yr etholiad cyffredinol, yn wir efallai cyn diwedd y flwyddyn hon. Ar y ffordd, ers i'r Bil drafft gael ei gyhoeddi, rydym wedi sicrhau nifer o welliannau hanfodol, gan gynnwys: pwerau i'r Cynulliad i osod ei weithdrefnau cyllidebol ei hun; ymrwymiad i adolygu'r terfyn benthyca ar gyfer buddsoddi cyfalaf; a chreu pwyllgor trysorlys ar y cyd, a fydd yn darparu fforwm newydd ar gyfer Cymru a Gweinidogion y DU i drafod materion treth.

In the meantime, I am seeking the Assembly's consent today to the clauses that modify the Assembly's legislative competence, and which are the subject of this motion. Within the Bill, there are five clauses that modify the Assembly's legislative competence: clause 6, which introduces the new devolved tax powers; clause 7, which allows the Assembly, with the consent of HM Treasury, to remove or modify the functions of HMRC where those functions relate to devolved taxes; clause 14, which provides the Assembly with competence to introduce its own tax on transactions involving interests in land; clause 17, which allows the Assembly to introduce its own tax on disposals of waste to landfill; and clause 21, which enables the Assembly to legislate for its own budgetary procedures.

Yn y cyfamser, rwy'n ceisio caniatâd y Cynulliad heddiw i'r cymalau sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ac sydd yn destun y cynnig hwn. O fewn y Bil, mae pum cymal sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad: cymal 6, sy'n cyflwyno pwerau trethi datganoledig newydd; cymal 7, sy'n caniatáu i'r Cynulliad, gyda chaniatâd Trysorlys EM, i ddileu neu addasu swyddogaethau Cyllid a Thollau EM pan fo'r swyddogaethau hynny'n ymwneud â threthi datganoledig; cymal 14, sy'n rhoi i'r Cynulliad gymhwysedd i gyflwyno ei dreth ei hun ar drafodion sy'n ymwneud â buddiannau mewn tir; cymal 17, sy'n caniatáu i'r Cynulliad gyflwyno ei dreth ei hun ar waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi; a chymal 21, sy'n galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar gyfer ei weithdrefnau cyllidebol ei hun.

I am extremely grateful to the Finance Committee and to the Constitutional and Legislative Affairs Committee for their work in scrutinising the Wales Bill legislative consent memorandum, and for their helpful reports. Both committees conclude that they have no objection to the legislative consent memorandum, however each has commented on aspects of the Wales Bill.

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Pwyllgor Cyllid ac i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am eu gwaith wrth graffu ar femorandwm cydsyniad deddfwriaethol Bil Cymru, ac am eu hadroddiadau defnyddiol. Daeth y ddau bwyllgor i'r casgliad nad oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ond mae'r ddau wedi gwneud sylwadau ar agweddau ar Fil Cymru.

The Finance Committee has referred to two areas in the Bill and command paper: borrowing and cash reserves. While not among the provisions for which consent is required, I am happy to respond to those points today. Under the Bill, there are two purposes for which the Welsh Ministers may borrow: to manage the volatility of devolved taxes, or revenue borrowing, and to fund capital expenditure. To manage volatility, the command paper explains that the Welsh Government will be able to borrow from the national loans fund via the Secretary of State for Wales. For capital investment purposes, borrowing can be from the national loans fund or commercial banks.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cyfeirio at ddau faes yn y Bil a'r papur gorchymyn: benthyca a chronfeydd arian parod. Er nad ydynt ymysg y darpariaethau y mae angen caniatâd ar eu cyfer, rwy'n hapus i ymateb i'r pwyntiau hynny heddiw. O dan y Bil, ceir dau ddiben y caiff Gweinidogion Cymru fenthyca ar eu cyfer: rheoli anwadalrwydd trethi datganoledig, neu fenthyca refeniw, ac i ariannu gwariant cyfalaf. I reoli anwadalrwydd, mae'r papur gorchymyn yn egluro y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu benthyg oddi wrth y gronfa benthyciadau cenedlaethol drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru. At ddibenion buddsoddi cyfalaf, gall benthyca fod o'r gronfa benthyciadau cenedlaethol neu fanciau masnachol.

The Finance Committee has proposed that the Welsh Government should be given wider options for borrowing, including access to the Public Works Loan Board and bonds. I am grateful for the committee's views. I am very much in favour of the widest possible range of options, including consideration of the suggestion that the prudential borrowing principles should be applied to the Welsh Government. Nonetheless, while recognising the scope to go further, I think that it is important to acknowledge the major step forward that we have already achieved by securing the new borrowing powers. For the first time since devolution, alongside our capital budget and innovative funding schemes, we will be able to borrow to invest in our nation's essential infrastructure, including roads, schools and hospitals.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gael opsiynau ehangach ar gyfer benthyca, gan gynnwys mynediad at y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a bondiau. Rwy'n ddiolchgar am farn y pwyllgor. Rwyf yn bendant iawn o blaid yr ystod ehangaf posibl o ddewisiadau, gan gynnwys ystyried yr awgrym y dylai'r egwyddorion benthyca darbodus gael eu cymhwyso i Lywodraeth Cymru. Serch hynny, gan gydnabod y cyfle i fynd ymhellach, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig cydnabod y cam mawr ymlaen yr ydym eisoes wedi ei gyflawni drwy sicrhau'r pwerau benthyca newydd. Am y tro cyntaf ers datganoli, ochr yn ochr â'n cynlluniau cyllideb cyfalaf a chyllid arloesol, byddwn yn gallu benthyca er mwyn buddsoddi mewn seilwaith hanfodol ein cenedl, gan gynnwys ffyrdd, ysgolion ac ysbytai.

As the committee observed, the command paper indicates a willingness to consider whether the Welsh Government should also be able to issue bonds in the future, as has been agreed recently for Scotland. I will continue to press the case for this with the UK Government over the coming months.

Fel y nododd y pwyllgor, mae'r papur gorchymyn yn dangos parodrwydd i ystyried a ddylai Llywodraeth Cymru hefyd allu cyhoeddi bondiau yn y dyfodol, fel y cytunwyd yn ddiweddar ar gyfer yr Alban. Byddaf yn parhau i bwyso'r achos dros hyn â Llywodraeth y DU dros y misoedd nesaf.

The committee has commented on the process by which borrowing powers will be exercised. Of course, the Wales Bill provides for the Assembly to set its own budgetary procedures, as I and the Assembly Commission have argued for. This will allow us to agree an approach with an appropriate level of scrutiny to meet the Assembly's needs. In this regard, the Finance Committee's inquiry into budget best practice is timely. I look forward to hearing the committee's emerging views on this important area of work.

Mae'r pwyllgor wedi gwneud sylwadau ar y broses ar gyfer arfer pwerau benthyca. Wrth gwrs, mae Bil Cymru yn darparu i'r Cynulliad i osod ei weithdrefnau cyllidebol ei hun, fel yr wyf i a Chomisiwn y Cynulliad wedi dadlau drosto. Bydd hyn yn ein galluogi i gytuno ar ddull gyda lefel briodol o graffu i ddiwallu anghenion y Cynulliad. Yn hyn o beth, mae ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i arfer gorau cyllideb yn amserol. Edrychaf ymlaen at glywed barn y pwyllgor sy'n dod i'r amlwg ar y maes pwysig hwn o waith.

The Finance Committee's views on the operation of the cash reserve are helpful. This area is currently under discussion with the UK Government, and I will be calling for the maximum flexibility that can be secured within an overarching UK framework.

Mae barn y Pwyllgor Cyllid ar weithrediad y gronfa arian parod yn ddefnyddiol. Mae'r maes hwn o dan drafodaeth gyda Llywodraeth y DU ar hyn o bryd, a byddaf yn galw am yr hyblygrwydd mwyaf y gellir ei sicrhau o fewn fframwaith cyffredinol y DU.

Turning to the report from the Constitutional and Legislative Affairs Committee, I am pleased that the committee has no objection to the legislative consent memorandum. However, the report comments on a number of important matters. First, I note that the committee considers that the income tax powers would be better commenced by Welsh Ministers rather than the Treasury. I understand the committee's point, however, I welcome the commitments made in the command paper and by UK Ministers in the House of Commons that the commencement powers will only be exercised after consultation with Welsh Ministers.

Gan droi at yr adroddiad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, rwy'n falch nad oes gan y pwyllgor unrhyw wrthwynebiad i'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn gwneud sylwadau ar nifer o faterion pwysig. Yn gyntaf, rwy'n sylwi bod y pwyllgor o'r farn y byddai'n well i'r pwerau treth incwm gael eu cychwyn gan Weinidogion Cymru yn hytrach na'r Trysorlys. Rwy'n deall pwynt y pwyllgor, ond er hynny, rwy'n croesawu'r ymrwymiadau a wnaed yn y papur gorchymyn a gan Weinidogion y DU yn Nhŷ'r Cyffredin y bydd y pwerau cychwyn yn cael eu harfer dim ond ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

I also note the committee's point that the conferral of income tax powers, rather than legislative competence itself, should not be seen as a precedent. I appreciate this point but, of course, we are in unique circumstances here. If the UK Government's policy had been to devolve all aspects of income tax to the Assembly so that, for example, we could set up a separate and different income tax regime for Wales, full legislative competence would have been necessary. However, the powers that the Assembly has been given reflect the particular form of income tax devolution that the Silk commission recommended.

Nodaf hefyd bwynt y pwyllgor na ddylai trosglwyddo pwerau treth incwm, yn hytrach na'r cymhwysedd deddfwriaethol ei hun, gael ei weld fel cynsail. Rwy'n gwerthfawrogi'r pwynt hwn, ond, wrth gwrs, rydym mewn amgylchiadau unigryw yma. Os mai polisi Llywodraeth y DU fyddai datganoli pob agwedd ar dreth incwm i'r Cynulliad fel y gallem, er enghraifft, sefydlu cyfundrefn treth incwm ar wahân a gwahanol i Gymru, byddai cymhwysedd deddfwriaethol llawn wedi bod yn angenrheidiol. Fodd bynnag, mae'r pwerau a roddwyd i'r Cynulliad yn adlewyrchu'r math arbennig o ddatganoli treth incwm yr argymhellodd comisiwn Silk.

The committee also identified a gap in Standing Orders where there is no mechanism for the Assembly to agree to a conferral of a new power, as opposed to conferral of legislative competence. The Welsh Government will be happy to discuss this issue as required.

Mae'r pwyllgor hefyd yn nodi bwlch yn y Rheolau Sefydlog lle nad oes mecanwaith i'r Cynulliad gytuno i drosglwyddo pŵer newydd, yn hytrach na rhoi cymhwysedd deddfwriaethol. Bydd Llywodraeth Cymru yn fwy na pharod i drafod y mater hwn yn ôl y gofyn.

We welcome the new clause about the Law Commission, which effectively gives the Welsh Government the power to refer law reform proposals to the commission directly. I note the committee's disappointment that the Bill does not include reference to a comprehensive programme of consolidation and revision of statute law in devolved areas. I am aware that the committee has already raised this with the Secretary of State for Wales directly.

Rydym yn croesawu'r cymal newydd am Gomisiwn y Gyfraith, sy'n effeithiol yn rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cymru i gyfeirio cynigion diwygio cyfraith i'r comisiwn yn uniongyrchol. Nodaf siom y pwyllgor nad yw'r Bil yn cynnwys cyfeiriad at raglen gynhwysfawr o atgyfnerthu a diwygio'r gyfraith statud mewn meysydd datganoledig. Rwy'n ymwybodol bod y pwyllgor eisoes wedi codi hyn gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn uniongyrchol.

On the power for the Treasury to make consequential and supplementary provision in what is now clause 28, the committee is concerned that Parliament could amend a Measure or an Act of the Assembly without the Assembly's assent. It is worth considering briefly the nature of this power. It is a Secretary of State power, and it is the kind of mechanism to deal with consequential amendments to other legislation that is contained in most UK Bills. It cannot be used to make substantive changes to legislation. It is a device that we also use here in the Assembly, where our own Acts often contain powers for Welsh Ministers to make consequential amendments to other legislation. While the exercise of a Welsh Minister's power may be subject to Assembly consent, it would not be subject to the agreement of Parliament.

Ar y pŵer i'r Trysorlys wneud darpariaeth ganlyniadol ac atodol yn yr hyn sy'n awr yn gymal 28, mae'r pwyllgor yn pryderu y gallai'r Senedd ddiwygio Mesur neu Ddeddf y Cynulliad heb gydsyniad y Cynulliad. Mae'n werth ystyried yn fyr natur y pŵer hwn. Mae'n bŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol, ac mae'r math o fecanwaith i ymdrin â newidiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall sy'n cael ei gynnwys yn y rhan fwyaf o Filiau'r DU. Ni ellir ei ddefnyddio i wneud newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth. Mae'n ddyfais yr ydym hefyd yn ei defnyddio yma yn y Cynulliad, lle mae ein Deddfau ein hunain yn aml yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall. Er y gall arfer pŵer un o Weinidogion Cymru fod yn amodol ar gydsyniad y Cynulliad, ni fyddai'n amodol ar gytundeb y Senedd.

We recognise the use of the provision as it stands. The mechanism to make consequential amendments should be available in relation to both UK Acts and Assembly Acts. The provisions do not provide for the Assembly to consent to the exercise of the Secretary of State power where it is used to amend Assembly Acts. However, the power is merely to make consequential amendments. We have laid a legislative consent memorandum for the substantive provisions that require Assembly consent. In our view, if the Assembly consents to the substantive provisions, this will also cover any exercise of the consequential amendments power where those amendments relate to issues that are covered by the LCM. Finally, we are happy to make as much information as possible available in future memoranda about the detailed number of amendments and in whose name they were tabled, to help future scrutiny committees.

Rydym yn cydnabod y defnydd o'r ddarpariaeth fel ag y mae. Dylai'r mecanwaith i wneud diwygiadau canlyniadol fod ar gael o ran Deddfau'r DU a Deddfau'r Cynulliad. Nid yw'r darpariaethau yn darparu ar gyfer y Cynulliad i gydsynio i arfer pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol lle caiff ei ddefnyddio i ddiwygio Deddfau'r Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r pŵer ar gyfer gwneud diwygiadau canlyniadol yn unig. Rydym wedi gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y prif ddarpariaethau sydd angen cydsyniad y Cynulliad. Yn ein barn ni, os yw'r Cynulliad yn cydsynio i'r prif ddarpariaethau, bydd hyn hefyd yn cynnwys unrhyw ymarfer o'r pŵer diwygiadau canlyniadol lle mae'r diwygiadau hynny yn ymwneud â materion sy'n cael eu cynnwys yn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Yn olaf, rydym yn hapus i roi cymaint o wybodaeth â phosibl ar gael yn y memoranda yn y dyfodol am nifer o ddiwygiadau manwl ac yn enw pwy y cawsant eu cyflwyno, er mwyn helpu pwyllgorau craffu yn y dyfodol.

This Bill sets out an ambitious agenda for furthering devolution to Wales and shows what can be achieved by the two Governments working together positively. I therefore commend the motion to the Chamber.

Mae'r Bil hwn yn nodi agenda uchelgeisiol ar gyfer hyrwyddo datganoli i Gymru ac mae'n dangos yr hyn y gellir ei gyflawni gan y ddwy Lywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd yn gadarnhaol. Felly, rwy'n cymeradwyo'r cynnig hwn i'r Siambr.

16:45

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Eluned Parrott i siarad ar ran y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

I call on Eluned Parrott to speak on behalf of the Constitutional and Legislative Affairs Committee.

16:45

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I rise to represent the views of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, of which I am a member.

Rwy'n codi i gynrychioli barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, yr wyf fi'n aelod ohono.

We reported on this legislative consent memorandum on 26 June 2014 and, as the Minister noted, we are content with the consent being sought. However, our report identified some matters of concern with the Bill, and I will briefly outline these.

Gwnaethom adrodd ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar 26 Mehefin, 2014 ac, fel y nododd y Gweinidog, rydym yn fodlon â'r cydsyniad sy'n cael ei geisio. Fodd bynnag, mae ein hadroddiad yn nodi rhai materion sy'n peri pryder yn ymwneud â'r Bil, a byddaf yn amlinellu'r rhain yn fyr.

With regard to commencement of clause 8, this clause deals with the Welsh rate of income tax, which would come into force following a referendum. Clause 14, which was formerly clause 13, provides for income tax provisions in clause 8 to be commenced by an Order from Her Majesty's Treasury. We concluded that this is an unwelcome division of power, which has the potential to cause legislative confusion and delay. In our view, it would be more sensible for the powers in clause 14 to be commenced by Welsh Ministers. If necessary, a new provision could be included in the Bill requiring Her Majesty's Treasury to be notified of the commencement. Commencement by Welsh Ministers would replicate the position following the March 2011 referendum, when the Assembly Acts provisions were commenced by Welsh Ministers in accordance with section 105(2) of the Government of Wales Act 2006.

O ran dechrau cymal 8, mae'r cymal hwn yn ymdrin â chyfradd Cymru o dreth incwm, a fyddai'n dod i rym yn dilyn refferendwm. Mae cymal 14, sef cymal 13 gynt, yn darparu ar gyfer darpariaethau treth incwm yng nghymal 8 i gael eu cychwyn drwy Orchymyn gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Daethom i'r casgliad bod hwn yn ymraniad annymunol ar bŵer, sydd â'r potensial i achosi dryswch ac oedi deddfwriaethol. Yn ein barn ni, byddai'n fwy synhwyrol i'r pwerau yng nghymal 14 gael eu cychwyn gan Weinidogion Cymru. Os bydd angen, gallai darpariaeth newydd gael ei chynnwys yn y Bil i'w gwneud yn ofynnol i Drysorlys Ei Mawrhydi gael ei hysbysu o'r cychwyn. Byddai cychwyn gan Weinidogion Cymru yn ailadrodd y sefyllfa yn dilyn refferendwm Mawrth 2011, pan gafodd darpariaethau Deddfau'r Cynulliad eu cychwyn gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 105 (2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

In terms of the conferral of functions under clause 8, that clause contains an innovative approach to the conferral of powers on the National Assembly. Instead of conferring competence on the National Assembly to legislate on a subject, it confers a much more limited power to pass a resolution regarding the Welsh rates of income tax. This can be contrasted with the competence to legislate granted in relation to devolved taxes, such as the competence relating to the tax on transactions involving interests in land and the tax on disposals to landfill, currently clauses 15 and 18 of the Bill respectively. It may well be that the approach is appropriate in this case, as the tax will apply across the UK and the Assembly's decision will fit within the framework of UK tax legislation, but we consider it important that this should not be seen as a precedent. The Assembly should, save in exceptional circumstances, be granted legislative competence rather than piecemeal powers.

O ran rhoi swyddogaethau o dan gymal 8, mae'r cymal hwnnw'n cynnwys dull arloesol o drosglwyddo pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol. Yn hytrach na rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu ar bwnc, mae'n rhoi pŵer llawer mwy cyfyngedig i basio penderfyniad ynghylch cyfraddau Cymru o dreth incwm. Gellir cyferbynnu hyn â'r cymhwysedd i ddeddfu a roddwyd ar gyfer trethi datganoledig, megis y cymhwysedd sy'n ymwneud â'r dreth ar drafodion yn cynnwys buddiannau mewn tir a'r dreth ar warediadau i safleoedd tirlenwi, cymalau 15 a 18 y Bil ar hyn o bryd yn y drefn honno. Mae'n ddigon posibl bod y dull yn briodol yn yr achos hwn, gan y bydd y dreth yn berthnasol ar draws y DU a bydd penderfyniad y Cynulliad yn gweddu o fewn y fframwaith deddfwriaeth treth yn y DU, ond rydym o'r farn ei bod yn bwysig na ddylai hyn gael ei weld fel cynsail. Dylai'r Cynulliad, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, gael cymhwysedd deddfwriaethol yn hytrach na phwerau tameidiog.

With regard to clause 8 and Assembly Standing Orders, clause 8 confers a new function on the Assembly, and it has highlighted a gap that we believe exists in the Assembly's Standing Orders, namely that there is no mechanism for the Assembly to agree changes to its functions, rather than its competence, that arise as a consequence of UK Acts. We believe that such a mechanism should exist within the Assembly's Standing Orders and could, for example, be achieved by an amendment to Standing Order 29. As a consequence, we consider that this issue should be considered further and pursued by the Business Committee. We have written to the committee on this basis today, and we thank the Minister for her support in this issue, as outlined in her introduction.

O ran cymal 8 a Rheolau Sefydlog y Cynulliad, mae cymal 8 yn gosod swyddogaeth newydd ar y Cynulliad, ac mae wedi amlygu bwlch a gredwn sy'n bodoli yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad, sef nad oes mecanwaith i'r Cynulliad gytuno ar newidiadau i'w swyddogaethau, yn hytrach na'i gymhwysedd, sy'n codi o ganlyniad i Ddeddfau'r DU. Rydym yn credu y dylai mecanwaith o'r fath fodoli yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad a gellid, er enghraifft, ei gyflawni trwy welliant i Reol Sefydlog 29. O ganlyniad, rydym o'r farn y dylai'r mater hwn gael ei ystyried ymhellach a'i ddilyn gan y Pwyllgor Busnes. Rydym wedi ysgrifennu at y pwyllgor ar y sail hon heddiw, ac rydym yn diolch i'r Gweinidog am ei chefnogaeth ar y mater hwn, fel yr amlinellwyd yn ei chyflwyniad.

In terms of clauses 25 and 28, which were formerly clauses 24 and 27, we are concerned by clause 25 concerning the Law Commission, because it does not include reference to

O ran cymalau 25 a 28, sef cymalau 24 a 27 gynt, rydym yn pryderu o ran cymal 25 ynghylch Comisiwn y Gyfraith, oherwydd nad yw'n cynnwys cyfeiriad at

'a comprehensive programme of consolidation and revision of statute law in devolved areas'.

raglen gynhwysfawr o atgyfnerthu a diwygio'r gyfraith statud mewn meysydd sydd wedi'u datganoli.

As regards clause 28, on supplementary and consequential provisions, we believe that it could undermine the devolution settlement because it could permit the UK Parliament to amend a Measure or Act of the Assembly without the Assembly’s consent. In our view, a statutory requirement, contained within the Bill, for consent to be provided, would provide a better and more robust mechanism than relying on the existing legislative consent process.

O ran cymal 28, ar ddarpariaethau atodol a chanlyniadol, credwn y gallai danseilio'r setliad datganoli oherwydd y gallai ganiatáu i Senedd y DU ddiwygio Mesur neu Ddeddf y Cynulliad heb ganiatâd y Cynulliad. Yn ein barn ni, byddai gofyniad statudol, yn y Bil, i ganiatâd gael ei ddarparu, yn darparu mecanwaith gwell a mwy cadarn na dibynnu ar y broses cydsyniad deddfwriaethol presennol.

In closing, I would like to comment on the quality of the information that the Welsh Government has provided. Considering the quality of and way in which information is provided is an important aspect of the scrutiny function for our committee. The LCM considers the Bill as amended. However, this is not made particularly clear in the text of the LCM and, accordingly, it is very difficult to follow whether provisions for which consent is required are contained in the Bill itself as introduced or as a result of tabled amendments. For example, clause 7 of the Bill as introduced does not require the Assembly’s consent. However, an amendment tabled by the UK Government, subsequently agreed in the Committee of the Whole House on 6 May 2014, inserts a new subsection (14), and it is for this provision that consent is required. Yet information related to this position is not contained in the memorandum text for clause 7, and this causes the potential for confusion.

Wrth gloi, hoffwn roi sylwadau ar ansawdd y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi’i darparu. Mae ystyried ansawdd a'r ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei darparu yn agwedd bwysig o'r swyddogaeth graffu ar gyfer ein pwyllgor. Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ystyried y Bil fel y'i diwygiwyd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei wneud yn arbennig o glir yn nhestun y cynnig cydsyniad deddfwriaethol, ac oherwydd hynny, mae'n anodd iawn dilyn a yw darpariaethau y mae angen caniatâd ar eu cyfer yn cael eu cynnwys yn y Bil ei hun fel y'i cyflwynwyd neu o ganlyniad i welliannau a gyflwynwyd. Er enghraifft, nid yw cymal 7 y Bil fel y'i cyflwynwyd angen caniatâd y Cynulliad. Fodd bynnag, mae gwelliant a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, a gytunwyd yn dilyn hynny ym Mhwyllgor y Tŷ Cyfan ar 6 Mai, 2014, yn mewnosod isadran newydd (14), ac ar gyfer y ddarpariaeth hon y mae angen caniatâd. Ond eto, nid yw gwybodaeth sy'n gysylltiedig â’r sefyllfa hon yn cael ei chynnwys yn y testun memorandwm ar gyfer cymal 7, ac mae hyn yn achosi posibilrwydd ar gyfer dryswch.

We consider that the legislative consent memorandum should be much more transparent in identifying the precise nature and origin of the provisions for which consent is sought. As we have indicated recently in our report on the supplementary LCM for the Deregulation Bill, we consider it good practice to provide information about who tables amendments and the relevant amendment numbers assigned to them to enable their progress to be tracked in UK Parliamentary proceedings, and for the debate there to be part of the proceedings here, too. This would allow for effective scrutiny and ensure that the Assembly was fully informed and absolutely clear about the nature of the provisions for which its consent is being sought.

Rydym o'r farn y dylai'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol fod yn llawer mwy tryloyw o ran nodi union natur a tharddiad y darpariaethau y ceisir caniatâd ar eu cyfer. Fel yr ydym wedi nodi yn ddiweddar yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar gyfer y Bil Dadreoleiddio, rydym yn ystyried ei fod yn arfer da i ddarparu gwybodaeth ynghylch pwy sy’n cyflwyno gwelliannau a'r rhifau gwelliant perthnasol a nodwyd ar eu cyfer er mwyn galluogi i’w cynnydd gael ei olrhain yn nhrafodion Senedd y DU, ac i’r ddadl yno fod yn rhan o'r trafodion yma, hefyd. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer craffu effeithiol a sicrhau bod y Cynulliad yn gwbl wybodus ac yn gwbl glir am natur y darpariaethau y mae ei ganiatâd yn cael ei geisio ar eu cyfer.

16:50

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is a pleasure to respond to the Minister’s opening remarks on this LCM, I have to say. Given the financial context, I look hard at my finance spokesperson and wonder why I am doing it. [Laughter.] However, it is a real pleasure to stand here, because these are, obviously, very important issues that we are discussing. They emanate out of part 1 of the Silk commission and, importantly, the accountability and responsibility that will flow from the Bill that is currently going through the House of Commons and, ultimately, the House of Lords. We look forward to it receiving Royal Assent and being available for the Government that flows from this institution to improve delivery in Wales.

Mae'n bleser i ymateb i sylwadau agoriadol y Gweinidog ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, mae'n rhaid i mi ddweud. O ystyried y cyd-destun ariannol, rwy’n edrych yn ofalus ar fy llefarydd cyllid ac yn meddwl tybed pam rwy’n ei wneud. [Chwerthin.] Fodd bynnag, mae'n bleser gwirioneddol i sefyll yma, gan fod y rhain, yn amlwg, yn faterion pwysig iawn yr ydym yn eu trafod. Maent yn deillio o ran 1 comisiwn Silk ac, yn bwysig, yr atebolrwydd a’r cyfrifoldeb a fydd yn deillio o'r Bil sy'n mynd drwy Dŷ'r Cyffredin ar hyn o bryd ac, yn y pen draw, Tŷ'r Arglwyddi. Rydym yn edrych ymlaen iddo dderbyn Cydsyniad Brenhinol a bod ar gael i'r Llywodraeth sy'n llifo o'r sefydliad hwn er mwyn gwella'r ddarpariaeth yng Nghymru.

This Bill is very important in that it will transform the responsibilities of the Government from being a spending agency to a generating body that will, ultimately, be responsible for generating revenues, albeit on a smaller scale than some in the Chamber would prefer to see.

Mae'r Bil hwn yn bwysig iawn gan y bydd yn trawsnewid cyfrifoldebau'r Llywodraeth o fod yn asiantaeth gwariant i gorff gynhyrchu a fydd, yn y pen draw, yn gyfrifol am gynhyrchu refeniw, er ar raddfa lai nag y byddai'n well gan rai yn y Siambr eu gweld.

I totally agree with the comments of the Minister about the important role that the committees of this institution have played in working with the Welsh Government in formulating and scrutinising the process and development of the Bill, particularly when she talked about the various clauses in the Bill—clauses 6, 7, 14, 17 and 21. I pay tribute to the members of the Finance Committee for the diligence with which they have undertaken this work in trying to improve the dialogue between the two Governments. It is very important that, from the outset, this Bill is robust and that, ultimately, the nitty-gritty, as it were, is workable so that we do not end up with the to-ing and fro-ing and grey areas that will cause friction when these powers are transferred.

Cytunaf yn llwyr â sylwadau'r Gweinidog am y swyddogaeth bwysig y mae pwyllgorau'r sefydliad hwn wedi'i chwarae mewn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i lunio a chraffu ar y broses a datblygiad y Bil, yn enwedig pan soniodd am y gwahanol gymalau yn y Bil—cymalau 6, 7, 14, 17 a 21. Talaf deyrnged i aelodau'r Pwyllgor Cyllid am y diwydrwydd wrth wneud y gwaith hwn wrth geisio gwella'r ddeialog rhwng y ddwy Lywodraeth. Mae'n bwysig iawn bod y Bil hwn, o'r cychwyn cyntaf, yn gadarn a bod, yn y pen draw, y manylion bychan, fel petai, yn ymarferol fel nad ydym yn diweddu gyda'r mynd a dod a'r mannau llwyd sy'n achosi gwrthdaro pan gaiff y pwerau hyn eu trosglwyddo.

I also pay tribute to the Constitutional and Legislative Affairs Committee, and the work that it has undertaken in scrutinising this Bill and ensuring that the advice given to both Governments and, in particular, the Minister who leads the negotiations on these important areas, is robust and, above all, given in the spirit of delivering a Bill that will allow for good government in Wales.

Talaf deyrnged hefyd i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a'r gwaith y mae wedi'i wneud wrth graffu ar y Bil hwn a sicrhau bod y cyngor a roddwyd i'r ddwy Lywodraeth, ac, yn benodol, y Gweinidog sy'n arwain y trafodaethau ar y meysydd pwysig hyn, yn gadarn ac, yn anad dim, yn cael ei roi yn yr ysbryd o gyflwyno Bil a fydd yn caniatáu ar gyfer llywodraethu da yng Nghymru.

I welcome the comments about the Law Commission and the role that it could potentially play in assisting the development of legislation in this institution and in assisting the Government's role in legislation as well.

Croesawaf y sylwadau am Gomisiwn y Gyfraith a'r swyddogaeth y gallai o bosibl chwarae mewn cynorthwyo datblygu deddfwriaeth yn y sefydliad hwn ac mewn cynorthwyo swyddogaeth y Llywodraeth mewn deddfwriaeth yn ogystal.

However, I refer back to the Silk part 1 process and the importance that it has attached to the accountability and responsibility of any future Welsh Government in exercising these powers. Ultimately, if these powers are enacted—and enacted responsibly—they could develop the Welsh economy to create far greater prosperity than we currently have and create better, highly paid jobs in Wales, which is what we are looking to achieve.

Fodd bynnag, rwy'n cyfeirio'n ôl at broses Silk rhan 1 a'r pwysigrwydd y mae wedi ei atodi i atebolrwydd a chyfrifoldeb unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol wrth arfer y pwerau hyn. Yn y pen draw, os yw'r pwerau hyn yn cael eu deddfu—a'u deddfu'n gyfrifol—gallent ddatblygu economi Cymru i greu llawer mwy o ffyniant nag sydd gennym ar hyn o bryd a chreu swyddi gwell, cyflog uchel yng Nghymru, sef yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni.

Importantly, the Bill refers to the referendum that would have to be held and won if income tax powers were to be brought to this institution. I think that that is a subject and a debate that we all need to understand in considering whether the referendum should be held sooner rather than later. I wish the Minister, the officials supporting her in these discussions and the committees well. We will be supporting the LCM that is laid before us this afternoon.

Yn bwysig, mae'r Bil yn cyfeirio at y refferendwm y byddai'n rhaid ei gynnal a'i ennill pe byddai pwerau treth incwm yn cael eu dwyn i'r sefydliad hwn. Rwy'n credu bod hynny'n bwnc a dadl y mae angen i ni i gyd ei deall wrth ystyried a ddylid cynnal y refferendwm yn gynharach yn hytrach nag yn ddiweddarach. Rwy'n dymuno'n dda i'r Gweinidog, y swyddogion sy'n ei chefnogi yn y trafodaethau hyn ac i'r pwyllgorau. Byddwn yn cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol sy'n cael ei osod ger ein bron y prynhawn yma.

16:54

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nid ydym yn gwrthwynebu'r LCM hwn heddiw, wrth gwrs, ond tra bo'r Bil yn datganoli rhyw elfen o'r drefn ariannu, nid yw'r Bil yn ddigonol, yn ein barn ni. Mae'r cymalau i ddatganoli'r trethi i'w croesawu, ac mae'r pwerau o ran casglu a rheoli'r trethi hynny sy'n cael eu nodi i'w croesawu hefyd.

We do not oppose this LCM today, of course, but while the Bill devolves some elements of the funding regime, the Bill is not sufficient, in our opinion. The clauses to devolve the taxes are to be welcomed, and the powers that are identified in terms of collecting and managing those taxes are welcome too.

O ran treth incwm, tra'n croesawu'r egwyddor o ddatganoli rhan o'r dreth, y gwir plaen yw bod Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wedi ei gwneud yn anodd dod ag atebolrwydd ariannol go iawn i Gymru, drwy glymu'r gwahanol gyfraddau treth at ei gilydd. Roedd Andrew R.T. Davies yn cyfeirio at y pwynt y dylai'r Bil hwn fod yn hawdd i'w weithredu. Yn sicr, nid yw'r rhan honno'n hawdd i'w gweithredu, a hynny yn fwriadol, byddwn i'n tybio.

In terms of income tax, while welcoming the principle of devolving part of the tax, the plain truth is that the UK Government has made it difficult to bring real financial accountability to Wales, by tying the various tax rates together. Andrew R.T. Davies referred to the point that this Bill should be easy to implement. That part is certainly not easy to implement, and deliberately so, I would suspect.

O ran y broses gyllidebol, mae'r cynigion hyn i'w croesawu, gan y gallent arwain, er enghraifft, at Ddeddf ariannol flynyddol. Ond mae un gwendid yr wyf eisiau ei nodi, sef nad yw'r drefn arfaethedig yn creu'r angen i'r Llywodraeth yma yng Nghymru gael caniatâd y Cynulliad i fenthyca arian. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn teimlo'n gryf y dylai hynny gael ei gynnwys yn y Bil.

In terms of the budgetary process, these proposals are welcome, as they could lead, for example, to an annual financial Act. However, there is one weakness that I want to note, namely that the proposed regime does not make it necessary for the Government here in Wales to secure the Assembly's consent to borrow money. The Finance Committee feels strongly that this should be included in the Bill.

The Finance Committee also noted that the availability of borrowing in the Wales Bill is narrow; it is narrower and more restrictive than that of local government. In particular, the Silk commission part 1 recommendation on the issuance of bonds has not been reflected by the UK Government. The UK Government has maintained that bonds are not as affordable as more conventional forms of borrowing, but that is to miss the entire point of the Bill. The Welsh Government should be accountable for its own financial decisions, and bond issuance should have been in the Bill so that it is accessible as a source of capital, if and when the financial situation changes and bond issuance becomes more viable. Bond issuance was confirmed for the Scottish Government in late February of this year. Unfortunately, a Plaid Cymru amendment on bond issuance was voted down by the UK coalition parties at Westminster, with Labour abstaining. However, there have been numerous attempts to improve the Bill at Westminster, which have not been accepted by the Government so far.

Nododd y Pwyllgor Cyllid hefyd fod y benthyca sydd ar gael ym Mil Cymru yn gul; mae'n gulach ac yn fwy cyfyngol nag un llywodraeth leol. Yn benodol, nid yw argymhelliad comisiwn Silk rhan 1 ar gyhoeddi bondiau wedi ei adlewyrchu gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi mynnu nad yw bondiau mor fforddiadwy â mathau mwy confensiynol o fenthyca, ond mae hynny'n methu holl bwynt y Bil. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn atebol am ei phenderfyniadau ariannol ei hun, a dylai cyhoeddi bond fod wedi bod yn y Bil fel ei fod yn hygyrch fel ffynhonnell cyfalaf, os a phan fydd y sefyllfa ariannol yn newid a chyhoeddi bond yn dod yn fwy hyfyw. Cadarnhawyd cyhoeddi bond ar gyfer Llywodraeth yr Alban ddiwedd mis Chwefror eleni. Yn anffodus, collodd gwelliant Plaid Cymru ar gyhoeddi bond y bleidlais oherwydd pleidiau clymblaid y DU yn San Steffan, gyda Llafur yn ymatal. Fodd bynnag, bu nifer o ymdrechion i wella'r Bil yn San Steffan, nad ydynt wedi cael eu derbyn gan y Llywodraeth hyd yn hyn.

In conclusion, while we have no objection to today's LCM, the Wales Bill represents a missed opportunity. It does not transfer significant financial accountability to the Welsh Government or to the National Assembly. It makes the next Welsh Government, according to a briefing by officials, responsible for 7% or 8% of its own budget, and that is still a figure below that of local government and community councils, in terms of accountability.

I gloi, er nad oes gennym wrthwynebiad i'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol heddiw, mae Bil Cymru yn cynrychioli cyfle a gollwyd. Nid yw'n trosglwyddo atebolrwydd ariannol sylweddol i Lywodraeth Cymru nac i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n gwneud Llywodraeth nesaf Cymru, yn ôl briffio gan swyddogion, yn gyfrifol am 7% neu 8% o'i chyllideb ei hun, ac mae hynny'n dal i fod yn ffigwr is na llywodraeth a chynghorau cymuned, o ran atebolrwydd.

Due to the lack of progress on developing fiscal devolution in Wales to date, the very small steps taken in the Wales Bill will be described, no doubt, as historic. It is easy to portray any minor changes as historic when our institutions have had no fiscal development at all. The real issue with the changes enabled by the LCM today is how it will deliver a financial settlement that is not adequate for Wales's needs and which could be superseded by the referendum in Scotland. However, we will be supporting the LCM today.

Oherwydd y diffyg cynnydd ar ddatblygu datganoli cyllidol yng Nghymru hyd yma, bydd y camau bach iawn a gymerir ym Mil Cymru yn cael eu disgrifio, yn ddiau, fel bod yn hanesyddol. Mae'n hawdd portreadu unrhyw fân newidiadau yn hanesyddol pan nad yw ein sefydliadau wedi cael unrhyw ddatblygiad ariannol o gwbl. Y gwir fater gyda'r newidiadau a alluogwyd gan y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol heddiw yw sut y bydd yn cyflwyno setliad ariannol nad yw'n ddigonol ar gyfer anghenion Cymru ac a allai gael ei ddisodli gan y refferendwm yn yr Alban. Fodd bynnag, byddwn yn cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol heddiw.

16:58 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Liberal Democrats are also supporting the LCM today; in fact, it has cross-party support. Although this Bill is less than satisfactory on some issues—Alun Ffred has outlined some of the ways it could be improved—it is a significant step forward, in terms of taking forward additional powers and responsibility for the National Assembly for Wales and for the Welsh Government. It introduces, for the first time, some fiscal accountability, which I think is an important part of the devolution process. The issue really is when a referendum will be held on income tax, and whether that referendum will be won. That issue is key in terms of making sure that the Welsh Government and the National Assembly for Wales become responsible for a much bigger percentage of the income raised in Wales and the income that it then spends on services in Wales.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru hefyd yn cefnogi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol heddiw; yn wir, ceir cefnogaeth drawsbleidiol. Er bod y Bil hwn yn llai na boddhaol ar rai materion—mae Alun Ffred wedi amlinellu rhai o'r ffyrdd y gellid ei wella—mae'n gam sylweddol ymlaen, o ran bwrw ymlaen â phwerau a chyfrifoldeb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'n cyflwyno, am y tro cyntaf, rhywfaint o atebolrwydd ariannol, sy'n rhan bwysig o'r broses ddatganoli yn fy marn i. Y mater mewn gwirionedd yw pryd y bydd refferendwm yn cael ei gynnal ar dreth incwm, ac a fydd y refferendwm yn cael ei ennill. Mae'r mater yn allweddol o ran sicrhau bod Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn dod yn gyfrifol am ganran llawer mwy o'r incwm a godir yng Nghymru a'r incwm y mae'n ei wario wedyn ar wasanaethau yng Nghymru.

I will not go over all the discussions and arguments again, except to say that, in terms of the Finance Committee report, which has been tabled in support of this LCM, I very much endorse the approach in that in terms of prudential borrowing, which I think is a much more robust way of determining the borrowing limits that the Welsh Government should be able to access. Clearly, the view that borrowing limits should be authorised by the Assembly will also put in place an appropriate mechanism for accountability and transparency in that regard.

Nid wyf am fynd dros yr holl drafodaethau a'r dadleuon eto, dim ond i ddweud, o ran adroddiad y Pwyllgor Cyllid, sydd wedi'i gyflwyno i gefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, fy mod yn cymeradwyo yn fawr y dull yn hwnnw o ran benthyca darbodus, sydd rwy'n meddwl yn ffordd llawer mwy cadarn o bennu terfynau benthyca y dylai Llywodraeth Cymru allu cael mynediad atynt. Yn amlwg, bydd y farn y dylai terfynau benthyca gael eu hawdurdodi gan y Cynulliad hefyd yn rhoi ar waith fecanwaith priodol ar gyfer atebolrwydd a thryloywder yn y cyswllt hwnnw.

The Finance Committee is currently looking at budget processes, and it may well be that the latter part does not necessarily need to be in the Bill, but it is important that when under the regime, once this Bill becomes law and the Welsh Government comes forward with borrowing requirements, that those borrowing requirements and the limits on which it is able to borrow to, are approved by this Assembly as part of that budget process. Also, I agree with the Finance Committee's view that on borrowing we should not be treated less favourably than councils. It is important, if we are to get value for money if nothing else, that we have the widest possible access to borrowing mechanisms, so that we are able to deliver the changes and the investment that Wales needs as part of that.

Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Cyllid yn edrych ar brosesau cyllidebol, a gallai fod yn wir nad oes angen i'r rhan olaf o reidrwydd fod yn y Bil, ond mae'n bwysig pan fydd o dan y gyfundrefn, ar ôl i'r Bil hwn ddod yn ddeddf a bod Llywodraeth Cymru yn dod ymlaen â gofynion benthyca, bod y gofynion benthyca hynny a'r cyfyngiadau y mae'n gallu benthyg hyd atynt, yn cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad hwn yn rhan o'r broses gyllidebol. Hefyd, rwy'n cytuno â barn y Pwyllgor Cyllid na ddylem gael ein trin yn llai ffafriol na chynghorau wrth fenthyca. Mae'n bwysig, os ydym am gael gwerth am arian os na chawn unrhyw beth arall, bod gennym y mynediad ehangaf posibl at y mecanweithiau benthyca, fel ein bod yn gallu cyflawni'r newidiadau a'r buddsoddiad sydd ei angen ar Gymru yn rhan o hynny.

The unsatisfactory devolution settlement that we have been working with for 15 years or more now will be improved significantly by this Bill. Hopefully, a future Wales Bill under the next Government, which will stem from Silk part two, will improve it yet further. I recognise that, for some Members, we will not have gone far enough, and there is still a long way to go in my view as well, but we are certainly making significant progress and I certainly believe that this Bill will be an improvement in terms of the accountability and transparency of the work that we do here and it will add to that work.

Mae'r setliad datganoli anfoddhaol yr ydym wedi bod yn gweithio gydag ef ers 15 mlynedd neu fwy yn awr yn cael ei wella'n sylweddol gan y Bil hwn. Gobeithio, bydd Bil Cymru yn y dyfodol o dan y Llywodraeth nesaf, a fydd yn deillio o Silk rhan dau, yn ei wella ymhellach eto. Rwy'n cydnabod, o ran rhai Aelodau, na fyddwn wedi mynd yn ddigon pell, ac mae yna ffordd bell i fynd yn fy marn i hefyd, ond rydym yn sicr yn gwneud cynnydd sylweddol ac rwy'n sicr yn credu y bydd y Bil hwn yn welliant o ran atebolrwydd a thryloywder y gwaith yr ydym yn ei wneud yma, a bydd yn ychwanegu at y gwaith hwnnw.

17:01 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n dda gennyf siarad o blaid y cynnig cydsyniad deddfwriaethol heddiw, er bod gennyf nifer o bwyntiau yr hoffwn eu codi ynglŷn â'r ffordd y mae'r Bil hwn yn gweithio a'r ffordd ymlaen i ddemocratiaeth yng Nghymru.

I am pleased to speak in support of the legislative consent motion today, although I have a number of points that I want to raise on the way in which this Bill works and the way forward for democracy in Wales.

Rwy'n siŵr y cawn—ac mae Peter Black newydd gyfeirio at hwn—Fil Cymru arall eto fyth o fewn rhyw tair neu bedair blynedd yn dilyn gweithredu pethau megis rhan 2 o Silk, ond yn dilyn hefyd—gan ddibynnu pwy fydd yn ffurfio'r Llywodraeth newydd yn San Steffan—newidiadau a ddaw yn sgîl y refferendwm yn yr Alban a syniadau eraill. Sylwaf fod Owen Smith wedi sôn am ddatganoli lles i Gymru o dan y Llywodraeth nesaf. Mae'n awyddus i wneud hynny. Mae'n amlwg, felly, na fyddwn mewn gwell sefyllfa nes inni gael model datganoledig o lywodraeth lle mae'n glir pa bwerau a gedwir gan San Steffan a pha bwerau sy'n cael eu cadw gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Tra ein bod yn y sefyllfa anffodus bresennol, mae'n rhaid i ni gydsynio, neu beidio, i gynigion fel hyn ac rwy'n cynnig ein bod yn cydseinio, ond yn gofyn nifer o gwestiynau.

I am sure—and Peter Black has just referred to this—that we will see yet another Wales Bill within some three or four years following the implementation of part 2 of Silk, but also as a result—depending on the colour of the new Government in Westminster—of the changes that will result from the referendum in Scotland among other changes. I note that Owen Smith has mentioned the devolution of welfare to Wales during the next period of government. He is eager to see that happening. Clearly, we will not find ourselves in an improved situation until we have a model of devolution where it is clear which powers are reserved by Westminster and which powers are available to the National Assembly for Wales. While we are in the unfortunate current situation, we have to consent, or otherwise, to such motions and I propose that we do consent, while raising a number of questions.

Mae'n ddiddorol bod y Prif Weinidog, sawl gwaith heddiw, wedi manteisio ar y cyfle i ddweud pa mor anfodlon yr oedd gyda sefyllfa'r Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol a'r drefn a oedd gennym o'r blaen. Rwy'n meddwl y byddwn ni yn edrych yn ôl ar y cyfnod hwn fel cyfnod anfoddhaol iawn o ran datganoli a darparu'r cyd-destun cyllidol cryfaf posibl i dalu am ac i redeg ein gwasanaethau cyhoeddus, ond hefyd i ddatblygu'r economi a defnyddio trethi mewn ffordd sy'n arwain at dwf economaidd. Yn y cyd-destun hwnnw, mae gennyf rai pryderon yr hoffwn eu tanlinellu.

It is interesting that the First Minister, on a number of occasions today, has taken advantage of the opportunity to say how dissatisfied he was with the previous situation of legislative competence Orders and the system we had in the past. I think that we will look at this period as being unsatisfactory for devolution and for the provision of the strongest funding context possible to pay for and to run our public services, but also to develop our economy and to use taxation in a way that leads to economic growth. In that context, I have a number of concerns that I would like to highlight.

Yn gyntaf, mae'r clo ar drethi. Mae'r ffaith bod y bandiau treth incwm yn gorfod symud gyda'i gilydd yn anffodus, gan nad oedd Silk wedi argymell cam o'r fath. Mae hefyd yn anffodus bod yn rhaid inni edrych ar hwn yng nghyd-destun adolygiad o gyllido Cymru'n ehangach, sef fformiwla Barnett. Mae pawb yn derbyn, er nad ydyw yn y Bil, fel y cyfryw, bod hwn yn rhywbeth sydd angen ei wneud ar frys o ran cyllid Cymru. Mae'n anodd gweld sut y bydd modd i bobl Cymru bleidleisio mewn refferendwm dros ddatganoli trethi incwm nes y bydd sicrwydd o ran isafswm incwm i'r Llywodraeth, fel sy'n dod yn sgîl fformiwla Barnett. Fel y dywedodd Alun Ffred Jones, nid ydym ond yn sôn, ar y mwyaf, am ryw 8% neu 9% o gyllideb Llywodraeth Cymru yn y fan hon.

First, there is the lockstep with regard to taxes. The fact that the income tax bands have to move together is unfortunate, because Silk did not make this recommendation. It is also unfortunate that we have to look at this in the context of the funding of Wales more widely, namely the Barnett formula. Everyone accepts, although it is not in the Bill, as such, that this is something that needs to be reformed as a matter of urgency in terms of the funding of Wales. It is difficult to see how people in Wales could vote in a referendum for the devolution of income tax until there is some assurance on the minimum income available to the Welsh Government, as is the case with the Barnett formula. As Alun Ffred Jones has said, we are talking only, at most, of 8% to 9% of the Welsh Government's budget.

Mae hefyd yn destun pryder bod y pŵer i gychwyn yr hawl i amrywio trethi, mewn un ffordd, yn dal i orffwys gyda Gweinidogion y Trysorlys yn hytrach na Gweinidogion Cymru. Mae'n bosibl y cawn sefyllfa anffodus lle y bydd pobl Cymru wedi pleidleisio mewn refferendwm dros ddatganoli treth incwm, ond bydd rhyw Weinidog yn y Trysorlys—ac mae'n anodd credu bod modd cael Ysgrifennydd Gwladol Cymru nad yw'n awyddus i wneud pob peth y gallai dros Gymru, ond efallai ei bod yn bosibl—yn penderfynu nad yw ef neu hi am gychwyn y rhan honno o Fil Cymru am flwyddyn neu ddwy. Byddai hynny'n milwrio yn erbyn ewyllys pobl Cymru o ran y refferendwm ac felly nid yw'r Bil, fel y cyfryw, yn rhoi'r hawl, fel y dylai, i gychwyn trethi incwm yng Nghymru yn nwylo Gweinidogion Cymru, wedi ymgynghoriad â'r Trysorlys a'r Cynulliad, wrth gwrs.

It is also a cause for concern that the commencement power to vary taxation still sits with Ministers in the Treasury, rather than with Welsh Ministers. It is possible that we will find ourselves in an unfortunate situation where the people of Wales vote in a referendum for the devolution of income tax, but some Minister in the Treasury—and it is difficult to believe that we could have a Secretary of State for Wales who would not do everything that he or she could do for Wales, but it may be possible—may decide that he or she does not wish to commence that particular part of the Wales Bill for a year or two. That would militate against the will of the people of Wales expressed in a referendum and therefore the Bill as its stands does not place the responsibility—as it should—to commence income tax in the hands of Welsh Ministers, following consultation with the Treasury and the Assembly, of course.

Mae'r rôl newydd i Gomisiwn y Gyfraith wedi cael ei chrybwyll. Rwy'n croesawu hynny, ond nodaf nad yw mor gryf â'r rôl sydd gan Gomisiwn y Gyfraith parthed Llywodraeth yr Alban, ac yn benodol hawl Llywodraeth yr Alban i roi nid yn unig cyngor ond cyfarwyddyd i Gomisiwn y Gyfraith i gydweithio ar faes adolygu'r gyfraith yn yr Alban. Rwy'n meddwl, wrth i ni ddatblygu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yng Nghymru i bob pwrpas, er nad ydym yn ei alw'n hynny eto, bod angen i Gomisiwn y Gyfraith weithio'n agosach â'r Llywodraeth ar hynny. Ar ôl cyfarfod yn anffurfiol gyda Chomisiwn y Gyfraith yn weddol ddiweddar, roeddwn yn hapus iawn gyda'i hagwedd tuag at y gwaith hwn, ond rwy'n dal i feddwl y byddai'n well o lawer ei fod mewn statud.

The new role for the Law Commission has already been mentioned. I welcome that, but I also note that it is not as robust as the role that the Law Commission has in terms of the Scottish Government, and specifically the Scottish Government's right to not only provide advice, but to direct the Law Commission to work with it on amending the law in Scotland. I think, as we develop a separate legal jurisdiction in Wales to all intents and purposes, although we are not calling it that yet, that the Law Commission needs to work more closely with the Government on that. After meeting informally with the Law Commission relatively recently, I was very happy with its attitude towards this work, but I still think that it would be far better if it were on statute.

Y peth olaf i sôn amdano, er ein bod yn cymeradwyo'r cynnig cydsyniad hwn, yw beth sydd ddim yma. Byddai'n braf pe bai'r drefn etholiadol a nifer yr Aelodau Cynulliad yn rhan o'r cynnig hwn. Mae'n cydnabod mai yn San Steffan o hyd mae'r penderfyniadau ynglŷn â nifer yr Aelodau Cynulliad a'r ffordd maent yn cael eu hethol yn gorwedd, ond serch hynny, yn y pen draw, mae'n rhaid i Gynulliad Cymru ei hun feddu ar yr hawl i bennu'r nifer a'r ffordd rydym yn cael ein hethol.

The final thing I want to mention, although we are approving this LCM, is what is not contained here. It would be nice if the system of elections and the number of Assembly Members were part of this LCM. It recognises that decisions on the number of Assembly Members and the way they are elected lie at Westminster, but at the end of the day the National Assembly must have the ability to decide on the number of Members and the way in which we are elected.

17:06 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Mike Hedges i siarad ar ran y Pwyllgor Cyllid.

I call Mike Hedges to speak on behalf of the Finance Committee.

17:06 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Finance Committee was pleased to be given the opportunity to scrutinise this LCM, and welcomed the Minister for Finance's attendance at the committee. Members of the committee were pleased to note that this Bill implements a number of recommendations from the Silk commission's first report. The committee considered the provisions of the LCM that seek to modify the competence of the Assembly. We believe that the provisions of the LCM can only be of benefit to the Assembly and the people of Wales, therefore the Finance Committee recommends the agreement of this LCM.

Roedd y Pwyllgor Cyllid yn falch o gael y cyfle i graffu ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, a chroesawodd bresenoldeb y Gweinidog Cyllid ar y pwyllgor. Roedd aelodau'r pwyllgor yn falch o nodi bod y Bil hwn yn gweithredu nifer o argymhellion o adroddiad cyntaf comisiwn Silk. Ystyriodd y pwyllgor y darpariaethau cynnig cydsyniad deddfwriaethol sy'n ceisio addasu cymhwysedd y Cynulliad. Rydym yn credu na all darpariaethau'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol ond bod o fudd i'r Cynulliad ac i bobl Cymru, felly mae'r Pwyllgor Cyllid yn argymell derbyn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn.

However, despite the committee's lack of objection to the LCM, we believe that some areas should be addressed by amendment to the Bill during its passage through Parliament. These points are addressed in the committee's report on the LCM. In relation to borrowing, we note that local authorities have access to a range of borrowing sources. The committee firmly believes that the Welsh Government should not be treated less favourably than Welsh local authorities in terms of borrowing. The Welsh Government should have the ability to issue bonds, borrow from banks and borrow from the Public Works Loan Board in exactly the same way as local authorities can, and in the case of Transport for London, in the way in which it has done in terms of borrowing using bonds.

Fodd bynnag, er gwaethaf diffyg gwrthwynebiad y pwyllgor i'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol, rydym yn credu y dylai rhai meysydd gael sylw gan welliant i'r Bil yn ystod ei daith drwy'r Senedd. Mae'r pwyntiau hyn yn cael sylw yn adroddiad y pwyllgor ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Ynglŷn â benthyca, rydym yn nodi bod gan awdurdodau lleol fynediad at ystod o ffynonellau benthyca. Mae'r pwyllgor yn credu'n gryf na ddylai Llywodraeth Cymru gael ei thrin yn llai ffafriol nag awdurdodau lleol Cymru o ran benthyca. Dylai Llywodraeth Cymru gael y gallu i gyhoeddi bondiau, benthyca oddi wrth fanciau a benthyca oddi wrth y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn union yr un ffordd ag y gall yr awdurdodau lleol ei wneud, ac yn achos Transport for London, yn y ffordd y mae wedi ei wneud o ran benthyca drwy ddefnyddio bondiau.

We note that the command paper says that the UK Government can allow the Welsh Government to borrow from banks or to issue bonds. The committee is pleased that the inference is positive in that it is willing to consider this further. However, members of the committee questioned why this was not being done by amendments to the Bill. The committee is of the view that the prudential borrowing principle for local authorities, which has caused no problem up to now for local authorities, should also apply to the Welsh Government.

Rydym yn nodi bod y papur gorchymyn yn dweud y gall Llywodraeth y DU ganiatáu i Lywodraeth Cymru fenthyca gan fanciau neu gyhoeddi bondiau. Mae'r pwyllgor yn falch bod y casgliad yn gadarnhaol gan ei fod yn barod i ystyried hyn ymhellach. Fodd bynnag, mae aelodau'r pwyllgor yn cwestiynu pam nad yw hyn yn cael ei wneud drwy welliannau i'r Bil. Mae'r pwyllgor o'r farn y dylai'r egwyddor benthyca darbodus ar gyfer awdurdodau lleol, nad yw wedi achosi unrhyw broblem hyd yn hyn i awdurdodau lleol, hefyd fod yn berthnasol i Lywodraeth Cymru.

We also note that the Bill, as drafted, provides revised legislative competence to the Assembly relating to budgetary procedure that would enable the scrutiny of, but not the authorisation of, the exercise of borrowing powers by the Welsh Ministers. The committee firmly believes that borrowing limits by the Welsh Government should be subject to authorisation by the Assembly in exactly the same way as the budget is, and that this should be provided for in the Bill. In addition, the committee believes that all underspend should be automatically carried forward into general Welsh Government reserves, and that the Bill should be amended to enable this—again, in exactly the same way as local authorities are able to do.

Rydym hefyd yn nodi bod y Bil, fel y'i drafftiwyd, yn darparu cymhwysedd deddfwriaethol wedi'i ddiwygio i'r Cynulliad sy'n ymwneud â gweithdrefnau cyllidebol a fyddai'n galluogi craffu ar, ond nid awdurdodiad ar gyfer, arfer pwerau benthyca gan Weinidogion Cymru. Mae'r pwyllgor yn credu'n gryf y dylai terfynau benthyca gan Lywodraeth Cymru fod yn ddarostyngedig i awdurdodiad gan y Cynulliad yn union yr un ffordd ag y mae’r gyllideb, ac y dylid darparu ar gyfer hyn yn y Bil. Yn ogystal, mae'r pwyllgor yn credu y dylai pob tanwariant gael ei gario ymlaen yn awtomatig i gronfeydd wrth gefn cyffredinol Llywodraeth Cymru, ac y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i alluogi hyn—unwaith eto, yn union yn yr un modd ag y mae awdurdodau lleol yn gallu ei wneud.

On the issue of cash reserves, the committee notes that the command paper states that the Welsh Government can create a cash reserve for managing fluctuations in tax receipts, and that an annual limit is also available to be set. As a committee, we agreed that these points should be raised as amendments to the Wales Bill, and we encourage the Government to ensure that these points are raised in any ongoing discussions it may have with the Wales Office.

Ar y mater o gronfeydd arian parod, mae’r pwyllgor yn nodi bod y papur gorchymyn yn datgan y gall Llywodraeth Cymru greu cronfa arian parod ar gyfer rheoli amrywiadau mewn derbyniadau treth, a bod terfyn blynyddol ar gael i gael ei osod hefyd. Fel pwyllgor, rydym yn cytuno y dylai’r pwyntiau hyn gael eu codi fel gwelliannau i Fil Cymru, ac rydym yn annog y Llywodraeth i sicrhau bod y pwyntiau hyn yn cael eu codi mewn unrhyw drafodaethau parhaus a allai eu cael â Swyddfa Cymru.

17:08 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog Cyllid i ymateb i’r ddadl—Jane Hutt.

I call the Minister for Finance to respond to the debate—Jane Hutt.

17:08 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

I would like to thank all of those who contributed to this afternoon’s debate. I am very pleased that we have support for this LCM across the Chamber. I particularly thank Eluned Parrott and Mike Hedges, who spoke on behalf of the Constitutional and Legislative Affairs Committee and the Finance Committee, for their responses.

Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at y ddadl y prynhawn yma. Rwy’n falch iawn ein bod yn cael cymorth ar gyfer cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn ar draws y Siambr. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Eluned Parrott a Mike Hedges, a siaradodd ar ran y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Cyllid, am eu hymatebion.

I think that, in my opening remarks, I did respond very fully to the points raised by those very helpful reports from both those committees. In response to Eluned Parrott’s points about learning from the process, it is important in terms of you being able to scrutinise LCMs effectively in the future that we provide as much information as possible in future memoranda about amendments, such as in whose name they were tabled, to help future scrutiny. I think that you made a similar point in your committee recently about another memorandum on the Deregulation Bill. What is crucial in terms of timing is that we need to take these points on board in terms of future opportunities.

Credaf, yn fy sylwadau agoriadol, fy mod wedi ymateb yn llawn iawn i'r pwyntiau a godwyd gan yr adroddiadau defnyddiol iawn hynny gan ddau bwyllgor. Mewn ymateb i bwyntiau Eluned Parrott yn ymwneud â dysgu o'r broses, mae'n bwysig o ran eich bod yn gallu craffu ar Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol yn effeithiol yn y dyfodol ein bod yn darparu cymaint o wybodaeth ag y bo modd yn y memoranda yn y dyfodol am welliannau, megis yn enw pwy y cawsant eu cyflwyno, er mwyn helpu craffu yn y dyfodol. Rwy’n meddwl eich bod wedi gwneud pwynt tebyg yn eich pwyllgor yn ddiweddar am femorandwm arall ar y Bil Dadreoleiddio. Yr hyn sy'n hanfodol o ran amseru yw bod angen i ni ystyried y pwyntiau hyn o ran cyfleoedd yn y dyfodol.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 17:10.*

*The Presiding Officer took the Chair at 17.10.*

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

In response to Mike Hedges' point, and in responding to the report in full, you did focus on the cash reserve. In terms of the cash reserve, in the command paper, as you are aware, it will of course help us. It is a tool to manage volatility, as I said in my opening remarks, which we need in our budget following tax devolution. We have a lot to do in terms of looking at what is happening in Scotland, in terms of what they have been able to do in saving up that cash reserve, and making sure that we benefit in the same way in terms of the UK Government arrangements.

Mewn ymateb i bwynt Mike Hedges, ac wrth ymateb i'r adroddiad yn llawn, roeddech yn canolbwyntio ar y gronfa arian parod. O ran y gronfa arian parod, yn y papur gorchymyn, fel y gwyddoch, bydd wrth gwrs yn ein helpu. Mae'n offeryn i reoli anwadalrwydd, fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, yr ydym ei angen yn ein cyllideb yn dilyn datganoli treth. Mae gennym lawer i'w wneud o ran edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn yr Alban, o ran yr hyn y maent wedi gallu ei wneud o ran cynilo cronfa arian parod, a gwneud yn siŵr ein bod yn elwa yn yr un modd o ran trefniadau Llywodraeth y DU.

It is also welcome to hear the positive comments from the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies, and his support. This Bill is very important to us. The new powers that will be introduced by the Wales Bill will be a significant step forward for the Assembly and Wales. There will be new opportunities to shape taxes and they will be, in the future, for our parties and manifestos to consider the nature and opportunities of those taxes, but it is about meeting the needs of our businesses and communities.

Roedd hefyd yn braf clywed y sylwadau cadarnhaol gan arweinydd yr wrthblaid, Andrew R. T. Davies, a'i gefnogaeth. Mae'r Bil hwn yn bwysig iawn i ni. Bydd y pwerau newydd a fydd yn cael eu cyflwyno gan Fil Cymru yn gam sylweddol ymlaen i'r Cynulliad a Chymru. Bydd cyfleoedd newydd i lunio trethi a byddant yn fater, yn y dyfodol, i'n pleidiau a'n maniffestos i ystyried natur a chyfleoedd y trethi hynny, ond mae'n ymwneud â diwallu anghenion ein busnesau a'n cymunedau.

Simon Thomas referred to the disappointments as well, in terms of what is not there. As you know, the Welsh Government signed up to the whole of the Silk package. It does not meet all of our ambitions, but it will provide us with those new important policy levers that will now be available to Wales. I think that we should relish the additional responsibilities that will be placed on us. It is interesting that we talked earlier on about the fact that we have moved on and that we will be in a better place. It is, of course, work in progress in terms of devolution.

Cyfeiriodd Simon Thomas at y siomedigaethau yn ogystal, o ran yr hyn nad yw yno. Fel y gwyddoch, derbyniodd Llywodraeth Cymru y cyfan o becyn Silk. Nid yw'n bodloni pob un o'n huchelgeisiau, ond bydd yn rhoi i ni'r ysgogiadau polisi pwysig newydd hynny a fydd bellach ar gael i Gymru. Rwy'n meddwl y dylem fwynhau'r cyfrifoldebau ychwanegol a fydd yn cael eu rhoi arnom. Mae'n ddiddorol ein bod wedi siarad yn gynharach am y ffaith ein bod wedi symud ymlaen ac y byddwn mewn lle gwell. Gwaith heb ei orffen, wrth gwrs, yw hwn o ran datganoli.

Alun Ffred Jones made important points about new opportunities in terms of the budgetary process and also about our expectations. We were very pleased to see in the Bill—moved on from the draft Bill—in recognition of what I pressed for, that borrowing limits should be reviewed on a regular basis. I have also pressed, as you know, that we should also be able to issue bonds in the future. That has been agreed for Scotland and I will continue to press that case.

Gwnaeth Alun Ffred Jones bwyntiau pwysig am gyfleoedd newydd o ran y broses gyllidebol a hefyd am ein disgwyliadau. Rydym yn falch iawn o weld yn y Bil—wedi symud ymlaen o'r Bil drafft—i gydnabod yr hyn y gwnes i bwyso amdano, y dylai terfynau benthyca gael eu hadolygu'n rheolaidd. Rwyf hefyd wedi pwyso, fel y gwyddoch, y dylem hefyd fod yn gallu cyhoeddi bondiau yn y dyfodol. Mae hynny wedi ei gytuno ar gyfer yr Alban a byddaf yn parhau i bwyso'r achos hwnnw.

Back in November 2012, the Welsh Government and all parties welcomed the recommendations of the first Silk commission and called for their implementation in full. We will be taking this forward in terms of the introduction of financial reforms that require UK primary legislation. This afternoon—this is an important point—the Chamber has called for the devolution of fiscal powers. The Wales Bill will deliver those powers. We have moved on and I am glad that you will be joining me in supporting the motion before us this afternoon.

Yn ôl ym mis Tachwedd 2012, croesawodd Llywodraeth Cymru a'r holl bleidiau argymhellion y comisiwn Silk cyntaf a galw am eu gweithredu'n llawn. Byddwn yn bwrw ymlaen â hyn o ran cyflwyno diwygiadau ariannol sy'n gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol y DU. Y prynhawn yma—mae hwn yn bwynt pwysig—mae'r Siambr wedi galw am ddatganoli pwerau cyllidol. Bydd Bil Cymru yn darparu'r pwerau hynny. Rydym wedi symud ymlaen ac rwy'n falch y byddwch yn ymuno â mi i gefnogi'r cynnig sydd ger ein bron y prynhawn yma.

17:13

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is that we agree the motion. Does anyone object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:13

## Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Diwygio) 2014

## The Local Government (Wales) Measure 2009 (Amendment) Order 2014

Y Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on the Minister for Local Government and Government Business to move the motion.

Galwaf ar y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes Llywodraeth i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5537 Lesley Griffiths

Motion NDM5537 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Diwygio) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mehefin 2014.

Approves that the draft The Local Government (Wales) Measure 2009 (Amendment) Order 2014 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 10 June 2014.

17:13

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

17:13

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no speakers. Minister, do you wish to reply?

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Weinidog, a ydych am ymateb?

17:13

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No.

Nac ydw.

17:13

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Thank you.Diolch yn fawr. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:14

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Newidiadau Amherthnasol a Chywiro Gwallau) (Cymru) 2014 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Newidiadau Ansylweddol) (Cymru) 2014

## The Town and Country Planning (Non-Material Changes and Corrections of Errors)(Wales) Order 2014 and the Town and Country Planning (Fees for Non-Material Changes) (Wales) Regulations 2014

Y Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on the Minister—

Galwaf ar y Gweinidog-

17:14

### Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

I formally move—

Rwy'n cynnig yn ffurfiol—

17:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much. I am sorry, but I did mean to say that we are taking the next two items together.

Diolch yn fawr iawn i chi. Mae'n ddrwg gennyf, ond i roeddwn yn bwriadu dweud ein bod yn cymryd y ddwy eitem nesaf gyda'i gilydd.

Cynnig NDM5538 Lesley Griffiths

Motion NDM5538 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Newidiadau Ansylweddol a Chywiro Gwallau) (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mehefin 2014.

Approves that the draft The Town and Country Planning (Non-Material Changes and Correction of Errors) (Wales) Order 2014 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 10 June 2014.

Cynnig NDM5539 Lesley Griffiths

Motion NDM5539 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Newidiadau Ansylweddol) (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mehefin 2014.

Approves that the draft The Town and Country Planning (Fees for Non-Material Changes) (Wales) Regulations 2014 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 10 June 2014.

17:14 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move the motions.

Cynigiaf y cynigion.

17:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no speakers. Minister, do you wish to reply?

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Weinidog, a ydych am ymateb?

17:14 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No.

Nac ydw.

17:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree motion NDM5538. Does any Member object? There are no objections. Therefore, motion NDM5538 is agreed under Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn cynnig NDM5538. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae cynnig NDM5538 wedi ei dderbyn o dan Reol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree motion NDM5539. Does any Member object? There are no objections. Therefore, motion NDM5539 is agreed.

Y cynnig yw derbyn cynnig NDM5539. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae cynnig NDM5539 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Before we move to Stage 3 of the Housing (Wales) Bill, I will suspend proceedings for 15 minutes. The bell will be rung five minutes before we reconvene, and I would encourage Members to return to the Chamber promptly. Thank you very much.

Cyn i ni symud i Gam 3 o'r Bil Tai (Cymru), byddaf yn atal y trafodion am 15 munud. Bydd y gloch yn cael ei chanu bum munud cyn i ni ailymgynnull, a byddwn yn annog yr Aelodau i ddychwelyd i'r Siambr yn brydlon. Diolch yn fawr iawn i chi.

*Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 17:15.*

*Plenary was adjourned at 17:15.*

*Ailymgynullodd y Cynulliad am 17:30, gyda'r Llywydd yn y Gadair.*

*The Assembly reconvened at 17:30, with the Presiding Officer in the Chair.*

17:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The National Assembly is now in session.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn awr yn eistedd.

17:30

## Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Tai (Cymru)

## Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Housing (Wales) Bill

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We are considering this afternoon—.You will have to pay attention this afternoon otherwise you will get very confused. We are now considering group 29.

Rydym yn ystyried y prynhawn yma—. Bydd yn rhaid ichi ganolbwyntio y prynhawn yma neu fel arall byddwch yn drysu'n lân. Rydym yn awr yn ystyried grŵp 29.

### Grŵp 29: Digartrefedd: Dyletswydd i Ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymhorthwy i Gael Gafael ar Gymorth (Gwelliannau 245, 419, 420, 414, 421, 422, 246 a 423)

### Group 29: Homelessness: Duty to Provide Information, Advice and Assistance In Accessing Help (Amendments 245, 419, 420, 414, 421, 422, 246 and 423)

17:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 245. I call on the Minister to move amendment 245 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 245. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 245 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

17:30 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 245 in my name.

Cynigiaf welliant 245 yn fy enw i.

I speak to this amendment and the other amendments in this group. I brought forward amendment 245 in response to an amendment proposed by Jocelyn Davies at Stage 2. The amendment confirms that the provision of information, assistance and advice will be free of charge. I am grateful for the original suggestion from the Member and I urge Members to vote for this amendment.

Siaradaf am y gwelliant hwn a'r gwelliannau eraill yn y grŵp hwn. Cyflwynais welliant 245 mewn ymateb i welliant a gynigiwyd gan Jocelyn Davies yng Nghyfnod 2. Mae'r gwelliant yn cadarnhau y bydd gwybodaeth, cymorth a chyngor ar gael heb godi tâl amdanynt. Rwyf yn ddiolchgar am yr awgrym gwreiddiol gan yr Aelod ac rwyf yn annog yr Aelodau i bleidleisio o blaid y gwelliant hwn.

Amendment 246 responds to an amendment from Peter Black, also at Stage 2, ensuring that local authorities work in partnership with public authorities and voluntary organisations. Again, I ask Members to support amendment 246. Taken together, my amendments 419 to 423 will ensure the duty to provide information, advice and assistance in accessing help.

Mae gwelliant 246 yn ymateb i welliant gan Peter Black, hefyd yng Nghyfnod 2, i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau gwirfoddol. Unwaith eto, gofynnaf i'r Aelodau gefnogi gwelliant 246. Gyda'i gilydd, bydd fy ngwelliannau 419 i 423 yn sicrhau'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i gael gafael ar gymorth.

Amendment 414 has been tabled by Jocelyn Davies and I was very interested to understand the rationale behind that amendment. After much consideration, I have brought forward amendments 419 to 423 in this group and amendments 425 and 426, which will be discussed in groups 31 and 33. I was supportive of what I believe her amendments were trying to achieve, but, unfortunately, at the amendment stage, they just did not quite fit into the drafting of the particular area where they were submitted. For these reasons, I have brought forward some amendments that I feel achieve the same and a more consistent approach to what Jocelyn Davies's contribution was seeking to do. I hope, therefore, that she sees merit in my amendments, which will ensure that the support needs for a wider group of people are considered.

Mae gwelliant 414 wedi ei gyflwyno gan Jocelyn Davies ac roedd gennyf ddiddordeb mewn deall y rhesymeg y tu ôl i'r gwelliant hwnnw. Ar ôl llawer o ystyriaeth, rwyf wedi cyflwyno gwelliannau 419 i 423 yn y grŵp hwn a gwelliannau 425 a 426, a gaiff eu trafod yn grwpiau 31 a 33. Roeddwn yn gefnogol o'r hyn yr oeddwn yn credu yr oedd ei gwelliannau'n ceisio ei gyflawni, ond, yn anffodus, yng nghyfnod y gwelliannau, nid oeddent yn cyd-fynd yn hollol â drafftio'r maes penodol hwnnw lle cawsant eu cyflwyno. Am y rhesymau hyn, rwyf wedi cyflwyno rhai gwelliannau yr wyf o'r farn eu bod yn cyflawni'r un peth ac ymagwedd fwy cyson at yr hyn yr oedd cyfraniad Jocelyn Davies yn ceisio ei wneud. Rwyf yn gobeithio, felly, ei bod yn gweld rhinwedd fy ngwelliannau, a fydd yn sicrhau bod anghenion cymorth grŵp ehangach o bobl yn cael eu hystyried.

17:32

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Before speaking to my amendment in this group, I would like to put on record my thanks to Barnardo's for its help in suggesting and drafting the amendment and then promoting it.

Cyn siarad am fy ngwelliant yn y grŵp hwn, hoffwn gofnodi fy niolch i Barnardo's am ei gymorth wrth awgrymu a drafftio'r gwelliant ac yna'i hyrwyddo.

The average age to leave home across Wales is 24, yet many of our most vulnerable young people have to face the challenges of living independently at a much younger age than their peers do. They often do this without anywhere near the level of support that the majority of young people get from their parents and families. Some young people are forced to leave home because of family conflict, or because their families are in such difficulty that they are not able to offer them the support that they need. We know that care leavers are over-represented in the homeless population. Evidence suggests that care leavers are 60 times more likely to be homeless than children who have not been in the care system.

Yr oedran cyfartalog i adael cartref ledled Cymru yw 24, ac eto mae llawer o'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed yn gorfod wynebu her byw'n annibynnol yn iau o lawer na'u cyfoedion. Maent yn aml yn gwneud hyn heb ddim byd tebyg i'r lefel o gefnogaeth y mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn ei chael oddi wrth eu rhieni a'u teuluoedd. Mae rhai pobl ifanc yn gorfod gadael cartref oherwydd anghydfod teuluol, neu oherwydd bod eu teuluoedd yn ei chael mor anodd fel nad ydynt yn gallu cynnig y cymorth sydd ei angen arnynt. Rydym yn gwybod bod y rhai sy'n gadael gofal wedi eu gorgynrychioli ym mhoblogaeth y digartref. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod pobl sy'n gadael gofal 60 gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddigartref na phlant nad ydynt wedi bod yn y system ofal.

The young people who are most likely to experience homelessness are those struggling with issues such as mental health problems, substance misuse, domestic abuse, lack of education, training and employment, poverty, sexual exploitation and offending behaviour. They are likely to have faced considerable adversity in their childhoods and are least likely to be receiving the family support that they need. If they are looked-after children, they are much less likely to be in a stable foster placement.

Y bobl ifanc sydd fwyaf tebygol o fod yn ddigartref yw'r rhai sy'n cael trafferth â materion megis problemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig, diffyg addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, tlodi, camfanteisio rhywiol ac ymddygiad troseddol. Maent yn debygol o fod wedi wynebu cryn adfyd yn eu plentyndod a hwy sydd leiaf tebygol o fod yn cael y cymorth gan deuluoedd sydd ei angen arnynt. Os ydynt yn blant sy'n derbyn gofal, maent yn llai tebygol o lawer o fod mewn lleoliad maeth sefydlog.

Providing young people who are in housing need with somewhere to live is only part of the solution. Young people with complex needs struggle to cope with living alone and managing all of the responsibilities and complications that a tenancy involves.

Rhan o'r ateb yn unig yw darparu rhywle i fyw i bobl ifanc sydd ag angen tai. Mae pobl ifanc ag anghenion cymhleth yn ei chael yn anodd ymdopi â byw ar eu pen eu hunain a rheoli'r holl gyfrifoldebau a chymhlethdodau y mae tenantiaeth yn eu golygu.

Providing tenancy support to help a young person cope with living independently can prevent them from becoming homeless in the future. So, I tabled the amendment to provide additional housing support for young people and care leavers under the age of 25 and I am very pleased that the Government has given this serious consideration.

Gall darparu cefnogaeth tenantiaeth i helpu pobl ifanc ymdopi â byw'n annibynnol eu hatal rhag bod yn ddigartref yn y dyfodol. Felly, cyflwynais y gwelliant er mwyn darparu cefnogaeth tai ychwanegol i bobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal o dan 25 oed ac rwyf yn falch iawn fod y Llywodraeth wedi rhoi ystyriaeth ddifrifol i hyn.

The Government amendments to section 60 expand the scope of the Bill and ensure that advice and information are available to those who are at risk of homelessness before they face immediate threat. I hope that this will help to break the pattern of homelessness that it is all too easy for somebody to get trapped in. Therefore, I will not move my amendment, Presiding Officer, and I will support the Government's amendments in this group instead. I am grateful to the Minister and his officials for tabling Government amendments that achieve the aims of my amendment.

Mae gwelliannau'r Llywodraeth i adran 60 yn ehangu cwmpas y Bil ac yn sicrhau bod cyngor a gwybodaeth ar gael i'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref cyn iddynt wynebu bygythiad ar unwaith. Rwyf yn gobeithio y bydd hyn yn helpu i dorri'r patrwm digartrefedd y mae mor hawdd i rywun gael ei ddal ynddo. Felly, ni fyddaf yn cynnig fy ngwelliant, Lywydd, a byddaf yn cefnogi gwelliannau'r Llywodraeth yn y grŵp hwn yn lle hynny. Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog a'i swyddogion am gyflwyno gwelliannau'r Llywodraeth sy'n cyflawni nodau fy ngwelliant i.

17:34

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Peter Black.

Galwaf ar Peter Black.

17:34

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, it is fine.

Na, mae'n iawn.

17:34

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister.

Galwaf ar y Gweinidog.

17:34

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I am grateful for Jocelyn Davies's comments. Working constructively together we have managed to achieve what we believe is the right thing to do across the Bill.

Diolch ichi, Lywydd. Rwyf yn ddiolchgar am sylwadau Jocelyn Davies. Wrth weithio'n adeiladol gyda'n gilydd rydym wedi llwyddo i gyflawni'r hyn y credwn yw'r peth iawn i'w wneud ar draws y Bil.

17:34

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 245 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 245 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 245. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 245 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 245 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 245 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:35

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 419.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 419.

17:35

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 419 in my name.

Cynigiaf welliant 419 yn fy enw i.

17:35

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 419 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 419 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 419. A oes gwrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 419 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 419 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 419 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:35

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 420.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 420.

17:35

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 420 in my name.

Cynigiaf welliant 420 yn fy enw i.

17:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 420 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 420 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 420. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 420 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 420 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 420 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We now move to amendment 422. Sorry. Jocelyn Davies, you can confirm you are not moving amendment 414.

Symudwn yn awr at welliant 422. Mae'n ddrwg gennyf. Jocelyn Davies, a allwch gadarnhau nad ydych yn cynnig gwelliant 414.

17:35 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

That is right.

Mae hynny'n gywir.

*Ni chynigiwyd gwelliant 414.*

*Amendment 414 not moved.*

17:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 421.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 421.

17:35 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 421 in my name.

Cynigiaf welliant 421 yn fy enw i.

17:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 421 be agreed to. Are there any objections? There are no objections.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 421. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiad.

*Derbyniwyd gwelliant 421 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 421 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 422.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 422.

17:35 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 422 in my name.

Cynigiaf welliant 422 yn fy enw i.

17:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 422 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, so amendment 422 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 422. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 422 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 422 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 422 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 423.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 423.

17:35 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 423 in my name.

Cynigiaf welliant 423 yn fy enw i.

17:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Sorry; I am jumping too fast. It is amendment 246.

Mae'n ddrwg gennyf; rwyf yn symud yn rhy gyflym. Gwelliant 246 ydyw.

17:36 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 246 in my name.

Cynigiaf welliant 246 yn fy enw i.

17:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much. The question is that amendment 246 be agreed to. Are there any objections? There are no objections.

Diolch yn fawr iawn ichi. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 246. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiad.

*Derbyniwyd gwelliant 246 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 246 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We have moved amendment 423. We will move it again.

Rydym wedi cynnig gwelliant 423. Fe’i cynigiwn eto.

17:36 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 423 in my name.

Cynigiaf welliant 423 yn fy enw i.

17:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 423 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 423 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 423. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 423 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 423 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 423 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Tynnwyd gwelliant 353 yn ôl.*

*Amendment 353 withdrawn.*

## Grŵp 30: Digartrefedd: Cymhwystra (Gwelliannau 8 a 9)

## Group 30: Homelessness: Eligibility (Amendments 8 and 9)

17:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 8. I call on Jocelyn Davies to move amendment 8 and to speak to it and the other amendment in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 8. Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 8 ac i siarad amdano a'r gwelliant arall yn y grŵp.

17:36 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 8 in my name.

Cynigiaf welliant 8 yn fy enw i.

Those who are not eligible for help are often some of the most in need of support. This is particularly true of those who are ineligible because they have insecure immigration status. We have a particular responsibility to protect all those who are victims of domestic abuse, but, for those who are ineligible, support and refuge is often not available. This leaves women who are suffering abuse facing an impossible choice: stay and suffer abuse, or flee and face destitution and homelessness.

Y rhai nad ydynt yn gymwys i gael cymorth yn aml yw’r rhai sydd fwyaf angen cymorth. Mae hyn yn arbennig o wir am y rhai sy'n anghymwys oherwydd bod eu statws mewnfudo’n ansicr. Mae gennym gyfrifoldeb arbennig i amddiffyn pawb sy'n dioddef cam-drin domestig, ond, i’r rhai nad ydynt yn gymwys, yn aml nid yw cefnogaeth a lloches ar gael. Mae hyn yn golygu bod menywod sy'n dioddef cam-drin yn wynebu dewis amhosibl: aros a dioddef cael eu cam-drin, neu ffoi ac wynebu amddifadedd a digartrefedd.

It is shocking that some women in the UK who are in desperate need of safety cannot access basic levels of protection and support simply because of their immigration status. These women are left trapped in violence, in fear of their lives and the wellbeing of their children.

Mae'n syfrdanol na all rhai menywod yn y DU y mae angen diogelwch arnynt yn ddybryd gael y lefelau sylfaenol o ddiogelwch a chefnogaeth, a hynny oherwydd eu statws mewnfudo. Mae'r menywod hyn yn cael eu gadael yn gaeth mewn trais, yn ofni am eu bywydau a lles eu plant.

I have tabled two amendments to deal with this issue. The first amendment ensures that all those who request assistance are provided with information and are signposted to organisations that may help them. No-one should be turned away without some support. The second amendment ensures that all those fleeing domestic abuse are eligible for housing assistance. Amnesty International claims that Governments are obliged, under international human rights law, to prevent gender-based violence and to respond to it when it occurs by ensuring victims access to safety and reparation.

Rwyf wedi cyflwyno dau welliant i ymdrin â'r mater hwn. Mae'r gwelliant cyntaf yn sicrhau bod pawb sy'n gofyn am gynhorthwy’n cael gwybodaeth ac yn cael eu cyfeirio at sefydliadau a allai eu helpu. Ni ddylai neb gael ei droi i ffwrdd heb rywfaint o gymorth. Mae'r ail welliant yn sicrhau bod pawb sy'n dianc rhag cam-drin domestig yn gymwys i gael cymorth tai. Mae Amnest Rhyngwladol yn honni bod yn rhaid i Lywodraethau, o dan gyfraith hawliau dynol rhyngwladol, atal trais ar sail rhywedd ac ymateb iddo pan fydd yn digwydd drwy sicrhau bod diogelwch ac iawn ar gael i ddioddefwyr.

This Bill is an opportunity for Wales to lead the way in protecting the rights of all those who live within its borders. If women cannot ask for help without fear that they will be left on the streets or detained, we are failing in our duty to protect them. This also affects women who are victims of trafficking and slavery. The majority of trafficked people are not able to access accommodation and support when trying to escape situations of violence and exploitation. This leaves them at further risk of exploitation. Wales has been at the forefront of the movement to tackle modern-day slavery in the UK, but effective action requires a multi-agency joined-up approach to support survivors of human trafficking and ensure that no one is turned away without information about who could play a key role in supporting victims. I hope that Members will agree that these amendments would be a small measure to help this particular group.

Mae'r Bil hwn yn gyfle i Gymru arwain y ffordd o ran gwarchod hawliau pawb sy'n byw o fewn ei ffiniau. Os na all menywod ofyn am gymorth heb ofni y byddant yn cael eu gadael ar y stryd neu yn y ddalfa, rydym yn methu yn ein dyletswydd i'w hamddiffyn. Mae hyn hefyd yn effeithio ar fenywod sy'n dioddef oherwydd masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl sy'n cael eu masnachu’n gallu cael llety a chymorth wrth geisio dianc o sefyllfaoedd o drais a chamfanteisio. Mae hyn yn golygu bod mwy o berygl iddynt ddioddef oherwydd camfanteisio. Mae Cymru wedi bod ar flaen y gad yn yr ymgyrch i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yn y DU, ond mae gweithredu effeithiol yn gofyn am ddull cydgysylltiedig amlasiantaeth o gefnogi goroeswyr masnachu mewn pobl a sicrhau na chaiff unrhyw un ei droi i ffwrdd heb wybodaeth am bwy allai chwarae rôl allweddol o ran cefnogi dioddefwyr. Rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n cytuno y byddai’r gwelliannau hyn yn gam bach tuag at helpu'r grŵp penodol hwn.

17:39

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am happy to stand up to support these amendments. I think these are very important amendments because, without putting too many obligations on local authorities, they address a particular need. One is about providing information, which is a reasonable assumption in any situation. Someone who presents themselves as homeless but is not eligible for assistance should be able to have the information that they need to help to resolve their particular issue. The second amendment is also very important. We have just talked about the domestic violence Bill and taking a cross-cutting approach to that issue, and here, in the housing Bill, we have an opportunity to pass an amendment that will ensure that people fleeing domestic abuse are eligible for help under the provisions of the Bill. I think that very much fits in with the Government’s agenda and certainly the agenda that the Minister for Local Government and Government Business set out earlier today. For that reason, I hope that the Assembly will be supportive of this amendment.

Rwyf yn hapus i sefyll i gefnogi'r gwelliannau hyn. Credaf fod y rhain yn welliannau pwysig iawn oherwydd, heb roi gormod o rwymedigaethau ar awdurdodau lleol, maent yn mynd i'r afael ag angen penodol. Mae un yn ymwneud â darparu gwybodaeth, sy’n dybiaeth resymol mewn unrhyw sefyllfa. Dylai rhywun sy'n ei gyflwyno ei hun yn ddigartref ond nad yw'n gymwys i gael cynhorthwy allu cael y wybodaeth sydd ei hangen i’w helpu i ddatrys ei broblem benodol. Mae'r ail welliant hefyd yn bwysig iawn. Rydym newydd sôn am y Bil trais domestig ac arfer ymagwedd drawsbynciol at y mater hwnnw, ac yma, yn y Bil tai, mae cyfle inni i basio gwelliant a fydd yn sicrhau bod pobl sy'n ffoi rhag cam-drin domestig yn gymwys i gael cymorth o dan ddarpariaethau'r Bil. Credaf fod hynny’n cyd-fynd yn fawr ag agenda'r Llywodraeth ac yn sicr yr agenda a nododd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth yn gynharach heddiw. Am y rheswm hwnnw, rwyf yn gobeithio y bydd y Cynulliad yn cefnogi'r gwelliant hwn.

17:40

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister.

Galwaf ar y Gweinidog.

17:40 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for Members' contributions. Section 60 of the Bill ensures that information and advice are freely available to anybody who requires them. This also includes help in accessing housing support for those who are not eligible for the homelessness help under Chapter 2 of Part 2 of the Bill.

Rwyf yn ddiolchgar am gyfraniadau'r Aelodau. Mae Adran 60 o'r Bil yn sicrhau bod gwybodaeth a chyngor ar gael yn rhwydd i bawb sydd eu hangen. Mae hyn hefyd yn cynnwys cymorth i gael gafael ar gymorth tai i'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael cymorth digartrefedd o dan Bennod 2 o Ran 2 o'r Bil.

May I just reassure Members that this Government is very robust in its view on tackling the issues around human trafficking, slavery and ending domestic violence, as demonstrated by my colleague earlier on with the launch of her Bill earlier today? However, may I also give reassurance to colleagues that the UK Government makes arrangements for asylum seeker support, including victims of domestic violence? It also makes temporary residents who are victims of domestic violence eligible for public funds. I recognise the point that Peter Black raised in his contribution when he made reference to the duplication or support of services across boundaries and borders in the UK. With the UK and Welsh Governments working together, we can ensure that the right services are delivered, but where appropriate by the UK Government. Therefore, we believe that we can achieve what the Member is trying to seek with her amendments without needing to amend the Bill, because it is currently available from the UK Government.

A gaf fi sicrhau'r Aelodau fod y Llywodraeth hon yn gadarn iawn ei barn ar fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â masnachu mewn pobl, caethwasiaeth a rhoi terfyn ar drais domestig, fel y dangosodd fy nghydweithiwr yn gynharach wrth lansio ei Bil yn gynharach heddiw? Fodd bynnag, a gaf fi hefyd roi sicrwydd i gydweithwyr fod Llywodraeth y DU yn gwneud trefniadau ar gyfer cymorth ceiswyr lloches, gan gynnwys dioddefwyr trais domestig? Mae hefyd yn gwneud preswylwyr dros dro sy'n dioddef trais domestig yn gymwys i gael arian cyhoeddus. Rwyf yn cydnabod y pwynt a gododd Peter Black yn ei gyfraniad pan gyfeiriodd at ddyblygu neu gefnogi gwasanaethau ar draws ffiniau a therfynau yn y DU. Gyda Llywodraeth y DU a Chymru yn gweithio gyda'i gilydd, gallwn sicrhau bod y gwasanaethau iawn yn cael eu darparu, ond lle y bo'n briodol gan Lywodraeth y DU. Felly, rydym yn credu y gallwn gyflawni'r hyn y mae'r Aelod yn ei geisio â'i gwelliannau heb fod angen newid y Bil, oherwydd ei fod ar gael ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU.

17:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Jocelyn Davies to reply to the debate.

Galwaf ar Jocelyn Davies i ymateb i'r ddadl.

17:41 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank Peter Black for his support and for recognising that providing information will not be a huge burden on local authorities and for recognising the link between this amendment and the Bill that we debated earlier. I am very pleased to hear the Minister's commitment to tackling human trafficking, but, obviously, disappointed that that commitment does not go as far as supporting my amendments. I will be pressing those amendments to a vote.

Hoffwn ddiolch i Peter Black am ei gefnogaeth ac am gydnabod na fydd darparu gwybodaeth yn faich enfawr ar awdurdodau lleol ac am gydnabod y cysylltiad rhwng gwelliant hwn a'r Bil a drafodwyd gennym yn gynharach. Rwyf yn falch iawn o glywed ymrwymiad y Gweinidog i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl, ond, wrth gwrs, yn siomedig nad yw'r ymrwymiad hwnnw'n mynd mor bell â chefnogi fy ngwelliannau. Byddaf yn pwyso'r gwelliannau hynny i bleidlais.

17:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 8 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 8. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8.

Result of the vote on amendment 8.

*Gwrthodwyd gwelliant 8: O blaid 25, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment 8 not agreed: For 25, Against 25, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

17:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Jocelyn Davies to move amendment 9.

Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 9.

17:42 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 9 in my name.

Cynigiaf welliant 9 yn fy enw i.

17:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 9 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 9. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 9.

Result of the vote on amendment 9.

*Gwrthodwyd gwelliant 9: O blaid 14, Yn erbyn 25, Ymatal 11.*

*Amendment 9 not agreed: For 14, Against 25, Abstain 11.*

**Grŵp 31: Digartrefedd: Dyletswydd i Asesu (Gwelliant 424, 425 a 354)**

**Group 31: Homelessness: Duty to Assess (Amendment 424, 425 and 354)**

17:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 424. I call on the Minister to move amendment 424 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 424. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 424 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

17:43 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 424 in my name.

Cynigiaf welliant 424 yn fy enw i.

Amendment 424 is a technical amendment. Amendment 425 clarifies that when a local housing authority is assessing an applicant, it must consider the appropriate support that they, or members of their household, will need to help them retain their accommodation. This suggestion was a helpful contribution from Jocelyn Davies during the earlier stages, and I am happy to amend the Bill to reflect this.

Gwelliant technegol yw gwelliant 424. Mae gwelliant 425 yn egluro, pan fo awdurdod tai lleol yn asesu ymgeiswyr, fod yn rhaid iddo ystyried y cymorth priodol y bydd arnynt hwy, neu aelodau o'u teulu, ei angen i'w helpu i gadw eu llety. Roedd yr awgrym hwn yn gyfraniad defnyddiol gan Jocelyn Davies yn ystod y cyfnodau cynharach, ac rwyf yn hapus i ddiwygio'r Bil i adlewyrchu hyn.

17:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Mark Isherwood.

Galwaf ar Mark Isherwood.

17:43 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Amendment 354 was withdrawn.

Cafodd gwelliant 354 ei dynnu’n ôl.

17:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You are not speaking. That is okay. Minister, you do not need to reply.

Nid ydych yn siarad. Mae hynny'n iawn. Weinidog, nid oes angen ichi ateb.

The question is that amendment 424 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 424 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 424. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 424 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 424 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 424 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 425.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 425.

17:44 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 425 in my name.

Cynigiaf welliant 425 yn fy enw i.

17:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 425 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 425 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 425. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 425 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 425 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 425 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Tynnwyd gwelliant 354 yn ôl.*

*Amendment 354 withdrawn.*

## Grŵp 32: Digartrefedd: Cynorthwyo i Sicrhau (Gwelliant 247)

## Group 32: Homelessness: Help to Secure (Amendment 247)

17:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead and only amendment in the group is amendment 247. I call on the Minister to move amendment 247 and to speak to it.

Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp yw gwelliant 247. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 247 ac i siarad amdano.

17:44 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 247 in my name.

Cynigiaf welliant 247 yn fy enw i.

This amendment is based on an amendment by Jocelyn Davies at Stage 2 on which I made a commitment to revisit at this stage. I thank her for her suggestion for improving this part of the legislation.

Mae'r gwelliant hwn yn seiliedig ar welliant gan Jocelyn Davies yn ystod Cyfnod 2 y gwneuthum ymrwymiad i ailedrych arno yn y cyfnod hwn. Diolch iddi am ei hawgrym ar gyfer gwella'r rhan hon o'r ddeddfwriaeth.

17:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no other speakers, so the question is that amendment 247 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 247 is agreed.

Nid oes gennyf ddim siaradwyr eraill, felly y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 247. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 247 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 247 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 247 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 248.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 248.

17:44 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 248 in my name.

Cynigiaf welliant 248 yn fy enw i.

17:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 248 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 248 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 248. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 248 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 248 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 248 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 249.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 249.

17:45 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 249 in my name.

Cynigiaf welliant 249 yn fy enw i.

17:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 249 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 249 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 249. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 249 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 249 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 249 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 33: Digartrefedd: Angen Blaenoriaethol (Gwelliannau 10, 10A, 355, 250, 11, 252, 12, 253, 13, 14, 254, 255, 28, 256, 29, 257, 15, 16 a 279)

## Group 33: Homelessness: Priority Need (Amendments 10, 10A, 355, 250, 11, 252, 12, 253, 13, 14, 254, 255, 28, 256, 29, 257, 15, 16 and 279)

17:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 10. I call on Jocelyn Davies to move amendment 10 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 10. Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 10 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

17:45 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 10 in my name.

Cynigiaf welliant 10 yn fy enw i.

I apologise in advance for the very lengthy speech that I am about to make, but it does address a lot of amendments. The definition of vulnerability, found in section 70 of the Bill, I think, is not a good one. Seemingly, unintentionally, it potentially narrows the circumstances in which someone would be found to be in priority need for accommodation due to vulnerability. Of course, we would like to see the phasing out of intentionality altogether, and priority need, but this Bill does not achieve that. Strangely, this section of the Bill includes a different formulation of the reasons for vulnerability, originally found in the Housing Act 1996. In that Act, vulnerability is defined as a person who is vulnerable as the result of old age, mental illness, being handicap, having a physical disability or another special reason. The Government's version in this Bill narrows this definition by defining the special reason, rather than leaving it open to discretion. So, amendment 10 uses the wording of the Housing Act 1996 with some slight updating of terminology to ensure that the definition of vulnerability is as fair as possible.

Ymddiheuraf ymlaen llaw am yr araith hirfaith iawn yr wyf ar fin ei gwneud, ond y mae'n ymdrin â llawer o welliannau. Nid yw'r diffiniad o agored i niwed, a geir yn adran 70 o'r Bil, rwyf yn meddwl, yn un da. I bob golwg, yn anfwriadol, mae o bosibl yn cyfyngu'r amgylchiadau lle ceid bod pobl mewn angen blaenoriaethol am lety oherwydd eu bod yn agored i niwed. Wrth gwrs, byddem yn hoffi gweld bwriadoldeb yn diflannu'n llwyr yn raddol, ynghyd ag angen blaenoriaethol, ond nid yw'r Bil hwn yn sicrhau hynny. Yn rhyfedd iawn, mae'r adran hon o'r Bil yn cynnwys ffformwleiddiad gwahanol o'r rhesymau dros fod yn agored i niwed, a oedd yn wreiddiol yn Neddf Tai 1996. Yn y Ddeddf honno, caiff agored i niwed ei ddiffinio fel person sy'n agored i niwed o ganlyniad i henaint, salwch meddwl, anfantais, anabledd corfforol neu reswm arbennig arall. Mae fersiwn y Llywodraeth yn y Bil hwn yn culhau'r diffiniad hwnnw drwy ddiffinio'r rheswm arbennig, yn hytrach na'i adael yn agored i ddisgresiwn. Felly, mae gwelliant 10 yn defnyddio geiriad Deddf Tai 1996 gyda rhywfaint o ddiweddaru terminoleg er mwyn sicrhau bod y diffiniad o agored i niwed mor deg ag y bo modd.

It is vital that all of those who need help are entitled to it, and a narrowing of the definition in the legislation could leave people who, by any reasonable criteria, would be considered vulnerable without the support that they need. This amendment does not substantially change the definition, but rather provides consistency with existing legislation and clarity of drafting that will ensure that no-one finds themselves without the help that they deserve. Of course, the weakness inherent in having a definitive list is that you will almost certainly leave something out.

Mae'n hollbwysig bod gan bawb y mae angen cymorth arnynt hawl i gael y cymorth hwnnw, a gallai culhau'r diffiniad yn y ddeddfwriaeth adael pobl a fyddai, yn ôl unrhyw feini prawf rhesymol, yn cael eu hystyried yn agored i niwed heb y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Nid yw'r gwelliant hwn yn newid yn sylweddol y diffiniad, ond yn hytrach yn cynnig cysondeb â deddfwriaeth bresennol ac eglurder drafftio a fydd yn sicrhau na fydd neb yn ei gael ei hun heb y cymorth y mae'n ei haeddu. Wrth gwrs, gwendid cynhenid cael rhestr derfynol yw y byddwch bron yn sicr o hepgor rhywbeth.

Amendments 11, 12, 13 and 14 all raise the age limit for priority need. Amendments 11 and 12 raise the age limit for priority need for accommodation from 18 to 21. As the Bill currently stands, those between the ages of 18 and 21 must be in a particular risk of financial or sexual exploitation to be considered in priority need, but young people who find themselves approaching their local housing authority for help are already vulnerable, and asking them to provide evidence of some extra vulnerability to exploitation before considering them to be in priority need risks having those who need support slipping through the net.

Mae gwelliannau 11, 12, 13 a 14 i gyd yn codi'r terfyn oedran ar gyfer angen blaenoriaethol. Mae gwelliannau 11 a 12 yn codi'r terfyn oedran ar gyfer angen blaenoriaethol am lety o 18 i 21. Fel y mae'r Bil ar hyn o bryd, rhaid i'r rheini rhwng 18 a 21 mlwydd oed fod mewn perygl neilltuol o gamfanteisio ariannol neu rywiol i gael eu hystyried mewn angen blaenoriaethol, ond mae pobl ifanc sy'n eu cael eu hunain yn mynd at yr awdurdod tai lleol am gymorth eisoes yn agored i niwed, ac mae gofyn iddynt ddarparu tystiolaeth o fod mewn perygl ychwanegol o gael eu hecsbloetio cyn ystyried bod ganddynt angen blaenoriaethol yn golygu y gallai'r rhai y mae angen cymorth arnynt lithro drwy'r rhwyd.

Amendments 13 and 14 raise the age limit of priority need for children who have been looked after in care or by foster parents to 25. Care leavers can be extremely vulnerable. Statistically, they are less likely than other children to achieve academic success or benefit from stable relationships, and they are more likely to have problems with crime, drugs and mental health than their peers. Almost one third of children in care leave school with no GCSEs or vocational qualifications, and only 13% obtain five good GCSEs, compared with almost 60% of all other children.

Mae gwelliannau 13 a 14 yn codi terfyn oedran angen blaenoriaethol i blant sydd wedi bod yn derbyn gofal yn y system ofal neu gan rieni maeth i 25. Gall y rhai sy'n gadael gofal fod yn hynod agored i niwed. Yn ystadegol, maent yn llai tebygol na phlant eraill o gael llwyddiant academaidd neu fod mewn perthynas sefydlog, ac maent yn fwy tebygol o gael problemau â throseddu, cyffuriau ac iechyd meddwl na'u cyfoedion. Mae bron i un rhan o dair o blant mewn gofal yn gadael yr ysgol heb ddim cymwysterau TGAU neu gymwysterau galwedigaethol, a dim ond 13% sy'n ennill pum TGAU da, o gymharu â bron i 60% o'r holl blant eraill.

Only 6% of care leavers go to university, compared with 38% of all young people. One third of care leavers are not in education, employment or training, compared with 13% of the rest of young people. Through no fault of their own, they did not get off to the best start in life, and they are victims of the society that has clearly let them down. Children in care often lack sufficient support, particularly those who move placements many times, which may lead to them becoming extremely vulnerable to a range of problems, from teenage pregnancy to drug and alcohol misuse, without the support and stability that many of us take for granted for our own children. It is all too easy for care leavers just to slip through that net.

Dim ond 6% o'r rhai sy'n gadael gofal sy'n mynd i brifysgol, o gymharu â 38% o'r holl bobl ifanc. Nid yw un rhan o dair o'r rhai sy'n gadael gofal mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, o gymharu â 13% o weddill y bobl ifanc. Heb fod unrhyw fai arnynt hwy, nid ydynt wedi cael y cychwyn gorau mewn bywyd, ac maent yn ddioddef oherwydd i'r gymdeithas wneud cam â hwy. Yn aml, nid oes cymorth digonol ar gael i blant mewn gofal, yn enwedig y rhai sy'n newid lleoliadau sawl gwaith, a all olygu y byddant yn hynod agored i amryw o broblemau, o feichiogrwydd yn eu harddegau i gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol, heb y gefnogaeth a'r sefydlogrwydd y mae llawer ohonom yn eu cymryd yn ganiataol i'n plant eu hunain. Mae'n rhy hawdd i bobl sy'n gadael gofal lithro drwy'r rhwyd.

Many also face discrimination and bullying, certainly from classmates, and discrimination with employers and even landlords. Being a child in care has deeply unfazed stigma attached to it. The challenges faced by children in care last well into adulthood. I know that if one of my children got into trouble with housing in their 20s, I would not think twice about having them move back home. However, for those who have been looked after, this support is not available, which means that if they find themselves in difficulty, they will have nowhere to turn. Currently, 30% of those in the homeless system have been in care.

Mae llawer hefyd yn wynebu gwahaniaethu a bwlio, yn sicr gan gyd-ddisgyblion, a gwahaniaethu gyda chyflogwyr a hyd yn oed landlordiaid. Mae bod yn blentyn mewn gofal â stigma didaro iawn ynghlwm wrtho. Mae'r heriau a wynebir gan blant mewn gofal yn para ymhell i fywyd oedolyn. Gwn pe byddai un o fy mhlant i'n mynd i drafferth gyda thai yn eu 20au, na fyddwn yn meddwl ddwywaith cyn gadael iddynt symud yn ôl adref. Fodd bynnag, ar gyfer y rhai sydd wedi bod yn derbyn gofal, nid yw'r cymorth hwnnw ar gael, sy'n golygu, os byddant yn cael anawsterau, na fydd ganddynt unman i droi. Ar hyn o bryd, mae 30% o'r rhai yn y system ddigartref wedi bod mewn gofal.

The Government has tabled its own amendments later on in the Bill that will also use these age boundaries. So, to ensure consistency in the legislation, these changes should be made here, too. Raising the age limit of priority need for care leavers to 25 reflects the greater vulnerability and additional needs of this group. It could also go a long way to breaking the pattern of homelessness that care leavers too often find themselves trapped in.

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno ei gwelliannau ei hun yn nes ymlaen yn y Bil a fydd hefyd yn defnyddio'r ffiniau oedran hyn. Felly, er mwyn sicrhau cysondeb yn y ddeddfwriaeth, dylai'r newidiadau hyn gael eu gwneud yma, hefyd. Mae codi terfyn oedran angen blaenoriaethol ar gyfer rhai sy'n gadael gofal i 25 yn adlewyrchu natur fwy agored i niwed ac anghenion ychwanegol y grŵp hwn. Gallai hefyd fynd yn tuag bell at dorri'r patrwm o ddigartrefedd y mae'r rhai sy'n gadael gofal yn rhy aml yn eu cael eu hunain yn gaeth ynddo.

Finally, amendments 15 and 16 alter the test for vulnerability found in the Bill. Putting the test for vulnerability on the face of the Bill is a good idea, and I hope that that will ensure that there is consistency in how those who are facing homelessness are assessed and treated across the country, because we know that there are significant inconsistencies in decisions made on this issue, and the reports of legal cases clearly show this. However, the test that has been chosen, I think, is a misguided choice. The test defines vulnerability as someone who would be less likely to fend for themselves and suffer more harm than the ordinary homeless person. This test is outdated and often harmful. Until now, of course, it has just been used as judicial guidance, and so it has been developed by the courts themselves.

Yn olaf, mae gwelliannau 15 ac 16 yn newid y prawf ar gyfer bod yn agored i niwed a geir yn y Bil. Mae rhoi'r prawf ar gyfer bod yn agored i niwed ar wyneb y Bil yn syniad da, ac rwyf yn gobeithio y bydd hynny'n sicrhau bod cysondeb yn y ffordd y mae'r rhai sy'n wynebu digartrefedd yn cael eu hasesu a'u trin ar draws y wlad, oherwydd ein bod yn gwybod bod anghysondebau sylweddol o ran penderfyniadau a wneir ar y mater hwn, ac mae'r adroddiadau am achosion cyfreithiol yn dangos hyn yn glir. Fodd bynnag, mae'r prawf sydd wedi ei ddewis, yn fy marn i, yn ddewis annoeth. Mae'r prawf yn diffinio bod yn agored i niwed fel rhywun a fyddai'n llai tebygol o ofalu amdano'i hun ac yn dioddef mwy o niwed na'r person digartref cyffredin. Mae'r prawf hwn yn hen ffasiwn ac yn aml yn niweidiol. Hyd yma, wrth gwrs, mae wedi ei ddefnyddio fel arweiniad barnwrol yn unig, ac felly mae wedi ei ddatblygu gan y llysoedd eu hunain.

Since its first appearance in a court decision in 1998, the Pereira test has caused confusion and distress. In decision after decision, those who by any reasonable common sense criteria would be considered vulnerable have been found not to be in priority need of housing because of the fact that the comparator is the ordinary homeless person. That comparator is full of stereotypes. Those who have mental health problems, such as severe depression, often fail this test because it is assumed that the ordinary homeless person will have a mental illness. So, what we lack here is any description of what that homeless person is like. Even someone with full-blown AIDS failed this test. I find it astonishing that the Welsh Government would want to enshrine guidance that has led to such poor decisions on the face of the Bill. It is highly likely that the test will be poorly interpreted and misapplied, and decisions often rest on crude stereotypes of that ordinary homeless person. Any test that is still generating court cases 16 years on needs a radical rethink. I propose that the test is amended so that the comparator is the homeless person who is able to cope with becoming street homeless. This would make the test fairer and ensure that those who are unable to cope with street homelessness are judged to be in priority need for housing. We must ensure that those who are vulnerable receive the help that they deserve.

Ers iddo ymddangos gyntaf mewn penderfyniad llys ym 1998, mae prawf Pereira wedi achosi dryswch a gofid. Mewn penderfyniad ar ôl penderfyniad, canfuwyd nad oedd y rhai a fyddai yn ôl unrhyw feini prawf synnwyr cyffredin rhesymol yn cael eu hystyried yn agored i niwed mewn angen blaenoriaethol am dai oherwydd y ffaith mai'r cymharydd yw'r person digartref cyffredin. Mae'r cymharydd hwnnw'n llawn ystrydebau. Mae'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl, megis iselder difrifol, yn aml yn methu'r prawf hwn oherwydd ei fod yn cymryd yn ganiataol y bydd y person digartref cyffredin yn dioddef o salwch meddwl. Felly, yr hyn nad yw gennym yma yw unrhyw ddisgrifiad o sut un yw'r person digartref. Mae hyd yn oed rhywun ag AIDS llawn wedi methu'r prawf hwn. Mae'n rhyfeddol i mi y byddai Llywodraeth Cymru am ymgorffori canllawiau sydd wedi arwain at benderfyniadau mor wael ar wyneb y Bil. Mae'n debygol iawn y bydd y prawf yn cael ei ddehongli'n wael a'i gamddefnyddio, ac mae penderfyniadau'n aml yn dibynnu ar ystrydebau amrwd ynghylch person digartref cyffredin. Mae angen ailfeddwl yn llwyr am unrhyw brawf sy'n dal i esgor ar achosion llys 16 mlynedd yn ddiweddarach. Rwyf yn cynnig y dylid diwygio'r prawf fel mai'r cymharydd yw'r person digartref sy'n gallu ymdopi â bod yn ddigartref ar y stryd. Byddai hyn yn gwneud y prawf yn decach ac yn sicrhau bod y rhai nad ydynt yn gallu ymdopi â digartrefedd ar y stryd yn cael eu hystyried yn rhai ag angen blaenoriaethol am dai. Mae'n rhaid inni sicrhau bod y rhai sy'n agored i niwed yn cael y cymorth y maent yn ei haeddu.

This Bill must focus on social justice principles and not make it impossibly hard for those unfortunate enough to find themselves seeking to enter this statutory system. Thank you for your patience, Presiding Officer.

Rhaid i'r Bil ganolbwyntio ar egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol ac nid ei gwneud yn amhosibl o anodd i'r rhai sy'n ddigon anffodus i'w cael eu hunain yn ceisio dod yn rhan o'r system statudol hon. Diolch ichi am eich amynedd, Lywydd.

17:53

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Mark Isherwood.

Galwaf ar Mark Isherwood.

17:53

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I stand to speak to amendments 10A and 355, each of which would have the effect of changing the wording in the Bill from a person

Rwyf yn sefyll i siarad am welliannau 10A a 355; effaith y naill a'r llall fyddai newid y geiriad yn y Bil o berson

'who is vulnerable as a result of some special reason (for example: old age, physical or mental illness or physical or mental disability)'

'sy'n hyglwyf o ganlyniad i reswm arbennig (er enghraifft: henaint, salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd corfforol neu feddyliol)'

to a person

i berson

‘who is vulnerable as a result of some special reason (for example: old age, physical or mental illness or physical or learning disability)’.

‘sy'n hyglwyf o ganlyniad i reswm arbennig (er enghraifft: henaint, salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd corfforol neu anabledd dysgu)'.

In evidence to the committee, a number of respondents commented on the omission at that stage of mental illness or mental health from the examples in section 70(1)(c)(i) of why a person may be vulnerable for some special reason, and Tai Pawb added that such a reference should be included along with ‘learning difficulty’ or ‘disability’.

Mewn tystiolaeth i'r pwyllgor, gwnaeth nifer o ymatebwyr sylw am hepgor salwch meddwl neu iechyd meddwl yn y cyfnod hwnnw o'r enghreifftiau yn adran 70(1)(c)(i) ynghylch pam y gall person fod yn agored i niwed am reswm arbennig, ac ychwanegodd Tai Pawb y dylid cynnwys cyfeiriad o'r fath ynghyd ag 'anhawster dysgu' neu 'anabledd'.

Recommendation 20 of the committees report says that the Minister amends the section of the Bill

Mae argymhelliad 20 adroddiad y pwyllgor yn dweud bod y Gweinidog yn diwygio'r rhan o'r Bil

‘to include reference to physical or mental illness, and learning disability.’

i gynnwys cyfeiriad at salwch corfforol neu feddyliol, ac anabledd dysgu.

I understand that, legally, the term ‘learning difficulty’ could be difficult, although it is the term adopted by most people in Wales who have a learning disability. The key point here, however, is that ‘mental illness’ and ‘learning disability’ are entirely different things. To have a learning disability is not to be ill, and disabled communities and disability representative organisations have fought long and hard to establish that distinction. That distinction has been accepted by both the Welsh Government and the Assembly in their adoption of the social model, as opposed to the medical model, of disability, and therefore, technically, this is a technical amendment. I hope that we can secure support for it, on the grounds that it is a technical correction, it brings this into line with the social model of disability adopted by the Assembly and Government and it will avoid causing offence to people who have a learning disability who are not ill and know it. Thank you.

Rwyf yn deall, yn ôl y gyfraith, y gallai'r term 'anhawster dysgu' fod yn anodd, er mai dyma’r term a fabwysiadwyd gan y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru sydd ag anabledd dysgu. Y pwynt allweddol yma, fodd bynnag, yw bod 'salwch meddwl' ac 'anabledd dysgu' yn bethau cwbl wahanol. Nid yw bod ag anabledd dysgu yn golygu bod yn sâl, ac mae cymunedau anabl a sefydliadau cynrychioli anableddau wedi ymladd yn hir ac yn galed i sefydlu’r gwahaniaeth hwnnw. Mae’r gwahaniaeth hwnnw wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad wrth fabwysiadu’r model cymdeithasol, yn hytrach na'r model meddygol, o anabledd, ac felly, yn dechnegol, mae hwn yn welliant technegol. Rwyf yn gobeithio y gallwn sicrhau cefnogaeth iddo, ar y sail ei fod yn gywiriad technegol, ei fod yn dod â hyn yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd a fabwysiadwyd gan y Cynulliad a'r Llywodraeth ac y bydd yn osgoi peri tramgwydd i bobl sydd ag anabledd dysgu nad ydynt yn sâl ac sy’n gwybod hynny. Thank you. Diolch yn fawr.

17:55 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is, actually, quite a crucial group of amendments, because it goes to the heart of the homelessness issue in terms of defining vulnerability and priority need. I am going to speak to my amendments in this group, which are amendments 28 and 29.

Mae hwn, mewn gwirionedd, yn grŵp eithaf allweddol o welliannau, gan ei fod yn mynd at wraidd y mater ynglŷn â digartrefedd o ran diffinio agored i niwed ac angen blaenoriaethol. Rwyf am siarad am y gwelliannau yn y grŵp hwn, sef gwelliannau 28 a 29.

However, before I do that, I want to give my support to those amendments tabled by Jocelyn Davies. I think that it is very important that we get the definition of vulnerability right. There was quite some discussion in committee about what that definition should be. The amendment that Jocelyn has tabled, which was suggested by Shelter Cymru, is a very good one. It certainly goes some way toward giving some certainty to local authorities in terms of how they should be defining vulnerability, and, for that reason, we will be happy to support it.

Fodd bynnag, cyn imi wneud hynny, rwyf am roi fy nghefnogaeth i’r gwelliannau hynny a gyflwynwyd gan Jocelyn Davies. Rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod yn sicrhau bod y diffiniad o agored i niwed yn iawn. Cafwyd cryn dipyn o drafodaeth yn y pwyllgor am yr hyn y dylai’r diffiniad hwnnw fod. Mae'r gwelliant y mae Jocelyn wedi’i gyflwyno, a awgrymwyd gan Shelter Cymru, yn un da iawn. Mae'n sicr yn mynd beth o'r ffordd tuag at roi rhywfaint o sicrwydd i awdurdodau lleol o ran sut y dylent fod yn diffinio agored i niwed, ac, am y rheswm hwnnw, byddwn yn hapus i'w gefnogi.

Unfortunately, I think that Mark Isherwood's technical amendment is slightly more than a technical amendment—it is more of a philosophical change. However, more importantly, because this definition of vulnerability is about allocating resources to those in most need, if you like, I think that if you started to widen it out in the way that Mark has put down, you would have great difficulty in sustaining that particular definition. So, for that reason, we will not be supporting amendments 10A and 355.

Yn anffodus, credaf fod gwelliant technegol Mark Isherwood ychydig yn fwy na gwelliant technegol—mae'n fwy o newid athronyddol. Fodd bynnag, yn bwysicach na hynny, gan fod y diffiniad hwn o agored i niwed yn ymwneud â dyrannu adnoddau i'r rhai sydd fwyaf mewn angen, os mynnwch, credaf y byddech, o ddechrau ei ehangu yn y ffordd y mae Mark wedi ei chyflwyno, yn ei chael yn anodd iawn cynnal y diffiniad penodol hwnnw. Felly, am y rheswm hwnnw, ni fyddwn yn cefnogi gwelliannau 10A a 355.

The other aspect of Jocelyn's amendment is equally crucial and relates to my amendments in this particular section. The Pereira test, as Jocelyn said, is a controversial one that has been largely defined by legal precedent in the courts. As Jocelyn outlined, it effectively tests someone's vulnerability against other people in the same group. So, someone who is homeless would be considered to be vulnerable only if they are more vulnerable than other homeless people. That could be quite a problem, particularly when you think that over 80% of homeless people will have a mental health or substance misuse issue. By any normal definition, therefore, they would be considered to be homeless. However, when you start comparing within that cohort, the test of vulnerability becomes quite harsh. I think that Jocelyn's solution is a good one, and one worth supporting.

Mae'r agwedd arall ar welliant Jocelyn yr un mor hanfodol ac mae'n ymwneud â'm gwelliannau innau yn yr adran arbennig hon. Mae prawf Pereira, fel y dywedodd Jocelyn, yn un dadleuol sydd wedi cael ei ddiffinio i raddau helaeth gan gynsail cyfreithiol yn y llysoedd. Fel yr amlinellodd Jocelyn, mae i bob pwrpas yn profi natur agored i niwed rhywun yn erbyn pobl eraill yn yr un grŵp. Felly, byddai rhywun sy'n ddigartref yn cael ei ystyried yn agored i niwed dim ond os yw'n fwy agored i niwed na phobl ddigartref eraill. Gallai hynny fod yn dipyn o broblem, yn enwedig pan feddyliwch fod gan dros 80% o bobl ddigartref broblem iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau. Yn ôl unrhyw ddiffiniad arferol, felly, byddent yn cael eu hystyried yn ddigartref. Fodd bynnag, pan ddechreuwch gymharu o fewn y garfan honno, mae'r prawf ar gyfer bod yn agored i niwed yn troi'n eithaf llym. Rwyf yn credu bod ateb Jocelyn yn un da, ac yn un sy'n werth ei gefnogi.

That test, of course, comes into question when you look at the Minister's change to the priority group order, particularly in relation to ex-prisoners. What the Minister has changed the existing categories in the Bill to say is that a prisoner who presents themselves as homeless will be assessed by a local authority in relation to the vulnerability of other ex-prisoners. Again, prisoners have a very high instance of either mental health or substance misuse issues, and, therefore, the test of vulnerability applied to an ex-prisoner is very high indeed.

Mae'r prawf hwnnw, wrth gwrs, yn codi amheuaeth pan fyddwch yn edrych ar newid y Gweinidog i drefn y grŵp blaenoriaethol, yn enwedig mewn perthynas â chyn-garcharorion. Yr hyn y mae'r Gweinidog wedi newid y categorïau sydd eisoes yn y Bil i'w ddweud yw y bydd carcharor sy'n ei gyflwyno'i hun yn ddigartref yn cael ei asesu gan awdurdod lleol mewn perthynas â natur agored i niwed cyn-garcharorion eraill. Unwaith eto, mae nifer uchel iawn o achosion naill ai o broblemau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau ymhlith carcharorion, ac, felly, mae'r prawf ar gyfer bod yn agored i niwed o'i gymhwyso i gyn-garcharor yn uchel iawn yn wir.

Given that the Minister admitted at the end of the debate on this issue last week that the mechanisms for rehabilitating prisoners are still a very substantial work in process—in fact, I do not think that we have ever got this right, because the levels of reoffending are increasing and are doing so at a time when prisons are overcrowded, and sending those prisoners back to prison effectively creates an ever-increasing circle—it seems to me that we have to ensure that the priority need in relation to ex-prisoners is right. My concern is that the way that the Bill is amended, because of the application of the Pereira test and the problem with rehabilitation, will effectively mean that most ex-prisoners will not be rehoused and that, as a result, they will end up reoffending.

Ac ystyried bod y Gweinidog wedi derbyn ar ddiwedd y ddadl ar y mater hwn yr wythnos diwethaf fod y mecanweithiau ar gyfer adsefydlu carcharorion yn dal i fod yn waith ar y gweill i raddau helaeth iawn—a dweud y gwir, nid wyf yn meddwl inni erioed gael hyn yn iawn, oherwydd mae'r lefelau aildroseddu'n cynyddu ac yn gwneud hynny ar adeg pan fo carchardai'n orlawn, ac mae anfon y carcharorion hynny yn ôl i'r carchar i bob pwrpas yn creu cylch sy'n cynyddu o hyd—mae'n ymddangos i mi fod yn rhaid inni sicrhau bod yr angen blaenoriaethol mewn perthynas â chyn-garcharorion yn iawn. Fy mhryder yw y bydd y ffordd y caiff y Bil ei ddiwygio, oherwydd bod y prawf Pereira'n cael ei ddefnyddio a'r broblem o ran adsefydlu, yn golygu i bob pwrpas na fydd y rhan fwyaf o gyn-garcharorion yn cael eu hailgartrefu ac, o ganlyniad, y byddant yn y pen draw yn aildroseddu .

I remember, rather nostalgically, a time when Ministers used to come to the Chamber and talk about evidence-based policies—they used to do it a lot. The evidence on this particular issue lies in a report that was commissioned by the Welsh Government in June 2008, called 'Necessary but not sufficient: housing and the reduction of re-offending'. One of the authors is a former adviser to the Minister. In section 2.1 of the report, it makes the very valid point that 75% of offenders most likely to reoffend were found to have a housing need, compared to 30% of the general offender population. It goes on to say that

Rwyf yn cofio, braidd yn hiraethus, adeg pan oedd Gweinidogion yn arfer dod i'r Siambr a siarad am bolisïau seiliedig ar dystiolaeth—roeddent yn arfer gwneud cryn dipyn o hynny. Mae'r dystiolaeth ar y mater penodol hwn mewn adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2008, 'Angenrheidiol ond nid yn ddigonol: tai a lleihau aildroseddu'. Mae un o'r awduron yn gyn gynghorydd i'r Gweinidog. Yn adran 2.1 o'r adroddiad, mae'n gwneud y pwynt dilys iawn y canfuwyd bod gan 75% o'r troseddwyr mwyaf tebygol o aildroseddu angen tai, o gymharu â 30% o boblogaeth gyffredinol troseddwyr. Mae'n mynd ymlaen i ddweud

'Securing appropriate accommodation has long been one of the main problems associated with leaving prison as well as a central focus of resettlement work. Research published by the Home Office in 2001, and cited in the Social Exclusion Unit report, noted that around one-third of prisoners do not have a settled home prior to going into prison and around one-third will lose their home during their sentence, making the resettlement role a significant and challenging one. If an offender/ex-offender lacks a suitable place to live, it is more difficult for them to get and keep a job or to engage effectively with any other interventions in relation to their needs. Accommodation is therefore identified as a necessary, but not sufficient, condition for the reduction of re-offending.'

'Ers amser maith, bu sicrhau llety addas yn un o'r prif broblemau sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r carchar yn ogystal â ffocws canolog i waith adsefydlu. Nododd ymchwil a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref yn 2001, a grybwyllir yn adroddiad yr Uned Eithrio Cymdeithasol, nad oes gan draean o garcharorion gartref sefydlog cyn mynd i'r carchar, ac y bydd rhyw draean yn colli eu cartref yn ystod eu carchariad, sydd yn gwneud y swyddogaeth adsefydlu yn un bwysig ac anodd. Os nad oes gan droseddwyr/cyn-droseddwyr le addas i fyw ynddo, mae'n fwy anodd iddynt gael swydd a'i chadw neu ymateb yn effeithiol i unrhyw ymyriad arall mewn perthynas â'u hanghenion. Mae llety, gan hynny, yn cael ei nodi fel amod angenrheidiol, ond nid yn un ddigonol, ar gyfer lleihau aildroseddu.'

In other words, the base of any rehabilitation programme should be sufficient accommodation, but a lot more needs to be done as well. The Minister is working a number of groups in trying to do that extra bit to make that rehabilitation effective, but if you do not have rehousing as part of that and if a prisoner comes out of prison and finds himself homeless, all the other work that you do will go down the drain, and the ex-prisoner will probably reoffend and end up in prison. That is what the evidence says. It is important that we legislate on the basis of that evidence.

Mewn geiriau eraill, dylai llety digonol fod yn sail i unrhyw raglen adsefydlu, ond mae angen gwneud llawer mwy hefyd. Mae'r Gweinidog yn gweithio â nifer o grwpiau i geisio gwneud yr ychydig ychwanegol i wneud yr adsefydlu'n effeithiol, ond os nad yw ailgartrefu'n rhan o hynny, ac os yw carcharor yn dod allan o'r carchar ac yn ei gael ei hun yn ddigartref, bydd yr holl waith arall a wnewch yn mynd i lawr y draen, a bydd y cyn-garcharor yn ôl pob tebyg yn aildroseddu ac yn mynd yn ôl i'r carchar. Dyna'r hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud. Mae'n bwysig ein bod yn deddfu ar sail y dystiolaeth honno.

My concern is that the way that the Housing Bill amends this particular priority need is adding to the problem of reoffending. It will increase reoffending and it will lead to a poorer rehabilitation rate. For that reason, I am hopeful that the Minister will support my amendments 28 and 29, which will restore the priority need to that which was passed in the 2001 Order, which I brought before the Assembly as a Deputy Minister. I think that it is essential that we get this right. If we do not get it right, we will find the reoffending rates rising even further. I am concerned that even the Minister does not have confidence at this stage that we have got it right. Therefore, I hope that we can support those amendments.

Fy mhryder yw bod y ffordd y mae'r Bil Tai yn diwygio'r angen blaenoriaethol penodol hwn yn ychwanegu at broblem aildroseddu. Bydd yn cynyddu aildroseddu ac yn arwain at gyfradd adsefydlu waeth. Am y rheswm hwnnw, rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn cefnogi fy ngwelliannau 28 a 29, a fydd yn adfer yr angen blaenoriaethol i'r hyn a basiwyd yng Ngorchymyn 2001, y deuthum ag ef gerbron y Cynulliad fel Dirprwy Weinidog. Credaf ei bod yn hollbwysig ein bod yn gwneud hyn yn iawn. Os na fyddwn yn ei wneud yn iawn, byddwn yn gweld y cyfraddau aildroseddu'n codi hyd yn oed ymhellach. Rwyf yn pryderu nad oes gan hyd yn oed y Gweinidog hyder ar hyn o bryd ein bod wedi ei wneud yn iawn. Felly, rwyf yn gobeithio y gallwn gefnogi'r gwelliannau hynny.

18:02

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank colleagues for their contributions. First, I will speak to my amendments in this group. Amendment 426 is to ensure the application of the definitions in section 70 applies to the whole of chapter 2. We will shortly be discussing, in group 35, amendments 428, 430 and 431 to section 75, relating to looked after children. My other amendments are largely technical and would ensure consistency across the Bill.

Diolch i'm cydweithwyr am eu cyfraniadau. Yn gyntaf, rwyf am siarad am fy ngwelliannau yn y grŵp hwn. Diben gwelliant 426 yw sicrhau bod cymhwyso'r diffiniadau yn adran 70 yn berthnasol i bennod 2 i gyd. Byddwn yn trafod cyn hir, yn grŵp 35, welliannau 428, 430 a 431 i adran 75, sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal. Mae fy ngwelliannau eraill yn dechnegol i raddau helaeth ac yn sicrhau cysondeb ar draws y Bil.

I will now pick up on issues that Members have raised. I thank Jocelyn Davies for her amendments today. Amendment 10 proposes a small change to the wording of section 70, which I think seeks to clarify that the groups referred to are only examples and that this is not an exhaustive list. We share Jocelyn's aim, but I consider that our wording is clearer on this point and, therefore, will not be supporting her amendment.

Rwyf yn awr am gyfeirio at faterion y mae'r Aelodau wedi'u codi. Diolch i Jocelyn Davies am ei gwelliannau heddiw. Mae gwelliant 10 yn cynnig newid bach i eiriad adran 70, sydd rwyf yn meddwl yn ceisio egluro bod y grwpiau y cyfeirir atynt yn enghreifftiau yn unig ac nad yw hon yn rhestr gyflawn. Rydym yn rhannu nod Jocelyn, ond rwyf o'r farn bod ein geiriad ni'n gliriach ar y pwynt hwn ac, felly, ni fyddwn yn cefnogi ei gwelliant.

Jocelyn Davies spoke passionately in her contribution regarding these amendments. I have listened in Stage 2 and at this Stage of the Bill, and I understand Jocelyn's commitment to stronger duties towards young persons. However, I am not in a position to accept amendments 11, 12, 13 or 14, as I believe that the right balance must be struck between the rights of the applicant and the duties and the burdens that we place on local authorities. Extending priority need to those under 21 and for all care leavers up to 25 could place a substantial additional burden, of an unknown quantum, on local authorities at this point. However, I am sympathetic to her approach in the proposed amendments, and we will revisit this priority need category at a later date, once our Bill is fully implemented with the support of this Assembly and we are able to assess fully the impact on these vulnerable groups. There is a power to amend or repeal provisions around the need in section 72, which we will be prepared to do if the case for change is clear.

Siaradodd Jocelyn Davies yn angerddol yn ei chyfraniad am y gwelliannau hyn. Rwyf wedi gwrando yng Nghyfnod 2 ac yn y Cyfnod hwn o'r Bil, ac rwyf yn deall ymrwymiad Jocelyn i ddyletswyddau cryfach tuag at bobl ifanc. Fodd bynnag, nid wyf mewn sefyllfa i dderbyn gwelliannau 11, 12, 13 nac 14, gan fy mod yn credu bod yn rhaid sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng hawliau'r ymgeisydd a'r dyletswyddau a'r beichiau a roddwn ar awdurdodau lleol. Gallai estyn angen blaenoriaethol i'r rhai o dan 21 ac i bawb sy'n gadael gofal hyd at 25 roi baich ychwanegol sylweddol, ar raddfa anhysbys, ar awdurdodau lleol ar yr adeg hon. Fodd bynnag, rwyf yn cydymdeimlo â'i hymagwedd yn y gwelliannau arfaethedig, a byddwn yn ailystyried y categori angen blaenoriaethol yn ddiweddarach, unwaith y bydd ein Bil wedi'i weithredu'n llawn gyda chefnogaeth y Cynulliad hwn ac unwaith y gallwn asesu'n llawn yr effaith ar y grwpiau hyn sy'n agored i niwed. Mae grym i ddiwygio neu ddiddymu darpariaethau ynghylch yr angen yn adran 72, a byddwn yn barod i wneud hynny os yw'r achos dros newid yn glir.

In addition to our amendments in group 35, I will respond to Jocelyn's wish to provide further protection for young people in priority need who have become intentionally homeless, by giving them a further chance. Although I will not be supporting amendment 10, I wish to address Mark Isherwood's amendment 10A. We are satisfied with the terms that we use in the Bill, and we will not be seeking to support Mark on this occasion.

Yn ychwanegol at ein gwelliannau yn grŵp 35, byddaf yn ymateb i ddymuniad Jocelyn i ddarparu amddiffyniad pellach i bobl ifanc mewn angen blaenoriaethol sy'n ddigartref yn fwriadol, drwy roi cyfle arall iddynt. Er na fyddaf yn cefnogi gwelliant 10, rwyf yn dymuno rhoi sylw i welliant 10A Mark Isherwood. Rydym yn fodlon â'r termau a ddefnyddiwn yn y Bil, ac ni fyddwn yn cefnogi Mark ar yr achlysur hwn.

I will now to turn to what is quite a large section of amendments. Peter Black's contribution has been consistent through all stages, including the evidence stages with regard to prisoners. However, he made many assumptions this afternoon about increased reoffending rates, burglary and crime. These are all assumptions made by the Member and he has not convinced me regarding the detail of the proposals for the changes that we intend to make in relation to this Bill.

Trof yn awr at yr hyn sy'n adran eithaf mawr o welliannau. Mae cyfraniad Peter Black wedi bod yn gyson trwy bob cyfnod, gan gynnwys y cyfnod tystiolaeth mewn perthynas â charcharorion. Fodd bynnag, gwnaeth lawer o dybiaethau y prynhawn yma am gynyddu cyfraddau aildroseddu, bwrgleriaeth a throseddau. Mae'r rhain i gyd yn dybiaethau a wnaed gan yr Aelod ac nid yw wedi fy argyhoeddi ynghylch manylion y cynigion ar gyfer y newidiadau yr ydym yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â'r Bil hwn.

In relation to amendments 28 and 29 regarding former prisoners, I understand the concerns voiced by many Members about the need to prevent vulnerable prisoners from becoming homeless. However, I firmly believe that we should not give a person access to services that are for vulnerable groups by virtue of their being a former offender. The needs of vulnerable persons are being met and considered through this Bill, and we will include former prisoners who are vulnerable, for the very special reason that we have the Pereira case presented on the face of the Bill. Of course, Peter also makes reference to the system not working. I absolutely agree with the Member. The Member was the Deputy Minister for housing, and I do not think that much has changed with regard to making the process work. I have made a significant investment and brought together a team of people who are committed to ensuring that vulnerability is tested at the appropriate level, ensuring that ex-offenders who are leaving institutions are given the right advice and the right pathway to support them in their community. The current state of affairs does not work, but we will make, and are committed to making, that change.

O ran gwelliannau 28 a 29 ynghylch cyn-garcharorion, rwyf yn deall y pryderon a leisiwyd gan nifer o Aelodau am yr angen i atal carcharorion agored i niwed rhag bod yn ddigartref. Fodd bynnag, rwyf yn credu'n gryf na ddylem gynnig gwasanaethau ar gyfer grwpiau agored i niwed i rywun oherwydd ei fod yn gyn-droseddwr. Mae anghenion pobl sy'n agored i niwed yn cael eu bodloni a'u hystyried drwy'r Bil hwn, a byddwn yn cynnwys cyn-garcharorion sy'n agored i niwed, am y rheswm arbennig iawn fod achos Pereira wedi'i gyflwyno ar wyneb y Bil. Wrth gwrs, mae Peter hefyd yn dweud nad yw'r system yn gweithio. Cytunaf yn llwyr â'r Aelod. Yr Aelod oedd y Dirprwy Weinidog tai, ac nid wyf yn credu bod llawer wedi newid o ran gwneud i'r broses weithio. Rwyf wedi gwneud buddsoddiad sylweddol ac wedi dod â thîm o bobl ynghyd sydd wedi ymrwymo i sicrhau bod bod yn agored i niwed yn cael ei brofi ar y lefel briodol, gan sicrhau bod cyn-droseddwyr sy'n gadael sefydliadau yn cael y cyngor cywir a'r llwybr iawn i'w cefnogi yn eu cymuned. Nid yw'r sefyllfa sydd ohoni'n gweithio, ond byddwn yn gwneud, ac rydym yn ymroddedig i wneud, y newid hwnnw.

Amendment 15 would introduce a new formula to this test without resolving the complexity and uncertainty. Therefore, once again, I cannot support this amendment.

Byddai gwelliant 15 yn cyflwyno fformiwla newydd i'r prawf hwn heb ddatrys y cymhlethdod a'r ansicrwydd. Felly, unwaith eto, ni allaf gefnogi'r gwelliant hwn.

Finally, we have considered further how section 71 works, and I had intended to table my own amendment to remove the definition of 'ordinary homeless person'—unfortunately, for a different reason, I believe, to the Member's reason for seeking to amend the Bill. Therefore, I will be supporting amendment 16 in the name of Jocelyn Davies. We will address this in detail in the code of guidance, which is being developed by the working group that is currently looking at vulnerability and ex-offenders as part of the process.

Yn olaf, rydym wedi ystyried ymhellach sut y mae adran 71 yn gweithio, ac roeddwn wedi bwriadu cyflwyno fy ngwelliant fy hunan i gael gwared ar y diffiniad o 'berson digartref cyffredin'—yn anffodus, am reswm gwahanol, rwyf yn credu, i reswm yr Aelod dros geisio newid y Bil. Felly, byddaf yn cefnogi gwelliant 16 yn enw Jocelyn Davies. Byddwn yn ymdrin â hyn yn fanwl yn y cod canllawiau, sy'n cael ei ddatblygu gan y gweithgor sydd ar hyn o bryd yn edrych ar fod yn agored i niwed a chyn-droseddwyr fel rhan o'r broses.

18:07

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Jocelyn Davies to reply to the debate.

Galwaf ar Jocelyn Davies i ymateb i'r ddadl.

18:07

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I am grateful to Mark Isherwood for recognising the need to include in amendment 10 'or other special reason' in the definition, and I am pleased to have Peter Black's support for my amendments. I should also recognise Shelter Cymru's contribution to the development of the amendment on the definition of 'vulnerability'. Of course, Peter clearly demonstrated the unfairness of the Pereira test as it might be applied to former prisoners. I agree with him that the evidence cited in supporting the removal of help from former prisoners does not seem to support the change, when you read the document. I certainly will be supporting Peter Black's amendments.

Diolch ichi, Lywydd. Rwyf yn ddiolchgar i Mark Isherwood am gydnabod yr angen i gynnwys yng ngwelliant 10 'neu reswm arbennig arall' yn y diffiniad, ac rwyf yn falch o gael cefnogaeth Peter Black i'm gwelliannau. Dylwn hefyd gydnabod cyfraniad Shelter Cymru i ddatblygu'r gwelliant ar ddiffiniad 'agored i niwed'. Wrth gwrs, dangosodd Peter yn glir annhegwch y prawf Pereira fel y gellid ei gymhwyso i gyn-garcharorion. Rwyf yn cytuno ag ef nad yw'r dystiolaeth a ddyfynnir i gefnogi tynnu cymorth oddi wrth gyn-garcharorion fel petai'n cefnogi'r newid, pan ddarllenwch y ddogfen. Byddaf yn sicr yn cefnogi gwelliannau Peter Black.

I am very pleased that the Minister shares my aims, but I think that, today, for the majority of my amendments, sharing my aims is going to have to be enough for me, I suppose. I am pleased, though, that the Minister has agreed to revisit the priority need groups. The Minister, and Members, know my view on his approach to former prisoners, and neither of us is persuading the other, so we had just as well leave it there. Neither of us will move on this, so we should move to the vote.

Rwyf yn falch iawn fod y Gweinidog yn rhannu fy nodau, ond credaf, heddiw, ar gyfer y rhan fwyaf o'm gwelliannau, y bydd yn rhaid i rannu fy nodau fod yn ddigon imi, mae'n debyg. Rwyf yn falch, fodd bynnag, fod y Gweinidog wedi cytuno i edrych eto ar y grwpiau angen blaenoriaethol. Mae'r Gweinidog, a'r Aelodau, yn gwybod beth yw fy marn am ei ymagwedd tuag at gyn-garcharorion, ac nid oes yr un ohonom yn darbwyllo'r llall, felly cystal i ni ei adael yno. Nid yw'r naill na'r llall am symud ar hyn, felly dylem symud at y bleidlais.

18:08

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As there is an amendment to amendment 10, we will dispose of that first. I call on Mark Isherwood to move amendment 10A.

Gan fod gwelliant i welliant 10, ymdriniwn â hynny'n gyntaf. Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliant 10A.

18:08

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 10A in my name.

Cynigiaf welliant 10A yn fy enw i.

18:08

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 10A be agreed to. Does any Member object? There is objection. Therefore, we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 10A. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, symudwn at bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 10A.

Result of the vote on amendment 10A.

*Gwrthodwyd gwelliant 10A: O blaid 11, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 10A not agreed: For 11, Against 39, Abstain 0.*

18:09

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to dispose of amendment 10. If amendment 10 is agreed, amendment 355 falls. The question is that amendment 10 be agreed to. Does any Member object? There is objection. Therefore, we will move to a vote.

Symudwn yn awr at waredu gwelliant 10. Os derbynnir gwelliant 10, mae gwelliant 355 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 10. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, symudwn at bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 10.

Result of the vote on amendment 10.

*Gwrthodwyd gwelliant 10: O blaid 14, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

*Amendment 10 not agreed: For 14, Against 36, Abstain 0.*

18:09

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Mark Isherwood to move amendment 355.

Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliant 355.

18:09

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 355 in my name.

Cynigiaf welliant 355 yn fy enw i.

18:09

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 355 be agreed to. Does any Member object? There is objection. Therefore, we will move to a vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 355. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, symudwn at bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 355.

Result of the vote on amendment 355.

*Gwrthodwyd gwelliant 355: O blaid 11, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 355 not agreed: For 11, Against 39, Abstain 0.*

18:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 250.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 250.

18:09 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 250 in my name.

Cynigiaf welliant 250 yn fy enw i.

18:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 250 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 250 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 250. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 250 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 250 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 250 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 251.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 251.

18:10 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 251 in my name.

Cynigiaf welliant 251 yn fy enw i.

18:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 251 is agreed, amendment 11 falls.

Os derbynnir gwelliant 251, mae gwelliant 11 yn methu.

The question is that amendment 251 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 251 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 251. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 251 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 251 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 251 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Methodd gwelliant 11.*

*Amendment 11 fell.*

18:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 252.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 252.

18:10 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 252 in my name.

Cynigiaf welliant 252 yn fy enw i.

18:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 252 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 252 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 252. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 252 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 252 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 252 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Jocelyn Davies to move amendment 12.

Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 12.

18:10 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 12 in my name.

Cynigiaf welliant 12 yn fy enw i.

18:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

If amendment 12 is agreed, amendment 253 falls.

Os derbynnir gwelliant 12, mae gwelliant 253 yn methu.

The question is that amendment 12 be agreed to. Are there any objections? There is objection, therefore we will move to a vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 12. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 12.

Result of the vote on amendment 12.

*Gwrthodwyd gwelliant 12: O blaid 25, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment 12 not agreed: For 25, Against 25, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

18:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 253.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 253.

18:11 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 253 in my name.

Cynigiaf welliant 253 yn fy enw i.

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 253 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 253 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 253. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 253 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 253 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 253 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on Jocelyn Davies to move amendment 13.

Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 13.

18:11 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 13 in my name.

Cynigiaf welliant 13 yn fy enw i.

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 13 be agreed to. Are there any objections? There is objection, therefore we will move to a vote.

Y cwestiwn yw a ddylid erbyn gwelliant 13. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 13.

Result of the vote on amendment 13.

*Gwrthodwyd gwelliant 13: O blaid 24, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment 13 not agreed: For 24, Against 26, Abstain 0.*

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on Jocelyn Davies to move amendment 14.

Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 14.

18:11 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 14 in my name.

Cynigiaf welliant 14 yn fy enw i.

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 14 be agreed to. Are there any objections? There is objection, therefore we will move to a vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 14. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais

Canlyniad y bleidlais ar welliant 14.

Result of the vote on amendment 14.

*Gwrthodwyd gwelliant 14: O blaid 25, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment 14 not agreed: For 25, Against 25, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 254.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 254.

18:11 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 254 in my name.

Cynigiaf welliant 254 yn fy enw i.

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 254 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 254 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 254. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 254 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 254 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 254 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 255.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 255.

18:12 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 255 in my name.

Cynigiaf welliant 255 yn fy enw i.

18:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 255 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 255 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 255. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 255 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 255 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 255 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Peter Black to move amendment 28.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 28.

18:12 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 28 in my name.

Cynigiaf welliant 28 yn fy enw i.

18:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 28 is not agreed, amendment 29 falls.

Os na dderbynnir gwelliant 28, mae gwelliant 29 yn methu.

The question is that amendment 28 be agreed to. Are there any objections? There is objection, therefore we will move to a vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 28. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 28. | Result of the vote on amendment 28.

*Gwrthodwyd gwelliant 28: O blaid 25, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment 28 not agreed: For 25, Against 25, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

18:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 256.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 256.

18:12 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 256 in my name.

Cynigiaf welliant 256 yn fy enw i.

18:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 256 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 256 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 256. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 256 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 256 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 256 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 426.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 426.

18:12 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 426 in my name.

Cynigiaf welliant 426 yn fy enw i.

18:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 426 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 426 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 426. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 426 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 426 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 426 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Methodd gwelliant 29.*

*Amendment 29 fell.*

18:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 257.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 257.

18:13 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 257 in my name.

Cynigiaf welliant 257 yn fy enw i.

18:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

If amendment 257 is not agreed, amendment 279 falls.

Os na dderbynnir gwelliant 257, mae gwelliant 279 yn methu.

The question is that amendment 257 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 257 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 257. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 257 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 257 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 257 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:13

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister to move amendment 258.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 258.

18:13

## Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 258 in my name.

Cynigiaf welliant 258 yn fy enw i.

18:13

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 258 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 258 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 258. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 258 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 258 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 258 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:13

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on Jocelyn Davies to move amendment 15.

Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 15.

18:13

## Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 15 in my name.

Cynigiaf welliant 15 yn fy enw i.

18:13

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 15 be agreed to. Are there any objections? There is objection, therefore we will move to a vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 15. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 15.](#)

[Result of the vote on amendment 15.](#)

*Gwrthodwyd gwelliant 15: O blaid 14, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

*Amendment 15 not agreed: For 14, Against 36, Abstain 0.*

18:13

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on Jocelyn Davies to move amendment 16.

Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 16.

18:13

## Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 16 in my name, supported by Carl Sargeant.

Cynigiaf welliant 16 yn fy enw i, gyda chefnogaeth Carl Sargeant.

18:13

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 16 be agreed to. Are there any objections? There is objection, therefore we will move to a vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 16. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 16.](#)

[Result of the vote on amendment 16.](#)

*Derbyniwyd gwelliant 16: O blaid 39, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Amendment 16 agreed: For 39, Against 11, Abstain 0.*

### Grŵp 34: Digartrefedd: Amgylchiadau pan fo Dyletswyddau Digartrefedd yn Dod i Ben (Gwelliannau 260, 261, 262 a 31)

### Group 34: Homelessness: Circumstances in which Homelessness Duties End (Amendments 260, 261, 262 and 31)

18:14

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 260. I call on the Minister to move amendment 260 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 260. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 260 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

18:14

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 260 in my name.

Cynigiaf welliant 260 yn fy enw i.

The Government amendment relates to notification that the 56-day duty to help to secure accommodation has begun. This clarifies this in the drafting. Peter Black's amendment refers to the discharge of the duty to secure by way of the private sector offering a change in the minimum period of assured shorthold tenancy from six months to 12 months. We will not be supporting Peter Black's amendment on this occasion.

Mae gwelliant y Llywodraeth yn ymwneud â hysbysiad bod y ddyletswydd 56 diwrnod i helpu i sicrhau llety wedi dechrau. Mae hyn yn egluro hyn yn y drafftio. Mae gwelliant Peter Black yn cyfeirio at gyflawni'r ddyletswydd i sicrhau drwy i'r sector preifat gynnig newid yng nghyfnod lleiaf tenantiaeth fyrddaliadol sicr o chwe mis i 12 mis. Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant Peter Black ar yr achlysur hwn.

18:15

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am standing to speak in favour of amendment 31, which is very much in line with one of the recommendations of the committee's report. The issue here is not to create a shorthold tenancy for 12 months, but to create a shorthold tenancy for 12 months for those who are discharged to a private rented sector tenancy as a result of being homeless.

Rwyf yn sefyll i siarad o blaid gwelliant 31, sydd yn unol ag un o argymhellion adroddiad y pwyllgor. Nid creu tenantiaeth fyrddaliad am 12 mis yw'r mater dan sylw yma, ond creu tenantiaeth fyrddaliad am 12 mis ar gyfer y rhai sy'n cael eu rhyddhau i denantiaeth sector rhentu preifat am eu bod yn ddigartref.

Members will know that the Bill creates an additional provision for local authorities to be able to discharge the homeless duty to the private rented sector. The argument is that, if the tenancy that is created as a result of that duty being discharged in that way is for six months, as is the standard length of a shorthold tenancy in Wales at the moment, it adds additional insecurity for the homeless person and effectively puts them in danger of re-presenting as homeless. It seems that we have already had a suggestion from Ed Miliband that we should move private rented sector shorthold tenancies to three years. This is a far more modest proposal by comparison. It is only talking about those tenancies where homeless people are rehoused. If you are to ensure that you have some security of tenure for someone who has presented as homeless and who is already insecure in their housing need, then it seems to me that you need to have that additional length of tenancy. It also adds to that. If you go for a 12-month tenancy, as opposed to a six-month tenancy, you are likely to have better-quality accommodation as well.

Bydd yr Aelodau'n gwybod bod y Bil yn creu darpariaeth ychwanegol i awdurdodau lleol i allu cyflawni'r ddyletswydd ddigartref i'r sector rhentu preifat. Y ddadl yw hyn—os yw'r denantiaeth sy'n cael ei chreu am i'r ddyletswydd honno gael ei chyflawni yn y ffordd hon am chwe mis, fel y mae hyd safonol tenantiaeth fyrddaliad yng Nghymru ar hyn o bryd, mae'n ychwanegu ansicrwydd ychwanegol i'r person digartref ac i bob pwrpas yn golygu bod perygl y bydd yn ei gyflwyno'i hun yn ddigartref eto. Mae'n ymddangos ein bod eisoes wedi cael awgrym gan Ed Miliband y dylem symud tenantiaethau byrddaliadol y sector rhentu preifat i dair blynedd. Mae hwn yn gynnig llawer mwy cymedrol mewn cymhariaeth. Nid yw ond yn sôn am y tenantiaethau hynny lle mae pobl ddigartref yn cael eu hailgartrefu. Os ydych am sicrhau eich bod yn cael rhywfaint o sicrwydd deiliadaeth i rywun sydd wedi'i gyflwyno'i hun yn ddigartref ac sydd eisoes yn ansicr yn ei angen am dai, yna mae'n ymddangos i mi fod angen ichi gael yr hyd ychwanegol hwnnw o denantiaeth. Mae hefyd yn ychwanegu at hynny. Os byddwch yn mynd am denantiaeth 12 mis, yn hytrach na thenantiaeth chwe mis, rydych yn debygol o gael llety o ansawdd gwell hefyd.

For those reasons, I hope that the Minister will reconsider his support for this amendment, which I think is absolutely crucial and puts us in line with what happens in England, where the current provision as part of legislation there is that someone who is put in a private rented sector tenancy as a result of presenting as homeless will go into a 12-month tenancy. Although the Minister made the point in committee that we want to be better than England, in this particular case, if we do not pass this amendment, we will actually be worse than England.

Am y rhesymau hynny, rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn ailystyried ei gefnogaeth i'r gwelliant hwn, sydd, yn fy marn i, yn hollol hanfodol ac yn ein rhoi yn yr un sefyllfa â'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, lle'r ddarpariaeth bresennol yn rhan o'r ddeddfwriaeth yno yw bod rhywun sy'n cael ei roi mewn tenantiaeth sector rhentu preifat o ganlyniad i'w gyflwyno'i hun yn ddigartref yn mynd i mewn i denantiaeth 12 mis. Er bod y Gweinidog wedi gwneud y pwynt yn y pwyllgor ein bod am fod yn well na Lloegr, yn yr achos penodol hwn, os na fyddwn yn pasio'r gwelliant hwn, byddwn mewn gwirionedd yn waeth na Lloegr.

18:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

18:17 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In terms of Peter Black's amendment, the decision to opt for a six-month tenancy as opposed to a 12-month tenancy was a decision that I did not take lightly. I decided on a six-month minimum period because of soundings that we have taken from the sector. We believe that it is unlikely that landlords would be willing to take homeless households for a longer minimum period than other households.

O ran gwelliant Peter Black, mae'r penderfyniad i ddewis tenantiaeth chwe mis yn hytrach na thenantiaeth 12 mis yn benderfyniad nad wyf wedi ei gymryd yn ysgafn. Penderfynais ar isafswm o chwe mis oherwydd tystiolaeth yr ydym wedi'i chymryd o'r sector. Rydym yn credu ei bod yn annhebygol y byddai landlordiaid yn barod i gymryd teuluoedd digartref am isafswm hirach nag aelwydydd eraill.

Of course, devolution gives us a great opportunity to deliver things that are better than England—opportunities like this housing Bill, which will give a very different outlook on dealing with homelessness prevention, as opposed to homelessness reaction, which is what still happens in England. The latest reports published in England confirm the difficulty that they have experienced in getting people rehoused with a 12-month tenancy in the private sector, which has confirmed our thoughts. Therefore, we do not seek to support Peter in this instance and we are not convinced by his argument. We would ask Members to support the Government amendments as listed in this group.

Wrth gwrs, mae datganoli'n gyfle gwych i gyflwyno pethau sy'n well na Lloegr—cyfleoedd fel y Bil tai hwn, a fydd yn rhoi golwg wahanol iawn ar ymdrin ag atal digartrefedd, yn hytrach nag ymateb i ddigartrefedd, sef yr hyn sy'n dal i ddigwydd yn Lloegr. Mae'r adroddiadau diweddaraf a gyhoeddwyd yn Lloegr yn cadarnhau'r anhawster y maent wedi ei gael o ran ailgartrefu pobl â thenantiaeth 12 mis yn y sector preifat, sydd wedi cadarnhau ein meddyliau. Felly, nid ydym am gefnogi Peter yn yr achos hwn ac nid yw ei ddadl wedi ein hargyhoeddi. Gofynnwn i'r Aelodau gefnogi gwelliannau'r Llywodraeth fel y'u rhestrir yn y grŵp hwn.

18:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 260 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 260 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 260 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 260 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 260 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 260 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 261.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 261.

18:18 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 261 in my name.

Cynigiaf welliant 261 yn fy enw i.

18:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 261 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 261 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 261 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 261 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 261 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 261 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 262.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 262.

18:18 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 262 in my name.

Cynigiaf welliant 262 yn fy enw i.

18:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 262 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 262 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 262 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 262 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 262 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 262 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 263.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 263.

18:18

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 263 in my name.

Cynigiaf welliant 263 yn fy enw i.

18:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 263 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 263 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 263 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 263 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 263 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 263 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 35: Digartrefedd: Dyletswydd i Sicrhau Llety ar gyfer Ceiswyr sydd mewn Angen Blaenoriaethol (Gwelliannau 427, 428, 429, 264, 430, 415, 431, 416, 417, 432, 30 a 32)

### Group 35: Homelessness: Duty to secure accommodation for applicants in priority need (Amendments 427, 428, 429, 264, 430, 415, 431, 416, 417, 432, 30 and 32)

18:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in this group is amendment 427. I call on the Minister to move amendment 427 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 427. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 427 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

18:19

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 427 in my name.

Cynigiaf welliant 427 yn fy enw i.

Thank you for the opportunity to move the amendments relating to the duty on local authorities to secure accommodation. I am grateful, again, for the contribution that Jocelyn Davies made at the committee, drawing my attention to the difficulties that young people who have been in the care system have in keeping a home. These amendments improve consistency across the Bill.

Diolch i chi am y cyfle i gynnig y gwelliannau sy'n ymwneud â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau llety. Rwy’n ddiolchgar, unwaith eto, am y cyfraniad a wnaeth Jocelyn Davies yn y pwyllgor, gan dynnu fy sylw at yr anawsterau y mae pobl ifanc sydd wedi bod yn y system gofal yn eu cael o ran cadw cartref. Mae'r gwelliannau hyn yn gwella cysondeb ar draws y Bil.

First, the amendments ensure that persons who pass a relevant birthday while their application for assistance is being assessed are not disadvantaged by a key decision point. Secondly, they will make provision in respect of the applicant’s household. This, too, is for consistency across the Bill, in particular with section 56, which states that it is not reasonable for a person to continue to occupy accommodation unless it is also available for their household.

Yn gyntaf, mae'r diwygiadau yn sicrhau nad yw pobl sy'n cael pen-blwydd perthnasol tra bod eu cais am gymorth yn cael ei asesu o dan anfantais oherwydd pwynt penderfynu allweddol. Yn ail, byddant yn gwneud darpariaeth ynglŷn ag aelwyd yr ymgeisydd. Mae hyn, hefyd, ar gyfer cysondeb ar draws y Bil, yn enwedig gydag adran 56, sy'n datgan nad yw'n rhesymol i berson barhau i feddiannu llety oni bai ei fod ar gael ar gyfer eu haelwyd hefyd.

I am also very interested in amendments 415 and 416 tabled by Jocelyn Davies in relation to the ages of young applicants who become intentionally homeless. I believe that young people do require additional support, and it is fair to say that young people make mistakes from time to time. Jocelyn's proposals extend the age range of the duty to secure accommodation when an authority is having regard to intentionality up to the age of 21 or 25 if they have been in the care system.

Mae gennyf hefyd ddiddordeb mawr yng ngwelliannau 415 a 416 a gyflwynwyd gan Jocelyn Davies ynglŷn ag oedran ymgeiswyr ifanc sy'n mynd yn ddigartref yn fwriadol. Rwy'n credu bod pobl ifanc angen cymorth ychwanegol, ac mae'n deg i ddweud bod pobl ifanc yn gwneud camgymeriadau o bryd i'w gilydd. Mae cynigion Jocelyn yn ymestyn ystod oedran y ddyletswydd i sicrhau llety pan fo awdurdod yn ystyried bwriadoldeb hyd at 21 oed neu 25 os ydynt wedi bod yn y system ofal.

May I move to amendment 30 tabled by Peter Black? The Bill is considering the improvement of current arrangements for intentionally homeless households, which is one of the prescribed groups. It provides for full rehousing duty with one offer of accommodation. I do not support Peter's amendment 30 in this case. Again, we have tried to listen carefully to evidence, certainly from local authorities, on dealing with intentionally homeless households, particularly intentionally homeless households with children. Therefore, we have been very clear on the proposals in the drafting of this Bill. I wish Members to support the Government amendments, and we will not be seeking to support the amendments in the names of Peter Black or Jocelyn Davies today.

A gaf fi symud ymlaen at welliant 30 a gyflwynwyd gan Peter Black? Mae'r Bil yn ystyried gwella'r trefniadau presennol ar gyfer aelwydydd digartref yn fwriadol, sy'n un o'r grwpiau a ragnodwyd. Mae'n darparu ar gyfer dyletswydd ailgartrefu lawn gydag un cynnig o lety. Nid wyf yn cefnogi gwelliant 30 Peter yn yr achos hwn. Unwaith eto, rydym wedi ceisio gwrando'n ofalus ar dystiolaeth, yn sicr gan awdurdodau lleol, ar ymdrin ag aelwydydd digartref yn fwriadol, yn enwedig aelwydydd digartref yn fwriadol gyda phlant. Felly, rydym wedi bod yn glir iawn ar y cynigion wrth ddrafftio'r Bil hwn. Hoffwn i'r Aelodau gefnogi gwelliannau'r Llywodraeth, ac ni fyddwn yn ceisio cefnogi'r gwelliannau yn enw Peter Black na Jocelyn Davies heddiw.

18:21

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, I would like to put on record my gratitude to Barnardo's for its efforts with these amendments. As we have already discussed, young people and particularly young care leavers deserve additional housing support, and amendments 415 and 416 extend the provision within the Housing (Wales) Bill that has the effect of requiring local authorities to disregard the intentionality test for prescribed groups to all young people under 21 and care leavers up to 25. I am pleased that the Government has now tabled its own amendments that will achieve this, and I will be supporting amendments 430 and 431. I am glad to see that the Government has taken on board my suggestion to improve the Bill for vulnerable young people. Disregarding intentionality will provide an additional safety net to prevent homelessness. I will, therefore, not be moving amendments 415 and 416.

Unwaith eto, hoffwn gofnodi fy niolch i Barnardo's am ei ymdrechion gyda'r gwelliannau hyn. Fel yr ydym eisoes wedi trafod, mae pobl ifanc ac yn arbennig pobl ifanc sy'n gadael gofal yn haeddu cefnogaeth tai ychwanegol, ac mae gwelliannau 415 a 416 yn ymestyn y ddarpariaeth o fewn y Bil Tai (Cymru) sy'n cael yr effaith o'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddiystyried y prawf bwriad ar gyfer grwpiau penodedig i holl bobl ifanc o dan 21 a rhai sy'n gadael gofal hyd at 25 oed. Rwy'n falch bod y Llywodraeth bellach wedi cyflwyno ei gwelliannau ei hun a fydd yn cyflawni hyn, a byddaf yn cefnogi gwelliannau 430 a 431. Rwy'n falch o weld bod y Llywodraeth wedi derbyn fy awgrym i wella'r Bil i bobl ifanc sy'n agored i niwed. Bydd anwybyddu bwriadoldeb yn darparu rhwyd ddiogelwch ychwanegol i atal digartrefedd. Ni fyddaf, felly, yn cynnig gwelliannau 415 a 416.

Amendment 417 removes the provision within the Bill that means that the intentionality test will only be disregarded once in a five-year period. Pregnant women, families with dependent children and vulnerable young people who experience homelessness usually do so because of complex social needs and poverty. Repeat homelessness is usually evidence of hardship and unmet support needs, and we need a common-sense approach, I think, that recognises that exposing children and young people to the revolving door of homelessness benefits no-one at all. Of course, I have argued that having regard to intentionality should be removed from the Bill entirely. It is often an unhelpful provision that leaves homeless people cut off from sources of support and even less able to access the help that they need. However, while intentionality remains in the Bill, those who are most vulnerable should be exempt. We must ensure that no-one slips through the gaps in provision so I will be moving amendment 417 at the appropriate time.

Mae gwelliant 417 yn dileu'r ddarpariaeth yn y Bil sy'n golygu y bydd y prawf bwriad ond yn cael ei ddiystyru unwaith mewn cyfnod o bum mlynedd. Mae menywod beichiog, teuluoedd â phlant dibynnol a phobl ifanc agored i niwed sy'n profi digartrefedd fel arfer yn gwneud hynny oherwydd anghenion cymdeithasol cymhleth a thlodi. Mae digartrefedd mynych fel arfer yn dystiolaeth o galedi ac anghenion cymorth heb eu bodloni, ac mae angen ymagwedd synnwyr cyffredin arnom, rwy'n credu, sy'n cydnabod nad yw cyflwyno plant a phobl ifanc i ddrws troi digartrefedd o fudd i unrhyw un o gwbl. Wrth gwrs, rwyf wedi dadlau y dylai rhoi sylw i fwriadoldeb gael ei dynnu oddi ar y Bil yn gyfan gwbl. Mae'n aml yn ddarpariaeth annefnyddiol sy'n gadael pobl ddigartref wedi'u gwahanu oddi wrth ffynonellau o gefnogaeth a hyd yn oed yn llai abl i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt. Fodd bynnag, er bod bwriadoldeb yn parhau i fod yn y Bil, dylai'r rhai sydd fwyaf agored i niwed gael eu heithrio. Mae'n rhaid i ni sicrhau nad oes neb yn llithro drwy'r bylchau yn y ddarpariaeth felly byddaf yn cynnig gwelliant 417 ar yr adeg briodol.

18:23 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

May I also welcome the Minister’s change of heart in relation to the age issue? I very much support that, and I am happy to support those amendments as tabled by the Minister. I welcome Jocelyn Davies’s contribution towards that.

Efallai y byddaf hefyd yn croesawu newid meddwl y Gweinidog ynglŷn â'r mater oedran? Rwy’n cefnogi hynny’n bendant iawn, ac rwy’n hapus i gefnogi'r gwelliannau hynny fel y’u cyflwynwyd gan y Gweinidog. Croesawaf gyfraniad Jocelyn Davies tuag at hynny.

In relation to my amendments 30 and 32, amendment 30 is a recommendation of the Communities, Equality and Local Government Committee, which recommended that the Minister amend the Bill to give discretion to local housing authorities to make an offer of accommodation on more than one occasion in a five-year period, subject to appropriate support being provided. This amendment would allow for not more than two offers of accommodation. The reason the amendment has been tabled is because I think that any reasonable person would assume that there are circumstances in which someone who is intentionally homeless may well require an additional offer for circumstances beyond their control. I accept that the Minister does not accept that argument; no doubt, we will agree to disagree.

O ran fy ngwelliannau 30 a 32, mae gwelliant 30 yn un o argymhellion y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, a oedd yn argymell bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i roi disgresiwn i awdurdodau tai lleol i wneud cynnig o lety ar fwy nag un achlysur mewn cyfnod o bum mlynedd, ar yr amod bod cefnogaeth briodol yn cael ei darparu. Byddai'r gwelliant hwn yn caniatáu ar gyfer dim mwy na dau gynnig o lety. Y rheswm y mae’r gwelliant wedi'i gyflwyno yw oherwydd fy mod yn credu y byddai unrhyw berson rhesymol yn tybio y ceir amgylchiadau lle gall rhywun sy'n ddigartref yn fwriadol fod angen cynnig ychwanegol ar gyfer amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth. Rwy’n derbyn nad yw'r Gweinidog yn derbyn y ddadl honno; yn ddiau, byddwn yn cytuno i anghytuno.

Amendment 32, in my view, is an absolutely crucial amendment, because it relates to the power for local authorities to discharge their duty for homelessness to the private rented sector. In England, as a result of the Localism Act 2011, if local authorities take that option and if the person who is being rehoused becomes unintentionally homeless within two years, local authorities do have their duty to rehouse them. This is in recognition of the instability of the private rented sector with regard to providing accommodation for a particularly vulnerable group of people. There is further provision in that Act that, if a household becomes unintentionally homeless within two years of taking a tenancy in the private rented sector, a reapplication duty applies whereby local authorities have to reconsider rehousing them again. So that we have a further safeguard for homeless people who have been discharged into the private rented sector, I have tabled this amendment to try to bring Wales in line with that provision in England. As in the Localism Act 2011 in England, local authorities can discharge people to the private rented sector, but if they become unintentionally homeless, that duty to rehouse kicks in. I think that that is absolutely crucial in this regard.

Mae gwelliant 32, yn fy marn i, yn welliant cwbl hanfodol, gan ei fod yn ymwneud â'r pŵer i awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd ar gyfer digartrefedd i'r sector rhentu preifat. Yn Lloegr, o ganlyniad i Ddeddf Lleoliaeth 2011, os bydd awdurdodau lleol yn dewis yr opsiwn hwnnw ac os yw'r person sy'n cael ei ailgartrefu yn dod yn ddigartref yn anfwriadol o fewn dwy flynedd, mae gan yr awdurdodau lleol ddyletswydd i’w ailgartrefu. Mae hyn yn cydnabod ansefydlogrwydd y sector rhentu preifat o ran darparu llety ar gyfer grŵp o bobl sy'n arbennig o agored i niwed. Mae darpariaeth bellach yn y Ddeddf honno, os yw aelwyd yn dod yn ddigartref yn anfwriadol o fewn dwy flynedd o gymryd tenantiaeth yn y sector rhentu preifat, mae dyletswydd ailymgeisio yn berthnasol lle mae'n rhaid i awdurdodau lleol ailystyried eu hailgartrefu eto. Fel bod gennym amddiffyniad pellach i bobl ddigartref sydd wedi eu rhyddhau i'r sector rhentu preifat, rwyf wedi cyflwyno'r gwelliant hwn i geisio dod â Chymru yn unol â'r ddarpariaeth yn Lloegr. Fel yn Neddf Lleoliaeth 2011 yn Lloegr, gall yr awdurdodau lleol ryddhau pobl i'r sector rhentu preifat, ond os byddant yn mynd yn ddigartref yn anfwriadol, mae’r ddyletswydd i ailgartrefu yn dod yn berthnasol. Rwy’n credu bod hynny'n gwbl hanfodol yn hyn o beth.

The Minister has already referred to the difficulties for local authorities in terms of finding private rented sector providers who might well want to rehouse a tenant. We all know that in the private rented sector in particular, the six-month shorthold tenancy can be insecure. We know that the people who are being rehoused can be particularly vulnerable and that they may well end up losing that tenancy within a period of time. It is important that that rehousing duty is put in this Bill to give that extra safeguard to that particularly vulnerable group of people. For that reason, I hope that the Minister will be willing to accept this. I understand why he does not want to go with a 12-month tenancy, but I think that this is absolutely crucial in making sure that that duty to discharge into the private rented sector works properly.

Mae'r Gweinidog eisoes wedi cyfeirio at yr anawsterau i awdurdodau lleol o ran dod o hyd i ddarparwyr yn y sector rhentu preifat a allai fod eisiau ailgartrefu tenant. Rydym i gyd yn gwybod yn y sector rhentu preifat yn benodol, y gall y denantiaeth fyrddaliol chwe mis fod yn ansicr. Rydym yn gwybod y gall y bobl sy'n cael eu hailgartrefu fod yn arbennig o agored i niwed ac y gallant yn y pen draw golli'r denantiaeth o fewn cyfnod o amser. Mae'n bwysig bod y ddyletswydd ailgartrefu honno yn cael ei rhoi yn y Bil hwn i roi'r diogelwch ychwanegol i'r grŵp hwnnw o bobl sy'n arbennig o agored i niwed. Am y rheswm hwnnw, rwy’n gobeithio y bydd y Gweinidog yn barod i dderbyn hyn. Rwy’n deall pam nad yw'n dymuno derbyn tenantiaeth 12 mis, ond rwy’n credu bod hyn yn gwbl hanfodol i wneud yn siŵr bod y ddyletswydd honno i ryddhau i'r sector rhentu preifat yn gweithio'n iawn.

18:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

18:26 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, I have little to add to my first contribution, Presiding Officer, but again, I recognise what Peter Black seeks to achieve through his amendment process.

Wrth gwrs, nid oes gennyf lawer i'w ychwanegu at fy nghyfraniad cyntaf, Lywydd, ond unwaith eto, rwy'n cydnabod yr hyn y mae Peter Black yn ceisio ei gyflawni drwy ei broses gwelliant.

Peter often cites what is happening in England. Let me reassure Members in this Chamber that we are taking a wholly different approach to how we deal with homelessness in Wales. Actually, I believe that we will be leading in terms of the way that our policy is driven; dealing with the prevention element of that. Therefore, Peter might seek to pick elements of the English model out, but it is not all that it is written up to be.

Mae Peter yn aml yn dyfynnu'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Gadewch i mi dawelu meddwl Aelodau yn y Siambr hon ein bod yn cymryd ymagwedd hollol wahanol i'r ffordd yr ydym yn ymdrin â digartrefedd yng Nghymru. A dweud y gwir, rwy'n credu y byddwn yn arwain o ran y ffordd y mae ein polisi yn cael ei sbarduno; gan ymdrin ag elfen atal hynny. Felly, efallai y bydd Peter yn ceisio dewis elfennau o fodel Lloegr, ond nid yw cystal ag yr honnir ei fod.

I recognise the issue that Peter raised around the Localism Act 2011, but we are planning to have a much more effective measure to help many households and therefore we cannot support this amendment. There have to be checks and balances, which the Member refers to, about how we support chaotic families in the approach to the time when they present themselves as intentionally homeless. We must stop the revolving door exercise, giving them support in the interim, working with Members across the Chamber, social services and local government in terms of the whole ethos of securing and supporting families that are distressed because of homelessness and, indeed, intentional homelessness.

Rwy'n cydnabod y mater a gododd Peter ynghylch Deddf Lleoliaeth 2011, ond rydym yn bwriadu cael mesur llawer mwy effeithiol i helpu llawer o aelwydydd ac felly ni allwn gefnogi'r gwelliant hwn. Mae'n rhaid cadw cydbwysedd, y mae'r Aelod yn cyfeirio atynt, ynghylch y ffordd yr ydym yn cefnogi teuluoedd anhrefnus o ran yr ymagwedd at yr amser pan eu bod yn cyflwyno eu hunain fel bod yn ddigartref yn fwriadol. Mae'n rhaid i ni atal yr ymarfer drws troi, gan roi cefnogaeth iddynt yn y cyfamser, gan weithio gydag Aelodau ar draws y Siambr, y gwasanaethau cymdeithasol a llywodraeth leol o ran holl ethos diogelu a chefnogi teuluoedd sy'n ofidus oherwydd digartrefedd ac, yn wir, digartrefedd bwriadol .

I will not seek to support the amendments tabled by Peter Black. Again, I am grateful for the comments made by Peter and by Jocelyn with regard to the amendments that we have made to this element of the Bill.

Ni fyddaf yn ceisio cefnogi'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Peter Black. Unwaith eto, rwy'n ddiolchgar am y sylwadau a wnaed gan Peter a chan Jocelyn o ran y gwelliannau yr ydym wedi'u gwneud i'r elfen hon o'r Bil.

18:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 427 be agreed to. Does anyone object? There are no objections, therefore amendment 427 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 427 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 427 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 427 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 427 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 428.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 428.

18:28 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 428 in my name.

Cynigiaf welliant 428 yn fy enw i.

18:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 428 be agreed to. Does anyone object? There are no objections, therefore, amendment 428 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 428 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly, mae gwelliant 428 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 428 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 428 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 429.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 429.

18:28 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 429 in my name.

Cynigiaf welliant 429 yn fy enw i.

18:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 429 be agreed to. Does anyone object? There are no objections, therefore amendment 429 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 429 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 429 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 429 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 429 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Tynnwyd gwelliant 264 yn ôl.*

*Amendment 264 withdrawn.*

18:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 430.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 430.

18:28 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 430 in my name.

Cynigiaf welliant 430 yn fy enw i.

18:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

If amendment 430 is agreed, amendment 415 falls. The question is that amendment 430 be agreed to. Does anyone object? There are no objections, therefore amendment 430 is agreed.

Os derbynnir gwelliant 430, mae gwelliant 415 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 430 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 430 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 430 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 430 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Methodd gwelliant 415.*

*Amendment 415 fell.*

18:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 431.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 431.

18:28 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 431 in my name.

Cynigiaf welliant 431 yn fy enw i.

18:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

If amendment 431 is agreed, amendment 416 falls. The question is that amendment 431 be agreed to. Does anyone object? There are no objections, therefore amendment 431 is agreed.

Os yw gwelliant 431 yn cael ei dderbyn, mae gwelliant 416 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 431 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 431 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 431 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 431 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Methodd gwelliant 416.*

*Amendment 416 falls.*

18:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call Jocelyn Davies to move amendment 417.

Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 417.

18:28 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 417 in my name.

Cynigiaf welliant 417 yn fy enw i.

18:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 417 is agreed, amendments 432, 30 and 265 will fall. The question is that amendment 417 be agreed to. Does anyone object? There is objection, therefore we will move to the vote.

Os yw gwelliant 417 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 432, 30 a 265 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 417 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at y bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 417.

Result of the vote on amendment 417.

*Gwrthodwyd gwelliant 417: O blaid 14, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

*Amendment 417 not agreed: For 14, Against 36, Abstain 0.*

18:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 432.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 432.

18:29 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 432 in my name.

Cynigiaf welliant 432 yn fy enw i.

18:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 432 be agreed to. Does anyone object? There are no objections, therefore amendment 432 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 432 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 432 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 432 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 432 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Peter Black to move amendment 30.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 30.

18:29 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 30 in my name.

Cynigiaf welliant 30 yn fy enw i.

18:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 30 be agreed to. Does anyone object? There is objection, therefore we will move to a vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 30 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 30.

Result of the vote on amendment 30.

*Gwrthodwyd gwelliant 30: O blaid 14, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

*Amendment 30 not agreed: For 14, Against 36, Abstain 0.*

18:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 265.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 265.

18:29 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 265 in my name.

Cynigiaf welliant 265 yn fy enw i.

18:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 265 be agreed to. Does anyone object? There are no objections, therefore, amendment 265 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 265 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly, mae gwelliant 265 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 265 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 265 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Peter Black to move amendment 31.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 31.

18:30 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 31 in my name.

Cynigiaf welliant 31 yn fy enw i.

18:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 31 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to a vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 31 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 31.

Result of the vote on amendment 31.

*Gwrthodwyd gwelliant 31: O blaid 25, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment 31 not agreed: For 25, Against 25, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20 the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

18:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Peter Black to move amendment 32.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 32.

18:30 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 32 in my name.

Cynigiaf welliant 32 yn fy enw i.

18:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 32 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so open the vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 32 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly agorwch y bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 32.

Result of the vote on amendment 32.

*Gwrthodwyd gwelliant 32: O blaid 24, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment 32 not agreed: For 24, Against 25, Abstain 0.*

## Grŵp 36: Digartrefedd: Bwriadoldeb (Gwelliant 17)

## Group 36: Homelessness: Intentionality (Amendment 17)

18:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The only amendment in the group is amendment 17. I call on Jocelyn Davies to move amendment 17 and to speak to it.

Yr unig welliant yn y grŵp yw gwelliant 17. Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 17 ac i siarad amdano.

18:31 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendment 17 in my name.

Cynigiaf welliant 17 yn fy enw i.

I continue to be disappointed to see the intentionality test remaining in the housing Bill. I am pleased that the Government decided to reframe the section of the Bill on intentionality so that it would only apply in certain circumstances outlined by the Welsh Government or a local housing authority. This is an improvement on the Bill from when it was initially introduced, but it still falls short of the Government's earlier aspiration to abolish the test altogether. This Bill is certainly not the radical reform as laid out for us in the White Paper.

Rwy'n parhau i fod yn siomedig o weld y prawf bwriad ar ôl yn y Bil tai. Rwy'n falch bod y Llywodraeth wedi penderfynu ailffurfio'r rhan o'r Bil ar fwriadoldeb fel na fyddai'n gymwys heblaw mewn rhai amgylchiadau a amlinellir gan Lywodraeth Cymru neu awdurdod tai lleol. Mae hyn yn welliant ar y Bil o bryd y cafodd ei gyflwyno yn y lle cyntaf, ond mae'n dal yn brin o ddyhead cynharach y Llywodraeth i ddiddymu'r prawf yn gyfan gwbl. Nid yw'r Bil yn sicr y diwygiad sylfaenol fel y'i gosodwyd i ni yn y Papur Gwyn.

The intentionality test is not a useful solution to the problems it is meant to address. Those who find themselves intentionally homeless often have support needs that need to be dealt with and are being denied help, with housing only compounding those needs. Forcing people into the private rented sector properties that they cannot afford or maintain, or pushing people into street homelessness, is hardly a solution. People who are found to be intentionally homeless often do not feel that it accurately describes their circumstances. Personal crises or unmet support needs or intolerably poor property conditions tend to be the underlying cause of those who present as intentionally homeless. So, the decision that someone is intentionally homeless causes significant hardship and anxiety. It reduces their accommodation options and excludes the household from support services. This, of course, can ultimately result in continuing problems and a greater long-term resource burden. It is an unnecessarily punitive approach to a problem that could be solved with greater sensitivity and support.

Nid yw'r prawf bwriad yn ateb defnyddiol i'r problemau y bwriadwyd iddo fynd i'r afael â nhw. Mae'r rhai sy'n canfod eu hunain yn ddigartref yn fwriadol yn aml ag anghenion cymorth y mae angen ymdrin â hwy ac nid ydynt yn cael cymorth, gyda thai ond gwaethygu'r anghenion hynny. Prin fod gorfodi pobl i mewn i eiddo yn y sector rhentu preifat nad ydynt yn gallu ei fforddio na'i gynnal, neu wthio pobl i mewn i ddigartrefedd ar y stryd, yn ateb. Mae pobl y canfyddir eu bod yn ddigartref yn fwriadol yn aml yn teimlo nad yw'n disgrifio eu hamgylchiadau yn gywir. Mae argyfyngau personol neu anghenion cymorth heb eu diwallu neu amodau annioddefol eiddo gwael yn tueddu i fod yn achos sylfaenol y rhai sy'n cyflwyno fel bod yn fwriadol ddigartref. Felly, mae'r penderfyniad bod rhywun yn ddigartref yn fwriadol yn achosi caledi a phryder sylweddol. Mae'n lleihau eu dewisiadau llety ac mae'n eithrio'r aelwyd oddi wrth wasanaethau cymorth. Mae hyn, wrth gwrs, yn y pen draw yn arwain at broblemau parhaus a mwy o faich ar adnoddau yn y tymor hir. Mae'n ddull diangen o gosbol at broblem y gellid ei datrys gyda mwy o sensitifrwydd a chymorth.

This amendment introduces a deadline on the abolition of the intentionality test, meaning that a local housing authority cannot have regard to whether someone becomes intentionally homeless after 1 January 2019. I believe that this will give the Welsh Government and housing authorities plenty of time to adjust to the change and will ensure that this relic of an unfair housing system will finally come to an end.

Mae'r gwelliant hwn yn cyflwyno dyddiad cau ar gyfer diddymu'r prawf bwriad, sy'n golygu na all awdurdod tai lleol ystyried pa un a yw rhywun yn ddigartref yn fwriadol ar ôl 1 Ionawr 2019. Rwy'n credu y bydd hyn yn rhoi digon o amser i i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau tai addasu i'r newid a bydd yn sicrhau y bydd y gweddillion hyn o system dai annheg o'r diwedd yn dod i ben.

The Minister rejected a similar amendment at Stage 2 because he said that the Welsh Government might want to abolish it earlier than January 2019—I think that the Minister remembers those comments. This amendment accommodates that, so the Minister could, by Order, substitute any earlier date. I am sure that the Minister was delighted when he read this, and I know that he will now want to support it, or, perhaps, instead, offer us a fascinating reason for rejection.

Gwrthododd y Gweinidog welliant tebyg yng Nghyfnod 2 oherwydd ei fod yn dweud y gallai Llywodraeth Cymru fod yn dymuno ei ddileu yn gynharach na mis Ionawr 2019—credaf fod y Gweinidog yn cofio'r sylwadau hynny. Mae'r gwelliant hwn yn darparu ar gyfer hynny, felly gallai'r Gweinidog, drwy Orchymyn, roi unrhyw ddyddiad cynharach. Rwy'n siŵr bod y Gweinidog yn falch iawn pan ddarllenodd hyn, a gwn y bydd yn awr yn dymuno ei gefnogi, neu, efallai, yn hytrach, gynnig rheswm diddorol i ni dros ei wrthod.

18:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Peter Black. I see that you do not wish to speak. I therefore call on the Minister.

Galwaf ar Peter Black. Gwelaf nad ydych yn dymuno siarad. Felly galwaf ar y Gweinidog.

18:34 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very grateful for Jocelyn Davies's amendment and the details about her tabling it today. Of course, she is absolutely right about my comments during Stage 2, but the Member fails to recognise that I was committed to possibly ending this earlier or ending it at the appropriate time, when the example for the delivery of the policy was in the right place. We have to remember that the review we commissioned into homelessness legislation in 2012 did not recommend the ending of intentional homelessness, and local authorities believe that it plays an important role in setting the expectations about the responsibilities of the applicants. Only a small number of applicants are found to be intentionally homeless, but we need that safeguard to ensure that local authorities do not have to keep rehousing people who wilfully cause their own homelessness. I, like Jocelyn Davies, would like to be in a position where we do not have people presenting as intentionally homeless. What we have to have in place is a framework where we can support individuals who find themselves in this very difficult situation. That point of time is not now, and I am not sure when that time will be, but I am grateful to the Member for giving me scope to consider that in her amendment as tabled. However, we will not be seeking to support that amendment today.

Rwy'n ddiolchgar iawn am welliant Jocelyn Davies a'r manylion am ei gyflwyno ganddi heddiw. Wrth gwrs, mae hi yn llygad ei lle am fy sylwadau yn ystod Cyfnod 2, ond mae'r Aelod yn methu â chydnabod fy mod wedi ymrwymo o bosibl i ddod â hyn i ben yn gynharach neu ddod ag ef i ben ar yr adeg briodol, pan oedd yr enghraifft ar gyfer cyflwyno'r polisi yn y lle iawn. Mae'n rhaid i ni gofio nad oedd yr adolygiad a gomisiynwyd gennym i ddeddfwriaeth digartrefedd yn 2012 yn argymell dod â digartrefedd bwriadol i ben, ac mae awdurdodau lleol yn credu ei fod yn chwarae rhan bwysig o ran gosod disgwyliadau ynghylch cyfrifoldebau'r ymgeiswyr. Dim ond nifer fechan o ymgeiswyr sy'n cael eu canfod i fod yn ddigartref yn fwriadol, ond mae angen y dull diogelu hwnnw i sicrhau nad oes yn rhaid i awdurdodau lleol ddal i ailgartrefu pobl sy'n fwriadol yn achosi eu digartrefedd eu hunain. Byddwn i, fel Jocelyn Davies, yn hoffi bod mewn sefyllfa lle nad oes gennym bobl sy'n cyflwyno fel bod yn fwriadol ddigartref. Beth sy'n rhaid i ni ei roi ar waith yw fframwaith lle y gallwn gefnogi unigolion sy'n canfod eu hunain yn y sefyllfa anodd iawn hon. Nid dyma yw'r amser hwnnw, ac nid wyf yn siŵr pa bryd y bydd yr amser hwnnw, ond rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am roi cyfle imi ystyried hynny yn ei gwelliant fel y'i cyflwynwyd. Fodd bynnag, ni fyddwn yn ceisio cefnogi'r gwelliant hwnnw heddiw.

18:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Jocelyn Davies to reply.

Galwaf ar Jocelyn Davies i ateb.

18:35 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know that the Minister said that he was very grateful for the amendment. I did not entirely believe him, but that might not be parliamentary language. I think that he was grateful, though, for the opportunity to put that fascinating reason on the record. I have to say that, out of 10, it did not score very highly. It was not fascinating, but it was rather predictable. I think that we should just move to a vote.

Gwn fod y Gweinidog wedi dweud ei fod yn ddiolchgar iawn am y gwelliant. Doeddwn i ddim yn ei gredu'n llwyr, ond efallai nad yw hynny'n cynrychioli iaith seneddol. Rwy'n meddwl ei fod yn ddiolchgar, fodd bynnag, am y cyfle i roi'r rheswm diddorol hwn ar y cofnod. Mae'n rhaid i mi ddweud, allan o 10, nid oedd yn sgorio'n uchel iawn. Nid oedd yn ddiddorol, ond roedd braidd yn rhagweladwy. Rwy'n credu y dylem symud i bleidlais.

18:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 17 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to a vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 17 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 17.

Result of the vote on amendment 17.

*Gwrthodwyd gwelliant 17: O blaid 14, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

*Amendment 17 not agreed: For 14, Against 36, Abstain 0.*

18:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 266.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 266.

18:36 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 266 in my name.

Cynigiaf welliant 266 yn fy enw i.

18:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 266 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 266 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 266 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 266 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 266 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 266 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:36

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 267.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 267.

18:36

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 267 in my name.

Cynigiaf welliant 267 yn fy enw i.

18:36

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 267 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 267 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 267 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 267 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 267 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 267 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 37: Digartrefedd: Cysylltiad Lleol (Gwelliant 18)

### Group 37: Homelessness: Local Connection (Amendment 18)

18:36

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The only amendment in the group is amendment 18. I call on Jocelyn Davies to move amendment 18 and to speak to it.

Yr unig welliant yn y grŵp yw gwelliant 18. Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 18 ac i siarad amdano.

18:37

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 18 in my name.

Cynigiaf welliant 18 yn fy enw i.

The housing Bill must be not only effective in tackling homelessness, but also fair. Currently, the Bill defines a local connection with an area as a connection that someone has because they are normally resident there through their own choice, but there is no definition of what being normally resident means. Is it fair that someone may move into an area, spend just a few months there and then have a local connection? This amendment ensures that someone must be resident in an area for a continuous period of at least 12 months before they are considered to be normally resident there. I think that this change is overdue and would be welcomed by many who have been calling for this change for some time. I think that it would be seen as fairer by local communities, who can sometimes feel that very newly arrived individuals are getting an advantage over them for housing, so I would urge Members to support it.

Mae'n rhaid i'r Bil tai fod nid yn unig yn effeithiol wrth fynd i'r afael â digartrefedd, ond hefyd yn deg. Ar hyn o bryd, mae'r Bil yn diffinio cysylltiad lleol ag ardal fel cysylltiad sydd gan rywun oherwydd ei fod yn preswylio yno fel arfer trwy ei ddewis ei hunan, ond nid oes diffiniad o ystyr preswylio fel arfer ar gael. A yw'n deg bod rhywun yn symud i mewn i ardal, yn treulio ychydig fisoedd yno ac yna bod ganddo gysylltiad lleol? Mae'r gwelliant hwn yn sicrhau bod yn rhaid i rywun fod yn preswylio mewn ardal am gyfnod di-dor o 12 mis o leiaf cyn iddo gael ei ystyried fel bod yn preswylio yno fel arfer. Rwy'n credu ei bod yn hen bryd cael y newid hwn a byddai'n cael ei groesawu gan lawer sydd wedi bod yn galw am y newid hwn ers peth amser. Rwy'n credu y byddai'n cael ei ystyried fel bod yn decach gan gymunedau lleol, a all weithiau deimlo bod unigolion sydd newydd gyrraedd yn cael mantais drostynt ar gyfer tai, felly byddwn yn annog yr Aelodau i'w gefnogi.

18:38

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, do you want to speak? I see that you do not. I call on the Minister.

Peter Black, a ydych chi eisiau siarad? Gwelaf nad ydych. Galwaf ar y Gweinidog.

18:38 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the opportunity to respond. Local authorities have substantial discretion within current legislation, which they might not currently use, and we will strengthen our statutory guidance to clarify this flexibility. Therefore, we do not believe that there is a legislative need for this process, and we will not be supporting the amendment, but we will be looking to issue stronger statutory guidance around what is proposed in Jocelyn Davies's amendment.

Diolch i chi am y cyfle i ymateb. Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn sylweddol o fewn y ddeddfwriaeth bresennol, na ydynt efallai yn ei defnyddio ar hyn o bryd, a byddwn yn cryfhau ein canllawiau statudol i egluro'r hyblygrwydd hwn. Felly, nid ydym yn credu bod angen deddfwriaethol ar gyfer y broses hon, ac ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliant, ond byddwn yn edrych i gyhoeddi canllawiau statudol cryfach o gwmpas yr hyn a gynigir yng ngwelliant Jocelyn Davies.

18:38 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased then if there will be statutory guidance that will achieve the same aim. I am perfectly content with that, although I think that we should push this to the vote.

Rwy'n falch felly os bydd canllawiau statudol a fydd yn cyflawni'r un nod. Rwy'n hollol fodlon â hynny, er fy mod yn credu y dylem wthio hyn i bleidlais.

18:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 18 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so open the vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 18 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly agorwch y bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 18.

Result of the vote on amendment 18.

*Gwrthodwyd gwelliant 18: O blaid 25, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment 18 not agreed: For 25, Against 25, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

18:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 271.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 271.

18:39 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 271 in my name.

Cynigiaf welliant 271 yn fy enw i.

18:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 271 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 271 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 271 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 271 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 271 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 271 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 38: Digartrefedd: Gwarchod Eiddo (Gwelliant 272)

## Group 38: Homelessness: Protection of Property (Amendment 272)

18:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The only amendment in the group is amendment 272. I call on the Minister to move amendment 272 and to speak to it.

Yr unig welliant yn y grŵp yw gwelliant 272. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 272 ac i siarad amdano.

18:39 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 272 in my name.

Cynigiaf welliant 272 yn fy enw i.

I wish to seek support for the lead and only amendment in group 38, amendment 272. The amendment extends the duty to protect an applicant's property to cover the period when they are in accommodation secured under the section 75 duties and prior to the final discharge of duties.

Rwy'n dymuno ceisio cefnogaeth ar gyfer y prif welliant a'r unig un yn grŵp 38, gwelliant 272. Mae'r gwelliant yn ymestyn y ddyletswydd i ddiogelu eiddo ymgeisydd ar gyfer y cyfnod pan ei fod mewn llety a sicrhawyd o dan ddyletswyddau adran 75 a chyn cyflawni dyletswyddau yn derfynol.

18:39

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no speakers. The question is that amendment 272 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 272 is agreed.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Y cwestiwn yw bod gwelliant 272 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 272 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 272 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 272 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:40

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 273.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 273.

18:40

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 273 in my name.

Cynigiaf welliant 273 yn fy enw i.

18:40

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 273 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 273 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 273 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 273 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 273 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 273 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 39: Digartrefedd: Canllawiau (Gwelliannau 274, 275 a 276)

### Group 39: Homelessness: Guidance Amendments 274, 275 and 276)

18:40

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment is amendment 274. I call on the Minister to move amendment 274 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yw gwelliant 274. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 274 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

18:40

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move 274 in my name.

Cynigiaf welliant 274 yn fy enw i.

These are largely technical amendments and I will be seeking support from the Assembly today.

Gwelliannau technegol yw'r rhain yn bennaf a byddaf yn ceisio cefnogaeth gan y Cynulliad heddiw.

18:40

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no speakers. The question is that amendment 274 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, so amendment 274 is agreed.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Y cwestiwn yw bod gwelliant 274 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 274 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 274 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 274 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:40

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 275.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 275.

18:40 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 275 in my name.

Cynigiaf welliant 275 yn fy enw i.

18:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 275 be agreed to. Are there any objections? There are no objections. Amendment 275 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 275 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Mae gwelliant 275 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 275 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 275 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 276.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 276.

18:40 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 276 in my name.

Cynigiaf welliant 276 yn fy enw i.

18:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 276 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 276 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 276 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 276 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 276 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 276 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 40: Digartrefedd: Dehongli (Gwelliannau 433, 278 a 280)

### Group 40: Homelessness: Interpretation (Amendments 433, 278 and 280)

18:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment is amendment 433. I call on the Minister to move amendment 433 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yw gwelliant 433. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 433 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

18:41 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 433 in my name.

Cynigiaf welliant 433 yn fy enw i.

I am seeking support for the lead amendment and the other amendments in group 40. The purpose of the amendments in this group is to clarify the definition of the terms ‘prison’, ‘youth detention accommodation’, and ‘looked after, accommodated or fostered’ within the Bill.

Rwy’n ceisio cefnogaeth ar gyfer y prif welliant a'r gwelliannau eraill yng ngrŵp 40. Diben y gwelliannau yn y grŵp hwn yw egluro'r diffiniad o’r termau 'carchar', 'llety cadw ieuenctid', a 'derbyn gofal, cael eu lletya neu eu maethu' o fewn y Bil.

18:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I have no other speakers. The question is that amendment 433 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 433 is agreed.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill. Y cwestiwn yw bod gwelliant 433 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 433 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 433 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 433 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 278.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 278.

18:41 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 278 in my name.

Cynigiaf welliant 278 yn fy enw i.

18:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 278 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 278 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 278 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 278 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 278 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 278 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 279.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 279.

18:41 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 279 in my name.

Cynigiaf welliant 279 yn fy enw i.

18:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 279 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 279 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 279 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 279 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 279 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 279 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 280.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 280.

18:42 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 280 in my name.

Cynigiaf welliant 280 yn fy enw i.

18:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 280 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 280 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 280 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 280 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 280 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 280 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 41: Sipswn a Theithwyr (Gwelliant 33)

## Group 41: Gypsies and Travellers (Amendment 33)

18:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 33. I call on Peter Black to move amendment 33 and to speak to it.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 33. Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 33 ac i siarad amdano.

18:42 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 33 in my name.

Cynigiaf welliant 33 yn fy enw i.

This amendment seeks to strengthen the provision in the Bill in relation to the provision of sites for Gypsies and Travellers and it is line with recommendation 32 of the Communities, Equality and Local Government Committee report, which is that the Minister should require local housing authorities to consult directly with Gypsy and Traveller communities when carrying out an assessment of accommodation needs. It is my view that this is best placed on the face of the Bill, as that gives it far more strength in terms of consultation requirements. I do not believe that we should be relying on guidance for that particular reason. Therefore, I ask the Assembly to support this amendment.

Mae'r gwelliant hwn yn ceisio cryfhau'r ddarpariaeth yn y Bil ynglŷn â darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ac mae'n unol ag argymhelliad 32 y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, sef y dylai'r Gweinidog ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol ymgynghori'n uniongyrchol â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr wrth gynnal asesiad o anghenion llety. Yn fy marn i mae hyn yn well o'i roi ar wyneb y Bil, gan fod hynny yn rhoi yn llawer mwy o nerth o ran gofynion ymgynghori. Nid wyf yn credu y dylem fod yn dibynnu ar ganllawiau am y rheswm penodol hwnnw. Felly, gofynnaf i'r Cynulliad gefnogi'r gwelliant hwn.

18:43 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

May I say to the Chamber that direct consultation with Gypsy and Traveller communities in their area will be an integral part of the accommodation needs assessment process, even without this amendment? Guidance will be set out for the expectation that these communities are directly consulted. However, if they are not, Welsh Ministers will reject the accommodation assessments and require a new assessment to be produced. I have had several Members raise this with me, including Julie Morgan in her contributions to me in other stages. We will not be seeking to support Peter Black's amendment in this group, but I can confirm to the Assembly that this will be part of the assessment process for Welsh Ministers.

A gaf fi ddweud wrth y Siambr y bydd yr ymgynghori uniongyrchol â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardal yn rhan annatod o'r broses asesu anghenion llety, hyd yn oed heb y gwelliant hwn? Bydd canllawiau yn cael eu gosod ar gyfer y disgwyliad y bydd ymgynghori uniongyrchol â'r cymunedau hyn. Fodd bynnag, os nad ydynt, bydd Gweinidogion Cymru'n gwrthod yr asesiadau llety ac yn ei gwneud yn ofynnol bod asesiad newydd yn cael ei lunio. Rwyf wedi cael nifer o Aelodau yn codi hyn gyda mi, gan gynnwys Julie Morgan yn ei chyfraniadau i mi mewn cyfnodau eraill. Ni fyddwn yn ceisio cefnogi gwelliant Peter Black yn y grŵp hwn, ond gallaf gadarnhau i'r Cynulliad y bydd hyn yn rhan o'r broses asesu ar gyfer Gweinidogion Cymru.

18:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on Peter Black to respond.

Galwaf ar Peter Black i ymateb.

18:43 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move the amendment.

Cynigiaf y gwelliant.

18:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 33 be agreed to. Does any Member object? There is objection. We will move to a vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 33 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Symudwn i bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 33.

Result of the vote on amendment 33.

*Gwrthodwyd gwelliant 33: O blaid 14, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

*Amendment 33 not agreed: For 14, Against 36, Abstain 0.*

## Grŵp 42: Safonau ar gyfer Tai Cymdeithasol (Gwelliant 34)

## Group 42: Standards for Social Housing (Amendment 34)

18:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 34. I call on Peter Black to move amendment 34 and to speak to it.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 34. Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 34 ac i siarad amdano.

18:44 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 34 in my name.

Cynigiaf welliant 34 yn fy enw i.

This, again, is an amendment in relation to the recommendations of the Communities, Equality and Local Government Committee and recommendation 36, that tenants should be entitled to more than seven days' notice prior to any inspection of their home. I think that that is only reasonable, especially when local authority tenants have no less than 28 days' notice of any inspection. I think that it is reasonable that tenants in this sector should have a similar level of notice. Therefore, I hope that the Assembly can support this amendment.

Mae hyn, unwaith eto, yn welliant sy'n ymwneud ag argymhellion y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ac argymhelliad 36, y dylai tenantiaid fod â hawl i fwy na saith diwrnod o rybudd cyn unrhyw arolygiad o'u cartref. Rwy'n credu bod hynny'n rhesymol, yn enwedig pan fo tenantiaid awdurdod lleol yn cael dim llai na 28 diwrnod o rybudd o unrhyw arolygiad. Rwy'n credu ei fod yn rhesymol y dylai tenantiaid yn y sector hwn gael lefel debyg o rybudd. Felly, rwy'n gobeithio y gall y Cynulliad gefnogi'r gwelliant hwn.

18:44

## Carl Sargeant [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I do not agree that there is any need for this amendment. The powers of entry allow for inspections of property where it appears that a local housing authority may be failing to maintain or repair property in accordance with standards or guidance issued under the Bill. It is likely that a tenant would have reported a problem to the Welsh Government and that an inspection is scheduled further to such a complaint, in which case, speedy resolution of this issue is clearly in the tenant's interest. I do not, therefore, seek to support this amendment by Peter Black.

Nid wyf yn cytuno bod unrhyw angen am y gwelliant hwn. Mae'r pwerau mynediad yn caniatáu ar gyfer arolygiadau o eiddo lle mae'n ymddangos y gall awdurdod tai lleol fod yn methu â chynnal neu drin eiddo yn unol â safonau neu ganllawiau a gyhoeddir o dan y Bil. Mae'n debygol y byddai tenant wedi adrodd am broblem i Lywodraeth Cymru a bod archwiliad wedi'i drefnu yn dilyn cwyn o'r fath, ac os felly, mae datrys y mater yn gyflym yn amlwg er lles y tenant. Nid wyf, felly, yn ceisio cefnogi'r gwelliant hwn gan Peter Black.

18:45

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Peter Black, do you wish to respond?

Peter Black, a ydych chi'n dymuno ymateb?

18:45

## Peter Black [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

No.

Nac ydw.

18:45

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 34 be agreed to. Are there any objections? There is objection. Open the vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 34 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Mae gwrthwynebiad. Agorwch y bleidlais.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 34.]

[Result of the vote on amendment 34.]

*Gwrthodwyd gwelliant 34: O blaid 14, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

*Amendment 34 not agreed: For 14, Against 36, Abstain 0.*

18:45

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call on the Minister to move amendment 281.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 281.

18:45

## Carl Sargeant [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I move amendment 281 in my name.

Cynigiaf welliant 281 yn fy enw i.

18:45

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 281 be agreed to. Does anyone object? There are no objections, therefore amendment 281 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 281 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 281 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 281 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 281 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 43: Y Dreth Gyngor ar gyfer Anheddau gwag Hirdymor (Gwelliannau 356, 282, 283, 284, 357, 358, 37 a 361)

### Group 43: Council Tax for Long-term Empty Dwellings (Amendments 356, 282, 283, 284, 357, 358, 37 and 361)

18:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 356. I call on Mark Isherwood to move amendment 356 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 356. Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliant 356 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

18:45 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 356 in my name.

Cynigiaf welliant 356 yn fy enw i.

Lead amendment 356 and amendment 357 increase the time for which a local authority can charge extra council tax for an empty home from one year to two and also make the procedure affirmative.

Mae gwelliant arweiniol 356 a gwelliant 357 yn cynyddu'r amser y gall awdurdod lleol godi treth gyngor ychwanegol ar gyfer cartref gwag o un flwyddyn i ddwy a hefyd yn gwneud y weithdrefn yn gadarnhaol.

Every empty home has its own story, and the key for empty homes officers is to understand why that home is empty and to work closely with the owner, having identified them, to bring it back into use. We must recognise that it costs the owner money to leave a home empty, and effective empty homes strategies seek to work with owners, developing services to help them overcome the hurdles that they face.

Mae gan bob cartref gwag ei stori ei hun, a'r allwedd ar gyfer swyddogion cartrefi gwag yw deall pam mae cartref yn wag a gweithio'n agos gyda'r perchennog, ar ôl canfod pwy ydyw, i ddod ag ef yn ôl i ddefnydd. Mae'n rhaid inni gydnabod ei bod yn costio arian i berchennog i adael cartref yn wag, ac mae strategaethau cartrefi gwag effeithiol yn ceisio gweithio gyda pherchnogion, gan ddatblygu gwasanaethau i'w helpu i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hwynebu.

Empty homes must be seen as empty resources first rather than revenue raisers. We consider that one year is too short a period to intervene positively with some of the home owners who could be helped in such circumstances, particularly those who may have been bereaved or may be in a probate situation with other family members, who may themselves be unwell or disabled or living in social isolation or otherwise requiring support, hence our concern about the time period so far specified.

Mae'n rhaid ystyried cartrefi gwag fel adnoddau gwag yn gyntaf yn hytrach na chodwyr refeniw. Rydym o'r farn bod un flwyddyn yn gyfnod rhy fyr i ymyrryd yn gadarnhaol gyda rhai o'r perchnogion cartrefi y gellid eu helpu mewn amgylchiadau o'r fath, yn enwedig y rhai a allai fod wedi cael profedigaeth neu y gallant fod mewn sefyllfa profiant gydag aelodau eraill o'r teulu, a all eu hunain fod yn sâl neu'n anabl neu'n byw mewn arwahanrwydd cymdeithasol neu fel arall angen cefnogaeth, a dyna’r rheswm am ein pryder am y cyfnod a bennwyd hyd yn hyn.

Amendment 358 requires local authorities to have taken every step to help the empty property back onto the market before charging additional council tax. Again, in instances where a big stick is required, it is absolutely appropriate to be able to charge additional council tax. However, in circumstances where the individual, for whatever reason—I have just described a few previously—needs that extra help or time, it should be provided and every step taken to help them bring the property back onto the market, including utilising the schemes that the Welsh Government itself has to help facilitate that.

Mae gwelliant 358 yn mynnu bod awdurdodau lleol wedi cymryd pob cam i helpu'r eiddo gwag yn ôl ar y farchnad cyn codi tâl y dreth gyngor ychwanegol. Unwaith eto, mewn achosion lle mae angen ffon fawr, mae'n gwbl briodol i allu codi treth gyngor ychwanegol. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau lle mae'r unigolyn, am ba bynnag reswm—rwyf newydd ddisgrifio rhai yn flaenorol—angen yr help neu’r amser ychwanegol, dylid ei ddarparu a dylid cymryd pob cam i helpu i ddod â'r eiddo yn ôl ar y farchnad, gan gynnwys defnyddio cynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru ei hun i helpu i hwyluso hynny.

Amendment 361 seeks to produce annual figures on long-term empty dwellings. The information that we have thus far had from the Welsh Government is that it does not monitor how many homes are empty throughout Wales. Certainly, when we asked the question, the answer received was that it did not monitor that. Welsh Conservative freedom of information requests to every local authority in Wales found 32,000 empty homes throughout Wales, which is over 10,000 more than the former Minister for housing stated in a statement to the Assembly in January. This amendment simply requires accuracy in the record keeping; it is not a party-political matter to be correct over this. All that it would require, presumably, would be one letter from each council to the Minister or relevant department annually.

Mae gwelliant 361 yn ceisio cynhyrchu ffigurau blynyddol ar anheddau sy'n wag yn y tymor hir. Y wybodaeth yr ydym hyd yn hyn wedi’i chael gan Lywodraeth Cymru yw nad yw'n monitro faint o dai sy’n wag ledled Cymru. Yn sicr, pan ofynnwyd y cwestiwn, yr ateb a gafwyd oedd nad oedd yn monitro hynny. Canfu ceisiadau rhyddid gwybodaeth y Ceidwadwyr Cymreig i bob awdurdod lleol yng Nghymru 32,000 o gartrefi gwag ledled Cymru, sydd dros 10,000 yn fwy nag a ddywedodd y cyn-Weinidog tai mewn datganiad i'r Cynulliad ym mis Ionawr. Mae'r gwelliant hwn yn syml yn gofyn am gywirdeb wrth gadw cofnodion; nid yw'n fater i bleidiau gwleidyddol fod yn gywir ynghylch hyn. Y cyfan y byddai ei angen, yn ôl pob tebyg, yw un llythyr gan bob cyngor at y Gweinidog neu'r adran berthnasol bob blwyddyn.

I am pleased to present these amendments for the reasons stated.

Rwy'n falch o gyflwyno'r gwelliannau hyn am y rhesymau a nodwyd.

18:49

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First of all, I welcome the amendments that Carl Sargeant has tabled in this group. I think that it is important that that flexibility is provided, and I think that the whole key to this extra council tax for an empty home is that local authorities have the flexibility not just to vary the way that they apply it but to decide whether to introduce it or not, depending on the local circumstances.

Yn gyntaf oll, croesawaf y gwelliannau y mae Carl Sargeant wedi'u cyflwyno yn y grŵp hwn. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod hyblygrwydd yn cael ei ddarparu, a chredaf mai'r holl allwedd i'r dreth gyngor ychwanegol ar gyfer cartref gwag yw bod gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd nid yn unig i amrywio'r ffordd y maent yn ei chymhwyso, ond i benderfynu a ddylid ei chyflwyno ai peidio, yn dibynnu ar yr amgylchiadau lleol.

I think that the present Government's Houses into Homes scheme is a very important one, which provides the carrot to owners to bring their property back into use. However, there is a need for a stick of some sort, and I think that this section, as amended, particularly with the staircasing provisions and the flexibility that the Minister is now putting in as part of those amendments, gives local authorities the flexibility needed, which is why I do not think that Mark Isherwood's amendments are required in this particular instance.

Rwy'n meddwl bod cynllun Troi Tai'n Gartrefi y Llywodraeth bresennol yn un pwysig iawn, sy'n darparu cymhelliad i berchnogion i ddod â'u heiddo yn ôl i ddefnydd. Fodd bynnag, mae angen ffon o ryw fath, ac rwy'n meddwl bod yr adran hon, fel y'i diwygiwyd, yn enwedig gyda'r darpariaethau cynyddu neu leihau cyfran eu perchentyaeth a'r hyblygrwydd y mae'r Gweinidog yn awr yn ei roi fel rhan o'r diwygiadau hynny, yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen i awdurdodau lleol, a dyna pam nad wyf yn credu bod angen gwelliannau Mark Isherwood yn yr achos penodol hwn.

In relation to my amendment 37, this amendment seeks to ensure that a national strategy to tackle empty homes is put in place in Wales. The reason for that is, of course, that, in my view, there is inconsistency in the way in which local councils apply their empty homes strategies. Some local councils have empty homes officers, while others do not even have a proper strategy in place, although most of them are now getting there. I think it is important that we have national co-ordination in this particular instance. So, the proposal is that Welsh Ministers must, within two years of the Act becoming law, produce a national empty homes strategy for Wales and that, every five years thereafter, they should review that strategy and lay a new one. I think that is very important in order to make sure that this is properly co-ordinated. Just in case the Minister decides to argue that it is not right that we should be legislating to create strategies, I note, of course, that the Minister for Local Government and Government Business has just introduced a Bill precisely to legislate to create a strategy. So, clearly, that cannot be an objection that the Government will make against this particular amendment.

Ynglŷn â fy ngwelliant 37, mae'r gwelliant hwn yn ceisio sicrhau bod strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â chartrefi gwag yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru. Y rheswm am hynny, wrth gwrs, yw, yn fy marn i, bod anghysondeb yn y ffordd y mae cynghorau lleol yn defnyddio eu strategaethau cartrefi gwag. Mae gan rai cynghorau lleol swyddogion cartrefi gwag, ac eraill heb hyd yn oed strategaeth briodol ar waith, er bod y rhan fwyaf ohonynt erbyn hyn yn symud tuag at hynny. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod gennym gyd-drefnu cenedlaethol yn yr achos penodol hwn. Felly, y cynnig yw bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, o fewn dwy flynedd i'r Ddeddf ddod yn gyfraith, gyflwyno strategaeth cartrefi gwag genedlaethol ar gyfer Cymru a, bob pum mlynedd ar ôl hynny, dylent adolygu'r strategaeth honno a gosod un newydd. Credaf fod hynny'n bwysig iawn er mwyn gwneud yn siŵr bod hyn wedi'i gyd-drefnu'n briodol. Rhag ofn i'r Gweinidog benderfynu dadlau na ddylem fod yn deddfu i greu strategaethau, nodaf, wrth gwrs, bod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth newydd gyflwyno Bil yn union i ddeddfu i greu strategaeth. Felly, yn amlwg, ni all hynny fod yn wrthwynebiad y bydd y Llywodraeth yn ei wneud yn erbyn y gwelliant penodol hwn.

18:51

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, we listened very carefully to the Stage 2 amendments before the tabling of this amendment in relation to giving flexibility in the system regarding council tax for long-term empty dwellings and empty homes. Mark Isherwood's contribution attempts to revise the length of time that a property must be empty before the premium can be applied. I do not support that process. Of course, this is in line with similar legislation that already operates in Scotland.

Wrth gwrs, rydym wedi gwrando'n ofalus iawn ar y gwelliannau Cyfnod 2 cyn cyflwyno'r gwelliant hwn ynglŷn â rhoi hyblygrwydd yn y system ynghylch y dreth gyngor ar gyfer anheddau gwag tymor hir a chartrefi gwag. Mae cyfraniad Mark Isherwood yn ceisio adolygu faint o amser y mae'n rhaid i eiddo fod yn wag cyn y gellir defnyddio'r premiwm. Nid wyf yn cefnogi'r broses honno. Wrth gwrs, mae hyn yn unol â deddfwriaeth debyg sydd eisoes yn gweithredu yn yr Alban.

Turning to Peter 'Strategy' Black, he is very keen on ensuring that we have a strategy for everything. On this occasion, I do not believe that we need an overall strategy to deal with empty homes. Local authorities do have strategies and are making good use of them to tackle the issues relating to empty homes, using the very successful financing system, which was supported by the Minister for Finance and by me, with regard to the Houses into Homes scheme. Therefore, a national strategy is something that we do not believe will add value to that process.

Gan droi at Peter 'Strategaeth' Black, mae o'n awyddus iawn i sicrhau bod gennym strategaeth ar gyfer popeth. Ar yr achlysur hwn, nid wyf yn credu bod arnom angen strategaeth gyffredinol i ymdrin â chartrefi gwag. Mae gan awdurdodau lleol strategaethau ac maent yn gwneud defnydd da ohonynt i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chartrefi gwag, gan ddefnyddio'r system ariannu lwyddiannus iawn, a gefnogwyd gan y Gweinidog Cyllid a gennyf innau, o ran y cynllun Troi Tai'n Gartrefi. Felly, mae strategaeth genedlaethol yn rhywbeth nad ydym yn credu y bydd yn ychwanegu gwerth at y broses honno.

We hope that Members will support the Government's amendments today, but reject the amendments tabled in the names of Peter Black and Mark Isherwood this afternoon.

Rydym yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n cefnogi gwelliannau'r Llywodraeth heddiw, ond yn gwrthod y gwelliannau a gyflwynwyd yn enw Peter Black a Mark Isherwood y prynhawn yma.

18:52

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Mark Isherwood to reply to the debate.

Galwaf ar Mark Isherwood i ymateb i'r ddadl.

18:52

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

While we welcome the Minister's move towards greater flexibility, we still believe that there is a need for a safeguard in the many circumstances that I described. I would be surprised if other Members had not, like me, had local casework that required, or suggested the need for, protections for persons who might be inadvertently and unfairly caught in this net by an overly zealous, revenue-seeking local authority. The Minister mentioned Scotland. In fact, this brings us in line with the position in England, after two years; this was introduced after debate for the very reasons I have described—to ensure, as much as possible, that people who are vulnerable, need additional support or who have circumstances that require moderation are protected, while the sanction still exists universally after two years.

Er ein bod yn croesawu symudiad y Gweinidog tuag at fwy o hyblygrwydd, rydym yn dal i gredu bod angen diogelwch yn yr amgylchiadau niferus a ddisgrifiais. Byddwn yn synnu pe yw Aelodau eraill, fel finnau, wedi cael gwaith achos lleol a oedd angen, neu oedd yn awgrymu'r angen am, ddiogelwch ar gyfer pobl a allai gael eu dal yn anfwriadol ac yn annheg yn y rhwyd hon gan awdurdod lleol gorawyddus, yn ceisio refeniw. Soniodd y Gweinidog am yr Alban. Mewn gwirionedd, mae hyn yn dod â ni yn unol â'r sefyllfa yn Lloegr, ar ôl dwy flynedd; cafodd hyn ei gyflwyno ar ôl dadl am yr union resymau a ddisgrifiais—i sicrhau, cymaint ag y bo modd, bod pobl sy'n agored i niwed, sydd angen cymorth ychwanegol, neu sydd ag amgylchiadau sydd angen cymedroli yn cael eu hamddiffyn, tra bod y gosb yn dal i fodoli yn gyffredinol ar ôl dwy flynedd.

We also agree with Peter that, where empty homes officers exist and are operating, and where local authorities have formal or informal empty homes strategies, the statistics tell us that those are the areas with the best record of bringing empty homes back into use as homes, often for social purposes, but also more generally in terms of the best return rates. For that reason, we agree with the Liberal Democrats that the further amendments proposed by Peter have merit and deserve support.

Rydym hefyd yn cytuno â Peter, pan fo swyddogion cartrefi gwag yn bodoli ac yn gweithredu, a phan fo gan awdurdodau lleol strategaethau cartrefi gwag ffurfiol neu anffurfiol, bod yr ystadegau yn dweud wrthym mai'r rheini yw'r ardaloedd sydd â'r hanes gorau o ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd fel cartrefi , yn aml at ddibenion cymdeithasol, ond hefyd yn fwy cyffredinol o ran y cyfraddau enillion gorau. Am y rheswm hwnnw, rydym yn cytuno â'r Democratiaid Rhyddfrydol fod gan y gwelliannau pellach a gynigiwyd gan Peter deilyngdod ac maent yn haeddu cefnogaeth.

18:54

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 356 be agreed to. Does any Member object? There is objection. Therefore, we will move to a vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 356 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, byddwn yn symud i bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 356.

Result of the vote on amendment 356.

*Gwrthodwyd gwelliant 356: O blaid 20, Yn erbyn 30, Ymatal 0.*

*Amendment 356 not agreed: For 20, Against 30, Abstain 0.*

18:54

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 282.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 282.

18:54 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I move amendment 282 in my name.

Cynigiaf welliant 282 yn fy enw i.

18:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

If amendment 282 is not agreed, then amendment 283 falls. The question is that amendment 282 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 282 is agreed.

Os nad yw gwelliant 282 yn cael ei dderbyn, yna bydd gwelliant 283 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 282 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 282 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 282 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 282 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call on the Minister to move amendment 283.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 283.

18:55 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I move amendment 283 in my name.

Cynigiaf welliant 283 yn fy enw i.

18:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 283 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 283 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 283 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 283 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 283 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 283 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call on the Minister to move amendment 284.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 284.

18:55 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I move amendment 284 in my name.

Cynigiaf welliant 284 yn fy enw i.

18:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 284 be agreed to. Are there any objections? There is objection, therefore we will move to a vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 284 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 284.]

[Result of the vote on amendment 284.]

*Derbyniwyd gwelliant 284: O blaid 39, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Amendment 284 agreed: For 39, Against 11, Abstain 0.*

18:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call on Mark Isherwood to move amendment 357.

Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliant 357.

18:55 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I move amendment 357 in my name.

Cynigiaf welliant 357 yn fy enw i.

18:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 357 be agreed to. Are there any objections? There is objection, therefore we will move to a vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 357 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Mae wrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 357.

Result of the vote on amendment 357.

*Gwrthodwyd gwelliant 357: O blaid 16, Yn erbyn 34, Ymatal 0.*

*Amendment 357 agreed: For 16, Against 34, Abstain 0.*

18:55

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Mark Isherwood to move amendment 358.

Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliant 358.

18:55

## Mark Isherwood

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 358 in my name.

Cynigiaf welliant 358 yn fy enw i.

18:55

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 358 be agreed to. Are there any objections? There is objection, therefore we will move to a vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 358 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 358.

Result of the vote on amendment 358.

*Gwrthodwyd gwelliant 358: O blaid 11, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 358 agreed: For 11, Against 39, Abstain 0.*

### Grŵp 44: Y Dreth Gyngor ar gyfer Anheddau a Feddiannir yn Achlysurol (Gwelliannau 418, 434, 35, 359, 285, 360 a 286)

### Group 44: Council Tax for Dwellings Occupied Periodically (Amendments 418, 434, 35, 359, 285, 360 and 286)

18:56

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 418. I call on Mark Isherwood to move amendment 418 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 418. Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliant 418 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

18:56

## Mark Isherwood

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 418 in my name.

Cynigiaf welliant 418 yn fy enw i.

There are a number of amendments here. Amendments 360 and 359 focus on people who use their second dwelling for letting purposes, rather than for their own occasional needs or in readiness for retirement, so it targets the interventions, remedies or penalties perhaps more appropriately.

Ceir nifer o welliannau yma. Mae gwelliannau 360 a 359 yn canolbwyntio ar bobl sy'n defnyddio eu hail annedd at ddibenion gosod, yn hytrach nag ar gyfer eu hanghenion achlysurol eu hunain neu yn barod ar gyfer ymddeol, felly mae'n targedu'r ymyriadau, y rhywmedïau neu'r cosbau efallai yn fwy priodol.

Amendment 418 is a long one, but it effectively reverses the amendment introduced at Stage 2 regarding higher amounts for dwellings occupied periodically in Wales. In this context, we are supportive of the Liberal Democrat amendment 36, which is very much related to this, on tied accommodation and also on identifying a person’s main accommodation to ensure that people are not penalised inappropriately.

Mae gwelliant 418 yn un hir, ond mae mewn gwirionedd yn gwrthdroi gwelliant a gyflwynwyd yng Nghyfnod 2 ynghylch symiau uwch ar gyfer anheddau a feddiannir o bryd i'w gilydd yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn gefnogol o welliant 36 y Democratiaid Rhyddfrydol, sydd yn ymwneud i raddau helaeth â hyn, ar lety clwm a hefyd ar nodi prif lety person i sicrhau nad yw pobl yn cael eu cosbi yn amhriodol.

We think that the definition of 'second homes', or whichever term is used for this, is unclear. We do not know whether it applies or should apply to people whose main home may be elsewhere. A person's second home in Wales, which may not be occupied full time, may nonetheless be their primary home. We do not know whether this may relate to someone for whom this is their only own home, because their employment requires them to live in tied accommodation, and this is the only home that they actually own. This is the home where their only investment exists, the home where they spend as much time as they can and the home where they will ultimately spend the rest of their lives. There is a danger that second home owners will have put their life savings into realising their dreams, and that those are the ones who would be hit hardest, whereas the people who can afford it the most—the very wealthy—will simply shrug this off.

Rydym yn credu bod y diffiniad o 'ail gartrefi', neu ba bynnag derm sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer hyn, yn aneglur. Nid ydym yn gwybod a yw'n berthnasol neu a ddylai fod yn berthnasol i bobl y gall eu prif gartref fod yn rhywle arall. Gall ail gartref i berson yng Nghymru, nad yw efallai'n cael ei feddiannu'n llawn amser, serch hynny fod yn brif gartref iddo. Nid ydym yn gwybod a yw hyn yn ymwneud â rhywun y mae hwn yn unig gartref iddo, oherwydd bod ei gyflogaeth yn ei gwneud yn ofynnol iddo fyw mewn llety clwm, a dyma'r unig gartref y mae mewn gwirionedd yn berchen arno. Dyma'r cartref lle mae ei unig fuddsoddiad yn bodoli, y cartref lle mae'n treulio cymaint o amser ag y gall a'r cartref lle y bydd yn y pen draw yn treulio gweddill ei fywyd. Mae perygl y bydd perchnogion ail gartrefi wedi rhoi eu cynilion oes i wireddu eu breuddwydion, ac mai'r rheiny yw'r rhai a fyddai'n cael eu taro galetaf, tra bod y bobl sy'n gallu ei fforddio hawddaf—y cyfoethog iawn—yn anwybyddu hyn yn llwyr.

Therefore, it will not make any difference; it will not change anything locally in terms of access to housing for local people. The majority of second homes in what are referred to as the hotspots, such as in Pen Llŷn in places such as Abersoch, were built as holiday homes, many in the 1920s and 1930s, many more over recent decades, or they sat empty for decades as derelict buildings and were renovated as second homes by the persons who subsequently occupied them as second homes, eventually, as in many cases, as their prime and first homes. Even if these properties were vacated, which they will not be in any significant numbers as a consequence of this proposal, they would generally have to be bought by wealthy people because these are generally properties, particularly in the hotspots where the concerns arise, that cost hundreds of thousands of pounds. We are talking in many cases—I have looked at this—at £0.5 million, £0.75 million and over £1 million, even for what we may regard as not particularly extravagant properties if they were located in an urban area—it is the location that people are paying for. That is where the concerns primarily exist in terms of affordable housing supply for local people.

Felly, ni fydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth; ni fydd yn newid unrhyw beth yn lleol o ran mynediad at dai ar gyfer pobl leol. Mae'r rhan fwyaf o ail gartrefi yn yr hyn y cyfeirir atynt fel y poethfannau, megis ym Mhen Llŷn mewn lleoedd fel Abersoch, wedi cael eu hadeiladu fel tai haf, llawer yn y 1920au a'r 1930au, llawer mwy yn ystod y degawdau diweddar, neu eu bod yn eistedd yn wag ers degawdau fel adeiladau wedi eu hesgeuluso a adnewyddwyd fel ail gartrefi gan yr unigolion sydd wedyn yn eu meddiannu fel ail gartrefi, yn y pen draw, fel mewn llawer o achosion, fel eu prif gartrefi a'u cartrefi cyntaf. Hyd yn oed os byddai'r adeiladau hyn yn cael eu gadael, ac ni fyddant mewn unrhyw niferoedd sylweddol o ganlyniad i'r cynnig hwn, yn gyffredinol byddai'n rhaid iddynt gael eu prynu gan bobl gyfoethog oherwydd bod y rhain yn gyffredinol yn dai, yn enwedig yn y poethfannau lle mae pryderon yn codi, sy'n costio cannoedd o filoedd o bunnoedd. Rydym yn siarad mewn llawer o achosion—rwyf wedi edrych ar hyn—ar £0.5 miliwn, £0.75 miliwn a dros £1 miliwn, hyd yn oed am yr hyn na fyddem yn eu hystyried yn eiddo arbennig o foethus pe byddent wedi eu lleoli mewn ardal drefol—talu am yr ardal y mae pobl. Dyna lle mae pryderon yn bodoli yn bennaf o ran y cyflenwad o dai fforddiadwy ar gyfer pobl leol.

This, of course, runs contrary to the First Minister's statement in the Chamber two weeks ago that permitting local authorities to charge double council tax on second homes would be an example of support for the Welsh language. Well, that would not be the case unless it had the effect of generating greater supply at affordable cost for local people. Unless that is achieved, the First Minister's aspiration will clearly not be achieved.

Mae hyn, wrth gwrs, yn rhedeg yn groes i ddatganiad y Prif Weinidog yn y Siambr bythefnos yn ôl y byddai caniatáu i awdurdodau lleol godi treth gyngor ddwbl ar ail gartrefi yn enghraifft o gefnogaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg. Wel, ni fyddai hynny'n wir oni bai ei fod wedi cael yr effaith o greu mwy o gyflenwad ar gost fforddiadwy i bobl leol. Oni bai bod hynny'n cael ei gyflawni, ni fydd dyhead y Prif Weinidog yn amlwg yn cael ei gyflawni.

In terms of tied accommodation, I, like others, have had many letters from priests in north Wales concerned that their tied accommodation is just that; their only home is their second home elsewhere in north Wales. In their case, those homes are invariably not in housing hotsposts, they are invariably not expensive and luxurious, and they are certainly not denying local people access to the marketplace.

O ran llety clwm, rwyf i, fel eraill, wedi cael nifer o lythyrau gan offeiriaid yn y gogledd yn pryderu mai dyna'n union yw eu llety clwm; eu hunig gartref yw ail gartref mewn man arall yng ngogledd Cymru. Yn eu hachos hwy, nid yw'r cartrefi hynny fel arfer mewn poethfannau tai, nid ydynt fel arfer yn ddrud a moethus, ac yn sicr nid ydynt yn atal pobl leol rhag cael mynediad i'r farchnad.

The regulatory impact assessment presented to the Communities, Equality and Local Government Committee in September considered economic scenarios of 150% community charge on properties that were long-term empty, but the issue of second homes and holiday homes was not then grasped or addressed and the figure of 200% was not even on the table. This, therefore, has not been rigorously considered by the Assembly. The Welsh Government carried out a consultation in quarter 4 of last year, but the results, when published, gave a clear numerical thumbs-down to the proposal of a 200% levy. Only the Welsh Local Government Association and some local authorities—the primary beneficiaries if the objective is to raise revenue—supported that. The evidence base is very weak, and therefore flawed, and should not be driving policy and legislation until better addressed.

Roedd yr asesiad o effaith rheoleiddio a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ym mis Medi yn ystyried sefyllfaoedd economaidd o dâl cymunedol o 150% ar eiddo a oedd yn wag yn yr hirdymor, ond ni chydiwyd ac nid aethpwyd i'r afael â'r mater o ail gartrefi a chartrefi gwyliau ar y pryd ac nid oedd y ffigur o 200% hyd yn oed ar y bwrdd. Nid yw hyn, felly, wedi cael ei ystyried yn drylwyr gan y Cynulliad. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad yn chwarter 4 y llynedd, ond roedd y canlyniadau, pan gyhoeddwyd nhw, yn wrthodiad rhifiadol clir i'r cynnig o ardoll o 200%. Dim ond Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhai awdurdodau—y prif fuddiolwyr lleol os mai'r nod yw codi refeniw—oedd yn cefnogi hynny. Mae'r sylfaen dystiolaeth yn wan iawn, ac felly yn ddiffygiol, ac ni ddylai fod yn sbarduno polisi a deddfwriaeth hyd yr eir i'r afael yn well â hi.

